Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# DADANSODDIAD O EFFAITH ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL DIWYGIADAU I'R PAC AR GEFN GWLAD CYMRU

## ADRODDIAD CAMAU 1 a 2

## DADANSODDIAD O INCWM A DADANSODDIAD O'R AROLWG O AELWYDYDD FFERM

## 2013

# CYNNWYS

Cynnwys 2

Crynodeb Gweithredol

ADRAN 1 CYFLWYNIAD

ADRAN 2 DULLIAU YMCHWIL A DADANSODDI

ADRAN 3 DADANSODDIAD O INCWM LLYWODRAETH CYMRU: INTEGREIDDIO Â CHANFYDDIADAU'R AROLWG

ADRAN 4 YMATEBION AELWYDYDD FFERM O'R PRIF AROLWG

ADRAN 5 DAEARYDDIAETH AMAETHYDDOL TAIR ARDAL ASTUDIO YNG NGHYMRU

Llyfryddiaeth

Atodiadau

# ADRAN 1 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn integreiddio canfyddiadau arolwg o ffermydd yng Nghymru a wnaed ym mis Mai a Mehefin 2012 gan Arsyllfa Wledig Cymru (AWC) â dadansoddiad o incwm ffermydd yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Roedd y dadansoddiad o incwm a'r arolwg yn Gamau 1 a 2 o brosiect aml-gam mwy helaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i edrych ar sut y bydd diwygiadau i'r PAC yn effeithio ar gefn gwlad Cymru. Yr adroddiad hwn yw'r un cyntaf o'r prosiect cyffredinol.

Cyn cyflwyno'r adroddiad craidd cychwynnol hwn ar gamau'r dadansoddiad o incwm a'r arolwg o ffermydd, mae'n ddefnyddiol trafod yn gyntaf y cefndir i'r prosiect ymchwil ehangach ac yna cyflwyno ei nodau a'i amcanion er mwyn lleoli'r dadansoddiad o incwm a'r arolwg o'i fewn. Bydd adroddiadau ar wahân ar bob un o gamau'r prosiect. Bydd yr aroddiadau hyn yn cyfeirio yn ôl at yr adroddiad cychwynnol hwn ar gyfer cefndir y prosiect.

## 1.1 Cefndir o Fanyleb Prosiect Llywodraeth Cymru

Dengys data o Gyfrif Amaethyddol Cyfun Cymru fod tri sector da byw (cig eidion, llaeth a defaid) yn dominyddu'r cynnyrch amaethyddol yng Nghymru ar hyn o bryd, a gyda'i gilydd, gwnaethant gyfrannu 73% (yn ôl gwerth) o'r cynnyrch amaethyddol crynswth yn 2010. Cyfrannodd y sector llaeth 30% o gynnyrch crynswth, a chyfrannodd y sector cig eidion a'r sector defaid 23% a 20% yn y drefn honno. Cyfrannodd moch a dofednod 12% ac roedd sectorau eraill (cnydau, garddwriaeth a sgil-weithgareddau anwahanadwy) yn gyfrifol am 15%. Mae'r pwysigrwydd cymharol rhwng sectorau wedi parhau'n weddol gyson dros y degawd diwethaf.

Fodd bynnag, caiff 80% o dir amaeth yng Nghymru ei ddosbarthu yn ardal lai ffafriol (ALFf): h.y. o ansawdd amaethyddol is-optimaidd. Canlyniad y ganran uchel hon o dir amaeth o ansawdd is yw bod y cymorth uniongyrchol i'r diwydiant ffermio yng Nghymru yn cyfateb i gyfran uwch o GYC (Gwerth Ychwanegol Crynswth) o gymharu â'r DU. Er enghraifft, er gwaethaf gwelliant sylweddol ym mhrisiau'r farchnad ers 2008, ni chofnododd ffermydd Pori Da Byw ALFf incymau cadarnhaol yn yr Arolwg o Fusnesau Fferm (ABFf) yn 2009/10. Roedd incwm cyfartalog o weithgareddau amaethyddol yn negyddol ar 550 o ffermydd a gofnodwyd drwy'r ABFf: -£1,500 ar draws bob math o fferm. Roedd yr incwm a gafwyd o Gynllun y Taliad Sengl yn amrywio o 60% o Incwm Busnesau Fferm ar ffermydd llaeth i 86% ar ffermydd Pori Da Byw ALFf, ac 82% ar ffermydd Pori Da Byw Llawr Gwlad.

Disgwylir i'r diwygiadau i'r PAC gynhyrchu manteision hefyd o ganlyniad i lacio gofynion taliad gwyrdd o ran taliadau uniongyrchol Colofn 1 i'r rhai sy'n ffermio yn ôl safonau organig. Er mwyn cynorthwyo ffermydd confensiynol mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn i sicrhau cydnabyddiaeth gymaradwy i ffermwyr mewn cynllun amaeth-amgylcheddol: Tir Cynnal, Tir Gofal a Glastir.

Er y disgwylir i ddiwygiadau i'r PAC ddod i rym yn 2014, nid yw hyn yn bendant ac ar hyn o bryd dim ond drafft cynnar o'r rheoliadau sydd wedi'i gyhoeddi. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyfle i gyflwyno ei safbwyntiau yn 2013 a bydd gwaith ac adroddiadau AWC ar gyfer y prosiect hwn yn eu llywio.

Ar y pryd, roedd y prosiect aml-gam mwy helaeth yn canolbwyntio ar sut y gallai'r diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013 effeithio ar incymau aelwydydd fferm a sut y gallai'r penderfyniadau a wneir gan aelwydydd fferm mewn ymateb i'r newid mewn incwm, yn ei dro, effeithio ar wasanaethau cymorth ffermio, a'r diwydiannau prosesu bwyd a manwerthu. At hynny, yn gyffredinol, beth fyddai'r effeithiau canlyniadol o bosib ar y gymdeithas a'r economi yng nghefn gwlad Cymru.

## 1.2 Nodau'r Prosiect

Fel y nodir gan Lywodraeth Cymru mae gan y prosiect dri nod. Ei brif nod oedd rhagweld sut y byddai ffermwyr, y diwydiant gwasanaeth cymorth ffermio, a'r diwydiannau prosesu bwyd a manwerthu, yn eu tro, yn ymateb i'r newidiadau mewn incymau fferm a fyddai'n deillio o'r rheoliadau PAC newydd.

Yr ail nod oedd edrych ar beth fyddai'r effeithiau canlyniadol ar y gymdeithas a'r economi yng nghefn gwlad Cymru.

Trydydd nod y prosiect oedd nodi beth fyddai'r newidiadau hyn yn ei olygu i bolisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru a llywio gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Datblygu Gwledig newydd i Gymru ar gyfer 2014-20.

## 1.3 Amcanion y Prosiect

Roedd amcanion y prosiect, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, fel a ganlyn.

1. Edrych ar effaith newidiadau tebygol i'r PAC ar incymau aelwydydd fferm.
2. Rhagweld sut y byddai aelwydydd fferm yn ymateb o bosib i'r newid yn eu hincwm.
3. Ystyried effaith amcan 2 ar y diwydiant cymorth ffermio.
4. Ystyried effaith amcan 2 uchod ar y diwydiant prosesu bwyd a manwerthu.
5. Ystyried sut y gallai newidiadau a nodwyd yn amcanion 2 i 4 uchod effeithio ar gymdeithas a'r economi yng nghefn gwlad Cymru.

Roedd gan y prosiect bum cam ymchwil ynghyd â chasgliad. Nodir y camau hyn yn dilyn y disgrifiad hwn o amcanion y prosiect. Wrth ymwneud â'r pum cam ymchwil edrychodd y prosiect hefyd ar ddwy thema drawsbynciol ('a' a 'b').

a. Nodi pa fath o gymorth y gallai busnesau ffermio fod ei angen o ran hyfforddiant, cyngor busnes a chynllunio ar gyfer olyniaeth (a beth y gallai hyn ei olygu i ymyrraeth bresennol Llywodraeth Cymru megis Cyswllt Ffermio).

b. Ystyried sut y gallai rheolaeth gynllunio a chyflenwad tai ddylanwadu ar ymatebion ac effeithiau aelwydydd ffermio, y diwydiannau cymorth ffermio a bwyd a'r gymdeithas wledig ehangach.

## 1.4 Cyfnodau'r Prosiect

Fel y nodwyd uchod, roedd y prosiect cyffredinol yn cynnwys pum cam ymchwil ynghyd â chasgliad. Roedd y rhain fel a ganlyn.

Man cychwyn y prosiect oedd y gwaith modelu ariannol a wnaed gan dîm Gwasasnaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, sy'n nodi effaith ariannol newidiadau rhagweledig i'r PAC. Defnyddiwyd y data hyn i nodi pa wahaniaeth y byddai'r newidiadau hyn yn ei wneud i incymau aelwydydd fferm. Rhoddwyd sylw penodol i effeithiau daearyddol ac o ran sector fferm; maint effeithiau penodol; a'r broses o nodi clystyrau daearyddol.

***2. Sut y mae aelwydydd fferm yn ymateb***

Yn sylfaenol, casglwyd hyn o'r arolwg o aelwydydd fferm. Ceisiodd y dadansoddiad o'r arolwg
nodi pa newidiadau, os o gwbl, y gallai aelwydydd fferm eu gwneud yn dilyn diwygiadau i'r PAC. Er enghraifft, p'un a fyddai aelwydydd fferm yn newid eu harferion ffermio, yn ehangu neu'n lleihau, yn gadael ffermio, yn arallgyfeirio eu ffermio, neu'n ceisio cyflogaeth amgen neu
atodol oddi ar y fferm. At hynny, lle y rhagwelwyd newidiadau i arferion presennol gan y gwaith dadansoddi, aethpwyd ati i fesur yr effaith ar
gynhyrchu nwyddau ffermio a chyflogaeth ffermio

Cwmpesir camau 1 a 2 yn yr adroddiad hwn.

***3. Yr effaith ar y diwydiant gwasanaeth cymorth ffermio***

Trafodir y cam gwaith hwn yn 'Yr Adroddiad ar Gyfnodau 3, 4, a 5'.

***4. Yr effaith ar y diwydiannau prosesu bwyd a manwerthu***

Trafodir y cam gwaith hwn yn 'Yr Adroddiad ar Gyfnodau 3, 4, a 5'.

***1. Dadansoddi incwm***

***5. Yr effaith ar gymdeithas ac economi cefn gwlad***

Trafodir y cam gwaith hwn yn 'Yr Adroddiad ar Gyfnodau 3, 4, a 5'.

***6. Dadansoddi themâu a goblygiadau ar gyfer polisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru***

Trafodir y cam gwaith hwn yn yr adroddiad terfynol: 'Cyfnod 6 – themâu a goblygiadau ar gyfer polisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru**'.**

Fel cam terfynol y prosiect mae'n cyfuno themâu cyffredin a phwysig o'r pum cam ymchwil ac yn asesu eu goblygiadau ar gyfer polisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru. Mae cam 6 o'r prosiect yn ystyried beth mae'r newidiadau a'r ymatebion a ragwelir yn gyffredinol yn ei olygu i gefn gwlad Cymru ac yn amcangyfrif i ba raddau, os o gwbl, maent yn bwysig ai peidio.

## 1.5 Y rhesymeg dros y Prosiect Ymchwil

Y rhesymeg sylfaenol dros y prosiect ymchwil oedd darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer llywio gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Datblygu Gwledig newydd i Gymru ar gyfer 2014-20.

O ran cyd-destun ehangach gwaith AWC ar gyfer Llywodraeth Cymru, bydd y prosiect ymchwil yn ychwanegu gwerth at waith ymchwil blaenorol a phresennol arall mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, bydd elfen yr arolwg ar Gyfnod 2 yn ychwanegu at y gwaith a wnaed gan yr Arolwg o Aelwydydd Fferm yng Nghymru (AWC, 2010), a oedd wedi dechrau llenwi bwlch tystiolaeth drwy ganolbwyntio'n benodol ar ffermydd yng Nghymru i gasglu gwybodaeth a darparu data cynhwysfawr ar arferion ffermio ac agweddau ffermwyr at ystod o bolisïau a materion amserol eraill. Ar wahân i'r

Arolwg o Fusnesau Fferm a'r 'Farmers Voice', nad yw'r naill na'r llall yn canolbwyntio'n benodol ar Gymru, mae'n dal i fod mai prin yw'r dystiolaeth am gyflwr gweithgareddau busnes ffermydd yng Nghymru. Yn ail, bydd y data o'r arolwg, a'r data o Gyfnodau 3, 4 a 5 – yr effeithiau ar y diwydiant cymorth ffermio, y diwydiannau prosesu bwyd a manwerthu, a'r effeithiau ar gymdeithas ac economi cefn gwlad yn y drefn honno – yn cysylltu â gwaith a gwblhawyd eisoes gan AWC a gwaith sydd ar y gweill.

## 1.6 Cysylltiadau â Gwaith Arall AWC

***Arolwg o Aelwydydd Fferm yng Nghymru (2010)***

Nododd y prosiect hwn, a gynhaliwyd gan dîm AWC ym Mhrifysgol Caerdydd, lefelau o wytnwch, bregusrwydd, entrepreneuriaeth, arallgyfeirio ac amlswyddogaetholdeb mewn aelwydydd ffermio yng Nghymru drwy ddadansoddi dros 1,000 o gyfweliadau ffôn. Elfennau allweddol y cyfweliadau hyn oedd cwestiynau a oedd yn ceisio nodi i ba raddau yr oedd aelwydydd yn dibynnu ar y Taliad Sengl a sut y byddai aelwydydd yn ymateb i'r posibilrwydd o ddiwygio'r PAC. Yn ogystal, casglodd yr arolwg wybodaeth am arferion ffermio gan ystyried agweddau ffermwyr at faterion megis ecoleg, yr amgylchedd, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, cnydau ynni, cynnyrch organig, coedwigoedd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r prosiect ymchwil newydd yn adeiladu'n uniongyrchol ar yr arolwg hwn, gan holi sampl mwy o faint.

***Penderfyniadau Ffermwyr (2012)***

Mae'r gwaith ymchwil hwn, a wnaed gan dîm AWC ym Mhrifysgol Aberystwyth a'i gyhoeddi ar wefan AWC ar ddechrau 2012, yn mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

1. Beth yw'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau ffermwyr mewn perthynas â'u busnesau fferm a'u cyfranogiad mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol?
2. Sut y gellir sicrhau dull mwy effeithiol o ysgogi cyfranogiad mewn mentrau amaeth-amgylcheddol a darparu gwasanaethau ecosystem?
3. Sut y gellir cynorthwyo ffermwyr i weithredu busnesau mwy cynaliadwy, sy'n gallu gwrthsefyll heriau diwygiadau i'r PAC, ansefydlogrwydd y farchnad, a chostau mewnbwn cynyddol yn y dyfodol?

Bwriedir i'r gwaith lywio dulliau amaeth-amgylcheddol a dulliau polisïau gwledig eraill, sy'n targedu'r broses o ddarparu nwyddau a gwasanaethau ecosystem, gan gyfrannu at ddarparu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol Cymru a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Yn yr un modd, bwriad y gwaith ymchwil hwn yw cyfrannu at y broses o gynllunio diwygiadau i'r PAC a mesurau polisïau amgylcheddol yn y dyfodol er mwyn gwella gwytnwch a chynaliadwyedd ffermio yng Nghymru.
Defnyddiwyd proses o ddulliau cymysg, gan ddefnyddio data arolwg eilaidd o'r Arolwg o Aelwydydd Ffermio yng Ngymru gan AWC yn 2010 ac Arolygon Busnesau Fferm Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, a chasglwyd data sylfaenol drwy 51 o gyfweliadau lled-strwythuredig gyda ffermwyr ledled Cymru. Dewiswyd y sampl ar sail maint fferm. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda grwpiau astudiaeth achos lle roedd y broses o ddarparu gwasanaethau ecosystem yn cael ei harloesi, gan gynnwys Menter Mynyddoedd Cambria a Phrosiect 'Gorgors Cymru' a noddir gan LIFE. Holwyd swyddogion prosiect o'r astudiaethau achos hefyd, yn ogystal â chynrychiolwyr o Undeb Ffermwyr a Chanolfan Organig Cymru.
Mae cysylltiadau uniongyrchol rhwng y prosiect Penderfyniadau Ffermwyr, Arolwg 2010 o Aelwydydd Fferm yng Nghymru, a'r prosiect newydd ar ddiwygio'r PAC.

*Yr Eco-economi*

Bydd y prosiect newydd yn darparu ffynhonnell ddata ar gyfer gwaith AWC ar yr eco-economi yn y dyfodol. Bydd yn nodi cysylltiadau (posibl) rhwng ffermio a'r eco-economi drwy edrych ar agweddau ffermwyr at y diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u cyfeirio at wneud y PAC yn fwy gwyrdd: er enghraifft, dyrannu arian er mwyn cyflawni amodau amgylcheddol a mesurau amaeth-amgylcheddol, a hyrwyddo'r broses o sefydlu ardaloedd â ffocws ecolegol.

*Arolwg busnes*

Er nad yw'r 'Arolwg o Fusnesau Gwledig' a gynhelir gan AWC bob tair blynedd yn cynnwys Ffermwyr, bydd y prosiect newydd yn ffynhonnell ddata ar gyfer gwaith AWC ar fusnesau fferm a busnesau oddi ar y fferm. Er enghraifft, bydd yn edrych ar agweddau ffermwyr at faterion megis arloesi, entrepreneuriaeth, lluosweithgarwch a synergeddau â sectorau eraill. Yn ogystal, bydd yn edrych ar effeithiau canlyniadol penderfyniadau busnes ffermwyr ar sectorau busnes eraill fel y diwydiant gwasanaeth cymorth ffermio a'r diwydiannau prosesu bwyd a manwerthu.

*Adoddiad Trefi Marchnad AWC*

Bydd Cyfnodau 3, 4 a 5 yn darparu data ar gyfer diweddaru'r adroddiad 'Trefi Bach a Threfi Marchnad yn y Gymru Wledig a'u Cefnwledydd' [AWC, 2007].

## 1.7 Y Llenyddiath ar y Polisi a'r Llenyddiaeth Academaidd

Isod ceir adolygiad thematig amlinellol o arolygon fferm presennol, ynghyd â'r llenyddiaeth ar y polisi a'r llenyddiaeth academaidd.

*Arolygon eraill o ffermydd*

Arolwg blynyddol a wneir yng Nghymru a Lloegr gan gonsortiwm o brifysgolion ar gyfer Defra yw'r Arolwg o Fusnesau Fferm [yr FBS]. Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n cynnal elfen Cymru yr FBS. Arolwg hydredol yw hwnnw, a bydd rhai ffermwyr yn rhan ohono am 15 mlynedd. Mae'n cynnwys data ariannol a ffisegol o sampl gynrychioliadol o tua 600 o ffermydd yng Nghymru. Yn fras, bydd yn casglu gwybodaeth am gyfrifon rheoli: refeniw, costau a throsiant; asedau ac atebolrwyddau; defnydd tir; arwynebeddau a gwerthiant cnydau; gwerthu a phrynu da byw; a faint o lafur a ddefnyddir.
Y prif arolwg arall o ffermydd sy'n cynnwys Cymru yw Farmers Voice, arolwg a wneir gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol [ADAS]. Yma eto, arolwg o ffermwyr yng Nghymru a Lloegr yw Farmers Voice.

*Y llenyddiaeth ar y Polisi*

Yng Nghymru, mae tair thema'n amlwg yn y llenyddiaeth bolisi ar ffermio, sef: canolbwyntio ar ddatblygu gwledig cynaliadwy; diwygio'r PAC ar ôl 2013; a chyflwyno Glastir, y cynllun amaeth-amgylcheddol newydd. I raddau helaeth, mae'r themâu hyn yn gydgysylltiedig; maent yn arwydd o newid cyfeiriad yn y polisi i ffwrdd oddi wrth gynhyrchiaeth amaethyddol.

*Datblygu gwledig cynaliadwy*
Dangosodd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, ymhlith polisïau eraill, fod y polisi'n dechrau canolbwyntio ar ddatblygu gwledig cynaliadwy. Dyma'r ddogfen bolisi sydd wedi'i hanelu'n benodol at weinyddu'r PAC

yng Nghymru ar gyfer y cam 2007-2013. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu ac adnewyddu gofod gwledig yng Nghymru.

### *Diwygio'r PAC*

Mewn Datganiad gan Weinidog ar 25/11/08 cyhoeddwyd y gall Cymru gadw sylfaen hanesyddol cynllun y taliad sengl tan 2013 o leiaf. Mae'r sylfaen 'hanesyddol' hon yn deillio o'r taliadau y pen a wnaed i ffermwyr rhwng 2000 a 2002: h.y. y taliadau a gawsant ar gyfer pob pen stoc a gadwant. Fodd bynnag, o ran y cam rhwng 2014 a 2020, mae'n debyg y bydd taliadau yn newid o'r system flaenorol i daliadau ar sail ardal.

### *Glastir*

Cynllun pum mlynedd yw Glastir, sef cynllun ar gyfer rheoli tir y fferm gyfan yn gynaliadwy sydd ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir ledled Cymru. Fe'i cyflwynwyd ym mis Ionawr 2012 ac yn y pen draw bydd Glastir yn disodli'r pum cynllun amaeth-amgylcheddol presennol: Tir Gofal, Tir Cynnal, Tir Mynydd, y Cynllun Ffermio Organig / y Cynllun Troi at Ffermio Organig a'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru.
Bydd Glastir yn talu am ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol penodol sydd wedi'u hanelu at:

- mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd;
- gwella'r broses o reoli dŵr; a,
- cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Wedi'i chynllunio i ddarparu canlyniadau mesuradwy ar lefel fferm a thirwedd mewn modd costeffeithiol, mae Glastir yn cynnwys pum elfen:

- Glastir-sylfaenol: cynllun ar gyfer rheoli tir y fferm gyfan sy'n agored i bob ffermwr a rheolwr tir yng Nghymru. Ei nod yw rhoi cymorth i ddarparu manteision amgylcheddol sy'n bodloni heriau a blaenoriaethau presennol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ymrwymo i ddarparu nwyddau amgylcheddol am bum mlynedd o dan gontract sydd wedi'i rwymo mewn cyfraith .
- Glastir- uwch: cynllun rhan o'r fferm a gaiff ei redeg ochr yn ochr â'r Elfen Cymru Gyfan. Ei amcan yw sicrhau gwelliannau sylweddol o ran cyflwr amgylcheddol amrywiaeth o gynefinoedd, rhywogaethau, priddoedd a dŵr. Efallai y bydd hyn yn gofyn am newid arferion amaethyddol presennol. Caiff cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ei gyfeirio at leoliadau lle y bydd camau gweithredu yn arwain at y canlyniad gofynnol.
- Tir Comin Glastir: wedi'i gynllunio i roi cymorth i ddarparu manteision amgylcheddol ar dir comin.
- Coetiroedd Glastir: wedi'i gynllunio i helpu rheolwyr tir sydd am greu coetiroedd newydd a/neu am reoli coetiroedd sy'n bodoli'n barod. Bydd yr Elfen Coetiroedd yn darparu canlyniadau llesol i amryw o fathau o goetiroedd, rhywogaethau, priddoedd a dŵr.
- Cynllun Lleihau Carbon ac Effeithlonrwydd Amaethyddol (ACRES). Cynllun grant cyfalaf sydd ar gael i bob ffermwr a rheolwr tir sy'n meddu ar gontract Elfen Cymru Gyfan. Ei nod yw gwella effeithlonrwydd busnesau a nwyddau, a lleihau allyriadau carbon o ddaliadau amaethyddol a garddwriaethol.

### *Polisïau ehangach y DU*

Mae'r prosiect ymchwil hwn yn gysylltiedig â pholisïau ehangach y DU. Er enghraifft:

Foresight (2011) The Future of Food and Farming: Final Project Report. The Government Office for Science.

***Y Llenyddiaeth Academaidd***

ac yn adlewyrchu hynny. Yn hytrach na chanolbwyntio’n benodol ar amaethyddiaeth fel diwydiant sy’n cynhyrchu pethau, maent nawr yn gofyn y cwestiwn ehangach sef sut y gellir datblygu ardaloedd gwledig yn gynaliadwy.  Mae’r ffocws newydd hwn yn codi cwestiynau sy’n ymwneud â materion megis diogelwch bwyd , llywodraethu carbon, cynhesu byd-eang, a newid yn yr hinsawdd. Mae’r llenyddiaeth academaidd yn trafod polisi a theori ac yn arddel safbwynt normadol at y polisi a’r ymarfer.

Yn fras, dadl y llenyddiaeth academaidd yw bod patrwm newydd o ddatblygu gwledig yn dod i’r golwg ar sail ailadeiladu eco-economi wledig. Yn ei hanfod, mae’r patrwm newydd hwn yn cynnwys moderneiddio ecolegol yng nghefn gwlad a thwf nwyddau a gwasanaethau ecolegol yn fwy cyffredinol.

I grynhoi, mae theori moderneiddo ecolegol yn dadlau y gall yr economi gyfalafol arferol gael ei haddasu i greu cydbwysedd ecolegol a datblygiad economaidd. Yn hanfodol, i raddau amrywiol, ystyrir bod y Wladwriaeth aml-lefel yn ffactor bwysig sy’n gallu dod rhwng y broses o gynhyrchu a defnyddio nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Ymhlith nodweddion allweddol moderneiddio ecolegol mae integreiddio polisïau ar draws sectorau; mabwysiadu’r Egwyddor Ragofalus ar bob lefel o’r broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau busnes; credu mewn dull moderneiddio ac arloesi technolegol wedi’i reoli i leihau mewnbynnau heb effeithio ar allbynnau (er enghraifft, defnyddio llai o danwydd carbon); gwneud cadwyni cyflenwi yn fwy gwyrdd; natur adlewyrchadwy sefydliadau, sef bod sefydliadau yn bod yn hunan-feirniadol o ran eu harferion; a threthi gwyrdd. Y ddadl yw, gyda’r farchnad a’r amgylchedd polisi cywir, y dylai fod yn bosibl cyflawni’r ‘llinell sylfaen driphlyg’ sef datblygu cynaliadwy, diogelwch amgylcheddol a datblygu

Mae’r llenyddiaeth academaidd wedi ymateb i newid canfyddedig a pharhaus o gynhyrchu cynnyrch amaethyddol i ddatblygu gwledig cynaliadwy ehangach, cymdeithasol buddiol. Er bod cyswllt amlwg rhwng moderneiddio ecolegol a datblygu cynaliadwy, mae moderneiddio ecolegol yn canolbwyntio’n fwy penodol ar y newidiadau sydd eu hangen i ailstrwythuro’r economi gyfalafol ar linellau sy’n fwy sensitif o safbwynt ecolegol, er mwyn cyflawni nodau datblygu cynaliadwy.

Mae’r enghreifftiau o arferion cydrannol sy’n cyfrannu o bosibl at y patrwm datblygu gwledig newydd sy’n dod i’r golwg yn perthyn i dri chategori damcaniaethol sef gweithgareddau ailwreiddio, ehangu a dyfnhau. Ymhlith yr enghreifftiau ymarferol o weithgareddau dyfnhau mae cynhyrchu bwyd organig o safon a chadwyni cyflenwi byr; mae ecodwristiaeth a chadwraeth natur yn enghreifftiau o weithgareddau dyfnhau; ac mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn enghraifft o weithgaredd ailwreiddio. Ar lefel y fferm mae’r llenyddiaeth academaidd yn canolbwyntio ar amrywiaeth, amlswyddogaetholeb, ychwanegu gwerth, lluosweithgarwch a chymryd risgiau entrepreneuraidd.

O ran polisi mae’r llenyddiaeth academaidd yn ymwneud â damcaniaethau ynghylch moderneiddio ecolegol a sut y gellir datblygu menter ecolegol a’r sgiliau sydd ynghlwm wrtho, gyda chymorth ymyriadau gan y Wladwriaeth aml-lefel.

Ceir rhestr o gyfeiriadau dethol yn Atodiad 1.

## 1.8 Strwythur yr Adroddiad hwn o ran Cyfnod y Dadansoddiad o Incwm a Chyfnod yr Arolwg

Fel adroddiad cychwynnol y prosiect ymchwil aml-gyfnod, mae'r adroddiad hwn yn integreiddio dadansoddiad o incwm Llywodraeth Cymru â'r canfyddiadau o'r arolwg o'r aelwydydd fferm. Arweiniodd y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg, a ddisgrifir yn Adran 2, at bum set o ddata:

- Y prif arolwg o 2,400 o ffermydd
- Sampl hydredol o 452 o ffermydd
- Tri chlwstwr daearyddol, yn cynnwys 200 o ffermydd yr un

Ceir esboniadau manwl o ddulliau'r arolwg yn yr adran ar Ddulliau.
Mae'r adroddiad yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Adran 1- Cyflwyniad
- Adran 2 – Dulliau ymchwil a dadansoddi
- Adran 3 – Dadansoddiad o incwm wedi'i integreiddio â chanfyddiadau o'r arolwg
- Adran 4 – Dadansoddiad o ymatebion aelwydydd fferm o'r prif arolwg
- Adran 5 – Daearyddiaeth amaethyddol y tri chlwstwr daearyddol
- Adran 6 – Adran derfynol, sy'n cyfuno'r dadansoddiadau o Adrannau 3, 4 a 5, ac yn cyfeirio at oblygiadau polisi posibl

# ADRAN 2 DULLIAU YMCHWIL A DADANSODDI

## 2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran flaenorol yn rhoi'r cyd-destun a'r rhesymeg dros y prosiect. Mae'r adran hon yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg a'r gwaith dadansoddi.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, roedd yr arolwg yn Gyfnod 2 o brosiect aml-gyfnod. Roedd Cyfnod 1 yn dadansoddi incwm Llywodraeth Cymru. Arweiniodd y dadansoddiad hwn at dair damcaniaeth, sef:

a. Bydd incymau fferm, yn gyffredinol , yn fregus i ddiwygiadau i'r PAC.
b. Bydd diwygiadau i'r PAC yn effeithio'n negyddol ar incymau fferm mewn ardaloedd ar lawr gwlad (yn enwedig ffermydd llaeth).
c. Bydd diwygiadau i'r PAC yn effeithio'n gadarnhaol ar ffermydd mewn Ardaloedd dan Anfantais Fawr [SDA] ac mewn Ardaloedd dan Anfantais [DA].

Er mwyn ystyried damcaniaethau (a), (b) a (c) cynhaliwyd prif arolwg o 2,400 o ffermwydd ledled Cymru. Er mwyn ystyried damcaniaethau (b) a (c) ymhellach, gan ddefnyddio dadansoddiad cychwynnol o ddata'r prif arolwg, detholwyd tair ardal ddaearyddol ar wahân: ardal laeth yn bennaf, yn y de-orllewin; ardal yn yr ucheldir, yn y gogledd-orllewin; ac, fel cymharydd, ardal gymysg, yng nghanolbarth Cymru. Cafodd y tair ardal hyn, y byddent wedi cael eu samplu yn y prif arolwg hefyd, eu gorsamplu gyda 200 o gyfweliadau. Darparodd y dadansoddiad o ddata'r arolwg o'r tair ardal hon y sail ar gyfer y cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr, a'r cyfweliadau ar gyfer cam 3, 4 a 5 o'r prosiect.

## 2.2 Nodau ac Amcanion y Prosiect

Ymhlith amcanion y prosiect a oedd yn gymwys yn benodol i gyfnod yr arolwg roedd:

1. Edrych ar effaith newidiadau tebygol i'r PAC ar incymau aelwydydd fferm.
2. Rhagweld sut allai aelwydydd fferm ymateb i newid yn eu hincwm.

## 2.3 Dull yr Arolwg

Er mwyn cyflawni amcanion y prosiect penderfynwyd cynnal yr arolwg drwy gyfrwng holiadur dros y ffôn i aelwydydd fferm, gan ddefnyddio contractwr ar gyfer yr arolwg. Yn dilyn hynny cynhaliwyd tair proses baralel, sef: cael gafael ar gontractwr addas; cynllunio'r holiadur ar gyfer yr arolwg; a llunio'r sampl.

### 2.3.1 Contractio'r arolwg dros y ffôn

Cyn cael dyfynbrisiau gan gontractwyr paratowyd fformat amlinellol ar gyfer yr holiadur. Roedd gofynion y prosiect a ddarparwyd i ddarpar gontractwyr fel a ganlyn:

- Arolwg dros y ffôn o ffermwyr yng Nghymru
- Byddai pob cyfweliad yn para 20 munud
- Byddai holiadur a baratowyd eisoes yn cael ei ddefnyddio
- Byddai'r rhan fwyaf o ymatebion yn cael eu codio
- Byddai dau gwestiwn ansoddol gair am air
- Byddai angen cyfanswm o 3,000 o gyfweliadau wedi'u cwblhau
- Byddai astudiaeth beilot o 40-50 o gyfweliadau a fyddai'n cael eu cynnwys yn y prif arolwg pe baent yn llwyddiannus
- Roedd set ddata o 24,000 o ffermwyr â manylion cyswllt ar gael
- Byddai'r prif arolwg o 2,400 ar ffurf haenedig
- O bosibl, byddai rhai cyfweliadau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Câi'r arolwg ei gynnal rhwng mis Ebrill a mis Mai 2012.

Hysbyswyd y darpar gontractwyr hefyd o nodau eang y prosiect.

Gofynnwyd i dri chontractwr ddarparu dyfynbrisiau. Ar ôl ystyried yn ddwys, dewiswyd Opinion Research Services [ORS] o Abertawe. Er mai dyfynbris ORS oedd yr isaf cyfrannodd ffactorau eraill at y penderfyniad. Roedd AWC wedi gweithio gydag ORS yn y gorffennol a chafwyd canlyniadau ardderchog, a gwyddys eu bod yn cynnig gwasanaeth da drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 2.3.2 Cynllunio'r holiadur

Roedd yr arolwg yn gofyn am holiadur a fyddai'n ennyn y wybodaeth ofynnol; a oedd yn addas i'w gynnal dros y ffôn; ac a fyddai'n para 20 munud.

Un o'r elfennau pwysig wrth gynllunio'r holiadur oedd cynnwys yr undebau ffermio. Anfonodd AWC ddrafft arbrofol o'r holiadur i Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru [NFU], Undeb Amaethwyr Cymru [FUW], y Gymeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad [CLA] a Chlwb Ffermwyr Ifanc Cymru a'u gwahodd i gyfarfod i gael trafodaeth. Cynhaliwyd cyfrafod ar 29 Mawrth 2012 ym Mhrifysgol Caerdydd ac roedd aelodau tîm AWC, cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o NFU Cymru, FUW a'r CLA yn bresennol. Roedd y cyfarfod yn gynhyrchiol tu hwnt, ac yn ogystal â bod yn gadarnhaol ynghylch yr arolwg, gwnaeth cynrychiolwyr o'r undeb ffermio lawer o gyfraniadau pwysig a defnyddiol ynghylch cynnwys yr holiadur a'r dull o gynnal yr arolwg. Gwnaethant awgrymu defnyddio trydydd ardal ffermio, gymysg yng nghanolbarth Cymru fel cymharydd i'r ddwy ardal arall a oedd yn cael eu gorsamplu.

Yn dilyn cyfarfod rhwng AWC a'r ORS, lle y trafodwyd a chytunwyd ar y gofynion penodol o ran prif arolwg o 2,400 o gyfweliadau a thair ardal wedi'u gorsamplu, a fyddai'n cynnwys 200 o gyfweliadau yr un, cafwyd proses ailadroddus o gynllunio'r holiadur. Anfonwyd yr holiadur terfynol at Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt edrych arno'n ofalus a chytuno arno, ac roedd hefyd yn destun proses Rheoli Arolygon Llywodraeth Cymru. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad Dau o'r adroddiad hwn.

### 2.3.3 Creu'r sampl ar gyfer y prif arolwg

Roedd y prif arolwg (targed o 2,400 o gyfweliadau) ar ffurf haenedig ac yn cynnwys tair lefel o flaenoriaeth:

- Blaenoriaeth 1: pum categori o ran maint fferm economaidd, gyda chwota ym mhob categori
- Blaenoriaeth 2: pum categori o ran math o fferm, gyda chwota ym mhob categori
- Blaenoriaeth 3: saith rhanbarth amaethyddol, gyda chwota ym mhob categori

## 2.4 Cynnal y Prif Arolwg

Cyn i'r arolwg ddechrau, hysbysodd NFU Cymru eu haelodau drwy eu cylchlythyron e-bost. Hysbysodd NFU Cymru, FUW a'r CLA eu holl swyddfeydd ledled Cymru, fel y gallent ddelio ag unrhyw ymholiadau, a hysbysodd Llywodraeth Cymru eu canolfannau ymholiadau ynghyd â chynnwys gwybodaeth am yr arolwg yn Gwlad: cylchgrawn Llywodraeth Cymru a gyhyrchir bob yn ail fis ar gyfer busnesau ffermio, coedwigaeth ac amaethyddol yng nghefn gwlad Cymru.

Dechreuodd ORS y prif arolwg ar 16 Ebrill 2012 gyda'r cyfweliadau peilot. Roedd pob cyfweliad yn para 23 munud ar gyfartaledd, a oedd yn dderbyniol ym marn ORS, gan y byddai hyn yn lleihau wrth i'r sawl a oedd yn cyfweld ddod yn gyfarwydd â'r script cyfweld, ac roedd o fewn gofynion y contract. Ar ôl edrych ar adroddiad Topline, gwnaed rhai addasiadau a pharhawyd i gynnal yr arolwg. Derbyniwyd adroddiadau Topline yn rheolaidd. Cyflawnwyd cyfanswn o 2,402 o gyfweliadau a chwblhawyd y prif arolwg ar 10 Mehefin 2012. Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer y prif arolwg yn 29%.

Roedd y prif arolwg hwn yn cynnwys sampl hydredol o 452 o ffermydd.

Mae Tablau 2.1. 2.2 a 2.3 yn cynnwys dosbarthiad yr arolwg yn ôl maint fferm (ESU), math o fferm a rhanbarth amaethyddol wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru, yn y drefn honno.

**Tabl 2.1** **Grŵp maint ESU (yn seiliedig ar ddosbarthiad Llywodraeth Cymru)1**

| Maint ESU y fferm | Nifer y cyfweliadau | Cyfran o gyfanswm yr |
|---|---|---|
| Mawr iawn | 49 | 2% |
| Mawr | 105 | 4% |
| Canolig | 283 | 12% |
| Bach | 907 | 38% |
| Bach iawn | 1058 | 44% |
| Cyfanswm | 2402 | 100% |

[1] Ceir eglurhad o ESU [Economic Size Unit] [Uned Maint Economaidd] yn yr adran ar ddadansoddi incwm.

**Tabl 2.2 Math o Fferm (yn seiliedig ar ddosbarthiad Llywodraeth Cymru)**

| Math o fferm | Nifer y cyfweliadau | Cyfran o gyfanswm yr |
|---|---|---|
| Eidion | 448 | 19% |
| Godro | 190 | 8% |
| Defaid | 723 | 30% |
| Defaid gydag Eidion | 413 | 17% |
| Arall/Cymysg | 628 | 26% |
| Cyfanswm | 2402 | 100% |

**Tabl** 2.3 **Rhanbarth Amaethyddol (yn seiliedig ar ddosbarthiad Llywodraeth Cymru)**

| Rhanbarth | Nifer y cyfweliadau | Cyfran o gyfanswm yr |
|---|---|---|
| Caerfyrddin | 391 | 16% |
| Ceredigion | 257 | 10% |
| Gogledd-ddwyrain | 344 | 14% |
| Gogledd-orllewin | 341 | 14% |
| Sir Benfro | 212 | 9% |
| Powys | 479 | 20% |
| De Cymru | 378 | 16% |
| **Cyfanswm** | 2402 | 100% |

Mae'r prif arolwg hwn o 2,042 o ffermydd ledled Cymru yn cyfateb i arolwg ar hap, haenedig, y gall y canlyniadau ar ei gyfer gael eu cyffredinoli ar gyfer Cymru.

## 2.5 Yr Ardaloedd wedi'u Gorsamplu

Fel y nodwyd yn 2.1, er mwyn ystyried ymhellach y ddamcaniaeth y bydd PAC yn effeithio'n negyddol ar incymau ffermydd ar lawr gwlad (yn enwedig ffermydd llaeth), ac yn effeithio'n gadarnhaol ar ffermydd mewn Ardaloedd o dan Anfantais Fawr [SDA] ac mewn Ardaloedd o dan Anfantais [DA], detholwyd tair ardal ddaearyddol ar wahân ar gyfer gorsamplu: ardal odro yn bennaf, yn y de-orllewin; ardal yn yr ucheldir, yn y gogledd-orllewin; ac, fel cymharydd, ardal gymysg, yng nghanolbarth Cymru. O ddadansoddiad o ddata'r prif arolwg, dewiswyd y tair ardal ddaearyddol ar gyfer gor-samplu. Roedd y tair ardal a ddewiswyd o fewn cwmpas 30km o amgylch yr aneddiadau hyn:

- Arberth yn y de-orllewin – godro yn bennaf
- Blaenau Ffestiniog yn y gogledd-orllewin – SDA a DA yn bennaf
- Llanidloes yng nghanolbarth Cymru - cymysg

Pennwyd targed o 200 o gyfweliadau ar gyfer pob un o'r tair ardal, wedi'u haenu yn ôl maint fferm a math o fferm. Cwmpaswyd yr ardaloedd hyn gan y prif arolwg hefyd. Dengys Tabl 2.4 sawl cyfweliad a gwblhawyd yn ystod y broses o orsamplu ym mhob ardal, ynghyd â nifer y

cyfweliadau ym mhob ardal a gynhaliwyd yn ystod y prif arolwg. Ceir y cyfanswm drwy gyfuno'r symiau hyn.
.

**Tabl 2.4 Cyfweliadau ym mhob ardal ddaearyddol**

| Ardal | Cyfweliadau gor-samplu | Cyfweliadau yn y prif arolwg | Cyfanswm y cyfweliadau yn yr ardal |
|---|---|---|---|
| Arberth De-orllewin | 204 | 274 | 478 |
| Blaenau Ffestiniog Gogledd-orllewin | 200 | 159 | 359 |
| Llanidloes Canolbarth Cymru | 201 | 238 | 439 |

Mae'r tri arolwg hyn, gan gyfuno'r cyfweliadau a orsamplwyd a'r elfennau o fewn ardal o'r prif arolwg, yn cyfateb i arolwg ar hap o ffermwydd ym mhob ardal. O ganlyniad, gallai'r canlyniadau fod wedi'u cyffredinoli o fewn pob ardal. Darparodd y dadansoddiad o ddata'r arolwg o'r tair ardal hon y sail ar gyfer y cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr, a'r cyfweliadau ar gyfer cam 3, 4 a 5 o'r prosiect.

Cwblhawyd y gwaith gorsamplu ar 14 Mehefin 2012, sef y dyddiad cwblhau ar gyfer holl waith maes yr arolwg, gyda chyfran ymateb o 23%.

Ar gyfartaledd, roedd y cyfweliadau a gynhaliwyd drwy'r arolwg cyfan o 3,007 o gyfweliadau yn para 22 munud.

# ADRAN 3 DADANSODDIAD O INCWM LLYWODRAETH CYMRU: INTEGREIDDIO Â CHANFYDDIADAU'R AROLWG

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran yn integreiddio'r gwaith modelu ariannol a wnaed gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru [LlC] gyda'r canfyddiadau hynny o arolwg ffermydd Arsyllfa Wledig Cymru a oedd yn ymwneud ag incwm ffermydd ac aelwydydd. Yn gryno, nod modelu ariannol LlC (ac felly dadansoddiad incwm LlC) oedd archwilio effaith arian parod newidiadau rhagweledig i'r PAC a pha wahaniaeth y gallai'r gwahaniaethau hynny ei wneud i incymau aelwydydd fferm. Y prif newid a ragwelwyd i'r PAC a oedd yn gysylltiedig â dadansoddiad incwm LlC oedd y symudiad o'r system bresennol o daliadau yn seiliedig ar hawl hanesyddol i system yn seiliedig ar daliad cyfradd safonol ar gyfer pob hectar o dir a ffermir. Yn y dadansoddiad hwn, roedd cyfanswm y cyllid oedd ar gael, y ffermydd hawlio a'r ardal hawlio i gyd yn aros yn gyson. Felly, yr hyn a ddangoswyd gan y dadansoddiad oedd yr ailddosbarthiad a achoswyd gan y newid dull, a thalwyd am unrhyw enillion i ffermydd unigol gan golledion i ffermydd eraill. Dyma'r canfyddiadau allweddol o ddadansoddiad incwm LlC:[2]

- .€248 yr hectar fyddai'r taliad cyfradd safonol i hawlwyr yn seiliedig ar y flwyddyn 2010.
- Mae ailddosbarthiad sylweddol o gyllid dan daliad cyfradd safonol yn anochel oherwydd bod cymaint o amrywiad yn y swm fesul hectar y mae ffermydd yn ei dderbyn ar hyn o bryd.
- Byddai 17 y cant o'r ffermydd yn aros o fewn deg y cant o'u hawl cyfredol o newid i daliadau cyfradd safonol. Byddai bron i 48 y cant o ffermydd yn ennill, a byddai ychydig yn llai na 35 y cant o ffermydd yn colli o leiaf 10 y cant o'u hawl cyfredol.
- Byddai'r ffermydd hynny â hawl hanesyddol mawr yn tueddu i dderbyn llai o gyllid dan system cyfradd safonol tra byddai ffermydd â hawl hanesyddol llai yn tueddu i dderbyn mwy.
- Ar hyn o bryd, mae mwyafrif y mathau "mwy" o ffermydd yn derbyn mwy na €250 yr hectar. Felly o dan system cyfradd unffurf gyda thaliad o ychydig o dan €250 fesul hectar byddai'r ffermydd hyn yn cael taliad cymhorthdal llai.
- Byddai ffermydd godro yn gyffredinol yn derbyn cyllid sylweddol is na'u hawl hanesyddol dan daliad cyfradd safonol.
- Y ffermydd godro mwy sydd â'r gyfran uchaf o ffermydd sy'n derbyn dros €250 yr hectar (ychydig dros 80 y cant). Mae bron 70 y cant o'r ffermydd godro mwy yn cael mwy na €300 fesul hectar. Hynny yw, byddent yn colli o leiaf €50 yr hectar dan y system cyfradd safonol.
- Ar y llaw arall, byddai ychydig o dan hanner y ffermydd defaid bach yn ennill o leiaf €50 fesul hectar o dan y cynllun cyfradd safonol. Yr enillwyr cymharol mwyaf fyddai'r ffermydd bach iawn lle mae bron 60 y cant o'r ffermwyr ar hyn o bryd yn cael o dan €200 fesul hectar.

- mae llawer iawn o amrywiad o ran y tueddiadau. Mae ffermydd godro a fyddai ar eu hennill o dan y newidiadau a ffermydd llai a fyddai ar eu colled.
- Mewn arian parod, byddai nifer mawr o ffermydd bach yn ennill symiau bach o arian, a fyddai'n cael eu talu gan nifer bach o ffermydd mwy a fyddai'n colli symiau mwy o arian.
- Byddai newid i daliadau cyfradd safonol yn effeithio ar bob sector amaethyddol.

Caiff dadansoddiad incwm LIC ei grynhoi'n fyr yn yr adran hon. Hynny yw, canolbwyntir ar y rhannau hynny o'r dadansoddiad y gellir eu hintegreiddio gyda'r data sy'n gysylltiedig ag incwm o arolwg ffermydd Arsyllfa Wledig Cymru. Mae hyn yn golygu diystyru dadansoddiadau LIC sy'n seiliedig ar ddata hawliau a thaliadau cyfredol. Nid oedd y gronfa ddata o gymorthdaliadau a dderbynnir ar hyn o bryd ar gael i Arsyllfa Wledig Cymru.

Yn gyntaf, mae'n ddefnyddiol esbonio rhai o'r termau a ddefnyddir yn nadansoddiad incwm LIC.

## 3.2 Termau a Ddefnyddir yn Nadansoddiad Incwm LIC

**Taliadau â sail hanesyddol - hawl**

Cyfeiriwyd at gymorthdaliadau'r PAC a wnaed dan y system gyfredol fel 'hawl' yn nadansoddiad incwm LIC.

**Unedau Maint Ewropeaidd [ESU]**

Mesur Undeb Ewropeaidd yw Unedau Maint Ewropeaidd [ESU]. Dirprwy ar gyfer gwerth ariannol allbwn amaethyddol yw'r rhain. Swm wedi ei bwysoli o niferoedd da byw ac arwynebedd cnydau yw ESUau. Ceir gwahanol bwysoliadau ar gyfer amrywiaeth eang o fathau o dda byw a chnydau. Defnyddir ESU i gymharu allbynnau ffermydd, mathau o fferm neu ranbarthau dros bob math o weithgarwch amaethyddol.

Gan ddefnyddio'r gwerthoedd ESU, datblygwyd amrywiaeth o feintiau fferm safonol o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

**Tabl 3.1 Meintiau ffermydd safonol yn ôl gwerth ESU**

| Grŵp maint | Gwerth ESU |
|---|---|
| Bach iawn | Llai nag 8 |
| Bach | 8 - 40 |
| Canolig | 41 - 100 |
| Mawr | 101 - 200 |
| Mawr iawn | Dros 200 |

Defnyddir y meintiau fferm hyn, ynghyd â dosbarthiadau fferm safonol LIC, yn yr adroddiad hwn ar gyfer yr adrannau hynny sy'n trafod arolwg Arsyllfa Wledig Cymru yn uniongyrchol.

**Teipoleg ffermydd**
Gwahaniaethir rhwng ffermydd yn ôl eu gweithgareddau amaethyddol hefyd. O fewn yr Undeb Ewropeaidd, ystyrir bod gweithgaredd yn 'bennaf' os daw o leiaf dwy ran o dair ESU fferm o'r gweithgaredd

hwnnw. Datblygodd dadansoddiad incwm LIC deipoleg ddangosol o ffermydd Cymru trwy gyfuno gwerthoedd ESU a gweithgarwch pennaf.

- Mwy - godro. Ffermydd canolig, mawr a mawr iawn lle ceir buchod godro yn bennaf.
- Mwy - defaid a gwartheg. Ffermydd canolig, mawr a mawr iawn lle ceir cyfuniad o wartheg nad ydynt yn rhai godro a defaid yn bennaf. Gall ffermydd fod yn arbenigwyr defaid, yn arbenigwyr eidion neu'n gymysgedd o eidion a defaid.
- Mwy - eraill. Unrhyw ffermydd eraill yn y grwpiau canolig, mawr a mawr iawn. Yn cynnwys arbenigwyr mewn cnydau, garddwriaeth, dofednod a moch. Hefyd yn cynnwys ffermydd cymysg lle na cheir gweithgaredd pennaf penodol. Er enghraifft, fferm odro yn bennaf sydd â digon o gnydau neu ddefaid i'r elfen laeth beidio â bod yn ddominyddol.
- Bach - defaid. Ffermydd bach lle ceir defaid yn bennaf.
- Bach - eraill. Ffermydd bach lle na cheir defaid yn bennaf.
- Bach iawn - pob fferm a ddosberthir yn y categori bach iawn ag unrhyw gymysgedd o weithgareddau.
- Eraill - ffermydd lle cafwyd problemau yn paru data.

- Eidion
- Godro
- Arall/Cymysg
- Defaid
- Defaid gydag Eidion

Nodwch y defnyddiodd arolwg ffermydd Arsyllfa Wledig Cymru ddosbarthiadau fferm safonol LIC:
Lle'n briodol, yn yr adran hon, grwpiwyd data arolwg Arsyllfa Wledig Cymru, gan ddefnyddio dosbarthiadau fferm LIC a'r meintiau fferm wedi eu seilio ar yr ESU yn Nhabl 3.1, i'r categorïau Teipoleg Fferm.

## 3.3 Amlinell o Ddadansoddiad Incwm LIC

Cyfrifodd y dadansoddiad, gan ddefnyddio data blwyddyn 2010, cymorthdaliadau cyfartalog (cymedr rhifyddol) y PAC i ffermydd yng Nghymru (h.y. hawliau hanesyddol) ac archwiliodd sut y gellid ailddosbarthu'r taliadau hyn dan system taliadau cyfradd safonol.

Ychydig dros 1.3 miliwn hectar oedd cyfanswm yr arwynebedd a hawliwyd yn 2010, ac ychydig yn llai na €331 miliwn oedd y cyllid ar gael - taliad cyfradd safonol o ychydig yn llai na €248 yr hectar.

Cyllid ar gael/Cyfanswm yr arwynebedd a hawliwyd = €331 x $10^6$/1.3 x $10^6$ = €248 yr ha
(Nodwyd hyn yn fras fel €250 yr ha yn y dadansoddiad). Fel y trafodwyd uchod, ystyriodd dadansoddiad incwm LIC y cyllid oedd ar gael a chyfanswm yr arwynebedd a hawliwyd fel cysonion.

### 3.3.1 Dosbarthiad yr hawl hanesyddol

Yn gyffredinol, derbyniodd nifer fawr o ffermydd symiau bach o gymhorthdal yn 2010, a derbyniodd nifer fach o ffermydd daliadau mawr. Derbyniodd cyfanswm o lai na 30 y cant o'r holl ffermydd tua 70 y cant o gyfanswm y taliadau. [3] Mae Tabl 3.2 yn dangos y data hwn trwy lunio 'bandiau hawl'


**Tabl 3.2 Dosbarthiad ffermydd a hawl yn ôl yr hawl a dderbyniwyd yn 2010 yn 2010** [4]

| Band hawl | Nifer y ffermydd | Hawl (€x000) | Cyfran o'r holl ffermydd | Cyfran o gyfanswm yr hawl |
|---|---|---|---|---|
| | | | % | % |
| Llai na €1,000 | 1,533 | 877 | 9 | 0 |
| €1,000 - €4,999 | 3,751 | 9,994 | 23 | 3 |
| €5,000 - €9,999 | 2,341 | 17,198 | 14 | 5 |
| €10,000 - €24,999 | 4,175 | 69,905 | 25 | 21 |
| €25,000 - €49,999 | 3,009 | 105,655 | 18 | 32 |
| O leiaf €50,000 | 1,572 | 126,974 | 10 | 38 |
| Yr holl ffermydd | 16,381 | 330,603 | 100 | 100 |

[3] Mae hyn yn dynesu rheol 80:20 Pareto.
[4] Gallai fod camgymeriadau crynhoi yn yr holl dablau yn y dadansoddiad hwn.

Dangosir y data hwn yn raffigol yn Ffigur 3.1

**Ffigur 3.1  Dosbarthiad ffermydd a hawl yn ôl yr hawl a dderbyniwyd yn 2010**




### 3.3.2 Hawl hanesyddol fesul hectar

Mae Tabl 3.3 yn dangos yr hawl hanesyddol fesul hectar. Lluniwyd bandiau mympwyol ar sail y cymedr a gyfrifwyd o €250 yr hectar.

---

**Tabl 3.3  Cyfran o'r ffermydd a hawl hanesyddol yn ôl hawl hanesyddol fesul hectar**

| Hawl fesul hectar | Nifer y ffermydd | Hawl (€x000) | Cyfran o'r holl ffermydd | Cyfran o gyfanswm yr hawl |
|---|---|---|---|---|
| | | | % | % |
| Llai na €100 | 1,867 | 9,869 | 11 | 3 |
| €100 - €149 | 2,042 | 20,927 | 13 | 6 |
| €150 -€199 | 2,597 | 35,890 | 16 | 11 |
| €200 - €249 | 2,817 | 50,005 | 17 | 15 |
| €250 - €299 | 2,510 | 57,453 | 15 | 17 |
| €300 - €349 | 1,791 | 49,955 | 11 | 15 |
| €350 - €399 | 1,085 | 38,136 | 7 | 12 |
| O leiaf €400 | 1,672 | 68,369 | 10 | 21 |
| Yr holl ffermydd | 16,381 | 330,604 | 100 | 100 |

Mae'r tabl yn dangos y derbyniodd 57 y cant o ffermydd lai na'r cymedr a gyfrifwyd o €250 yr hectar.

### 3.3.3 Newid cymharol yn deillio o daliadau cyfradd safonol

Cyfrifwyd y taliadau fesul fferm dan y system cyfradd safonol gan ddefnyddio'r gyfradd safonol fesul hectar a gyfrifwyd o gyfanswm yr hawl a chyfanswm y tir a hawliwyd fesul fferm. Mae Tabl 3.4 yn dangos y newidiadau cymharol i daliadau.

**Tabl 3.4 Newid cymharol yn nosbarthiad y taliadau**

| Newid o hawl hanesyddol i gyfradd safonol | Nifer y ffermydd | Hawl (€x000) | Cyfran o'r holl ffermydd | Cyfran o gyfanswm yr hawl |
|---|---|---|---|---|
| Colli o leiaf 50% | 724 | 30,335 | 4% | 9% |
| Colli 30% - 49% | 1,922 | 72,583 | 12% | 22% |
| Colli 10% - 29% | 3,073 | 81,651 | 19% | 25% |
| O fewn 10% | 2,720 | 54,800 | 17% | 17% |
| Ennill 10% - 29% | 1,961 | 32,663 | 12% | 10% |
| Ennill 30% - 50% | 1,353 | 19.136 | 8% | 6% |
| Ennill dros 50% | 4,628 | 39,434 | 28% | 12% |
| Yr holl ffermydd | 16,381 | 330,604 | 100% | 100% |

### 3.3.4 Dosbarthiad ffermydd a hawliau yn ôl math o fferm

Gan ddefnyddio'r deipoleg ffermydd a drafodwyd uchod, cyfrifodd dadansoddiad incwm LIC sut y dosbarthwyd yr hawliau. Dangosir y data hwn yn Nhabl 3.5.

**Tabl 3.5 Dosbarthiad ffermydd a hawliau yn ôl math o fferm**

| Math o fferm | Nifer y ffermydd | Hawl (€x000) | Cyfran o'r holl ffermydd | Cyfran o gyfanswm yr hawl |
|---|---|---|---|---|
| | | | % | % |
| Mwy – godro | 1,511 | 55,626 | 10 | 17 |
| Mwy - gwartheg a defaid | 1,704 | 100,381 | 11 | 31 |
| Mwy – eraill | 620 | 27,634 | 4 | 9 |
| Bach – defaid | 1,966 | 39,539 | 13 | 12 |
| Bach – eraill | 3,692 | 65,206 | 24 | 20 |
| Bach iawn | 4,604 | 21,163 | 30 | 7 |
| Eraill | 1,403 | 11,727 | 9 | 4 |

Mae darllen y data hwn yn atgyfnerthu'r arsylwadau a wnaed yn 3.3.1 uchod: derbyniodd nifer fawr o ffermydd gymorthdaliadau bach yn 2010, a derbyniodd nifer fach o ffermydd daliadau

mawr. Mae Tabl 3.5 yn dangos o ran teipoleg y ffermydd, fel o'r blaen, y bu rhaniad rhwng nifer gymharol fach o ffermydd yn derbyn symiau cymharol fawr o gyllid a nifer fwy o ffermydd bach sy'n derbyn swm llai o gyllid. Y categori unigol . mwyaf oedd y grŵp 'gwartheg a defaid mwy',a dderbyniodd ychydig dros 30 y cant o'r hawl cyfan. Gyda'i gilydd, roedd y tri chategori 'mwy' yn 25 cant o'r holl ffermydd ond hawliwyd 57 y cant o gyfanswm yr hawl ganddynt.

**Tabl 3.6 Dosbarthiad hawl yn ôl math o fferm a band hawl**

| | | **Band hawl hanesyddol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o fferm** | **Nifer y ffermydd** | **Llai na €1,000** | **€1,000 - €4,999** | **€5,00 - €9,999** | **€10,000 - €24,999** | **€25,000 - €49,999** | **O leiaf €50,000** |
| | | % | % | % | % | % | % |
| Mwy – godro | 1,511 | 0 | 0 | 4 | 36 | 39 | 21 |
| Mwy - gwartheg a defaid | 1,704 | 0 | 0 | 0 | 6 | 45 | 49 |
| Mwy – eraill | 620 | 1 | 3 | 4 | 23 | 37 | 31 |
| Bach – defaid | 1,966 | 1 | 5 | 17 | 51 | 23 | 4 |
| Bach – eraill | 3,692 | 2 | 12 | 20 | 44 | 20 | 3 |
| Bach iawn | 4,604 | 22 | 50 | 17 | 9 | 1 | 0 |
| Eraill | 1,403 | 18 | 43 | 17 | 14 | 6 | 2 |
| Yr holl ffermydd | 15,500 | 9 | 22 | 14 | 26 | 19 | 10 |

Mae Tabl 3.6 yn dangos dosbarthiad yr hawl yn ôl math o fferm yn unol â'r bandiau mympwyol a ddefnyddiwyd yn Nhabl 3.2. Unwaith eto, mae Tabl 3.6 yn datgelu'r tueddiad i'r mathau 'mwy' o ffermydd i fod â hawliau gwerth uwch, ac i ffermydd bach a bach iawn fod â hawliau gwerth is. Yn yr un modd â Thabl 3.5, roedd gan y tri chategori 'mwy' gyfrannau uchel yn hawlio'r hawliau gwerth uwch.

Nododd dadansoddiad incwm LlC y gyfradd hawl gyfredol (blwyddyn 2010) fesul hectar yn ôl math o fferm hefyd. Nodir y data hwn yn Nhabl 3.7.

**Tabl 3.7 Hawl fesul hectar yn ôl math o fferm**

| | | **Hawl fesul hectar** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Math o fferm** | **Yr holl ffermydd** | **Llai na €200** | €200 i €249 | €250 i €299 | O leiaf €300 |
| Mwy – godro | 1,511 | 7% | 10% | 15% | 68% |
| Mwy - gwartheg a defaid | 1,704 | 23% | 18% | 21% | 38% |
| Mwy – eraill | 620 | 15% | 17% | 24% | 44% |
| Bach – defaid | 1,966 | 49% | 23% | 14% | 14% |
| Bach – eraill | 3,692 | 31% | 18% | 19% | 32% |
| Bach iawn | 4,604 | 60% | 16% | 11% | 14% |
| Eraill | 1,403 | 48% | 18% | 12% | 22% |
| Yr holl ffermydd | 15,500 | 40% | 17% | 15% | 28% |

Mae Tabl 3.7 yn dangos bod mwyafrif y ffermydd ym mhob un o'r tri math "mwy" o fferm yn derbyn mwy na €250 yr hectar yn 2010. Felly o dan system cyfradd safonolgyda thaliad o ychydig o dan €250 fesul hectar byddai'r ffermydd hyn yn cael taliad cymhorthdal llai.

Y ffermydd godro mwy oedd â'r gyfradd fwyaf o ffermydd yn derbyn dros €250 yr hectar (83 y cant). Derbyniodd bron i 70 y cant o'r ffermydd godro mwy fwy na €300 yr hectar. Hynny yw, o dan y system cyfradd safonol, byddent yn colli o leiaf €50 fesul hectar.

Ar y llaw arall, byddai ychydig yn llai na hanner y ffermydd defaid bach yn ennill o leiaf €50 yr hectar dan y cynllun cyfradd safonol. Yr enillwyr cymharol mwyaf fyddai'r ffermydd bach iawn lle mae bron i 60 y cant o'r ffermwyr yn derbyn llai na €200 yr hectar ar hyn o bryd.

### 3.3.5 Newid o gyfradd hanesyddol i gyfradd safonol fesul math o fferm

Mae Tabl 3.8 yn dangos sut fyddai'r newid o hawl hanesyddol i daliadau cyfradd safonol yn effeithio ar wahanol fathau o ffermydd o ran newid cymharol.

**Tabl 3.8 Newid o hawl hanesyddol i gyfradd safonol yn ôl math o fferm**

| | | Newid o hawl hanesyddol i gyfradd safonol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o fferm** | **Yr holl ffermydd** | **Colli o leiaf 30%** | **Colli 10% i 29%** | **O fewn 10%** | **Ennill 10% i 29%** | **Ennill o leiaf 30%** |
| Mwy – godro | 1,511 | 49% | 26% | 14% | 6% | 5% |
| Mwy - gwartheg a defaid | 1,704 | 18% | 30% | 19% | 12% | 20% |
| Mwy – eraill | 620 | 24% | 33% | 21% | 9% | 13% |
| Bach – defaid | 1,966 | 7% | 14% | 18% | 16% | 45% |
| Bach – eraill | 3,692 | 17% | 23% | 19% | 12% | 28% |
| Bach iawn | 4,604 | 8% | 11% | 13% | 12% | 56% |
| Eraill | 1,403 | 13% | 13% | 16% | 12% | 45% |
| Yr holl ffermydd | 15,500 | 16% | 19% | 17% | 12% | 36% |

Mae'r tabl uchod yn cadarnhau'r canfyddiadau o Dabl 3.7. Byddai bron i hanner (49 y cant) o'r ffermydd godro mawr yn colli o leiaf 30 y cant o'u hawl cyfredol oherwydd y newid i daliadau cyfradd safonol**.** O'r dadansoddiad cynharach yma, mae ffermydd godro yn tueddu i fod â hawliau hanesyddol cymharol fawr, tra bod y ffermydd bach iawn yn tueddu i fod â hawliau llai. O'r herwydd, o safbwynt arian parod, byddai nifer fawr o ffermydd bach yn ennill symiau bach o arian, a byddai nifer fach o ffermydd mawr yn talu amdanynt wrth i bob un ohonynt golli symiau mwy o arian.

Pwynt pwysig arall yw y cynrychiolir pob math o fferm o fewn pob band newid. Felly byddai newid i daliadau cyfradd safonol yn effeithio ar bob sector amaethyddol.

## 3.4 Canfyddiadau o Brif Arolwg Arsyllfa Wledig Cymru ac Integreiddiad â dadansoddiad incwm LIC

Canolbwynt ar ganfyddiadau yn ymwneud ag incwm o brif arolwg Arsyllfa Wledig

Cymru o 2,402 o ffermwyr yn yr adran hon. Caiff y canfyddiadau hyn eu hintegreiddio gyda dadansoddiad incwm LIC lle'n briodol.

### 3.4.1 Arolwg Arsyllfa Wledig Cymru ac ymwybyddiaeth o ddiwygio'r PAC

Gofynnodd arolwg ffermydd Arsyllfa Wledig Cymru nifer o gwestiynau yn ymwneud â disgwyliadau cymhorthdal ffermwyr ar ôl diwygio'r PAC. Yn gyntaf, gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran pa un a oeddent yn ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 ai peidio. Mae Tabl 3.9 yn dangos y canlyniadau hyn.

**Tabl 3.9 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC - arolwg Arsyllfa Wledig Cymru**

| | Nifer y ffermydd | Cyfran |
|---|---|---|
| Oeddent | 1,437 | 60% |
| Nac oeddent | 956 | 40% |
| Gwrthod ateb | 9 | |
| Yr holl ffermydd yn yr arolwg | 2,402 | 100% |

Noder mai dim ond 60 y cant o'r 2,402 o ffermydd yn y prif arolwg oedd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC. Roedd hon yn gyfran eithriadol o isel o gofio yr ystyriwyd y Taliad Sengl [SFP] fel ffynhonnell incwm bwysig i'r mwyafrif (85 y cant o'r arolwg) o ffermydd yng Nghymru.

Hefyd, mae Tabl 3.16 isod yn dangos mai dim ond 71 y cant (1,437/2,015) o'r 85 y cant (2,015 o ffermydd) sy'n derbyn yr SFP oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC. Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn dynodi lefel isel o ymwybyddiaeth o'r newidiadau sydd ar fin cael eu gwneud i'r PAC: lefel a ddylai beri pryder i LIC. Trafodir y lefel isel hon o ymwybyddiaeth a rhai anomalïau a gwrthddywediadau sy'n ymwneud â hi ymhellach yn Adran 4.2 yr adroddiad hwn ('Ymwybyddiaeth o Ddiwygio'r PAC').

Gofynnwyd i'r 1,437 o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC pa un a oeddent yn ymwybodol o'r newid o daliadau hanesyddol i daliadau cyfradd safonol ai peidio. Dangosir y canlyniadau hyn yn Nhabl 3.10 isod.

**Tabl 3.10 Ymwybyddiaeth o’r newid o daliadau hanesyddol i daliadau cyfradd safonol - Arolwg Arsyllfa Wledig Cymru**

| | Nifer y ffermydd | Cyfran |
|---|---|---|
| Oeddent | 1,225 | 85% |
| Nac oeddent | 211 | 15% |
| Gwrthod ateb | 1 | |
| Ffermydd a oedd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC | 1,437 | 100% |

### 3.4.2 Disgwyliadau ffermwyr o ran diwygio’r PAC o’u cymharu â dosbarthiad cyfrifedig dan daliadau cyfradd safonol

Gofynnwyd i’r 1,437 o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o’r diwygiadau arfaethedig i’r PAC a oeddent yn disgwyl i’w cymorthdaliadau gynyddu neu ostwng yn dilyn y diwygiadau.

Yn ogystal â dangos y data hwn, mae Tabl 3.11 yn cymharu’r canlyniadau gyda Thabl 3.4 uchod, sy’n dangos y ‘Newid cymharol i ddosbarthiad taliadau’ o ddadansoddiad incwm LIC. Cyfrifwyd y ffigurau yng ngholofn ‘Tabl 3.4 - newid rhagweledig a gyfrifwyd’ (yn Nhabl 3.11) trwy agregu’r canlyniadau ‘Colli’ ac ‘Ennill’ yn Nhabl 3.4, a thrwy dybio bod ‘O fewn 10%’ yn cyfateb i ‘Aros yr un fath’.

---

**Tabl 3.11 Y disgwyliad o newid i daliadau sy’n gysylltiedig â’r PAC yn sgil diwygio’r PAC ar ôl 2013**

| Newid disgwyliedig | Nifer y ffermydd | Cyfran | Tabl 3.4 - newid rhagweledig a gyfrifwyd |
|---|---|---|---|
| Cynnydd | 142 | 10% | 48% |
| Gostwng | 863 | 60% | 35% |
| Aros yr un peth | 239 | 17% | 17% |
| Ddim yn gwybod | 172 | 12% | |
| Gwrthod ateb | 21 | 1% | |
| Ffermwyr yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC | 1,437 | 100% | 100% |

Mae Tabl 3.11 yn dangos bod ffermwyr yn arolwg Arsyllfa Wledig Cymru yn besimistaidd am eu cymorthdaliadau ar ôl diwygio’r PAC. Roedd cyfran lawer llai yn disgwyl cynnydd na’r nifer a gyfrifwyd gan ddadansoddiad incwm LIC - deg y cant a 48 y cant, yn eu trefn. Roedd y cyfrannau nad oeddent yn disgwyl unrhyw newid yr un fath yn y ddau achos, o gymryd bod ‘o fewn 10%’ yn golygu ‘aros yr un fath’. Ac roedd cyfran yr arolwg a oedd yn disgwyl gostyngiad, 60 y cant, yn fwy na’r ffigur rhagweledig a gyfrifwyd gan LIC o 25 o bwyntiau canran. Gostyngwyd canlyniadau’r arolwg, wrth gwrs, gan yr atebion ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Gwrthod ateb’, ond hyd yn oed os tybir bod eu 14 y cant cyfunol yn gynnydd disgwyliedig, mae’r 24 y cant o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg sy’n disgwyl cynnydd yn dal i fod yn besimistaidd o’i gymharu â chanlyniad rhagweledig a gyfrifwyd gan LIC .

Mae’r cysylltiadau posibl rhwng pesimistiaeth, ffermwyr, a’u lle tybiedig yn y byd, o ran y PAC, y llywodraeth, y cyhoedd a pholisi, yn faterion i’w harchwilio yn ystod camau diweddarach y gwaith ymchwil hwn,

trwy'r cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr. Mae Tabl 3.12 yn dadansoddi'r data 'disgwyliadau' yn ôl maint fferm.

**Tabl 3.12 Disgwyliad o newid i daliadau sy'n gysylltiedig â'r PAC yn ôl maint fferm**

| | Maint fferm | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Newid disgwyliedig** | **Mawr iawn** | **Mawr** | **Canolig** | **Bach** | **Bach iawn** | **Ffermydd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC** | **Cyfran o'r holl ffermydd sy'n ymwybodol o ddiwygio'r PAC** |
| **Gostwng** | 77% | 71% | 70% | 62% | 51% | **863** | **60%** |
| **Aros yr un peth** | 10% | 15% | 14% | 14% | 23% | **239** | **17%** |
| **Cynnydd** | 7% | 10% | 7% | 12% | 9% | **142** | **10%** |
| **Ddim yn gwybod** | 5% | 4% | 9% | 13% | 14% | **172** | **12%** |
| **Gwrthod ateb** | 0% | 0% | 1% | 0% | 5% | **21** | **1%** |
| **Cyfran o'r ffermydd a oedd yn ymwybodol yn ôl maint** | **3%** | **5%** | **15%** | **42%** | **35%** | | **100%** |
| **Ffermydd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC** | **42** | **69** | **218** | **602** | **506** | **1,437** | |

Mae Tabl 3.13 yn cyfuno data a chategorïau o Dablau 3.12 a 3.8 i gyflwyno cymhariaeth o ddisgwyliadau a rhagolygon a gyfrifwyd yn ôl maint fferm. Dangosir yr ailgyfrifiadau hyn yn Atodiad Tri.

**Tabl 3.13 Disgwyliadau ffermwyr o ran diwygio'r PAC o'u cymharu â dosbarthiad a gyfrifwyd dan daliadau cyfradd safonol yn ôl maint fferm** [5]

| Newid | Ffermydd mawr | | Ffermydd bach | | Ffermydd bach iawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagolwg a gyfrifwyd | Arolwg | Rhagolwg a gyfrifwyd | Arolwg | Rhagolwg a gyfrifwyd | Arolwg |
| **Gostwng** | 59% | 71% | 33% | 62% | 19% | 51% |
| **Aros yr un peth** | 17% | 13% | 19% | 14% | 13% | 23% |
| **Cynnydd** | 22% | 8% | 47% | 12% | 68% | 9% |
| **Ddim yn gwybod** | Amh | 8% | Amh | 13% | Amh | 14% |
| **Gwrthod ateb** | Amh | 0% | Amh | 0% | Amh | 3% |
| **Cyfanswm** | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

[5] Roedd dadansoddiad incwm LlC yn cynnwys categori 'Eraill' – ffermydd lle cafwyd problemau yn paru data. Roedd y categori hwn yn cynnwys 1,403 o ffermydd. Fel y dangosir yn Nhabl 3.8, cyfrifodd dadansoddiad incwm LlC y byddai 26 y cant o ffermydd 'Eraill' yn derbyn taliadau is; y byddai 16 y cant yn aros o fewn deg y cant i'r taliadau cyfredol (blwyddyn 2010); ac y byddai 57 y cant yn derbyn taliadau uwch.

Mae Tabl 3.13 yn cadarnhau'r canfyddiadau yn Nhabl 3.11: bod ymatebwyr ar draws yr arolwg cyfan yn tueddu i israddio eu disgwyliadau o'u cymharu â 'r rhagolygon a gyfrifwyd gan LlC. Yr hyn y mae Tabl 3.13 yn ei ddangos, hefyd, yw mai ffermydd bach a bach iawn oedd y mwyaf pesimistaidd o bell ffordd o ran cynnydd a gostyngiadau disgwyliedig. Ar y llaw arall, roedd disgwyliadau ffermydd mawr yn agosach at gyfrifiadau dadansoddiad incwm LlC. Hynny yw, rhagwelodd gyfran fawr o ffermydd mawr y byddai gostyngiad i'w taliadau PAC, er bod cyfran fwy o'r rhain hefyd yn credu y byddent yn derbyn taliadau llai na'r hyn a ddynodwyd gan gyfrifiadau dadansoddiad incwm LlC.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod angen archwilio ymhellach y berthynas rhwng safbwyntiau ffermwyr o'r byd a 'r math o ffermio y maent yn ei wneud. Mae'r materion posibl yn cynnwys:

- Pam mae ffermwyr bach yn fwy pesimistaidd?
- A yw ffermwyr bach yn derbyn llai o wybodaeth?
- A oes cysylltiad rhwng cyfran yr incwm o ffermio, ac felly ei bwysigrwydd tybiedig, y sylw a roddir i faterion ffermio a thybiaethau negyddol?
- A yw ffermwyr mwy yn defnyddio data perfformiad a rhagolygon, ac yn cymryd mwy o sylw o ffynonellau LlC a masnach?

Fel y trafodwyd uchod, mae'r rhain yn faterion i'w harchwilio yn ystod camau diweddarach y gwaith ymchwil hwn, drwy'r cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr.

### 3.4.3 Disgwyliadau ffermwyr o ran diwygio'r PAC o'u cymharu â dosbarthiad a gyfrifwyd dan daliadau cyfradd safonol yn ôl math o fferm

Ar gyfer y cymariaethau hyn, trown at y mathau o ffermydd a ddefnyddiwyd yn nheipoleg fferm dadansoddiad incwm LlC. Grwpiwyd data arolwg Arsyllfa Wledig Cymru yn yr un categorïau â rhai teipoleg LlC er mwyn galluogi cymhariaeth uniongyrchol. Dangosir y categorïau hyn yn Nhabl 3.14 isod.

**Tabl 3.14 Ffermydd yn arolwg Arsyllfa Wledig Cymru wedi eu grwpio yn ôl Teipoleg LIC**

| Teipoleg LIC | Nifer Dadansoddiad incwm LIC | Cyfran o ddadansoddiad incwm LIC | Nifer AWC Arolwg | Cyfran AWC Arolwg |
|---|---|---|---|---|
| Mwy - godro | 1,511 | 10% | 163 | 7% |
| Mwy – gwartheg defaid | 1,704 | 11% | 190 | 8% |
| Mwy - eraill | 620 | 4% | 84 | 4% |
| Bach - defaid | 1,966 | 13% | 297 | 12% |
| Bach - eraill | 3,692 | 24% | 610 | 25% |
| Bach iawn | 4,604 | 30% | 1,058 | 44% |
| Eraill | 1,403 | 9% | | |
| | 15,500 | 100% | 2,402 | 100% |

Mae'r data yn Nhabl 3.14 yn dangos cydberthyniad agos rhwng cyfrannau pob categori fferm mewn ffermydd ledled Cymru a'r cyfrannau a arolygwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru, ac eithrio'r categori 'bach iawn' lle ceir gwahaniaeth o 14 pwynt canran. Fodd bynnag, o wneud y dybiaeth y gellid dadlau sy'n rhesymol bod y 1,403 o ffermydd yn y categori ' Eraill' (gweler Tabl 3.8 a Throednodyn 4) yn ffermydd 'bach iawn', mae cyfran y ffermydd 'bach iawn' yn nadansoddiad incwm LIC yn cynyddu i 39%.

Gan ddefnyddio teipoleg fferm LIC, mae Tabl 3.15 yn cymharu'r cyfrifiadau o ddadansoddiad incwm LIC gyda disgwyliadau ffermwyr o ddiwygio'r PAC o arolwg Arsyllfa Wledig Cymru.

**Tabl 3.15 Enillion/colledion a gyfrifwyd yn nadansoddiad incwm LIC o'u cymharu â disgwyliadau ffermwyr o arolwg Arsyllfa Wledig Cymru**

| | Mwy - godro | | Mwy - defaid a gwartheg | | Mwy - eraill | | Bach - defaid | | Bach - eraill | | Bach iawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | LIC | AWC | LIC | AWC | LIC | AWC | LIC | AWC | LIC | AWC | LIC | AWC |
| **Gostwng** | 75% | 70% | 48% | 71% | 57% | 74% | 21% | 54% | 40% | 66% | 19% | 51% |
| **Aros yr un peth** | 14% | 17% | 19% | 9% | 21% | 16% | 18% | 17% | 19% | 12% | 13% | 23% |
| **Cynnydd** | 11% | 8% | 32% | 9% | 22% | 5% | 61% | 14% | 40% | 11% | 68% | 9% |
| **Ni atebwyd** | Amh | 0% | Amh | 0% | Amh | 0% | Amh | 0% | Amh | 0% | Amh | 0% |
| **Ddim yn gwybod** | Amh | 5% | Amh | 11% | Amh | 3% | Amh | 16% | Amh | 11% | Amh | 14% |
| **Gwrthod ateb** | Amh | 0% | Amh | 0% | Amh | 2% | Amh | 0% | Amh | 1% | Amh | 4% |

O'r tabl, ar draws y mathau o ffermydd, roedd disgwyliadau o arolwg Arsyllfa Wledig Cymru yn is na chyfrifiadau dadansoddiad incwm LIC, ac eithrio ar gyfer 'mwy - godro'. Dangosodd 'mwy - godro' gyfatebiaeth agos â chyfrifiad dadansoddiad incwm LIC a dim ond rhyw fymryn roedd disgwyliadau wedi eu hisraddio o'u cymharu â chyfrifiadau dadansoddiad incwm LIC.

O ystyried natur eu cynnyrch, mae ffermydd godro mwy yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol yn gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu wedyn eu bod yn fwy tebygol o ddilyn cynlluniau busnes a chadw llygad agos ar faterion fel diwygio'r PAC a pholisi. Mae Tabl 3.16 isod, sy'n dangos 'ffynonellau incwm', yn tueddu i gefnogi'r safbwynt hwn o ffermydd godro mwy. Roedd y sampl cyfan o ffermydd godro mwy a arolygwyd yn sicrhau incwm o gynhyrchu amaethyddol, ac roedd 98 y cant yn hawlio'r SFP. A ffermydd godro mwy gofnododd y cyfrannau lleiaf o ffermydd yn sicrhau incwm o gynlluniau amgylcheddol, arallgyfeirio ac incwm rhent. Hefyd, mae Tabl 3.17 yn dangos, o safbwynt ffermydd godro mwy, mai cynhyrchu amaethyddol a'r SFP oedd y rhan helaeth o'u hincwm, yn 71 y cant ac 19 y cant yn eu trefn. Roedd y gyfran ar gyfer cynhyrchu amaethyddol o leiaf 20 pwynt canran yn fwy nag unrhyw fath arall o fferm, tra bod cyfraniad yr SFP i incymau ffermydd godro mwy yn sylweddol is na'r mathau eraill o ffermydd, ac eithrio ffermydd bach iawn, a ddynododd bod yr SFP yn cyfrannu 19 y cant o gyfanswm eu hincwm hefyd. Mae'r data hwn yn dynodi bod ffermydd godro mwy yn canolbwyntio ar y busnes o gynhyrchu amaethyddol yn bennaf. Maent yn awgrymu bod ffermydd godro mwy yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC a'i oblygiadau posibl.

Unwaith eto, bydd y materion hyn yn cael eu harchwilio ymhellach yng nghyfweliadau dilynol camau diweddarach y prosiect.

### 3.4.4 Ffynonellau incwm cartrefi ffermio

Er, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nad oedd y gronfa ddata o gymorthdaliadau a dderbynnir ar hyn o bryd ar gael i Arsyllfa Wledig Cymru, gofynnodd yr arolwg dri chwestiwn am ffynonellau incwm cartrefi. Yn gyntaf, gofynnwyd i'r ffermwyr 'pa un o'r ffynonellau canlynol sy'n darparu incwm i'ch cartref ffermio? Gan ddefnyddio'r deipoleg fferm, mae Tabl 3.16 yn dangos niferoedd a chyfrannau'r ffermydd sy'n derbyn y gwahanol fathau o incwm.

**Tabl 3.16 Ffynonellau incwm yn ôl teipoleg fferm**

| | Yn gyffredinol | Teipoleg Fferm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffynhonnell incwm | Cyfanswm | Mwy - godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy – eraill | Bach – defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
| Cynhyrchu amaethyddol | 2,137 | 161 | 188 | 79 | 283 | 583 | 843 |
| | 90% | 100% | 100% | 95% | 97% | 96% | 82% |
| Y taliad sengl | 2,015 | 158 | 189 | 82 | 284 | 558 | 744 |
| | 85% | 98% | 100% | 99% | 98% | 92% | 72% |
| Cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ALFf | 1,048 | 60 | 134 | 45 | 171 | 295 | 343 |
| | 44% | 37% | 71% | 54% | 59% | 49% | 33% |
| Arallgyfeirio | 557 | 31 | 51 | 30 | 60 | 151 | 234 |
| | 24% | 19% | 27% | 36% | 21% | 25% | 23% |
| Incwm rhent | 494 | 23 | 43 | 26 | 54 | 123 | 225 |
| | 21% | 14% | 23% | 31% | 19% | 20% | 21% |
| Swyddi 'oddi ar y fferm' aelodau eraill yr aelwyd | 926 | 61 | 67 | 27 | 98 | 227 | 446 |
| | 39% | 40% | 35% | 33% | 34% | 37% | 43% |

O'r tabl, mae'n ymddangos nad oedd 18 y cant o ffermydd 'bach iawn' yn ystyried bod cynhyrchu amaethyddol yn cyfrannu at eu hincwm, ynghyd â chyfrannau cymharol fach o 'mwy - eraill', 'bach - defaid' a 'bach-eraill'. Nododd cyfanswm o 2,015 o ffermydd yr SFP fel ffynhonnell incwm - gweler Tabl 3.9. Ac eithrio ffermydd 'bach iawn', nododd fwy na 90 y cant o'r mathau eraill o ffermydd eu bod yn derbyn yr SFP.

Un canfyddiad a oedd yn peri syndod oedd nad oedd pump y cant o ffermydd 'mwy-eraill' yn sicrhau incwm o gynhyrchu amaethyddol. Awgrymir dau esboniad posibl: coedwigoedd neu feysydd carafannau oedd y 'ffermydd' hyn, neu camddeallwyd y cwestiwn gan nifer fach (h.y. pedwar) o ymatebwyr.

Gofynnwyd i'r ffermwyr wedyn beth oedd y gyfran o gyfanswm yr incwm yr oedd pob

ffynhonnell incwm yn ei chyfrannu. Mae Tabl 3.17 yn dangos y cyfrannau y cyfrannodd pob ffynhonnell incwm at gyfanswm yr incwm ar draws yr arolwg ac yn ôl teipoleg fferm.

**Tabl 3.17 Cyfrannau cymedrig ffynonellau incwm yn ôl teipoleg fferm**

| | Yn gyffredinol | Cymedr yn ôl Teipoleg Fferm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffynhonnell incwm** | **Yr holl ffermydd** | **Mwy – godro** | **Mwy - defaid a gwartheg** | **Mwy - eraill** | **Bach - defaid** | **Bach – eraill** | **Bach iawn** |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| **Cynhyrchu amaethyddol** | 43 | 71 | 50 | 51 | 46 | 47 | 34 |
| **Y taliad sengl**[6] | 25 | 19 | 34 | 30 | 32 | 27 | 19 |
| **Cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ALFf** | 5 | 2 | 7 | 3 | 8 | 5 | 5 |
| **Arallgyfeirio** | 6 | 2 | 3 | 5 | 4 | 6 | 9 |
| **Incwm rhent** | 4 | 1 | 2 | 3 | 2 | 3 | 6 |
| **Swyddi 'oddi ar y fferm' aelodau eraill yr aelwyd** | 17 | 4 | 4 | 7 | 8 | 12 | 29 |
| | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |

[6] Mae'r Arolwg Busnes Fferm yn dynodi mai'r SFP yw tua 80 y cant o **elw busnes ffermydd**. Felly, nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol â'r data arolwg a ddadansoddir yma – mae'r ffigur o 25 y cant yn cynrychioli'r SFP fel cyfran o **gyfanswm incwm cartrefi**.

Mae nifer o bwyntiau diddorol yn codi o'r tabl hwn.

Ar draws yr arolwg, roedd yr SFP yn cyfrannu 25 y cant o incymau cartrefi ffermio. O ddadansoddi'r data fesul math, dim ond ffermydd 'mwy-godro' a 'bach iawn' oedd yn derbyn llai na un rhan o bump o'u hincwm o'r SFP.

Y mathau â'r cyfrannau mwyaf oedd 'mwy - defaid a gwartheg', 'mwy – eraill' a ' bach - defaid', ac roedd pob un ohonynt yn derbyn o leiaf 30 y cant o'u hincwm o'r SFP. Dangoswyd yn Nhabl 3.8 y bydd 48 (30 + 18) y cant o ffermwyr 'mwy-defaid a gwartheg' a 57 (33 + 24) y cant o ffermwyr 'mwy – eraill' yn dioddef gostyngiad o ddeg y cant o leiaf yn sgil diwygio'r PAC. O'i ystyried o ran y gyfran uchel o incwm y mae'r SFP yn ei gyfrannu at y mathau hyn o ffermydd, mae'n amlwg y gallai diwygio'r PAC fod yn arwyddocaol iawn iddynt.

Mae dadansoddiad incwm LlC yn awgrymu mai ffermydd godro fydd yn tueddu i ddioddef y gostyngiadau mwyaf i'r SFP yn sgil diwygio'r PAC. Fodd bynnag, er i'r SFP gyfrannu bron i un rhan o bump (19 y cant) o incwm ffermydd 'mwy - godro', roedd hyn yn gymharol isel o'i gymharu â chynhyrchu amaethyddol (71 y cant). Mae hyn yn awgrymu tra bydd bron i hanner (49 y cant) y ffermydd godro mawr yn colli o leiaf 30 y cant o'u hawl cyfredol oherwydd y newid i daliadau cyfradd safonol (Tabl 3.8), byddant mewn sefyllfa well i ymdopi â thaliadau SFP is, gan eu bod yn llai dibynnol ar yr SFP.

Mae Tabl 3.17 yn amlygu'r cyfrannau bach o incwm a ddaw o gynlluniau amaeth-amgylchedd ac arallgyfeirio. Mae'n amlwg nad yw'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at incymau ffermydd. Mae hyn yn codi cwestiynau i bolisi amaeth-amgylchedd LlC a chymhellion ariannol i ffermwyr, gan ei bod yn debyg y bydd 'gwyrddhau' yn rhagofyniad ar gyfer derbyn cymorthdaliadau yn sgil diwygio'r PAC

derbyn cymorthdaliadau yn sgil diwygio'r PAC.

Yn olaf, yn y gyfres hon o gwestiynau, gofynnwyd i ffermwyr pa rai o'u ffynonellau incwm fyddai bwysicaf iddynt yn y dyfodol. Mae Tabl 3.18 yn dangos yr ymatebion hyn yn ôl teipoleg fferm ac ar gyfer poblogaeth Gyffredinol yr arolwg. At ddibenion cymharu, dangosir y ffynonellau yn yr un drefn ag yn Nhabl 3.17, a dangosir y flaenoriaeth drefn mewn colofn ar wahân ar gyfer poblogaeth Gyffredinol yr arolwg.

**Tabl 3.18 Ffynonellau incwm y dyfodol yn ôl teipoleg fferm**

| Ffynhonnell incwm | Blaenoriaeth ar draws yr arolwg | Ar draws yr arolwg | Mwy - godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy – eraill | Bach - defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | % | % | % | % | % | % | % |
| Cynhyrchu amaethyddol | 1 | 42 | 86 | 52 | 70 | 46 | 49 | 27 |
| Y taliad sengl | 2 | 24 | 7 | 41 | 19 | 32 | 26 | 20 |
| Cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ALFf | 6 | 2 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 3 |
| Arallgyfeirio | 4 | 8 | 3 | | 4 | 6 | 8 | 11 |
| Incwm rhent | 5 | 4 | 0 | 1 | 1 | 4 | 4 | 6 |
| Swyddi 'oddi ar y fferm' aelodau eraill yr aelwyd | 3 | 15 | 3 | 1 | 5 | 7 | 9 | 26 |
| Ddim yn gwybod | | 4 | 2 | 2 | 0 | 3 | 3 | 6 |
| Gwrthod ateb | | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 3 |

Gellir cymharu'r data yn Nhabl 3.18 gyda Thabl 3.17 orau. Mae Tabl 3.18 yn dangos y bydd yr SFP yn parhau i fod yn bwysig i ffermydd yng Nghymru, wrth i 24 y cant ei nodi fel y ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol. Ffermydd 'mwy - defaid a gwartheg' oedd y mwyaf tebygol o ystyried yr SFP fel y ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol, ac roedd 41% o'r farn honno. Mae hyn yn cadarnhau'r canfyddiad yn Nhabl 3.17, lle nododd ffermydd 'mwy -defaid a gwartheg' y cyfraniad mwyaf o incwm gan yr SFP. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod hyn yn afrealistig yn sgil diwygio'r PAC ac mae'n codi pryderon am y wybodaeth roedd y ffermydd hyn yn ei derbyn neu eu dealltwriaeth o'r sefyllfa.

Ar y llaw arall, roedd yn ymddangos bod y ffermydd 'mwy - godro' yn fwy realistig a gwybodus am ddiwygio'r PAC a'i effaith bosibl ar incymau. Roedd mwyafrif (86 y cant) o'r ffermydd hyn yn tybio mai cynhyrchu amaethyddol fyddai'r ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol. Mae hyn yn cefnogi'r arsylwadau a wnaed uchod yn ymwneud â dibyniaeth gymharol isel ffermydd godro ar yr SFP a'u synnwyr a chraffter busnes ehangach.

Roedd cynlluniau amaeth-amgylchedd ac arallgyfeirio yn isel ar y rhestr fel ffynonellau incwm yn y dyfodol – o safbwynt blaenoriaeth a chyfran. Mae hyn yn codi cwestiynau am barodrwydd ffermwyr i ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol, nau aros ynddynt, yn y dyfodol. O ran arallgyfeirio, mae'r data yn codi cwestiynau am bolisi LlC o greu busnesau ffermio mwy amrywiol. O ystyried y diddordeb cymharol uchel mewn arallgyfeirio a ddangoswyd gan ffermydd bach a bach iawn (er mai dim ond

chwech, wyth ac 11 y cant oedd y canrannau yma), a'r diffyg diddordeb mewn arallgyfeirio a diddordeb mawr mewn cynhyrchu amaethyddol y ffermydd mwy, mae'n ymddangos bod perthynas rhwng dibyniaeth gynyddol ar gynhyrchu amaethyddol a diffyg diddordeb mewn arallgyfeirio fel ffynhonnell incwm.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn codi cwestiynau i bolisi LIC o ran cynlluniau amaeth-amgylcheddol, arallgyfeirio, rhannu gwybodaeth a hyfforddiant busnes fferm.

### 3.4.5 Data incwm o arolwg Arsyllfa Wledig Cymru

Roedd cwestiynau olaf holiadur arolwg Arsyllfa Wledig Cymru yn ymwneud ag incwm, trosiant ac elw. Mae Tablau 3.19, 3.20, 3.21 a 3.22 yn dangos y data o'r cwestiynau hyn gan ddefnyddio teipoleg fferm LIC. Dangosir niferoedd a chanrannau gan fod rhai niferoedd yn fach

Mae Tabl 3.19 yn dangos trosiant blynyddol ffermydd.

**Tabl 3.19 Trosiant blynyddol ffermydd**

| Trosiant blynyddol | Yn gyffredinol | Teipoleg Fferm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Mwy – godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy - eraill | Bach - defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
| Llai na £25,000 | 820 | 4 | 1 | 0 | 46 | 120 | 649 |
| | 34% | 3% | 0% | 0% | 16% | 20% | 61% |
| £25,000- £67,999 | 478 | 10 | 18 | 6 | 105 | 204 | 135 |
| | 20% | 6% | 10% | 7% | 35% | 33% | 13% |
| £68,000- £99,999 | 237 | 20 | 30 | 12 | 45 | 99 | 31 |
| | 10% | 12% | 16% | 14% | 15% | 16% | 3% |
| £100,000- £149,999 | 214 | 33 | 50 | 17 | 29 | 66 | 19 |
| | 9% | 20% | 26% | 20% | 10% | 11% | 2% |
| £150,000- £199,999 | 81 | 18 | 21 | 9 | 6 | 17 | 10 |
| | 3% | 11% | 11% | 11% | 2% | 3% | 1% |
| £200,000- £249,999 | 51 | 16 | 16 | 6 | 2 | 7 | 4 |
| | 2% | 10% | 8% | 7% | 1% | 1% | 0% |
| £250,000- £499,999 | 61 | 20 | 17 | 13 | 2 | 2 | 7 |
| | 3% | 12% | 9% | 16% | 1% | 0% | 1% |
| £500,000 neu fwy | 45 | 23 | 3 | 11 | 3 | 2 | 3 |
| | 2% | 14% | 2% | 13% | 1% | 0% | 0% |
| Ddim yn gwybod | 249 | 10 | 23 | 5 | 32 | 69 | 110 |
| | 10% | 6% | 12% | 6% | 11% | 11% | 10% |
| Gwrthod ateb | 166 | 9 | 11 | 5 | 27 | 24 | 90 |
| | 7% | 6% | 5% | 6% | 9% | 4% | 9% |

Nid yw'n syndod bod y data yn y tabl yn dangos bod trosiant uchel yn dod yn sgil maint. Roedd ffermydd mwy a ffermydd godro unwaith eto'n flaenllaw yn y grwpiau uwch o drosiant blynyddol.

Gallwn gymharu'r data hwn gyda ffynonellau eraill o ddata fferm. Defnyddiodd 'Arolwg o gartrefi ffermio yng Nghymru' (2010), adroddiad gan Arsyllfa Wledig Cymru o arolwg cynrychiadol â phoblogaeth o 1,009, yr un bandiau ar gyfer trosiant. Mae Tabl 3.20 yn dangos y ffigurau cyffredinol ar gyfer arolwg 2010.

**Tabl 3.20 Trosiant blynyddol yn ôl maint fferm – Arolwg o gartrefi ffermio yng Nghymru (2010)**

| Trosiant blynyddol | Yn gyffredinol |
|---|---|
| Llai na 25,000 | 38% |
| £25,000-£67,999 | 22% |
| £68,000-£99,999 | 9% |
| £100,000-£149,999 | 14% |
| £150,000-£199,999 | 6% |
| £200,000-£249,999 | 4% |
| £250,000-£499,999 | 5% |
| £500,000 neu fwy | 2% |

Mae cymharu Tablau 3.19 a 3.20 yn dangos bod y ffigurau cyffredinol ar gyfer trosiant yn arolygon 2010 a 2012 yn ddigon tebyg, ac roedd y gwahaniaeth mwyaf o bum pwynt canran yn y grŵp trosiant £100,000 - £149,000. Mae data arall o arolwg 2010 yn datgelu tebygrwydd trefn o ran maint ffermydd a math o fferm, ac mae ffermydd mwy a ffermydd godro yn tueddu i fod â throsiant uwch. Mae'r cymariaethau hyn yn helpu i nodi nad oedd y ffermydd a arolygwyd ar gyfer y prosiect cyfredol hwn yn annodweddiadol a bod y data i'w ddisgwyl i raddau helaeth.

Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a wnaeth eu busnesau elw neu golled, ac eithrio cymorthdaliadau a gweithgareddau arallgyfeirio. Mae Tabl 3.21 yn dangos y canlyniadau hyn.

**Tabl 3.21 Elw a cholled yn ôl teipoleg fferm**

| Canlyniad (Nifer) | Yn gyffredinol (2402) | Mwy – llaeth (163) | Mwy – defaid a gwartheg (190) | Mwy – eraill (84) | Bach – defaid (297) | Bach – eraill (610) | Bach iawn (1058) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % |
| **Elw** | 46 | 81 | 49 | 61 | 53 | 49 | 36 |
| **Colled** | 29 | 7 | 32 | 19 | 30 | 28 | 34 |
| **Adennill costau** | 20 | 10 | 17 | 17 | 14 | 21 | 23 |
| **Gwrthodwyd a Ddim yn gwybod** | 5 | 2 | 2 | 3 | 3 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** | **100** | **100** | **100** | **100** | **100** |

Mae'r data yn y tabl yn awgrymu bod ffermydd godro mwy yn llawer cryfach yn ariannol na mathau eraill o ffermydd. Mae hyn yn amlwg o'r ffigurau elw a cholled. O'r mathau o ffermydd mwy, defaid a gwartheg oedd yn gwneud waethaf ac roedd yr un gyfran yn gwneud colled neu'n adennill costau ag oedd yn gwneud elw.

Hefyd, dylai fod pryder am y cyfrannau uchel o ffermydd bach a bach iawn a wnaeth golled neu a adenillodd eu costau yn unig. Mae hyn yn codi cwestiynau am y goblygiadau polisi pe bai niferoedd mawr o'r mathau hyn o fferm yn rhoi'r gorau i fasnachu.

Mae Tablau 3.22, 3.23 a 3.24 yn mesur y canlyniadau hyn gan ddefnyddio amrywiaeth o grwpiau ar gyfer elw a cholled.

**Tabl 3.22 Ffermydd sy'n gwneud colled yn ôl teipoleg fferm**

| Colled | Yn gyffredinol | Mwy – llaeth | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy - eraill | Bach - defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % |
| £25,000 neu fwy o golled | 3 | 1 | 11 | 5 | 2 | 3 | 2 |
| £24,999 -£10,000 | 4 | 1 | 10 | 7 | 9 | 5 | 2 |
| £9,999 i sero | 20 | 4 | 8 | 7 | 18 | 16 | 28 |
| Ddim yn gwybod a gwrthodwyd | 1 | 1 | 3 | 0 | 1 | 3 | 2 |

Mae Tabl 3.22 yn cadarnhau arsylwadau cynharach ei bod yn ymddangos bod ffermydd 'mwy – defaid a godro' mewn trafferthion ariannol. Er bod gan y mathau llai o ffermydd lefelau cymharol uchel o golled rhwng sero a £9,999, roedd eu cyfrannau'n lleihau wrth i faint y golled gynyddu. Ar y llaw arall, roedd cyfrannau'r ffermydd 'mwy – defaid a godro' a oedd yn gwneud colled yn cynyddu wrth i faint y golled gynydd .

**Tabl 3.23 Ffermydd sy'n gwneud elw yn ôl teipoleg fferm**

| Elw | Yn gyffredinol | Mwy – godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy - eraill | Bach - defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Sero i £9,999 | 24 | 15 | 15 | 19 | 26 | 25 | 27 |
| £10,000-£24,999 | 11 | 26 | 11 | 18 | 17 | 15 | 5 |
| £25,000-£49,999 | 5 | 21 | 13 | 10 | 5 | 3 | 1 |
| £50,000 neu fwy | 2 | 14 | 5 | 8 | 1 | 1 | 1 |
| Ddim yn gwybod a gwrthodwyd | 4 | 6 | 6 | 6 | 5 | 4 | 3 |

Dynododd ffermydd godro mwy eu cadernid ariannol unwaith eto trwy gofnodi cyfrannau mwy ar draws pob grŵp elw, yn enwedig yn y grwpiau elw uwch. Cofnodwyd elw gan rai ffermydd 'mwy – defaid a gwartheg' hefyd. Bydd yr hyn y mae'r ffermydd hyn yn ei wneud i sicrhau elw yn cael ei archwilio yn y cyfweliadau dilynol.

**Tabl 3.24 Ffermydd sy'n adennill costau yn ôl teipoleg fferm**

| Yn gyffredinol | Mwy – godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy - eraill | Bach - defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20% | 10% | 17% | 17% | 14% | 21% | 23% |

Byddai'n ymddangos o ystyried y tablau hyn gyda'i gilydd bod llai na hanner (46 y cant) y busnesau fferm wedi gwneud elw heb gymorthdaliadau a'r incwm o weithgareddau arallgyfeirio. Ffermydd yn y categori mwy-godro oedd yn gwneud orau, ac yna'r math mwy-eraill. Yn gyffredinol, roedd y categori mwy-defaid a gwartheg yn cael trafferthion yn ariannol, er bod rhai yn gwneud elw. Roedd y mathau bach o ffermydd yn tueddu i weithredu ar lefel adennill costau, ac roedd rhai yn gwneud elw bach a rhai'n gwneud colledion bach.

Mae cymharu'r data hwn gyda setiau data eraill ar ffermydd yng Nghymru yn [7] cadarnhau nad yw'r ffermydd a arolygwyd yn annodweddiadol ac yn datgelu tueddiad mwy hirdymor o drafferthion ariannol, wedi eu gwella i raddau helaeth gan yr SFP a chymorthdaliadau eraill. Mae'r data yn Nhabl 3.25 wedi ei ailgyfrifo o Arolwg Busnes Fferm [FBS] 2010-2011, arolwg blynyddol o 600 o ffermydd yng Nghymru a gynhelir gan Brifysgol Aberystwyth. Ar gyfer chwe gwahanol fath o fferm, gan ddefnyddio mathau o ffermydd yr FBS, mae'n dangos yr SFP a chym orthdaliadau, ac elw net heb gymorthdaliadau fesul fferm.

**Tabl 3.25 Elw busnesau fferm fesul fferm – FBS (2010-11)**

| Math o Fferm | Elw ar ôl rhent a chyllid<br><br>£ y fferm | SFP<br><br>£ y fferm | Tir Mynydd<br><br>£ y fferm | Cymorthdaliadau anuniongyrchol<br><br>£ y fferm | Elw net heb gymorthdaliadau<br><br>£ y fferm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwartheg a defaid mynydd** | 32,242 | 34,854 | 4,293 | 5,482 | - 12,387 |
| **Defaid mynydd** | 33,183 | 33,777 | 5,635 | 7,171 | -13,400 |
| **Gwartheg a defaid ucheldir** | 30,176 | 29,597 | 2,560 | 2,910 | -4,891 |
| **Gwartheg a defaid tir isel** | 25,880 | 23,191 | Sero | 2,190 | 499 |
| **Buchod godro mynydd ac ucheldir** | 57,175 | 28,103 | Sero | 3,259 | 25,813 |
| **Buchod godro tir** | 72,342 | 33,578 | Sero | 2,526 | 36,238 |

[7] Gofynnodd y cwestiwn ar gyfer yr arolwg prosiect cyfredol hwn am elw net heb gymorthdaliadau ac incwm arallgyfeirio. Nid oedd yn bosibl nodi incwm arallgyfeirio o'r data FBS.

| isel | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|

Gellir gweld o'r tabl bod gan ffermydd gwartheg a defaid mynydd, defaid mynydd a gwartheg a defaid ucheldir incwm net negyddol heb yr SFP a chymorthdaliadau eraill, a'r SFP oedd y cyfrannwr mwyaf o bell ffordd. Y ddwy fath o fferm odro wnaeth yr elw mwyaf. Hefyd, mae data FBS (e.e. 2008 - 2009) yn dangos, yn ddiweddar o leiaf, mai dim ond ffermydd godro yng Nghymru sydd wedi gwneud elw o gynhyrchu amaethyddol yn unig.

Mae'r data FBS hwn yn cefnogi'r dadansoddiadau yn yr adran hon ac yn Adran 4, sy'n awgrymu bod ffermydd godro wedi bod mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ac efallai mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i ymdopi â g ostyngiadau posibl i'r SFP yn sgil diwygio'r PAC, a'i bod yn ymddangos bod mathau a meintiau eraill o fferm yn or-ddibynnol ar yr SFP. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi bod dadansoddiad incwm LIC yn rhagweld mai ffermydd godro mwy fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y diwygiadau i'r PAC. Yn olaf, yn yr adran dadansoddi incwm hon, mae Tabl 3.26 yn dangos cyfanswm incwm cartrefi fesul math o fferm.

**Tabl 3.26 Incwm aelwydydd yn ôl teipoleg fferm**

| Incwm | Yn gyffredinol | Mwy – godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy - eraill | Bach - defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llai na 10,000** | 13% | 13% | 6% | 4% | 14% | 13% | 15% |
| **£10,000 - £15,499** | 12% | 10% | 10% | 14% | 9% | 13% | 13% |
| **£15,500 - 20,999** | 13% | 14% | 13% | 8% | 15% | 13% | 13% |
| **£21,000 - 30,999** | 16% | 18% | 14% | 21% | 16% | 17% | 16% |
| **£31,000 - 51,999** | 15% | 15% | 13% | 23% | 15% | 15% | 15% |
| **£52,000 - 77.999** | 7% | 8% | 9% | 6% | 7% | 8% | 6% |
| **£78,000 neu fwy** | 6% | 11% | 12% | 14% | 5% | 4% | 5% |
| **Ddim yn gwybod** | 9% | 4% | 17% | 4% | 9% | 12% | 8% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrthod ateb** | 8% | 7% | 7% | 6% | 9% | 4% | 10% |

Mae dosbarthiad yn y tabl yn gyfartal yn gyffredinol; mae ffermydd bach yn tueddu i fod yn y grwpiau incwm is a ffermydd mwy yn y grwpiau uwch, a cheir cyfnewid tua'r grŵp £31,000-£51,999. Fodd bynnag, roedd cyfrannau a oedd yn syndod o uchel o ffermydd godro mwy yn y grwpiau incwm is.

Nid yw'r canfyddiad hwn yn anghyson â'r dadansoddiadau blaenorol. Mae Tablau 3.16, 3.17 a 3.18 yn dangos bod gan ffermydd godro mwy ganolbwynt cryf ar gynhyrchu amaethyddol. Ac roedd canlyniadau ar gyfer elw a cholled, lle'r oedd ffermydd godro mwy yn perfformio'n gryf, yn eithrio cymorthdaliadau a .

gweithgareddau arallgyfeirio yn benodol. Y casgliad yw bod ffermydd godro mwy yn tueddu i ganolbwyntio ar gynhyrchu amaethyddol ac nad oeddent yn or-ddibynnol ar yr SFP, cynlluniau amaeth-amgylchedd ac incymau oddi ar y fferm. Efallai fod mathau eraill o ffermydd yn or-ddibynnol ar gymorthdaliadau ac yn atodi incwm y cartref gyda gweithgareddau nad ydynt yn rhai amaethyddol.

Yn ogystal â'r goblygiadau i bolisi, mae'r dadansoddiadau incwm hyn wedi nodi amrywiaeth o faterion i'w harchwilio yn y cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr.

## 4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ymatebion ffermwyr i'r holiadur a ddefnyddiwyd ym mhrif arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o 2,402 o ffermydd. Ailystyrir rhai o'r cwestiynau a integreiddiwyd â dadansoddiad incwm LIC yn Adran 3 yr adroddiad hwn o reidrwydd. Gan fod y mater o ddiwygio'r PAC yn ganolog i'r prosiect ymchwil hwn, canolbwyntir ar gwestiynau'r arolwg sy'n ymwneud â'r PAC yn yr adran hon o'r adroddiad.

Yn dilyn y Cyflwyniad hwn, mae Adran Pedwar wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- 4.2 Ymwybyddiaeth o ddiwygio'r PAC
- 4.3 Disgwyliadau o newid ac ymatebion i newidiadau damcaniaethol i incwm
- 4.4 Ymatebion allweddol i newidiadau damcaniaethol i daliadau'r PAC
- 4.5 Gwybodaeth ychwanegol am y PAC
- 4.6 Priodweddau'r ffermydd a'r ffermwyr a arolygwyd: tueddiadau prynu a gwerthu
- 4.7 Cynlluniau ffermwyr ar gyfer y dyfodol

Mae'r dadansoddiad yn Adran 4.7 'Cynlluniau ffermwyr ar gyfer y dyfodol' yn cynnwys dyfyniadau gan ymatebwyr i'r arolwg. Ceir dyfyniadau enghreifftiol yn rhywfaint o'r gwaith dadansoddi arall hefyd.

## 4.2 Ymwybyddiaeth o ddiwygio'r PAC

Caiff rhai o'r cwestiynau sy'n ymwneud â diwygio'r PAC yn uniongyrchol eu trafod yn Adran 3, lle cânt eu hintegreiddio â dadansoddiad incwm LIC. Yn y dadansoddiad canlynol, caiff yr ymatebion i rai o'r cwestiynau hyn eu hailadrodd i gynnig cyd-destun a chyflawnrwydd. Caiff yr ymatebion hyn eu dadansoddi'n fwy trylwyr wedyn.

Gofynnwyd i'r ffermwyr yn un o gwestiynau cynnar yr arolwg a oedd materion penodol yn peri pryder am ddyfodol eu busnesau ai peidio. Mae Tabl 4.1 yn dangos cyfrannau'r ffermwyr â'r pryderon hyn.

**Tabl 4.1 Pryderon ffermwyr**

| | Nifer | Cyfran o’r ffermydd â phryder |
|---|---|---|
| Costau cyflenwi cynyddol | 2,066 | 86% |
| Prisiau'r farchnad | 1,892 | 79% |
| Y sefyllfa economaidd gyffredinol | 1,898 | 79% |
| Diwygio'r PAC | 1,674 | 70% |
| Prisiau tir | 1,347 | 56% |
| Argaeledd tir | 1,165 | 49% |
| Olyniaeth | 1,062 | 44% |
| Argaeledd cyllid | 962 | 40% |
| Argaeledd hyfforddiant | 538 | 22% |
| Diddymu cwotâu cynnyrch llaeth | 162 | 7% |
| Ddim yn Gwybod | 41 | 2% |
| Gwrthod ateb | 27 | 1% |

Gofynnwyd iddynt roi eu tri phryder mwyaf yn eu trefn.

**Tabl 4.2 Pryderon ffermwyr yn eu trefn**

| Pryder | Cyfran a ddywedodd mai hyn oedd yn peri’r pryder mwyaf | Safle |
|---|---|---|
| Diwygio'r PAC | 31% | 1 |
| Costau cyflenwi cynyddol | 26% | 2 |
| Prisiau'r farchnad | 12% | 3 |
| Y sefyllfa economaidd gyffredinol | 12% | 4 |
| Argaeledd cyllid | 5% | 5 |
| Prisiau tir | 4% | 6 |
| Olyniaeth | 3% | 7 |
| Argaeledd tir | 2% | 8 |
| Argaeledd hyfforddiant | 0% | 9 |
| Diddymu cwotâu cynnyrch llaeth | 0% | 10 |
| Arall | 6% | |

Mae Tabl 4.2 yn dangos, gyda’i gilydd, y rhoddwyd costau mewnbwn cynyddol, prisiau’r farchnad a’r sefyllfa economaidd gyffredinol, y gellid dadlau bod modd cynnwys pob un o’r tri dan y term ‘y sefyllfa economaidd gyffredinol’, yn gyntaf gan 50 y cant o’r arolwg. Fodd bynnag, diwygio’r PAC oedd yr un mater oedd yn peri’r mwyaf

o bryder, wrth i 31 y cant ei roi yn y safle cyntaf.

Yn ddiweddarach yn yr arolwg, gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran a oeddent yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013 ai peidio. Mae Tabl 4.3 yn dangos y canlyniadau hyn.

**Tabl 4.3 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 – arolwg Arsyllfa Wledig Cymru**

| | Nifer y ffermydd | Cyfran |
|---|---|---|
| **Oeddent** | 1,437 | 60% |
| **Nac oeddent** | 956 | 40% |
| **Gwrthod ateb** | 9 | |
| **Yr holl ffermydd yn yr arolwg** | 2,402 | 100% |

Rydym yn gwybod o'r dadansoddiad yn Adran 3 bod 2,015 o ffermydd wedi dweud eu bod yn derbyn y Taliad Sengl [SFP]. Mae croesdablu yn dangos bod 1308 h.y. 65 y cant (1,308/2,015) o ffermydd sy'n derbyn yr SFP yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC. Mae cyfrannau'r ffermwyr sy'n ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC - 60 y cant o gyfanswm poblogaeth yr arolwg a 65 y cant o'r ffermwyr sy'n derbyn yr SFP - yn ymddangos braidd yn isel yn y ddau achos.

Hefyd, roedd gwrthddywediad eglur. Mae Tabl 4.1 yn dynodi bod 70 y cant o boblogaeth yr arolwg yn poeni am ddiwygio'r PAC. Ond o Dabl 4.3, roedd 60 y cant yn ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013. O ran rhifau crai, mae'n ymddangos bod 237 (1,674 - 1,437) o ffermwyr yn pryderu, yn gyffredinol, am ddiwygio'r PAC ond nad oeddent yn ymwybodol o achos penodol o ddiwygio'r PAC - y diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013. Neu efallai eu bod wedi gweld gwahanol ystyr i'r cwestiwn a ofynnwyd, ac nad oeddent yn ymwybodol o fanylion y diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013.

Datgelodd croesdabliadau nad oedd 493 o'r 1,674 o ffermwyr a oedd yn pryderu am y PAC yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013. O'r rhain, dywedodd 196 nad oedd angen unrhyw wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth ychwanegol arnynt i'w helpu i gynllunio ar gyfer effeithiau diwygio'r PAC Fodd bynnag, roedd 256 o ffermwyr yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013 ond nad oeddent yn pryderu am ddiwygio'r PAC yn gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu eu bod wedi gwneud cynlluniau, er mai dim ond 156 o'r rhain ddywedodd nad oedd angen unrhyw wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth ychwanegol arnynt i'w helpu i gynllunio ar gyfer effeithiau diwygio'r PAC, gan awgrymu bod angen cyngor a chefnogaeth ar ffermwyr sy'n fwy parod hyd yn oed.

Mae'r dadansoddiad yn datgelu nifer o wrthddywediadau, a allai gael eu hesbonio mewn rhai achosion gan wahaniaethiad rhwng diwygio'r PAC yn gyffredinol a diwygio'r PAC yn benodol neu ddryswch am y cwestiynau a ofynnwyd. Yn bwysig, fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn awgrymu problemau mwy sylfaenol:

- Roedd ymwybyddiaeth o ddiwygio'r PAC yn isel, hyd yn oed ymhlith y rhai sy'n derbyn yr SFP.

- O ystyried pwysigrwydd yr SFP fel ffynhonnell incwm i lawer o ffermwyr, mae hyn yn awgrymu:
    - Diffyg ymwybyddiaeth busnes
    - Apathi
    - Tynghediaeth
- Mae angen gwell cyfathrebu a gwybodaeth am ddiwygio'r PAC.

Bydd y materion hyn yn cael eu harchwilio yn y cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr.

Ceir goblygiadau eglur i bolisi LlC o ran dosbarthu, cyfathrebu a hyfforddiant busnes i ffermwyr.

Mae Tablau 4.4 a 4.5 yn cynnig dadansoddiadau o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl maint fferm a math o fferm, yn eu trefn.

**Tabl 4.4 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl maint fferm**

| Yn gyffredinol | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| 60% | 86% | 66% | 77% | 66% | 48% |

**Tabl 4.5 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl math o fferm**

| Yn gyffredinol | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|
| 60% | 76% | 62% | 59% | 69% | 47% |

Mae Tablau 4.4 a 4.5 yn datgelu bod mwy o ymwybyddiaeth mewn ffermydd mawr iawn a ffermydd godro, a bod ffermydd bach iawn a ffermydd eraill/cymysg yn tueddu i fod yn arbennig o anymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dadansoddiad yn Adran Tri, sy'n awgrymu bod ffermydd godro mawr yn fwy realistig ac yn meddu ar fwy o ymwybyddiaeth fusnes.

Roedd y ffigur ymwybyddiaeth o 66 y cant ar gyfer ffermydd mawr yn Nhabl 4.4 yn syndod o isel. Fodd bynnag, os caiff 'ymwybyddiaeth' ei groesdablu yn erbyn teipoleg fferm LlC, sy'n ail-gyfrifo'r ffermydd mawr iawn, mawr a chanolig yn dri gwahanol fath o fferm fwy, mae'r data 'ymwybyddiaeth' yn cyfateb yn fwy agos i'r dadansoddiad yn Adran Tri, lle'r oedd ffermydd godro mawr yn fwy realistig ac yn meddu ar fwy o ymwybyddiaeth fusnes ac nad oedd ffermydd defaid ac eidion mwy a ffermydd eraill mwy yn perfformio mor gryf. Mae Tabl 4.6 yn dangos ymwybyddiaeth yn erbyn teipoleg fferm LlC.

**Tabl 4.6  Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl teipoleg fferm LIC**

| Yn gyffredinol | Mwy – godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy- eraill | Bach - defaid | Bach - eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 60% | 79% | 75% | 69% | 69% | 65% | 48% |


Mae Tabl 4.7 yn cynnig dadansoddiad o ymwybyddiaeth o ddiwygiadau i'r PAC yn ôl oedran yr ymatebwr.

**Tabl 4.7  Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl oedran yr ymatebwr**

| Ymwybyddiaeth gyffredinol | 18-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 oed neu'n hŷn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 60% | 25% | 63% | 63% | 66% | 60% | 55% |
| **Proffil oedran ffermwyr Cyfran o 2,402** | 0.3% | 2% | 10% | 26% | 31% | 31% |

Mae'r rhes isaf ychwanegol yn Nhabl 4.7 yn dangos proffil oedran ffermwyr yn yr arolwg. Mae hyn yn dangos bod 62 y cant o ffermwyr yn 55 oed neu hŷn, a bod 88 y cant yn 45 oed neu hŷn. Ar ben iau'r raddfa, roedd 2.3 y cant o ffermwyr yn iau na 35 oed. O ran rhifau crai, roedd hyn yn cynrychioli wyth ffermwr rhwng 18 a 24 oed, and 54 ffermwr rhwng 25 a 34 oed. Gellid dadlau bod modd diystyru'r grŵp 18-24 oed gan fod niferoedd mor isel. Mae Ffigur 4.1 yn dangos ymwybyddiaeth yn ôl oedran.

**Ffigur 4.1 Ymwybyddiaeth o ddiwygio'r PAC yn ôl grŵp oedran**




Roedd ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 ar ei huchaf yn y grŵp oedran 45-54 oed ac yna'n gostwng rhyw fymryn wrth i'r oedran gynyddu.

Mae Tabl 4.8 yn dadansoddi pa mor ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC oedd yr ymatebwyr yn ôl daliadaeth.

**Tabl 4.8 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl daliadaeth**

| Ymwybyddiaeth gyffredinol | Yn eiddo i chi a/neu eich teulu | Rhentu | Cymysg/y ddau |
|---|---|---|---|
| 60% | 56% | 61% | 73% |

Mae'n amlwg o Dabl 4.8 bod ffermydd sy'n eiddo i deuluoedd yn gyfan gwbl yn tueddu i fod yn llai ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013. Yn wir, roedd eu hymwybyddiaeth yn is o bedwar pwynt canran na'r canlyniad cyffredinol, canlyniad a amlygir uchod fel mater o bryder. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn mewn ffermydd sy'n eiddo i deuluoedd yn cynnig tystiolaeth bellach o ddiffyg ymwybyddiaeth fusnes posibl; apathi ymddangosol; ac angen am well cyfathrebu a gwybodaeth am ddiwygio'r PAC.

Gofynnwyd i'r 1,437 (60 y cant o boblogaeth yr arolwg) o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC a oeddent yn ymwybodol o rai o fanylion y diwygiadau arfaethedig ai peidio: y newid o daliadau hanesyddol i rai sy'n seiliedig ar ardaloedd; y mesurau gwyrddio; rhoi trothwy ar daliadau; a'r pwyslais ar ffermwyr ifanc. Dangosir y canlyniadau hyn yn Nhabl 4.9.

**Tabl 4.9 Ymwybyddiaeth o fanylion penodol y diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013**

| Newid i daliadau sy'n seiliedig ar ardaloedd | Mesurau gwyrddio | Rhoi trothwy ar daliadau | Pwyslais ar ffermwyr ifanc |
|---|---|---|---|
| 85% | 67% | 74% | 73% |

I raddau helaeth, y newid i daliadau yn seiliedig ar arwynebedd yw'r newid mwyaf pellgyrhaeddol a'r un sydd fwyaf tebygol o effeithio ar economïau cartrefi ac economïau lleol. Mae'r ffigur ymwybyddiaeth cymharol uchel o 85 y cant ar gyfer y mesur hwn yn adlewyrchu ei bwysigrwydd posibl.

Dangosodd dadansoddiad pellach, lle'r oedd ffermwyr yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC, roedd y rhai â ffermydd rhent yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r manylion penodol. Roeddent yn perfformio sawl pwynt canran yn uwch na'r ffigur cyffredinol, tra bod ffermydd sy'n eiddo i deuluoedd a ffermydd daliadaeth gymysg tua'r un fath â'r canlyniadau cyffredinol. Mae Tabl 4.10 yn dangos y canlyniadau hyn. Sylwer y dangosir y niferoedd ym mhob categori a oedd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC hefyd.

**Tabl 4.10 Ymwybyddiaeth o fanylion penodol y diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl Daliadaeth**

| Math o Ddaliadaeth | Yn eiddo i chi a/neu eich teulu | Rhentu | Cymysg/ydd au | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Y newid o daliadau hanesyddol i daliadau yn seiliedig ar ardaloedd** | 84% | 90% | 88% | 85% |
| | 821 | 105 | 297 | 1225 |
| **Mesurau gwyrddio** | 65% | 74% | 72% | 67% |
| | 637 | 87 | 243 | 968 |
| **Rhoi trothwy ar daliadau** | 71% | 81% | 78% | 74% |
| | 699 | 95 | 265 | 1060 |
| **Pwyslais ar Ffermwyr Ifanc** | 72% | 84% | 72% | 73% |
| | 704 | 98 | 243 | 1046 |

Mae'r data yn Nhabl 4.10 hefyd yn dangos bod ffermwyr â daliadaeth Gymysg yn tueddu i fod yn fwy ymwybodol o'r manylion penodol na'r rhai â ffermydd sy'n eiddo i'r

teulu. O ystyried hyn ynghyd â'r dystiolaeth yn Nhabl 4.8, gellid dod i'r casgliad posibl y gallai ffermwyr ag elfen o ddaliadaeth rhent fod yn llai sicr ac felly'n fwy ymwybodol o newidiadau polisi a'u goblygiadau ariannol.

Fodd bynnag, roedd y canlyniadau hyn ar gyfer ymwybyddiaeth o agweddau penodol ar ddiwygio'r PAC yn isel yn gyffredinol, o ystyried eu pwysigrwydd posibl i incymau ffermwyr a'u ffordd o fyw. Maent yn atgyfnerthu canfyddiadau'r dadansoddiadau blaenorol, sy'n nodi diffyg ymwybyddiaeth fusnes, diffyg diddordeb, gwybodaeth a hyfforddiant, a goblygiadau i bolisi LlC o ran dosbarthu gwybodaeth.

Mewn cwestiwn dilynol, gofynnwyd i'r 1,437 o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 o ble y cawsant eu gwybodaeth. Roedd hwn yn gwestiwn aml-ateb, a chaiff y canlyniadau eu crynhoi yn Nhabl 4.11. Awgrymwyd categorïau y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), Ffermwyr Ifanc a Llywodraeth Cymru gan y cyfwelwyr fel ffynonellau gwybodaeth posibl ac anogwyd y rhai a gymerodd ran i nodi ffynonellau eraill. Gan fod rhai o'r niferoedd yn fach, nid yw canrannau wedi cael eu crynhoi i gyfanrifau.

**Tabl 4.11 Ffynonellau gwybodaeth am ddiwygio'r PAC**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---|---|
| Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) | 42 | 1.7% |
| Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) | 221 | 9.2% |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) | 289 | 12.0% |
| Ffermwyr Ifanc Cymru | 8 | 0.3% |
| Llywodraeth Cymru | 354 | 14.7% |
| | | |
| **Ffynonellau eraill a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr** | | |
| Y wasg/y cyfryngau/teledu/rhyngrwyd sy'n ymwneud â ffermio | 448 | 18.7% |
| Ar lafar/ffermwyr eraill | 146 | 6.1% |
| Farmers Weekly | 240 | 10.0% |
| Farmers Guardian | 263 | 10.9% |
| Gwlad (Cylchgrawn) | 211 | 8.8% |
| Post/taflenni | 12 | 0.5% |
| Cynghorwyr/syrfewyr/ymgynghorwyr arbenigol yn y sector preifat | 17 | 0.7% |
| Cyngor arbenigol (gan gynnwys cyfarfodydd, cynadleddau/mewnbwn gan sefydliadau arbenigol) | 77 | 3.2% |
| The Daily Post | 17 | 0.7% |
| The Western Mail | 14 | 0.6% |
| Ffermio (S4C) | 7 | 0.3% |
| Countryfile | 8 | 0.3% |
| The Dairy Farmer | 7 | 0.3% |
| Arall | 10 | 0.4% |
| Ddim yn gwybod/Ddim yn cofio | 21 | 0.9% |
| Gwrthod ateb | 2 | 0.1% |
| Heb ofyn iddynt – h.y. y rhai nad oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 | 965 | 40.2% |

Yr hyn sy'n drawiadol am y data hwn yw nad oedd unrhyw ffynhonnell unigol o wybodaeth yn cael ei defnyddio llawer mwy na'r lleill. O'r ffynonellau 'enwebedig', er eu bod yn uchel yng nghyd-destun yr ymatebion hyn, roedd LlC a'r NFU yn gymharol isel - 12 y cant a 15 y cant, yn eu trefn. Ceir goblygiadau yma i bolisi LlC o ran dosbarthu.

Roedd y gyfran a oedd yn cael gwybodaeth gan y Ffermwyr Ifanc yn arbennig o isel o ystyried bod 12 y cant o'r ymatebwyr yn iau na 45 oed. Y wasg ffermio/y cyfryngau/teledu/rhyngrwyd oedd y mwyaf cynhyrchiol gan hawlio 19 y cant.

Er bod potensial i atebion groesi ac am amwysedd yn y ffynonellau a'r ymatebion, mae'r data hwn yn dynodi'r tueddiad oddi wrth ffynonellau gwybodaeth ar bapur.

## 4.3 Disgwyliadau o Newid ac Ymatebion i Newidiadau Damcaniaethol i Incwm

### 4.3.1 Y cyd-destun ar gyfer disgwyliad

Mae’r dadansoddiad yn Adran 3 yn archwilio disgwyliadau ffermwyr o newidiadau i incwm a allai gael eu hachosi gan ddiwygio’r PAC a hefyd yn cymharu’r disgwyliadau hyn gyda’r lefel incwm rhagweledig dan daliadau cyfradd safonol yn nadansoddiad incwm LIC. Yn yr isadran hon, mae’r dadansoddiad yn archwilio ymatebion ffermwyr i sefyllfaoedd damcaniaethol ar lefelau newid incwm amrywiol a allai gael eu hachosi gan ddiwygiad i’r PAC. Ailadroddir rhai canfyddiadau o ddadansoddiad Adran 3 er mwyn cynnig cyd-destun.

Mae Tabl 4.12 yn dangos sut roedd y 1,437 o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o’r diwygiadau i’r PAC ar ôl 2013 yn disgwyl i’w taliadau newid.

**Tabl 4.12 Y disgwyliad o newid i daliadau’n gysylltiedig â’r PAC wedi diwygio’r PAC ar ôl 2013**

| Y disgwyliad o newid | Nifer y ffermydd | Cyfran |
|---|---|---|
| Cynnydd | 142 | 10% |
| Gostwng | 863 | 60% |
| Aros yr un peth | 239 | 17% |
| Ddim yn gwybod | 172 | 12% |
| Gwrthod ateb | 21 | 1% |
| Ffermwyr yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC | 1,437 | 100% |

Y pwynt sy’n sefyll allan o’r tabl yw’r gyfran fach (deg y cant) o ffermwyr a oedd yn disgwyl cynnydd i daliadau. Yn gyffredinol felly, roedd y ffermwyr yn besimistaidd ac yn disgwyl i’w taliadau PAC ostwng. Prin oedd y rhai a oedd yn disgwyl cynnydd.

Fel y trafodwyd yn Adran 3.4.2 yr adroddiad hwn, mae’r cysylltiadau posibl rhwng pesimistiaeth, ffermwyr a’u lle tybiedig yn y byd, o ran y PAC, y llywodraeth, y cyhoedd a pholisi yn faterion i’w harchwilio yng nghamau diweddarach y gwaith ymchwil hwn, drwy’r cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr.

### 4.3.2 Disgwyliad yn ôl maint fferm a math o fferm

Mae Tabl 4.13 a Thabl 4.14 yn dangos, gan ddefnyddio categorïau LIC ar gyfer maint a math, sut roedd gwahanol feintiau a mathau o fferm yn disgwyl i’w taliadau PAC newid.

**Tabl 4.13 Y disgwyliad o newid i daliadau'n gysylltiedig â'r PAC yn ôl maint fferm**

| | Maint fferm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y disgwyliad o newid** | **Mawr iawn** | **Mawr** | **Canolig** | **Bach** | **Bach iawn** | **Yn gyffredinol (1437)** |
| **Cynnydd** | 3<br>7% | 7<br>10% | 16<br>7% | 73<br>12% | 43<br>9% | **142**<br>**10%** |
| **Gostwng** | 33<br>77% | 49<br>71% | 152<br>70% | 371<br>62% | 258<br>51% | **863**<br>**60%** |
| **Aros yr un peth** | 4<br>10% | 10<br>15% | 30<br>14% | 81<br>14% | 114<br>23% | **239**<br>**17%** |
| **Ddim yn gwybod** | 2<br>5% | 3<br>4% | 19<br>9% | 75<br>13% | 73<br>14% | **172**<br>**12%** |
| **Gwrthod ateb** | 0 | 0 | 1<br>1% | 2 | 18<br>5% | **21**<br>**1%** |
| **1437 o Ffermydd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC** | **42**<br>**3%** | **69**<br>**5%** | **218**<br>**15%** | **602**<br>**42%** | **506**<br>**35%** | **1437**<br>**100%** |

Y duedd oedd i'r ffermydd mawr iawn fod fwyaf realistig, ac roedd y mwyafrif yn disgwyl gostyngiad. Ar y llaw arall, roedd y categorïau llai o ffermydd yn tueddu i fod yn besimistaidd, er, fel y mae'r dadansoddiad incwm integredig yn Adran 3 yn ei ddangos, y dylai llawer o ffermydd llai dderbyn cynnydd i daliadau sy'n gysylltiedig â'r PAC dan daliadau cyfradd safonol.

**Tabl 4.14 Y disgwyliad o newid i daliadau'n gysylltiedig â'r PAC yn ôl math o fferm**

| | Math o fferm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y disgwyliad o newid** | **Godro** | **Defaid** | **Eidion** | **Defaid gydag eidion** | **Arall/cymysg** | **Yn gyffredinol (1437)** |
| **Cynnydd** | 12<br>8% | 52<br>12% | 29<br>11% | 25<br>9% | 24<br>8% | **142**<br>**10%** |
| **Gostwng** | 101<br>70% | 257<br>57% | 159<br>61% | 193<br>68% | 153<br>52% | **863**<br>**60%** |
| **Aros yr un peth** | 23<br>16% | 76<br>17% | 35<br>13% | 39<br>14% | 66<br>23% | **239**<br>**17%** |
| **Ddim yn gwybod** | 9<br>6% | 61<br>14% | 39<br>15% | 28<br>10% | 35<br>12% | **172**<br>**12%** |
| **Gwrthod ateb** | 0<br>0% | 5<br>1% | 1<br>0% | 1<br>0% | 14<br>5% | **21**<br>**1%** |
| **1437 o Ffermydd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC** | **145**<br>**10%** | **451**<br>**32%** | **263**<br>**18%** | **286**<br>**20%** | **292**<br>**20%** | **1437**<br>**100%** |

Nid yw cymharu rhwng tablau 4.13 a 4.14 mor syml, gan nad yw'r math o fferm yn cyfateb yn union i faint y fferm (gweler Adran 3 – 'teipoleg fferm' dadansoddiad incwm LIC). Er enghraifft, er bod y cyfrannau ar gyfer'godro' (tabl 4.14) fwy neu lai yr un fath â'r rhai ar gyfer 'mawr iawn' (tabl 4.13) ac y byddai llawer o ffermydd godro yn y categori mawr iawn, roedd gwahaniaethau sylweddol o ran niferoedd crai ar gyfer y ddau gategori.

### 4.3.3 Mesur y disgwyliad o newid yn ôl maint fferm a math o fferm

Er mwyn mesur y disgwyliadau o newid yn sgil diwygio'r PAC, gofynnwyd i'r 1,005 a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn disgwyl i'w taliadau PAC newid (h.y. heb gynnwys y rhai nad oeddent yn disgwyl unrhyw newid) o faint roeddent yn disgwyl iddynt newid. Mae Tablau 4.15 a 4.16 yn dangos cyfrannau'r ffermwyr hynny sy'n disgwyl cynnydd yn ôl maint fferm a math o fferm, yn eu trefn.

Tabl 4.15 Yn disgwyl cynnydd yn ôl maint fferm

| | Maint fferm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y disgwyliad o newid** | **Mawr iawn** | **Mawr** | **Canolig** | **Bach** | **Bach iawn** | **Yn gyffredinol (142)** |
| **Cynyddu mwy nag 20%** | 2<br>67% | 5<br>71% | 7<br>44% | 30<br>41% | 20<br>47% | **64**<br>**45%** |
| **Cynyddu llai nag 20%** | 1<br>33% | 1<br>14% | 7<br>44% | 35<br>48% | 19<br>44% | **63**<br>**44%** |
| **Yn disgwyl cynnydd ond ddim yn gwybod neu gwrthodwyd** | 0<br>0% | 1<br>14% | 2<br>13% | 8<br>11% | 4<br>9% | **15**<br>**11%** |
| **142 o ffermydd yn disgwyl cynnydd** | 3<br>2% | 7<br>5% | 16<br>11% | 73<br>52% | 43<br>30% | **142**<br>**100%** |

Tabl 4.16 Yn disgwyl cynnydd yn ôl math o fferm

| | Math o fferm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y disgwyliad o newid** | **Godro** | **Defaid** | **Eidion** | **Defaid gydag Eidion** | **Arall/Cymysg** | **Yn gyffredinol (142)** |
| **Cynyddu mwy nag 20%** | 9<br>75% | 21<br>40% | 10<br>35% | 9<br>36% | 15<br>63% | **64**<br>**45%** |
| **Cynyddu llai nag 20%** | 2<br>17% | 26<br>50% | 14<br>48% | 15<br>60% | 6<br>25% | **63**<br>**44%** |
| **Yn disgwyl cynnydd ond ddim yn gwybod neu gwrthodwyd** | 1<br>8% | 5<br>10% | 5<br>17% | 1<br>4% | 3<br>13% | **15**<br>**11%** |
| **142 o ffermydd yn disgwyl cynnydd** | 12<br>8% | 52<br>37% | 29<br>20% | 25<br>18% | 24<br>17% | **142**<br>**100%** |

Fel y nodwyd yn Nhabl 4.12, dim ond deg y cant o ffermwyr oedd yn disgwyl cynnydd i daliadau. O'r herwydd, roedd y niferoedd sylfaen ar gyfer Tablau 4.15 a 4.16 yn isel, yn enwedig yn y meintiau fferm mawr iawn, mawr a chanolig, ac mewn ffermydd godro. Roedd y niferoedd isel yn y categorïau hyn yn tueddu i gefnogi dadansoddiad incwm LIC, a awgrymodd y byddai gostyngiad i daliadau ffermydd mwy, y mae llawer ohonynt yn ffermydd godro.

Mae Tablau 4.17 a 4.18 yn dangos cyfrannau'r ffermwyr hynny sy'n disgwyl gostyngiad yn ôl maint fferm a math o fferm, yn eu trefn.

**Tabl 4.17 Yn disgwyl gostyngiad yn ôl maint fferm**

| | Maint fferm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y disgwyliad o newid** | **Mawr iawn** | **Mawr** | **Canolig** | **Bach** | **Bach iawn** | **Yn gyffredinol (863)** |
| **Gostwng llai nag 20%** | 7<br>21% | 12<br>25% | 52<br>34% | 142<br>38% | 93<br>36% | **306<br>36%** |
| **Gostwng mwy nag 20%** | 26<br>79% | 28<br>57% | 78<br>51% | 154<br>42% | 106<br>41% | **392<br>45%** |
| **Yn disgwyl gostyngiad ond ddim yn gwybod neu gwrthodwyd** | 0<br>0% | 9<br>18% | 22<br>15% | 75<br>20% | 59<br>23% | **165<br>19%** |
| **863 o Ffermydd yn disgwyl newid** | **33<br>4%** | **49<br>5%** | **152<br>18%** | **371<br>43%** | **258<br>30%** | **863<br>100%** |

**Tabl 4.18 Yn disgwyl gostyngiad yn ôl math o fferm**

| | Math o fferm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y disgwyliad o newid** | **Godro** | **Defaid** | **Eidion** | **Defaid gydag Eidion** | **Arall/Cymysg** | **Yn gyffredinol (142)** |
| **Gostwng llai nag 20%** | 61<br>60% | 109<br>42% | 69<br>43% | 80<br>42% | 73<br>48% | **306**<br>**36%** |
| **Gostwng mwy nag 20%** | 27<br>27% | 99<br>39% | 53<br>33% | 77<br>40% | 50<br>33% | **392**<br>**45%** |
| **Yn disgwyl gostyngiad ond ddim yn gwybod neu gwrthodwyd** | 13<br>13% | 49<br>19% | 37<br>23% | 36<br>19% | 30<br>20% | **165**<br>**19%** |
| **863 o Ffermydd yn disgwyl newid** | 10<br>12% | 257<br>30% | 159<br>18% | 193<br>22% | 153<br>18% | **863**<br>**100%** |

Mae Tablau 4.17 a 4.18 yn cefnogi dadansoddiad incwm LIC o ran y meintiau fferm mwy. Roedd niferoedd a chyfrannau mwy o'r meintiau fferm mwy yn disgwyl gostyngiadau i daliadau. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn y categorïau y rhagwelodd dadansoddiad incwm LIC y byddent yn derbyn taliadau uwch yn dueddol o fod yn besimistaidd.

### 4.3.4 Mesur y disgwyliad o newid yn ôl arallgyfeirio

Mae Tabl 4.19 yn dangos y gwahanol ymatebion, o ran disgwyliad, rhwng ffermwyr a oedd yn gweithredu mentrau arallgyfeirio a'r rhai nad oeddent.

**Tabl 4.19 Disgwyliadau o ddiwygio'r PAC yn ôl arallgyfeirio**

| Y disgwyliad o newid | Yn gweithredu menter arallgyfeirio (649) | Ddim yn gweithredu menter arallgyfeirio (788) | Cyfanswm (1437) |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd** | 10% | 9% | 10% |
| | 68 | 74 | 142 |
| **Gostwng** | 57% | 63% | 60% |
| | 370 | 493 | 863 |
| **Aros yr un peth** | 17% | 16% | 17% |
| | 111 | 128 | 239 |
| **Ddim yn gwybod** | 14% | 10% | 12% |
| | 90 | 82 | 172 |
| **Gwrthod ateb** | 2% | 1% | 1% |
| | 10 | 11 | 21 |

Mae'r tabl yn dangos bod ffermwyr a oedd yn arallgyfeirio yn tueddu i fod yn optimistaidd. Roeddent ychydig yn fwy tebygol o ddisgwyl cynnydd i daliadau PAC na ffermwyr nad oeddent yn arallgyfeirio ac yn sylweddol lai tebygol (o chwe phwynt canran) o ddisgwyl gostyngiad i daliadau PAC. Fodd bynnag, roedd cyfran y ffermydd a oedd yn arallgyfeirio nad oeddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl o ddiwygio'r PAC yn uwch na'r ffigur cyffredinol.

Mae Tablau 4.20 a 4.21 yn dangos cyfrannau'r ffermwyr hynny sy'n arallgyfeirio a'r rhai nad ydynt sy'n disgwyl cynnydd a gostyngiad, yn eu trefn.

**Tabl 4.20 Yn disgwyl cynnydd yn ôl arallgyfeirio**

| | Yn gweithredu menter arallgyfeirio (68) | Ddim yn gweithredu menter arallgyfeirio (74) | Yn gyffredinol (142) |
|---|---|---|---|
| **Cynyddu mwy nag 20%** | 47% | 43% | 45% |
| | 32 | 32 | 64 |
| **Cynyddu llai nag 20%** | 43% | 46% | 44% |
| | 29 | 34 | 63 |
| **Yn disgwyl cynnydd ond ddim yn gwybod neu gwrthodwyd** | 10% | 11% | 11% |
| | 7 | 8 | 15 |

**Tabl 4.21 Yn disgwyl gostyngiad yn ôl arallgyfeirio**

| | Yn gweithredu menter arallgyfeirio (370) | Ddim yn gweithredu menter arallgyfeirio (493) | Yn gyffredinol (863) |
|---|---|---|---|
| **Gostyngiad o lai nag 20%** | 44% | 47% | 45% |
| | 161 | 231 | 392 |
| **Gostyngiad o fwy nag 20%** | 36% | 35% | 35% |
| | 134 | 172 | 306 |
| **Yn disgwyl gostyngiad ond ddim yn gwybod neu gwrthodwyd** | 20% | 18% | 19% |
| | 75 | 90 | 165 |

Fel y disgwyliwyd, mae’r canlyniadau a ddangosir yn Nhablau 4.20 a 4.21 yn adlewyrchu’r rhai yn Nhabl 4.19, wrth i ffermwyr sy’n arallgyfeirio dueddu i fod yn fwy optimistaidd yn gyffredinol.

Gyda’i gilydd, mae’r dadansoddiadau hyn o ‘ddisgwyliadau’ yn cefnogi’r dadansoddiadau yn Adran Tri, sy’n awgrymu bod ffermydd godro mwy yn canolbwyntio mwy ar gynhyrchu amaethyddol, yn llai dibynnol ar yr SFP, yn perfformio’n dda yn economaidd, yn meddu ar fwy o ymwybyddiaeth fusnes ac yn fwy realistig ac yn fwy gwybodus am ddiwygio’r PAC, o’u cymharu â’r mathau llai o fferm a ffermydd defaid a gwartheg.

Yn fwy eang, mae’r dadansoddiadau hyn o ‘ddisgwyliadau’, ynghyd â’r dadansoddiad incwm yn Adran 3, yn nodi rhywfaint o ansicrwydd o ran sut y gallai’r newidiadau arfaethedig i daliadau ’r PAC effeithio ar ffermydd. Dynodir yr ansicrwydd hwn gan y besimistiaeth ddiangen a chan y cyfrannau cymharol uchel o ffermwyr nad oeddent yn gwybod pa newidiadau y gallent eu disgwyl i’w taliadau.

Bydd y materion hyn a’u goblygiadau i bolisi LlC yn cael eu harchwilio yn y cyfweliadau dilynol.

### 4.3.5 Ymatebion i newidiadau damcaniaethol i daliadau’r PAC

Rhoddwyd enghreifftiau o newid i daliadau’r PAC i bob un o’r 2,402 a gymerodd ran yn yr arolwg a gofynnwyd sut y byddent yn ymateb i bob un yn ei dro. I'w cynorthwyo, awgrymwyd nifer o ymatebion posibl. Roedd y sefyllfaoedd fel a ganlyn:

Taliadau'n cynyddu llai nag 20 y cant

Taliadau'n cynyddu mwy nag 20 y cant

Taliadau'n gostwng llai nag 20 y cant

Taliadau'n gostwng mwy nag 20 y cant

Mae Tabl 4.22 yn crynhoi’r ymatebion a awgrymwyd. Sylwer bod modd i gyfranogwyr roi mwy nag un ymateb. Hefyd, roedd niferoedd isel mewn rhai categorïau ac nid yw’r canrannau yn y tabl hwn wedi eu crynhoi i gyfanrifau er mwyn casglu’r ymatebion hyn.

**Tabl 4.22 Ymatebion ffermwyr i sefyllfaoedd damcaniaethol o ran newid i'r taliadau**

| | Gostwng mwy nag 20% | Gostwng llai nag 20% | Cynyddu llai nag 20% | Cynyddu mwy nag 20% |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % |
| Busnes fel arfer | 34.0 | 52.2 | 64.3 | 51.4 |
| Gadael ffermio | 20.1 | 7.0 | 1.0 | 0.6 |
| Cynyddu maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 2.2 | 2.1 | 5.0 | 9.0 |
| Lleihau maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 8.5 | 7.6 | 0.8 | 0.8 |
| Prynu offer fferm newydd | 0.2 | 0.3 | 5.0 | 10.2 |
| Ceisio mwy o dir | 0.4 | 0.4 | 4.3 | 9.3 |
| Dwysáu gweithrediadau amaethyddol presennol | 3.2 | 3.4 | 2.4 | 3.7 |
| Codi mwy o adeiladau fferm | 0.2 | 0.2 | 4.0 | 7.8 |
| Lleihau dwyster y gweithrediadau amaethyddol presennol | 5.3 | 5.5 | 0.7 | 0.6 |
| Dechrau gweithgarwch arallgyfeirio newydd | 2.8 | 2.8 | 1.8 | 3.5 |
| Ildio tir | 3.5 | 1.9 | 0.5 | 0.3 |
| Ehangu ar arallgyfeirio presennol | 1.9 | 1.5 | 0.9 | 1.2 |
| Newid fy math o ffermio | 2.0 | 1.5 | 0.5 | 0.6 |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0.1 | 0.2 | 1.3 | 2.0 |
| Lleihau gweithgareddau arallgyfeirio | 0.8 | 0.8 | 0.1 | 0.1 |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0.3 | 0.4 | 0.2 | 0.2 |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau o'r tu allan i'r ardal leol | 0.0 | 0.1 | 0.3 | 0.3 |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm y tu allan i'r ardal leol | 0.2 | 0.1 | 0.0 | 0.0 |

Cynigiwyd atebion gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd. O ran gostyngiadau, roedd syniadau i leihau costau a dod o hyd i arbedion, lleihau lefelau staffio a gwneud mwy o waith ar y fferm a chymryd cyflogaeth amgen nad yw'n ymwneud â ffermio ymhlith yr atebion 'eraill' hyn. O ran cynnydd i daliadau, roedd yr atebion 'eraill' yn cynnwys syniadau i wella'r busnes o ran da byw ac offer o ansawdd gwell, buddsoddi yn y busnes a'i dyfu, cyflogi mwy o aelodau staff, ad-dalu dyledion a chanolbwyntio ar faterion amgylcheddol a chadwraeth. Roedd y cyfrannau 'Ddim yn gwybod a

gwrthodwyd' rhwng 13 y cant ac 16 y cant o'r rhai a gymerodd ran ar gyfer pob un o'r pedair sefyllfa.

Mae Tabl 4.23 yn dangos cyfrannau'r rhai a gyfwelwyd a ymatebodd i wahanol gyfuniadau o'r sefyllfaoedd.

**Tabl 4.23 Ymatebion ffermwyr i wahanol gyfuniadau o daliad**

| | Cytuno ag o leiaf un sefyllfa | | Cytuno ag un sefyllfa gynnydd | | Cytuno ag un sefyllfa gostyngiad | | Cytuno â phob sefyllfa | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | % | | % | | % | | **%** |
| **Busnes fel arfer** | 1873 | 78 | 1646 | 69 | 1313 | 55 | **546** | **23** |
| **Gadael ffermio** | 511 | 21 | 31 | 1 | **497** | **21** | 4 | 0 |
| **Cynyddu maint y gweithrediadau amaethyddol presennol** | 315 | 13 | 253 | 11 | 81 | 3 | 3 | 0 |
| **Lleihau maint y gweithrediadau amaethyddol presennol** | 313 | 13 | 34 | 1 | 287 | 12 | 0 | 0 |
| **Prynu offer fferm newydd** | 272 | 11 | 270 | 11 | 9 | 0 | 3 | 0 |
| **Ceisio mwy o dir** | 252 | 10 | 244 | 10 | 16 | 1 | 2 | 0 |
| **Dwysáu gweithrediadau amaethyddol presennol** | 207 | 9 | 112 | 5 | 110 | 5 | 3 | 0 |
| **Codi mwy o adeiladau fferm** | 209 | 9 | 208 | 9 | 5 | 0 | 2 | 0 |
| **Lleihau dwyster y gweithrediadau amaethyddol presennol** | 216 | 9 | 29 | 1 | 198 | 8 | 1 | 0 |
| **Dechrau gweithgarwch arallgyfeirio newydd** | 191 | 8 | 99 | 4 | 106 | 4 | 2 | 0 |
| **Ildio tir** | 119 | 5 | 18 | 1 | 104 | 4 | 1 | 0 |
| **Ehangu ar arallgyfeirio presennol** | 102 | 4 | 40 | 2 | 69 | 3 | 1 | 0 |
| **Newid fy math o ffermio** | 87 | 4 | 21 | 1 | 70 | 3 | 1 | 0 |
| **Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir** | 66 | 3 | 63 | 3 | 5 | 0 | 1 | 0 |
| **Lleihau gweithgareddau arallgyfeirio** | 36 | 1 | 5 | 0 | 32 | 1 | 0 | 0 |
| **Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir** | 20 | 1 | 7 | 0 | 14 | 1 | 0 | 0 |
| **Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau o'r tu allan i'r ardal leol** | 14 | 1 | 11 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| **Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm y tu allan i'r ardal leol** | 6 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 |

Y pwynt amlwg o'r tabl yw'r cyfrannau uchel o ffermwyr a oedd yn bwriadu parhau â 'Busnes fel arfer' dan y rhan fwyaf o amgylchiadau. Hefyd, roedd cyfran uchel o'r rhai a gytunodd â sefyllfa gostyngiad yn bwriadu gadael ffermio. Trafodir yr ymatebion allweddol hyn isod.

## 4.4 Ymatebion Allweddol i Newidiadau Damcaniaethol i Daliadau'r PAC

Y prif atebion o Dablau 4.22 a 4.23 oedd y rhai ar gyfer 'Busnes fel arfer' a ' Gadael ffermio'. Mae'r dadansoddiad canlynol yn archwilio'r ymatebion hyn ymhellach.

### 4.4.1 Busnes fel arfer

Mae'n eglur o'r tabl y byddai llawer o ffermwyr yn parhau gyda 'busnes fel arfer' pa bynnag newidiadau i'w taliadau PAC allai ddigwydd ar ôl y diwygio. Er nad oedd y cyfrannau ar gyfer 'busnes fel arfer' mor uchel yn yr achosion o ostyngiad, roedd yn dal i fod yn wir y byddai 34 y cant yn parhau gyda 'busnes fel arfer' pe bai gostyngiad sylweddol o fwy nag 20 y cant yn eu hwynebu. Mae'r dadansoddiad yn archwilio 'Busnes fel rheol' yn ôl maint, math a theipoleg y fferm; incwm oddi ar y fferm; ac arallgyfeirio.

#### 4.4.1.1 Busnes fel arfer a maint, math a theipoleg y fferm

O ystyried y cyfrannau uchel o ffermydd a fyddai'n parhau â 'Busnes fel arfer' yn unrhyw un o'r pedair sefyllfa, mae Tablau 4.24, 4.25 a 4.26 yn dadansoddi'r data yn ôl maint fferm LIC, math o fferm a theipoleg fferm LIC, yn eu trefn. Dewisodd cyfanswm o 546 (23 y cant) o ffermydd Fusnes fel arfer [BFA] yn unrhyw un o'r pedair sefyllfa.

**Tabl 4.24 Cyfrannau'r ffermydd a ddewisodd Busnes fel Arfer [BFA] yn ôl maint fferm LIC**

| Ffermydd a ddewisodd BFA | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| 546 | 1% | 3% | 10% | 32% | 53% |

**Tabl 4.25 Cyfrannau'r ffermydd a ddewisodd Busnes fel Arfer [BFA] yn ôl math fferm LIC**

| Ffermydd a ddewisodd BFA | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag Eidion | Arall/Cymysg |
|---|---|---|---|---|---|
| 546 | 8% | 30% | 19% | 13% | 30% |

**Tabl 4.26 Cyfrannau'r ffermydd a ddewisodd Busnes fel Arfer [BFA] yn ôl teipoleg fferm LIC**

| Ffermydd a ddewisodd BFA | Mwy – godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy – eraill | Bach – defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 546 | 6% | 5% | 3% | 10% | 22% | 53% |

O ystyried y tri thabl gyda'i gilydd, mae'n amlwg bod y ffermydd a fyddai'n dewis i barhau gyda 'busnes fel arfer' yn tueddu i fod yn ffermydd bach a bach iawn, yn ffermydd defaid ac yn ffermydd eraill/cymysg, ac yn ffermydd bach a bach iawn yn nheipoleg LIC. Ar y llaw arall, roedd gan ffermydd mawr a mawr iawn, ffermydd godro, a'r tri chategori mwy yn nheipoleg LIC gyfraddau isel a ddewisodd 'busnes fel arfer'. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â dadansoddiadau cynharach yn yr adroddiad hwn, sy'n dangos bod ffermydd mwy a ffermydd godro yn tueddu i fod â disgwyliadau mwy realistig o ran diwygio'r PAC

#### 4.4.1.2 Busnes fel arfer ac incymau oddi ar y fferm

Mae'r dadansoddiad yn archwilio'r berthynas bosibl rhwng ffermydd sy'n dewis BFA ac incymau oddi ar y fferm nawr. Mae'r dadansoddiad hwn yn aml-haen. Dyma'r haen gyntaf:

O'r 546 o ffermydd a ddewisodd BFA ym mhob sefyllfa, roedd gan 190 incymau oddi ar y fferm = 35 y cant.

Hynny yw, roedd gan fwy nag un o bob tri a fyddai'n parhau gyda busnes fel rheol dan unrhyw amgylchiadau ffynonellau incwm oddi ar y fferm. Mae hon yn gyfran uchel.

Mae'r ail haen ddadansoddi yn dangos, gan ddefnyddio'r categoriau maint fferm, math o fferm a theipoleg fferm LIC:

(i) Faint o ffermydd ddewisodd BFA ym mhob categori

(ii) Cyfran y ffermydd yn (i) oedd ag incymau oddi ar y fferm

Mae Tablau 4.27, 4.28 a 4.29 yn dangos y data hwn.

**Tabl 4.27 Busnes fel Arfer [BFA] wedi ei groesdablu gydag incwm oddi ar y fferm yn ôl maint fferm**

| | Cyfanswm | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffermydd BFA** | 546 | 6 | 17 | 56 | 177 | 290 |
| **Y nifer ag incwm oddi ar y fferm** | 190 | 5 | 4 | 18 | 54 | 109 |
| **Y gyfran ag incwm oddi ar y fferm** | 35% | 83% | 24% | 32% | 31% | 38% |

Cofiwch o Dabl 2.4 bod 53 y cant o ffermydd ‘bach iawn’ wedi dewis BFA, ynghyd â 32 y cant o ‘ffermydd bach’. Roedd y cyfrannau hyn yn sylweddol uwch na’r math eraill o fferm. ‘Mae Tabl 4.27 yn dangos bod

gan ffermydd ‘bach iawn’ a ffermydd ‘bach’ a ddewisodd BFA, ynghyd â ffermydd .

‘canolig’ BFA, tua’r gyfran ddisgwyliedig (35 y cant) o ffermydd ag incwm oddi ar y fferm. Gellid dadlau bod y ffigur uchel o 83 y cant ar gyfer ffermydd ‘mawr iawn’ wedi ei ystumio gan y niferoedd isel yn y categori hwn.

**Tabl 4.28 Busnes fel Arfer [BFA] wedi ei groesdablu gydag incwm oddi ar y fferm yn ôl math o fferm**

| | Cyfanswm | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffermydd BFA** | 546 | 43 | 164 | 104 | 71 | 164 |
| **Y nifer ag incwm oddi ar y fferm** | 190 | 18 | 53 | 37 | 15 | 67 |
| **Y gyfran ag incwm oddi ar y fferm** | 35% | 42% | 32% | 36% | 21% | 41% |

Gallwn weld o Dabl 4.25 bod gan ffermydd defaid, eidion ac eraill/cymysg gyfrannau uchel a ddewisodd BFA. Unwaith eto, roedd y cyfrannau yn y categoriau hyn a oedd ag incymau oddi ar y fferm naill ai rhyw fymryn yn is neu'n uwch na'r gyfran gyffredinol o 35 y cant. Roedd ffermydd godro a ddewisodd BFA ac a oedd ag incymau oddi ar y fferm yn uchel, ar 42 y cant, er bod y niferoedd yn y categori hwn yn isel.

**Tabl 4.29 Busnes fel arfer [BFA] wedi ei groesdablu gydag incwm oddi ar y fferm yn ôl teipoleg fferm LIC**

| | Cyfanswm | Mwy – godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy – eraill | Bach – defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffermydd BFA** | 546 | 34 | 28 | 17 | 56 | 121 | 290 |
| **Y nifer ag incwm oddi ar y fferm** | 190 | 15 | 8 | 4 | 15 | 39 | 109 |
| **Y gyfran ag incwm oddi ar y fferm** | 35% | 44% | 29% | 24% | 27% | 32% | 38% |

Pan grwpiwyd y ffermydd a ddewisodd BFA gan ddefnyddio teipoleg LIC, roedd y cyfrannau ag incymau oddi ar y fferm yn gyffredinol agos at y ganran gyffredinol o 35 y cant. Dim ond 'mwy-eraill' â 24 y cant oedd yn sylweddol is - roedd niferoedd yn isel yn y categori hwn. Mae'r 44 y cant ar gyfer 'mwy-godro' yn cyd-fynd â'r 42 y cant ar gyfer 'godro' yn Nhabl 4.28 - roedd y niferoedd yn debyg yn y ddau gategori.

O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r ffaith bod gan gyfanswm o 35 y cant o ffermydd BFA incymau oddi ar y fferm a bod y categorïau o ffermydd a oedd â'r cyfrannau uchaf o BFA yn dueddol o fod ag incymau oddi ar y fferm, yn awgrymu bod incwm oddi ar y fferm yn ffactor o ran cynllunio i barhau gyda 'busnes fel arfer'. Un esboniad posibl yw y tybiwyd bod incwm oddi ar y fferm yn yswiriant neu'n ddiogelwch yn erbyn amrywiadau i incymau a chymorthdaliadau ffermio.

#### 4.4.1.3 Arallgyfeirio, BFA ac incymau oddi ar y fferm

O ran arallgyfeirio, o'r 546 o ffermydd a ddewisodd 'busnes fel arfer' [BFA], mae'r data'n dangos mai'r rhai nad oeddent yn gweithredu mentrau arallgyfeirio oedd yn fwy tebygol o ddewis BFA na'r rhai a oedd yn gweithredu mentrau arallgyfeirio. 57 y

cant (309 fferm) a 43 y cant (237 fferm), yn eu trefn, oedd y cyfrannau.

O ran incymau oddi ar y fferm, roedd 49 y cant (452 fferm) o'r 926 fferm ag incymau oddi ar y fferm yn gweithredu mentrau arallgyfeirio ac nid oedd 51 y cant (474 fferm) yn gwneud hynny.

Mae Tabl 4.30 yn crynhoi'r tair haen ddadansoddi hon ac yn dangos cyfrannau'r ffermydd sy'n arallgyfeirio a ddewisodd BFA ym mhob un o'r pedair sefyllfa a oedd ag incymau oddi ar y fferm hefyd.

**Tabl 4.30 Arallgyfeirio, BFA ac incymau oddi ar y fferm**

| | Incymau oddi ar y fferm | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | Oeddent | Nac oeddent | Gwrthod ateb | |
| Nifer y ffermydd sy'n arallgyfeirio a ddewisodd BFA | 92 | 141 | 4 | 237 |
| Cyfran | 39% | 59% | 2% | 100% |

Yn gyffredinol, mae'r dadansoddiad hwn yn cefnogi'r syniadau sy'n sail i arallgyfeirio, sy'n awgrymu y dylai ffermydd symud oddi wrth 'busnes fel arfer' amaethyddol a chwilio am fentrau eraill sy'n gysylltiedig â'r fferm. Mae'r dadansoddiad hefyd yn awgrymu nad oedd incymau oddi ar y fferm yn brif ffactor wrth ddewis arallgyfeirio.

### 4.4.1.4 Crynodeb o Fusnes fel arfer

Mae'r canfyddiadau yn ymwneud â 'busnes fel arfer' yn datgelu ceidwadaeth gynhenid a ddangosir gan ddymuniad sy'n ymddangos yn gryf ymhlith ffermwyr i barhau gyda busnes fel arfer waeth beth fo goblygiadau ariannol posibl diwygio'r PAC, er ei bod yn ymddangos bod incwm oddi ar y fferm yn ffactor hefyd. Efallai y bydd ffermwyr yn newid dwysedd eu ffermio ond nid ei natur. Ond mae'n rhaid bod cwestiynau am ba mor realistig yw'r cynlluniau hyn yng ngoleuni'r data elw a cholled a ddadansoddwyd yn Adran Tri, sy'n dangos, er enghraifft, bod llai na hanner (46 y cant) o fusnesau fferm wedi gwneud elw, heb gymorthdaliadau a'r incwm o weithgareddau arallgyfeirio. Mae Tabl 4.31 yn dangos y data elw a cholled ar gyfer y 546 o ffermydd hynny a oedd yn bwriadu parhau gyda 'busnes fel arfer' yn yr holl sefyllfaoedd 'cynnydd' a 'gostyngiad': h.y. dan unrhyw amgylchiadau.

**Tabl 4.31 Elw a Cholled – y ffermydd a ddewisodd Busnes fel Arfer ym mhob sefyllfa**

| Ffermydd a ddewisodd BFA | Elw | Adennill costau | Colled | Ddim yn gwybod | Gwrthod ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| 546 | 282 | 99 | 141 | 2 | 22 |
| 100% | 52% | 18% | 26% | 0% | 4% |

Yn debyg i'r ffigurau cyffredinol, tua 50 y cant oedd cyfran y ffermydd a ddewisodd 'busnes fel arfer' [BFA] a wnaeth elw. Er bod cyfrannau mwy o'r is-set BFA wedi gwneud elw nag ar draws yr arolwg cyfan (52 y cant o'i gymharu â 46 y cant), mae'r ffigur hwn yn dal i awgrymu rhagolwg llai na realistig, yn enwedig pan fo mwy na chwarter (26 y cant) y ffermydd a ddewisodd BFA wedi gwneud colled.

roedd yn ymddangos bod y geidwadaeth hon yn ymestyn i brynu a gwerthu mewnbynnau a chynnyrch, ac roedd cyfrannau hynod isel yn bwriadu prynu neu werthu yn fwy lleol. Mae gan hyn oblygiadau posibl i bolisi LlC, a fydd yn cael eu harchwilio yn y cyfweliadau dilynol yn ystod camau diweddarach y gwaith ymchwil. Dylai'r cyfweliadau hyn hefyd, os yw'n bosibl, archwilio'r hyn y mae ffermwyr yn bwriadu ei wneud gydag unrhyw daliadau PAC ychwanegol, os nad ydynt yn mynd i ehangu.

.

Roedd y niferoedd a ddewisodd adael ffermio ar gyfer y ddwy sefyllfa 'cynnydd i daliadau' yn isel.

Mae Tabl 4.32 yn dangos croesdabliadau ar gyfer y newidyn 'Gadael ffermio' a'r newidynnau grŵp oedran. Gan fod y niferoedd yn isel mewn rhai grwpiau, nid yw canrannau o lai nag un wedi eu crynhoi i gyfanrifau.

### 4.4.2 Gadael ffermio

Mae gadael ffermio yn benderfyniad mawr iawn ac nid yw'n un i'w wneud ar chwarae bach. Roedd cyfran yr ymatebwyr a fyddai'n gadael ffermio yn cynyddu'n sydyn yn ôl maint y gostyngiad posibl i daliadau PAC. O gael eu hwynebu â gostyngiad o lai nag 20 y cant, byddai saith y cant yn gadael ffermio ond byddai ychydig yn fwy nag 20 y cant o ffermwyr yn gadael y diwydiant pe bai gostyngiad o fwy nag 20 y cant. Byddai cyfanswm o 497 o ffermwyr yn gadael ffermio pe bent yn cael eu hwynebu gan un o'r ddwy sefyllfa o ostyngiad i daliadau'r PAC.

Roedd y rhain yn gyfrannau cymharol uchel o 'adawyr' posibl a cheir goblygiadau posibl yma i bolisi LlC o ran gwydnwch diwydiant ffermio Cymru.

**Tabl 4.32 Y cyfrannau sy'n dewis gadael ffermio os bydd Gostyngiadau/Cynnydd i daliadau'r PAC yn ôl grŵp oedran**

| | | Y cyfrannau sy'n dewis gafael ffermio – sefyllfaoedd gostyngiad/cynnydd | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp oedran** | **Nifer yn y grŵp oedran** | **Gostwng mwy nag 20%** | **Gostwng llai nag 20%** | **Cynyddu llai nag 20%** | **Cynyddu mwy nag 20%** |
| **O dan 45 oed** | 287 | 19% | 8% | 1% | 0.3% |
| **45 i 54 oed** | 614 | 23% | 7% | 0.7% | 0.7% |
| **55 i 64 oed** | 740 | 18% | 5% | 1.2% | 0.8% |
| **65 oed neu'n hŷn** | 736 | 20% | 8% | 0.8% | 0.5% |
| **Gwrthod ateb** | 25 | - | - | - | - |
| **Yn gyffredinol** | 2402 | 20% | 7% | 1% | 0.6% |

Roedd 287 o ymatebwyr i'r arolwg yn iau na 45 oed: byddai 19 y cant (53) o'r rhain yn dewis gadael ffermio pe bai eu taliadau yn gostwng o fwy nag 20 y cant. Roedd hyn ychydig yn is na'r gyfran gyffredinol o 20 y cant. Mae'r tabl yn dangos nad oedd oedran yn ffactor gwahaniaethu yn y penderfyniadau i adael ffermio. Ar gyfer y ddwy sefyllfa o ostyngiad i daliadau'r PAC, roedd gwahaniaethau cymharol fach ar draws y grwpiau oedran ac roedd y gwahaniaethau hyn yn troi ar y ffigur cyffredinol. Y gwahaniaeth mwyaf oedd y pum pwynt canran rhwng y grwpiau oedran 45-54 a 55-64, gyda'r rhai yn y grŵp hŷn yn llai tebygol o adael ffermio. Ceir goblygiadau i bolisi LIC yma; mae'n debyg bod y diwygiadau drafft yn awgrymu y dylid annog ffermwyr iau.

Roedd cyfrannau'r ffermwyr a ddewisodd gadael ffermio pe bai cynnydd i daliadau'r PAC yn isel iawn, a phrin oedd y rhai ym mhob categori oedran a gyrhaeddodd un y cant. Y mwyaf tebygol o adael dan yr amgylchiadau hyn oedd y rhai rhwng 55 a 64 oed; y rhai â chynlluniau olyniaeth; a'r rhai â ffermydd rhent, er, a hynny'n anesboniadwy, y rhai â ffermydd eiddo/rhent cymysg oedd y mwyaf tebygol oll o adael yn y sefyllfa 'Cynnydd o fwy nag 20 y cant'. Gellid dadlau bod y rhai a ddewisodd gadael ffermio yn dilyn cynnydd i daliadau'r PAC wedi penderfynu gadael ffermio am resymau eraill eisoes.

Mae crosdablu ar gyfer olyniaeth yn dangos bod yr ymatebwyr hynny nad oes ganddynt gynlluniau olyniaeth ychydig yn fwy tebygol o adael ffermio ar draws pob un o'r sefyllfaoedd gostyngiad a chynnydd. Dim ond yn achos 'gostyngiad o fwy nag 20%' oedd gwahaniaeth amlwg o bedwar pwynt canran rhwng y rhai â chynlluniau olyniaeth a'r rhai hebddynt. Ffracsiwn o bwynt canran oedd y gwahaniaeth yn y sefyllfaoedd eraill.

O ran daliadaeth, mae croesdabliadau yn dangos mai'r ymatebwyr hynny yr oedd eu ffermydd yn eiddo i'r teulu oedd y lleiaf tebygol o adael ffermio, ac nid yw hynny'n syndod. Roedd cysylltiadau tir a theulu yn amlwg yn 'Arolwg Cartrefi Ffermio' Arsyllfa Wledig Cymru (2010) a byddant yn cael eu

harchwilio ymhellach yn y cyfweliadau dilynol i'w cynnal yn ystod camau diweddarach y prosiect hwn.

O ystyried y niferoedd isel a fyddai'n gadael ffermio pe bai cynnydd i daliadau'r PAC, mae Tablau 4.33, 4.34 a 4.35 yn canolbwyntio ar y rhai a ddewisodd gadael ffermio pe bai eu taliadau PAC yn gostwng, ac yn dadansoddi'r data yn ôl maint fferm LIC, math o fferm a theipoleg fferm LIC, yn eu trefn.

**Tabl 4.33 Y cyfrannau sy'n dewis gadael ffermio pe bai Gostyngiadau i daliadau'r PAC yn ôl maint fferm LIC**

| Ffermydd sy'n dewis gadael ffermio | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| 497 | 1% | 3% | 12% | 46% | 38% |

**Tabl 4.34 Y cyfrannau sy'n dewis gadael ffermio pe bai Gostyngiadau i daliadau 'r PAC yn ôl math o fferm LIC**

| Ffermydd sy'n dewis gadael ffermio | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag Eidion | Arall/Cymysg |
|---|---|---|---|---|---|
| 497 | 8% | 32% | 20% | 22% | 18% |

**Tabl 4.35 Y cyfrannau sy'n dewis gadael ffermio pe bai Gostyngiadau i daliadau'r PAC yn ôl teipoleg fferm LIC**

| Ffermydd sy'n dewis gadael ffermio | Mwy – godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy – eraill | Bach – defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 497 | 7% | 8% | 2% | 15% | 31% | 38% |

O ystyried Tablau 4.33, 4.34 a 4.35 gyda'i gilydd, maent yn datgelu bod ffermydd mawr iawn, mawr a chanolig, ffermydd godro a'r categorïau mwy o deipoleg LIC yn llawer llai tebygol o adael ffermio pe bai gostyngiadau i daliadau'r PAC na ffermydd bach iawn, bach a defaid. O gofio bod mwyafrif y ffermydd yng Nghymru yn y categorïau hynny sy'n fwy tebygol o adael ffermio pe bai eu taliadau PAC yn gostwng, dylai hyn beri pryder i lunwyr polisi LIC.

**4.4.2.1 Incwm oddi ar y fferm a gadael ffermio**

O'r 497 o ffermwyr a ddewisodd gadael ffermio pe bai eu taliadau PAC yn cael eu gostwng, yn y naill neu'r llall o'r ddwy

sefyllfa ostwng, roedd gan 40 y cant (199 fferm) incymau oddi ar y fferm. Roedd hon yn gyfran uchel ac mae'n awgrymu bod meddu ar incwm oddi ar y fferm yn ffactor o ran gadael ffermio.

#### 4.4.3 Ymatebion eraill

Roedd yn ymddangos bod ymatebion posibl eraill i ddiwygio'r PAC, fel cynyddu/gostwng gweithrediadau amaethyddol ac adeiladu mwy o adeiladau fferm wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â chynnydd a gostyngiadau i daliadau'r PAC. Byddai cyfrannau cymharol fach yn addasu eu gweithgareddau arallgyfeirio, a byddai cyfrannau llai fyth yn addasu eu prynu a'u gwerthu o gynhyrchion a gwasanaethau yn lleol neu ymhellach i ffwrdd.

Roedd cyfrannau cymharol uchel o ffermwyr yn bwriadu prynu offer fferm newydd pe bai cynnydd i daliadau'r PAC (pump a deg y cant). Bydd lle'r oeddent yn bwriadu prynu'r offer hwn – yn lleol neu gan ddefnyddio cyflenwyr mwy ac efallai mwy arbenigol – yn cael ei archwilio yn y cyfweliadau dilynol.

Prin oedd y ffermwyr – pump y cant ar y mwyaf – oedd yn bwriadu rhoi eu tir i ffwrdd. Mae gan hyn oblygiadau posibl i bolisi LlC o ran cyflenwad tir a newydd-ddyfodiaid i fyd ffermio.

## 4.5 Gwybodaeth Ychwanegol am y PAC

#### 4.5.1 Pryderon am gynigion gwyrddhau'r PAC

Gofynnwyd i bawb a gymerodd ran yn yr arolygiad ynglŷn â'u prif bryderon am gynigion gwyrddhau'r PAC. Mae Tabl 4.36 yn dangos y canlyniadau hyn. Sylwer y caniatawyd ymatebion lluosog; o'r herwydd, daw cyfanswm y 'cyfrannau o'r holl ffermydd' i fwy na 100 y cant.

**Tabl 4.36 Prif bryderon am gynigion materion gwyrdd y PAC**

| | Nifer | Cyfran o'r holl ffermydd |
|---|---|---|
| Dim/Dim pryderon | 1124 | 47% |
| Bydd yn rhy gaeth/gymhleth | 230 | 10% |
| Gostyngiad mewn cynhyrchu bwyd/mynd â thir i ffwrdd o gynhyrchu bwyd | 223 | 9% |
| Angen mwy o wybodaeth | 201 | 8% |
| Ddim yn ymarferol/afrealistig | 119 | 5% |
| Gormod o bwyslais ar yr amgylchedd | 105 | 4% |
| Gostyngiad mewn taliadau/grantiau/cymorthdaliadau | 102 | 4% |
| Manteision ar gyfer Ffermydd Mawr<br>Anfantais ar gyfer Ffermydd Bach<br>Ffermwyr Iau | 93 | 4% |
| Gormod o dâp coch/gwaith papur/rhy fiwrocrataidd | 65 | 3% |
| Ddim yn cytuno â hyn/mae'n annheg/rwy'n pryderu amdano | 48 | 2% |
| Diwygiadau a wneir gan bobl y tu allan i ffermio | 38 | 2% |
| Costau ychwanegol sydd eu hangen i gymhwyso/gorfod gwario mwy i gymhwyso | 29 | 1% |
| Angen gwell cydbwysedd rhwng cynhyrchu bwyd a'r amgylchedd | 28 | 1% |
| Bydd yn effeithio ar brisiau bwyd/ac prisiau'r farchnad | 18 | 1% |
| Arall | 69 | 3% |

Mae Tabl 4.36 yn dangos nad oedd gan bron i hanner (47 y cant) o boblogaeth yr arolwg unrhyw bryderon am y cynigion materion gwyrdd. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r pryderon a fynegwyd. Mae'r testun canlynol yn nodi pryderon y ffermwyr am gynigion materion gwyrdd y PAC drwy gasgliad o ddyfyniadau gan ymatebwyr. Nid yw'r dyfyniadau hyn gan ffermwyr yn cynrychioli ffermwyr yng Nghymru; ond yn hytrach, maent yn tynnu sylw at rai o'r materion sy'n achosi pryder i ffermwyr. Er bod y dyfyniadau yn anhysbys, maent wedi'u labelu yn ôl rhyw, oedran, maint y fferm, math o fferm, incwm yr aelwyd a p'un a oedd gan y fferm incwm oddi ar y fferm ai peidio. Mae'r testun wedi'i drefnu'n gyfres o themâu. Ceir, wrth gwrs, orgyffwrdd rhwng themâu.

Y prif bryderon oedd y byddai gostyngiad mewn cynhyrchu bwyd yn deillio o dir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill ac y byddai'r cynigion materion gwyrdd yn rhy gaeth a chymhleth. Fel y nododd y ffermwr hwn:

> *'Byddan nhw'n rhy gaeth a chymhleth. Alla i ddim defnyddio gwrtaith ac rwy'n cael fy nghyfyngu o ran yr hyn y gellir ei blannu. Maen nhw'n dweud wrtha i beth galla i ei wneud."*

Ac roedd yr ymatebwr hwn am gael cymorth:

> *'Syrthio i fagl un o'r rheolau ar ddamwain a chael fy nghosbi.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

Roedd rhai sylwadau yn benodol ac yn dechnegol:

> *'Rwy'n arbenigo mewn garddwriaeth. Rwy'n cylchdroi'r cae unwaith bob pum mlynedd, ac yn eu barn nhw, mae hyn yn golygu nad yw'n ecogyfeillgar - ond mewn gwirionedd, mae'n ecogyfeillgar.' (Dyn, 45-54, Mawr, Arall/cymysg, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

Roedd amrywiaeth o bryderon am ostyngiad posibl mewn cynhyrchiant bwyd, fel y mae'r casgliad o ddyfyniadau canlynol yn dangos:

> *'Rwy'n teimlo eu bod yn ddiangen - a cholli deg y cant o dir.' (Dyn, 45-54, Mawr iawn, Arall/cymysg, 31k-52k, oddi ar incwm fferm)*

> *'Ni ddylai tir pori gael ei roi yn rhan o'r cynnig gwyrddu.' (Dyn, 45-54, Mawr, Godro, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Alla i ddim clustnodi mwy o dir at ddibenion amgylcheddol. Rydyn ni'n ecogyfeillgar beth bynnag.' (Merch, 65+, Bach iawn, Arall/cymysg, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *Rwy'n credu y dylen nhw drafod cynhyrchiant bwyd. Rydyn ni wedi plannu miloedd ar filoedd o blanhigion perthi ac wedi creu ffensys dwbl. Rydyn ni wedi gwneud gwaith gwych. Rwy'n credu y dylen nhw gymryd hynny i ystyriaeth.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid)*

> *'Rwy'n pryderu fod gormod o dir yn cael ei dynnu wrth amaethyddiaeth pan ddylai fod yn cynhyrchu bwyd. Mae llawer o sôn am adeiladu safleoedd 'gwyrdd' pan fo tai yn cael eu hadeiladu ar safleoedd 'llwyd'. Does neb yn ystyried bod mwy o dir yn cael ei glustnodi ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd na thir sy'n cael ei glustnodi ar gyfer safleoedd maes glas.' (Dyn, Bach iawn, Defaid, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Dydw i ddim yn erbyn yr egwyddor o'r gwyrddu, ond cyn bo hir, bydd prinder o fwyd. Rwy'n teimlo ein bod ni'n cael ein hannog i fynd tuag at y cyfeiriad gwyrdd ond ymhen deng neu 15 o flynyddoedd, bydd gofyn i ni fynd i gyfeiriad arall. Mae cyllideb ffermio'r UE yn cael ei gwario ar wyrddu yn hytrach nag arferion ffermio am resymau gwleidyddol yn hytrach na rhesymau economaidd.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Gallai ddiddymu gormod o'r tir cynhyrchiant mewn sefyllfa lle maen nhw'n dweud wrthym bydd y byd yn brin o fwyd. Yn annog anifeiliaid fel cwningod a fermin, sy'n golygu na fydd modd defnyddio tir cynhyrchiol. (Dyn, 45-54, Bach, Arall/cymysg, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Rwy'n credu eu bod yn tueddu i roi mwy o ystyriaeth i anifeiliaid a bywyd gwyllt nac i'r ffermwyr.' (Dyn, 65-54, Bach iawn, Eidion, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Byddai hefyd yn dadwneud llawer o waith a wnaed gan ein cyndeidiau, clirio'r bryniau er mwyn eu gwneud yn addas ar gyfer pori.' (Merch, 35-44, Bach, Defaid ac eidion, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*Mae wedi cymryd oes i greu'r fferm ac maen nhw'n dweud wrthym am roi tir nôl i fyd natur; mae byd natur yn cymryd tir yn ôl ar ei liwt ei hun. Mae'n frwydr barhaus i atal hyn rhag digwydd - nawr maen nhw'n dweud wrthym ni am adael i ddigwydd.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid gydag Eidion, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Ni ddylai arian fynd tuag at bryderon gwyrddu. Dylai fynd tuag at ymchwil ar ddefnydd mwy effeithlon o wrtaith, a'r glaw a'r tir sydd eisoes gennym.' (Dyn, 55-64, Bach, Defaid gydag eidion, 10k - 15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae aredig tir pori yn bryder mawr.' (Dyn, 35-44, Canolig, Arall/cymysg, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Nid yw'r bobl sy'n ei wneud yn deall sut mae'n gweithio ac maen nhw'n canolbwyntio mwy ar yr ochr amgylcheddol yn hytrach na chynhyrchu bwyd. Mae angen iddyn nhw gofio bod cefn gwlad yn edrych fel y mae oherwydd y ffermwyr.' (Dyn, 35-44, Bach, Eidion, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Maen nhw'n tynnu'r pwyslais oddi wrth gynhyrchu bwyd. Mae angen iddyn nhw ganiatáu i ni losgi prysgdir er mwyn atal tanau. Mae gormod o goed peryglus ger y ffyrdd.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, 21k - 31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Efallai mai'r goblygiadau yw y bydd ffermwyr yn dwysau.' (Dyn, 45-54, Bach, Defaid gydag eidion, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Annogir ffermio llai dwys. Cyfyngir ar ddwysedd stoc, annogir ecoleg yn ormodol, cyfyngirar aredig, lefalu defnyddio nitrogen - yn gyfan gwbl yn erbyn ffermio dwys. Mae'r cynnydd a wnaed yn y byd ffermio yn ystod 40 mlynedd yn mynd yn ôl. (Dyn, 35-44, Bach, Defaid gydag eidion, 21k - 31k, incwm oddi ar y fferm)*

Roedd pryderon eraill yn canolbwyntio ar berthnasau rhwng Diwygio'r PAC, mesurau gwyrddu a Glastir ac ymgyrchoedd eraill amaeth-amgylcheddol. Pryder tebyg oedd mae'n debyg fod yna bwyslais ar dalu pobl i newid, ond ni fyddai'r rhai a oedd eisoes yn ymwneud â 'gwyrddu' yn derbyn taliadau gwyrddu.

*'Dydyn ni ddim yn mynd i gael ein talu am yr holl waith amgylcheddol rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn. Dyna sut mae'n ymddangos.' (Dyn, 45-54, Bach iawn, Arall/cymysg, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Rwy'n ofni y bydd yn rhaid iddynt ail-ysgrifennu Glastir' (Dyn, 45-54, Bach, Arall/cymysg, incwm oddi ar y fferm)*

*'Gwrthdaro â chynlluniau Glastir, y rheol am dorri coed, canran y priodweddau ar gyfer tir ecolegol a dim hawl i aredig y tir gorau.' (Dyn, 35-44, Bach, Defaid gydag eidion, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Sut maent yn cael eu gweithredu - mae'n ymddangos bod mwy o bwyntiau ar gyfer yr hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud yn hytrach na'r hyn rydych chi'n ei wneud mewn gwirionedd. Mae mwy o bwyslais ar newid i wyrddu yn hytrach na pharhau i gynnal gweithgarwch*

*gwyrdd.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Eidion, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Dydw i ddim yn hoffi'r ffaith mai 30 y cant ydyw, mae'n ormod ac mae'n ymyrryd â'r hyn mae cynllun Glastir yn ei wneud yng Nghymru.' (Dyn, 45-54, Canolig, Defaid, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Rydw i wedi bod yn rhan o gynllun Tir Gofal ers nifer o flynyddoedd bellach, felly rydw i eisoes wedi gwneud y gwaith, felly rydw i wedi achub ar y blaen, ond rwy'n pryderu y byddaf yn cael fy nghosbi am wneud y gwaith ymlaen llaw. Efallai na fydd y tir sydd gen i yn addas ar gyfer yr arallgyfeirio mewn cnydau sy'n cael ei gynnig. (Dyn, 45-54, Bach, Eidion, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Y ffordd gwnaethant eu gosod, rwy'n tybio. Pan gynhaliwyd cyfarfodydd Glastir, roedd rhai pethau'n ymddangos yn anghywir, fel ffensio dwbl - os oeddech chi wedi gwneud hynny eisoes, ni fyddech yn derbyn yr arian grant.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Arall-cymysg, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Rheoli'r newid o'r cynllun blaenorol i'r cynllun newydd, a sut y bydd y ddau gynllun yn integreiddio.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, 31k - 52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Arian sy'n cael ei roi i bobl nad ydynt erioed wedi cydymffurfio â mesuriadau gwyrddu. Ond nid yw ffermwyr sydd wedi'i wneud eisoes yn cael unrhyw beth. (Merch, 65+, Bach iawn, Arall/cymysg, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Symud Tir Gofal i Glastir.' (Dyn, 65+ Bach iawn, Eidion, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Bydd yn gwrthdaro yn erbyn Glastir, ac wnes i ymuno â hwnnw yn ddiweddar.' (Dyn, 35-44, Bach, Defaid, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Byddwn ni'n cael ein hanwybyddu. Mae gennym fwy na 12 erw o goetir ac yn ôl cynllun Glastir, nid yw hynny'n golygu unrhyw beth. Rydych chi'n elwa mwy wrth newid i wyrddu yn hytrach na bod gennyech y nodweddion hynny ar waith eisoes.' (Dyn, 45-54, Bach, Defaid, 31k-52k, incwm heb fod ar y fferm)*

*Mae'n debyg y bydd rhaid i ni ymuno â rhywfath o gynllun cadwraeth. Ond yng Nghymru, dim ond Glastir sy'n bodoli, ac nid yw'n gynllun da iawn. Rwy'n credu y byddai cynllun stiwardiaeth fel y rhain yn Lloegr, yn well. (Merch, 45-54, Bach, Defaid gydag eidion, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*‘Ni fydd y cynigion gwyrddu'n ystyried y gwaith da a wnaed gyda chynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol. Os nawn ni ddechrau o'r newydd a disgwyl mwy o waith a fydd yn achosi problemau difrifol.' (Dyn, 65+, Mawr, Defaid, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Nid yw'n ymddangos eu bod nhw'n ystyried mesurau blaenorol a wnaed yn ystod y gorffennol. Rydw i wedi gwneud llawer o waith gyda pherthi a ffensys dwbl na fydd yn cael eu hystyried.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Defaid, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*

*'Maen nhw'n dweud na fyddan nhw'n caniatáu’r rhai rydyn ni wedi'u gwneud eisoes.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Eidion, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Yn rhy gymhleth ac nid yw'r ffermwyr sydd wedi bod yn gyfeillgar i'r amgylchedd yn ystod yr 20*

*mlynedd diwethaf yn derbyn cymhorthdal digonol.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Arall/cymysg, 10k - 15.5k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Rydyn ni wedi cydymffurfio â gwyrddu ac wedi helpu'r amgylchedd. Nawr, ni fyddwn ni'n gallu hawlio unrhyw beth ychwanegol ar ein tir.' (Merch, 55-64, Bach, Defaid, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Rydyn ni'n gobeithio y bydd Glastir yn cael ei ystyried fel gwyrddu.' (Merch, 45-54, Bach, Defaid gydag eidion, 31k - 52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Rydyn ni wedi gwneud gwaith ar gyfer Glastir felly hoffwn i pe bai'r broses gwyrddu'n ystyried hynny.' (Dyn, 35-44, Bach iawn, Defaid gydag eidion, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*

*'Rwy'n teimlo eu bod yn ein cosbi yn hytrach na chynnig anogaeth. Ceir cymaint o reoliadau. Rydym wedi ymgymryd ag arferion amgylcheddol ein hunain eisoes, ond am ein bod wedi gwneud hynny cyn y cynllun, ni fydd yn bosibl i ni gael mynediad at y rhannau hynny yn y cynllun.' (Dyn, 45-54, Bach, Arall/cymysg, 10k - 15.5k, incwm oddi ar y fferm)*

Mae'r cyfeiriad yn y dyfyniad uchod at wobrwyo a chosbi, yn adlewyrchu'r pryderon bod ffermwyr yn cael eu gorfodi i broses gwyrddu'r PAC.

*'Mae'n cael ei wthio arnom, gyda llai o anogaeth a mwy o orfodaeth.' (Dyn, 35-44, Mawr, Godro, 31k - 52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae cryn dipyn yn ddisynnwyr, ac rydyn ni eisoes yn gwneud llawer ohono beth bynnag. Rydyn ni'n cael ein gorfodi i wneud pethau nad ydynt yn gwneud synnwyr.' (Merch, 55-64, Bach, Defaid, incwm oddi ar y fferm)*

*'Y pryderon mwyaf yw y byddwn ni'n cael ein gorfodi i'w wneud hyn hytrach na chael dewis ac mae bob amser y perygl o anghofio i gynhyrchu.' (Merch, 45-54, Bach iawn, Defaid, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*‘Mae llawer iawn eisoes yn cael ei wneud. Dylai fod yn wirfoddol ac mae'r pwyslais yn symud oddi wrth gynhyrchu bwyd. Mae llawer eisoes yn cael ei roi i fywyd gwyllt a byd natur.' (Merch, 55-64, Canolig, Arall/cymysg)*

Pryder, sy'n cael ei drafod nes ymlaen yn yr adroddiad hwn o dan 'Weledigaethau ffermwyr ar gyfer y dyfodol', oedd dechreuad grŵp ceiswyr rhent. Hynny yw, perchnogion tir a wnaeth dderbyn taliadau ar gyfer tir nad oeddent yn ei ffermio: mae categori o ffermwyr nad ydynt yn ffermio i raddau yn gyfatebol i'r cwota llaeth cywilyddus o 'gynhyrchwyr nad ydynt yn cynhyrchu.'

*'Rwy'n teimlo ei fod yn rhoi taliadau at ddibenion ffermio i bobl nad ydynt yn ffermio.' (Merch, 65+, Bach, Eidion, incwm oddi ar y fferm)*

*'Rwy'n credu y dylai'r holl daliadau fynd at ffermwyr actif' (Dyn, 45-54, Canolig, Defaid gydag eidion, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae'n cymryd arian wrth ffermwyr a'i roi i berchnogion tir.' (Dyn, 35-44, Bach iawn, Arall/cymysg, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Nid yw pobl sydd wir yn gweithio ar y tir, (yn hytrach na dim ond ei rentu) yn derbyn cydnabyddiaeth nac unrhyw daliadau am wneud hynny.' (Merch, 55-64, Bach iawn,*

*Arall/cymysg, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Dylai arian gael ei roi i'r bobl sy'n ffermio yn hytrach nag i bobl nad ydyn nhw'n ffermio.' (Dyn, 65+, Bach, Eidion, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Dylai'r holl beth gael ei ddiddymu. Mae'n rhoi arian i bobl sy'n ffermio o'u hystafell fyw - does dim rhaid iddyn nhw wneud unrhyw beth.' (Merch, 35-44, Bach iawn, Cig Eidion, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

Beirniadwyd darpariaeth ynni adnewyddadwy proses gwyrddu'r PAC.

*'Byddwn i ddim yn hoffi meddwl bod gennym ni lifogydd ac yn gorfod defnyddio dulliau eraill o bŵer, bydd ydych chi'n ei wneud os ydy'r gwynt yn tawelu? Byddwn i'n hoffi gweld mwy o ddefnydd o ynni dŵr.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Dydw i ddim yn credu fod y dechnoleg yn ddigon da i gyfiawnhau gwario £8,000 ar declyn ynni solar ar y to.' (Dyn, 45-54, Bach iawn, Eidion, incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae cynlluniau ynni adnewyddadwy yn wrthgynhyrchiol. Mae cefn gwlad wedi'i ddifrodi'n ddi-angen. Hefyd, mae creu coedwig gyda thir amaeth yn wastraff.' (Dyn, 55-64, Bach, Arall/cymysg, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Gall ffermydd gwynt achosi protest gan bobl y dref am eu bod yn cael eu gosod yn agos i'r dref.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, 21k - 31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Pryderu am fferm wynt gerllaw. Mae'r ceblau wedi'u gosod ar draws fy nhir, a doedd gen i ddim dewis am y peth.' (Merch, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg)*

Roedd rhai'n dadlau yn erbyn taliadau PAC ac o blaid prisiau marchnad gwell, ac roedd rhai'n dadlau y dylai cymorthdaliadau PAC fod ar wahan i'r gwyrddu.

*'Dydw i ddim yn credu bod PAC yn sylfaen ymarferol ar gyfer amaethyddiaeth a dylid rhoi'r gorau iddo yn gyfan gwbl.' (Merch, 55-64, Bach, Arall/cymysg, 35-44, incwm oddi ar y fferm)*

*'Rwy'n credu y bu'n artiffisial iawn erioed. Dydw i ddim yn teimlo y dylwn i gael cymhorthdal beth bynnag. Rwy'n credu bod diwygiad wedi bod ar y gweill ers amser.' (Merch, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Rwy'n credu y dylai PAC fod ar wahân i'r mater gwyrddu.' (Dyn, 45-54, Bach, Defaid, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

*Ni ddylai fod yn rhan o'r taliad sengl. Dylai fod yn rhan o'r cynlluniau amaeth-amgylchedd.' (Dyn, 55-64, Bach, Defaid, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae'n well gen i gael prisiau marchnad gwell na chymhorthdal PAC.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Eidion, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Maen nhw am inni gynhyrchu mwy o fwyd, ond yn ein rhwystro gyda'r effaith gwyrddu. Dylai fod ar wahân i daliadau PAC Mae yna ardaloedd lle y byddai'n bosibl creu corneli cadwraeth. Dylen nhw ganolbwyntio ar ar rannau o'r tir yn hytrach na'r cyfan.' (Dyn, 35-44, Canolig, Defaid gydag eidion, heb incwm oddi ar y fferm)*

Dadleuodd nifer fach o ymatebwyr (chwech) 'nad oedd y cynigion gwyrddu yn mynd yn ddigon pell' ac y byddai arian yn cael ei wario yn y mannau anghywir.

> *'Dydyn nhw ddim yn gwneud digon ac maen nhw'n mynd i wario arian ar ffermydd nad ydyn nhw'n wyrdd.' (Dyn, 45-54, Bach iawn, Arall/cymysg, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

Yn olaf, ar y pwynt hwn, roedd yna nifer o bryderon polisi yn gyffredinol, roedd rhai ohonynt yn bryderon sy'n cael eu hail adrodd uchod.

> *'Dim hyblygrwydd, dim elfen o gynhyrchu bwyd o gwbl, y prif fater arall yw nad oes unrhyw gymalau optio allan i bobl sy'n ymddeol neu'n gwerthu eu tir.' (Dyn, 55-64, Canolig, Godro, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Yr effaith y gallai ei gael ar golofn dau.' (Dyn, 45-54, Canolig, Defaid, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Mae hynny'n seiliedig ar dempled Ewropeaidd yn hytrach na thempledi Prydeinig na Chymreig, a'r pryder mwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg oedd nad yw'r mesurau gwyrddu sydd eisoes wedi cael eu creu wedi cael eu cydnabod. Mae gwneuthurwyr polisïau yn anghofio bod cynhyrchiant yn hanfodol mewn byd llwglyd. (Dyn, 45-54, Canolig, Defaid, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Nid yw aelod wladwriaethau eraill yr UE yn ystyried taliadau gwyrdd Colofn Un. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru o'r farn na fydd yr UE yn ystyried cynlluniau fel 'Glastir' fel taliadau dwbl. Nid yw eu hanes blaenorol yn dda iawn, felly dim ond amser a ddengys.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Maen nhw am gynyddu modiwleiddio ac ni fydd digon o arian i weithredu'r polisïau rydym am eu gweld ar gyfer gwyrddu.' (Dyn, 55-64, Mawr, Godro, 15.5k-21k, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Nid oes neb yn ymgynghori â ni.' (Dyn, 55-64, Canolig, Godro, 15.5k-21k, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Y gost o gyflogi pobl i greu ymadroddion sy'n ddiystyr, neu'n gwbl ddi-werth, ac ni fyddant yn llwyddo i gyflenwi unrhyw beth o ran gwyrddu. Byddan nhw'n sicrhau bod y sawl sy'n haeddu'r gyfran leiaf yn cynnal neu'n derbyn y gyfran fwyaf o unrhyw arian sydd ar gael ar gyfer bioamrywiaeth neu wyrddu heb gyflenwi gwelliannau gwyrddu mewn gwirionedd. (Dyn, 55-64, Bach iawn, Defaid gydag eidion, 15.5k - 21k, heb incwm oddi ar y farm)*

> *‘Y tebygolrwydd yw bod y bobl â ffermydd bach wedi'u heithrio rhag cynlluniau amgylcheddol, ond nhw yw'r rhai sy'n fwy parod i ymgymryd â mesurau gwyrddio. Mae'n ei gwneud yn fwy anodd i ffermwyr ar raddfa fwy gynhyrchu.’ (Merch, 45-54, Bach iawn, Defaid gydag eidion, 65+, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Nid ydynt yn mynd i gyflenwi amcanion y cynllun am nad ydynt yn cael eu targedu ac maen nhw wedi'u gorfodi. Rydw i hefyd yn credu y dylai'r holl daliadau fynd i Golofn 1 a Cholofn 2. (Dyn, 35-44, Bach, Defaid gydag eidion, 21k - 31k, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Maen nhw'n annheg. Does dim angen mwy arnom ni. Mae gennym ni waith amgylcheddol amrywiol eisoes. Dylai'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn olygu nad oes angen mwy o wyrddu arnom. Rydw i wedi mynychu nifer o gyfarfodydd, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd ein*

*gwyrddu sydd eisoes yn bodoli, yn ddigonol. Nid oes gennym weinidog dros yr amgylchedd yng Nghymru fel sydd ganddyn nhw yn Lloegr. Mae'n ymddangos nad oes diddordeb gan y gweinidog rhan amser cyfredol yn y sector amaethyddol.' (Dyn, 45-54, Bach, Eidion, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*

*'Gormod o bwyslais ar rywbeth rydyn ni'r ffermwyr yn ei wneud eisoes. Ni ddylai fod yn gyfran mor sylweddol o SFP gyda gormod o feini tramgwydd, sef y rheswm nad ydyn ni wedi ymrwymo i Glastir. Mae gwleidyddion wedi colli cysylltiad â'r sefyllfa. Pe bai rhaniad teg o brisiau yn y farchnad, ni fyddai angen cymhorthdal arnom. Y bobl sy'n elwa'n uniongyrchol o'r cymhorthdal yw'r archfarchnadoedd.' (Dyn, 45-54, Bach, Defaid, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Wel, alla i ddim deall beth yn y byd yw eu safbwynt. Maent yn cwyno bod y boblogaeth ar gynnydd ac y gallai cynhyrchiant bwyd fod yn brin, ond eto maen nhw'n ceisio gorfodi'r holl fesurau a fyddai'n lleihau'r nifer y gallem ei gynhyrchu. Yn hytrach na rhoi taliadau i gynlluniau nad yw'r mwyafrif o ffermwyr yn gallu gwneud cais amdanynt, beth am wobrwyo'r ffermwyr am arferion ffermio sylfaenol da.' (Dyn, 35-44, Canolig, Defaid gyda Chig Eidion, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae gwahaniaeth rhwng y cyfarwyddwyr a'r sawl sy'n cynnig y cynllun. Llawer gormod o fiwrocratiaeth. Byddai'n well petai wedi'i reoli gan un corff llywodraethu.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Dim llawn llathen. Dwi ddim yn credu eu bod o reidrwydd yn edrych ar faterion byd-eang o safbwynt hirdymor. Yn eithaf sylfaenol a ddim yn ystyried amodau lleol.' (Merch, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, incwm oddi ar y fferm)*

*'Ar hyn o bryd maen nhw'n sôn am wneud yr holl ardal yn fwy gwyrdd. Dydw i ddim yn cytuno gyda graddio tir amaethyddol yn 'wyrdd'. Dylai'r taliadau arwynebedd fod yr un peth ledled Cymru ond dylai'r broses gwyrddu fod fesul haen. Rwy'n derbyn y dylwn ni gael lefel uwch o wyrddu na lleoedd eraill.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Yn ddadleuol, mae nifer o'r pryderon hyn a'r ffyrdd y cawsant eu creu gan ffermwyr yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru weithredu o ran rhannu gwybodaeth, yn bennaf am fod un o bob deg o ymatebwyr wedi gofyn am fwy o wybodaeth; esboniad a dealltwriaeth o bolisi a rheoliadau'r PAC; ac esboniad o'r feddylfryd tu ôl i rai weithrediadau polisi a'u goblygiadau a'u canlyniadau posibl.

### 4.5.2 Cyngor a chymorth am ddiwygio'r PAC

Mae Tabl 4.37 yn dangos pa gyngor a chefnogaeth yn ymwneud â diwygio'r PAC roedd ei angen ar gyfranogwyr yr arolwg.

**Tabl 4.37 Y Cyngor a Chymorth sydd ei angen**

| Y math o gyngor a chymorth | |
|---|---|
| Dim / mae gennyf yr holl wybodaeth | **41%** |
| Mae angen i mi wybod popeth | **13%** |
| Gwybodaeth sy'n fwy manwl a chywir | **31%** |
| Cyfarfodydd wyneb yn wyneb â ffermwyr i esbonio diwygio'r PAC | **5%** |
| Ffeithiau a ffigurau | **10%** |

Ar 41 y cant, roedd cyfran gymharol fawr o'r arolwg o'r farn bod ganddyn ddigon o wybodaeth am ddiwygio'r PAC. I'r gwrthwyneb, teimlodd 13 y cant yn gwbl anwybodus. Fodd bynnag, rhaid i'r canlyniadau hyn gael eu beirniadu yng nghyd-destun y canlyniadau yn adran 4.2, Tabl 4.3 yr adroddiad hwn, yn ymwneud ag ymwybyddiaeth ynglŷn â newidiadau PAC, sy'n awgrymu bod canlyniad 41% fan hyn yn anghywir. Yn adran 4.2 caiff nifer o groesddywediadau eu trafod, ac mae'r dadansoddiad yn tynnu sylw at broblemau sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth busnes, gwybodaeth a chyfathrebu.

Roedd angen i gyfran arall cymharol fawr (31%) gael gwybodaeth fwy manwl a chywir, a oedd yn debyg i'r cais gan 5% arall i gael ffeithiau a ffigurau. Roedd cyfran fechan o'r farn bod angen cyfarfodydd wyneb yn wyneb â ffermwyr er mwyn esbonio diwygio'r PAC. Mae ymatebion ffermwyr i'r cwestiwn hwn yn cael eu dangos yn y dyfyniadau yn y testun dilynol. Noder mai'r cwestiwn a ofynnwyd oedd 'pa wybodaeth a chefnogaeth ychwanegol fyddech chi'n hoffi ei gael er mwyn eich helpu i gynllunio ac ymdopi â diwygio'r PAC yn uniongyrchol?' Er nad oedd rhai ymatebion wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol, ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r pwnc.

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod diffyg arbenigedd amaethyddol gan LIC, ac nad oedd yn uniaethu â ffermwyr.

*'Mae angen Gweinidog Amaethyddiaeth gwerth ei halen arnom ni, sy'n gyfarwydd â phob agwedd ar y byd ffermio. Ar hyn o bryd, nid yw'r bobl sy'n gyfrifol am amaethyddiaeth yn gwybod unrhyw beth am ffermio na'r peryglon.' (Dyn, 65+, Mawr, Godro, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae angen gweinyddwr amaethyddiaeth gwerth ei halen arnom yng Nghynulliad Cymru, sy'n deall y byd ffermio.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Eidion, 15.5k - 21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Hoffwn wybod beth yn union maen nhw'n ei olygu wrth ffermwr gweithiol a ffermwr ar raddfa fach a hefyd, mwy am wyrddu.' (Gwryw, 55-64, Bach, Defaid, 15.5k - 21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae angen pobl wybodus arnom i fynd i'r afael â'r cwestiynau.' (Dyn, 45-54, Mawr, Arall/cymysg, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae angen pobl defnyddiol arnom yn swyddfa'r weinyddiaeth.' Dyn, 45-54, Canolig, Godro, <10k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Byddwn yn hoffi i'r Aelodau Seneddol i frwydro o'n hochr ni, a rhoi llais i'n pryderon.' (Dyn, 35044, Canolig, Defaid gydag eidion, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Rwy'n credu ein bod angen gwell cynrychiolaeth. Mae angen gweinidog arnom sy'n fodlon dweud 'na', a brwydro er lles y ffermwyr.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, 31k - 52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae angen iddyn nhw wrando ar yr undebau amaethyddiaeth.' (Dyn, 45-54, Mawr iawn, Godro, 15.5k - 21k, incwm oddi ar y fferm)*

Fodd bynnag, cafodd yr undebau ffermio hefyd eu beirniadu.

*'Nid yw'r undebau yn gwneud digon i gefnogi'r ffermwyr. Mae swmp y gwaith papur yn broblem. Rydyn ni'n yn cael ein harchwilio drwy'r amser, sy'n effeithio ar gynhyrchiant.' (Dyn, 65+, Canolig, Eidion, 15.5k - 21k, incwm oddi ar y fferm)*

Yn ôl rhai, roedd y wybodaeth a oedd yn ymwneud â diwygio'r PAC a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn annigonol.

*'Byddwn yn hoffi iddo fod yn llawer mwy clir. Mae'n rhywbeth i'w drafod ac mae'n ymddangos bod y pyst gôl yn symud. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn llawer cliriach am eu hamcanion i Gymru. Mae angen gwrando mwy ar ymgynghoriadau â chynrychiolwyr ffermio. Does dim eglurder.' 55k-21k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Hoffwn wybod beth yn union sydd o'n blaenau, y ffeithiau ac amserlen. Ni allwn wneud penderfyniadau deallus tan ein bod yn gwybod.' (Merch, 65+, Canolig, Eidion, heb incwm oddi ar y fferm)*

Roedd rhai ymatebwyr am gael gwybodaeth benodol.

*'Mae ffermwyr ledled Cymru yn cael eu hannog i arallgyfeirio, ond does dim digon o help ar gael i ffermwyr, wrth y llywodraeth, ynglyn â sut i fynd ati i arallgyfeirio.' (Dyn, 55-64, Bach, Defaid gydag eidion, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Hoffem wybod beth yn union yw ffermwr gweithiol a ffermwr bach a hefyd, mwy am wyrddu. Hoffem wybod mwy am y cyfyngiadau ar laswellt parhaol.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Defaid, 31k - 52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Hoffwn gael fwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei allforio tramor o ran eidion, defaid ac oen er mwyn i fy, a Chymru gyfan allu cynllunio.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Eidion, 10k - 15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Roedd hefyd angen gwybodaeth ynglyn ag olyniaeth.

*'Sut i drosglwyddo'r awenau i fy mab oherwydd y cynllun mynediad newydd. I helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.' (Dyn, 55-64, Bach, Defaid, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*‘Cymorth, cyngor a chefnogaeth gyda'r broses. Prin iawn yw'r cymorth ar gyfer pobl sy'n etifeddu nusnes fferm yn annisgwyl.' (Merch, 25-34, Mawr iawn, Arall/cymysg, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Byddaf yn ymddeol cyn hir a bydd fy mab yn rheoli'r fferm. Ond does dim digon o bwyslais i ffermwyr ifanc gymryd yr awenau.’ (Dyn, 55-64, Canolig, Defaid, 10k-15.5k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Dylem gael llawer o gyngor am y broses gwyrddu am nad yw llawer o bobl yn ei deall.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, 15.5k - 21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Mae'n bosibl bod y sylw hwn yn adlewyrchu dull hen ffasiwn o feddwl, neu ddiffyg mynediad at fand eang.

*'Mwy o bethau ar bapur a llai ar y cyfrifiadur.' (Merch, 65+, Bach iawn, Defaid, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Ac roedd yn ymddangos bod diffyg gwybodaeth gan yr ymatebwyr am amserlen diwygiad CAP.

*'Mae angen cam pontio hir rhwng y drefn hanesyddol a'r drefn fesul ardal. Ni all fod yn un taliad ar gyfer Cymru gyfan.' (Dyn, 55-64, Mawr iawn, Arall/cymysg, 31k - 52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

### 4.5.3 Ymwybyddiaeth o Flwyddyn Gyfeirio 2014-15

Roedd y cwestiwn olaf a oedd yn cyfeirio'n uniongyrchol at ddiwygio'r PAC yn ymwneud â Blwyddyn Gyfeirio 2014-2015. Gofynnwyd i bob un o'r 2,402 o gyfranogwyr a oeddent yn ymwybodol ohono ai peidio. Mae Tabl 4.38 yn dangos y canlyniadau. Mae'r tabl yn dilyn y mwyafrif o'r tablau yn yr adroddiad hwn ac mae canrannau wedi cael eu talgrynnu i rifau cyfan. Mae'r 28 o ymatebwyr hynny, a wrthododd ateb y cwestiwn am ryw reswm, wedi cael eu cynnwys yn y gyfran 'ddim yn ymwybodol'.

**Tabl 4.38 Ymwybyddiaeth o Flwyddyn**

**Gyfeirio 2014 - 15**

| Ymateb | Nifer | Cyfran |
|---|---|---|
| **Ymwybodol** | 547 | 23% |
| **Ddim yn ymwybodol** | 1827 | 77% |
| **Gwrthodwyd** | 28 | |

*'Mae angen gymaint o amser arno â phosibl i'w newid.' (Dyn, 35-44, Mawr iawn, Godro, 21k - 31k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Yr unig beth y gallent ei roi i ni yw amser i'w gynllunio yn hytrach na'i wneud dros nos heb yn wybod i ni.' (Dyn, 35-44, Canolig, Eidion, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*

Yn debyg i'r sylwadau am y cynigion gwyrddu yn yr is-adran flaenorol, mae yna oblygiadau yma ar gyfer prosesau lledaenu gwybodaeth LC sy'n ymwneud â diwygio'r PAC.

Roedd ymwybyddiaeth o Gyfeirnod 2014-2015 yn isel, ychydig mwy nag un o bob pump.

Gofynnwyd i'r 547 o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o'r flwyddyn gyfeirio pa gynlluniau roeddent wedi'i wneud ar ei chyfer. Mae tabl 4.39 yn dangos y canlyniadau hyn. Noder dau bwynt am y tabl hwn. Yn gyntaf, roedd rhai ymatebion lluosog, felly mae'r nifer yn fwy na 547 (551). Yn ail, er mwyn nodi rhai ymatebion, nid yw'r canrannau yn cael eu talgrynnu i rifau cyfan.

**Tabl 4.39 Cynlluniau ar gyfer Blwyddyn Gyfeirio 2014-15**

| Cynlluniau | Nifer | |
|---|---|---|
| Dim cynlluniau | 418 | 76.4% |
| Ddim yn gwybod<br>Dim digon o wybodaeth ar hyn o bryd<br>Amser a ddengys | 40 | 7.3% |
| Busnes fel arfer<br>Aros yr un peth<br>Gwneud yr un peth â llynedd | 26 | 4.8% |
| Cynyddu faint o dir a ddefnyddir | 16 | 2.9% |
| Cynyddu da byw | 9 | 1.6% |
| Hawlio gymaint o swm cyfeirio â phosibl<br>Sicrhau bod gan dir hawliadau | 9 | 1.6% |
| Manteisio i'r eithaf ar gynhyrchiant<br>Defnyddio cymaint o dir pori parhaol â phosibl | 5 | 0.9% |
| Lleihau tir pori parhaol<br>Aredig tir pori parhaol | 4 | 0.7% |
| Lleihau stoc<br>Lleihau costau<br>Bod mor effeithlon â phosibl | 6 | 1.1% |
| Ymddeol | 2 | 0.4% |
| Arall | 16 | 2.9% |

Y pwynt amlycaf yn Nhabl 4.38 a 4.39 yw cyfradd uchel y ffermwyr nad oedd yn ymwybodol nac yn barod am Flwyddyn Gyfeirnod 2014-15. Yn gyntaf, mae tabl 4.38 yn dangos nad oedd 1,827 (77 y cant) o ymatebwyr yn ymwybodol o'r flwyddyn gyfeirnod. Yn ail, mae tabl 4.39 yn dangos, ymhlith y nifer cymharol isel a oedd yn ymwybodol (547 neu 23 y cant), nid oedd 418 wedi gwneud unrhyw gynlluniau. Yn ogystal â hynny, roedd 40 arall o ymatebwyr 'ymwybodol' yn aros am fwy o wybodaeth cyn gwneud cynlluniau. Mewn gwirionedd, doedd 84% o'r rhai a oedd yn 'ymwybodol' o'r Flwyddyn Gyfeirio wedi gwneud cynlluniau ar ei gyfer. Yn ogystal, mar rhai ymatebion yn Nhabl 4.39 yn awgrymu efallai nad oedd rhai ffermwyr wedi gwerthfawrogi goblygiadau'r flwyddyn gyfeirnod, er eu bod wedi nodi eu bod yn ymwybodol ohonynt. Er enghraifft, nid ymddengys fod gan awgrymiadau i gynyddu/leihau da byw a lleihau costau unrhyw berthnasedd â'r flwyddyn gyfeirio fel sail i ardal o dir cymwys gael ei hawlio yn y Taliad Sengl.

Mae goblygiadau posibl ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru o ran cyfathrebu a hyfforddiant busnes.

## 4.6 Priodweddau'r ffermydd a'r ffermwyr a arolygwyd:


**Tueddiadau Prynu a Gwerthu**

Mae'r isadran hon yn archwilio priodweddau'r ffermydd a'r ffermwyr a arolygwyd. Agwedd bwysig ar hwn oedd pŵer economaidd ffermydd, o ran prynu a gwerthu.

### 4.6.1 Maint a Lleoliad

Mae dosraniad ardaloedd ffermio ar draws y bandiau 20 hectar wedi'i nodi yn yr histogram yn Ffigur 4.2, ac mae'r niferoedd ym mhob band wedi'u nodi yn y tabl isod.

**Ffigur 4.2b Ardal y ffermydd a gafodd eu harolygu**




**Tabl 4.40 Nifer y ffermydd ym mhob band 20 hectar**

| Band (ha) | Nifer y ffermydd |
|---|---|
| 20 | 661 |
| 40 | 386 |
| 60 | 335 |
| 80 | 237 |
| 100 | 194 |
| 120 | 119 |
| 140 | 110 |
| 160 | 63 |
| 180 | 64 |
| 200 | 36 |
| Mwy na 200 | 178 |
| **Cyfanswm** | **2,402** |
| | Ddim yn gwybod/<br>Gwrthod ateb = 19 |

Noder fod gan gyfanswm o 402 o ffermydd a gafodd eu harolygu (17 y cant) ardal a oedd yn llai na deg hectar.

Mae Tabl 4.41, sy'n ailadrodd Tabl 2.3 yn yr adran Dulliau, yn dangos nifer y ffermydd a gafodd eu harolygu ym mhob rhanbarth yng Nghymru.

**Tabl 4.41 Rhanbarth Amaethyddol (yn seiliedig ar ddosbarthiad Llywodraeth Cymru)**

| **Rhanbarth Amaethyddol** | Caerfyrddin | Ceredigion | Gogledd Ddwyrain | Gogledd Orllewin | **Sir Benfro** | **Powys** | **De Cymru** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfweliadau** | 391 | 257 | 344 | 341 | 212 | 479 | 378 | 2,402 |
| **Cyfran o gyfanswm yr arolwg** | 16% | 10% | 14% | 14% | 9% | 20% | 16% | 100% |

### 4.6.2 Deiliadaeth

Mae Tabl 4.42 yn dangos y cynllun cod o ganlyniad i hyn a chyfran y ffermydd o fewn pob un o'r categorïau wedi'u codio.

Mae'r tabl yn dangos mai teuluoedd oedd yn berchen ar y mwyafrif helaeth o ffermydd, ar 73 y cant. Ffermwyr mawr iawn oedd lleiaf tebygol o fod yn eiddo i deuluoedd. Dyma'r unig gategori lle wnaeth perchnogaeth teulu ddisgyn o dan 50 y cant (41 y cant). Roedd cyfran y ffermydd sy'n cael eu rhentu yn weddol gyson ar draws maint y ffermydd a'r mathau o ffermydd.

### 4.6.3 Rhyw, Aelowydydd a'r Gweithlu

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr ffermio yn dal i fod yn ddynion: Merched oedd 27 y cant o'r ymatebwyr, ac roedd 73 y cant yn ddynion.

Roedd y mwyafrif helaeth o ffermydd yn cynnwys un aelwyd yn unig yn y bartneriaeth. Mae Tabl 4.43 yn dangos dadansoddiad o'r aelwydydd a oedd yn rhan o'r bartneriaeth, yn ôl maint y fferm.

**Tabl 4 Deiliadaeth, Maint y fferm a'r math o fferm**

| | | | Maint y fferm | | | | | Math o Fferm | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Ddeiliadaeth** | **Cyfanswm** | **Yn gyffredinol** | **Mawr iawn** | **Mawr** | **Canolig** | **Bach** | **Bach iawn** | **Godro** | **Defaid** | **Eidion** | **Defaid gydag eidion** | **Arall/cymysg** |
| **Yn eiddo i'r teulu** | 1742 | 73% | 41% | 63% | 58% | 68% | 83% | 64% | 72% | 73% | 66% | 80% |
| **Rhentu** | 193 | 8% | 10% | 9% | 11% | 9% | 6% | 9% | 9% | 9% | 8% | 6% |
| **Cymysg** | 465 | 19% | 47% | 29% | 30% | 23% | 11% | 26% | 19% | 18% | 26% | 14% |
| **Ddim yn gwybod**<br><br>**Gwrthod ateb** | 2 | | 2% | 0% | 0% | 0% | 0% | 1% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Cyfanswm** | 2402 | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

**Tabl 4.43 Aelwydydd mewn partneriaeth yn ôl maint y fferm**

| | | | Cyfran o faint ffermydd LIC gyda nifer yr aelwydydd 'N' | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer yr aelwydydd mewn partneriaeth 'N'** | **Yn gyffredinol Nifer** | **Cyfran gyffredinol** | **Mawr iawn** | **Mawr** | **Canolig** | **Bach** | **Bach iawn** |
| **1** | 1895 | 79% | 45% | 46% | 60% | 79% | 89% |
| **2** | 414 | 17% | 35% | 43% | 34% | 18% | 10% |
| **3** | 69 | 3% | 16% | 9% | 6% | 2% | 1% |
| **4** | 12 | 1% | 2% | 1% | 0% | 1% | 0% |
| **5** | 7 | 0% | 2% | 1% | 0% | 0% | 0% |
| **Ddim yn gwybod/Gwrthod ateb** | 5 | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Cyfanswm** | 2,402 | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

Mae'r tabl yn dangos er bod mwyafrif helaeth y partneriaethau ffermio (79 y cant) yn cynnwys un teulu, roedd cyfran sylweddol (17 y cant) a oedd yn cynnwys dau deulu, a chyfran lai o bartneriaethau a oedd yn cynnwys tri, pedwar a phum teulu. Wrth ddadansoddi'r data yn ôl maint y fferm, roedd y mwyafrif helaeth o bartneriaethau ffermydd canolig, bach a bach iawn yn cynnwys un neu ddau deulu, ond roedd gan ffermydd mawr a ffermydd mawr iawn gyfran gymharol fawr o bartneriaethau a oedd yn cynnwys dau neu dri teulu.

Mae Tablau 4.44, 4.45 a 4.46 yn dangos cyfanswm niferoedd a chyfrannau'r gweithwyr llawn amser a gweithwyr rhan amser, sy'n aelod o'r teulu ac nad ydynt yn aelod o'r teulu a gyflogir gan y ffermydd yn yr arolwg, a'u dadansoddi yn ôl maint y fferm. Noder nad yw gwaith achlysurol yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad.

**Tabl 4.44 Gweithwyr llawn amser a rhan amser**

| Math o weithiwr | Teulu llawn amser | Teulu rhan amser | Llawn Amser Dim Teuluol | Llawn Amser Dim Teuluol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm cyffredinol** | 2,939 | 2,264 | 262 | 466 | 5,931 |
| **Cyfran o gyfanswm y gweithlu** | 50% | 38% | 4% | 8% | 100% |

Dengys Tabl 4.45 y cyfrannau o gyfanswm y cynnyrch yr oedd bob maint fferm yn eu gwerthu i bob math o farchnad.

**4.45 Cyfrannau'r gweithwyr llawn amser a gweithwyr rhan amser sy'n cael eu cyflogi ar draws bob maint fferm**

| Maint fferm | Teulu llawn amser | Teulu rhan amser | Llawn Amser Dim Teuluol | Llawn Amser Dim Teuluol |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % |
| **Mawr iawn** | 4 | 1 | 35 | 9 |
| **Mawr** | 8 | 4 | 14 | 11 |
| **Canolig** | 18 | 11 | 19 | 20 |
| **Bach** | 41 | 35 | 18 | 31 |
| **Bach Iawn** | 29 | 49 | 14 | 29 |
| **Cyfanswm** | 100 | 100 | 100 | 100 |

Mae Tabl 4.46 yn dangos cyfrannau pob categori o weithiwr a gyflogir gan bob maint fferm.

**Tabl 4.46 Cyfrannau'r gweithwyr llawn amser a gweithwyr rhan amser sy'n cael eu cyflogi yn ôl bob maint fferm**

| Maint fferm | Teulu llawn amser | Teulu rhan amser | Llawn Amser Dim Teuluol | Llawn Amser Dim Teuluol | Cyfanswm y gweithwyr ar gyfer pob maint fferm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mawr iawn** | 39% | 12% | 33% | 16% | 277 |
| **Mawr** | 57% | 21% | 9% | 13% | 403 |
| **Canolig** | 58% | 26% | 6% | 10% | 915 |
| **Bach** | 55% | 36% | 2% | 7% | 2,195 |
| **Bach Iawn** | 40% | 52% | 2% | 6% | 2,141 |

Wrth edrych ar dablau 4.44, 4.45 a 4.46 gyda'i gilydd, gwelwn fod y mwyafrif helaeth o weithwyr (88%) yn aelodau o'r teulu. Wrth edrych ar gyfran pob adran y gweithlu, gallwn weld mai'r ffermydd bach iawn, y ffermydd bach a'r ffermydd canolig a oedd fwyaf tebygol o gyflogi aelodau o'r teulu, a theuluoedd mawr iawn yn cyflogi 44% o weithwyr nad oedd yn aelodau o'r teulu. Mae'r dadansoddiadau hyn yn cael eu cefnogi gan Dabl 4.46, sy'n dangos bod gweithlu ffermydd bach a ffermydd bach iawn yn cynnwys aelodau teuluoedd yn bennaf (mwy na 90 y cant ym mhob achos). Er hyn, roedd gweithluoedd ffermydd mawr iawn, ffermydd mawr a ffermydd canolig yn cynnwys cyfran sylweddol fwy o aelodau'r teulu yn hytrach nag aelodau nad ydynt yn rhan o'r teulu.

Mae goblygiadau posibl ar gyfer polisi. Pe bai pobl am adael ffermio oherwydd diwygio'r PAC, byddai'n creu effaith sylweddol ar farchnadoedd llafur lleol a theuluol.

**Tabl 4.6.4 Gweithgareddau'r ffermydd a gymerodd ran yn yr arolwg**

Fel y soniwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, ymatebodd 2,402 o ffermydd i'r arolwg. Mae Tabl 4.47 yn dangos prif weithgareddau'r ffermydd hyn, fel y nodwyd gan yr ymatebwyr. Mae'r tabl hefyd yn dangos y math o fferm fel y'i cofnodwyd ar gronfa data Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd gan yr arolwg.

**Tabl 4.47 Prif weithgareddau'r ffermydd a gafodd eu harolygu**

| Prif weithgaredd | Hunan-gofnodedig | Cyfran o gyfanswm yr arolwg hunan-gofnodedig | Cronfa ddata LIC | Cyfran o gyfanswm yr arolwg ar gyfer cronfa ddata LLC |
|---|---|---|---|---|
| Eidion | 417 | 17% | 448 | 19% |
| Godro | 215 | 9% | 190 | 8% |
| Defaid | 837 | 35% | 723 | 30% |
| Defaid gydag Eidion | 583 | 24% | 413 | 17% |
| Arall/Cymysg | 350 | 15% | 628 | 26% |
| Cyfanswm | 2,402 | 100% | 2,402 | 100% |

Roedd prif weithgareddau eraill yn cynnwys dofednod, grawnfwyd, cnwd porthiant, garddwriaeth, ceffylau, moch, twristiaeth (deg o ymatebwyr), contractio tir, coedwigaeth, gwenyn, geifr, pesgi gwartheg ar gyfer y farchnad, ffrwythau, llysiau, silwair, adeiladwaith a llety cŵn.

Mae'r tabl yn dangos anghysondeb rhwng cronfa ddata Llywodraeth Cymru a'r categoriau hunan-adrodd. Mae hyn yn awgrymu y dylid gwirio cronfa ddata Llywodraeth Cymru.

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd gan eu fferm weithgaredd eilradd, a allai fod wedi bod yn gyfrifol am rai o'r anghysonderau.

### 4.6.5 Mentrau eraill

Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr a oeddent yn gweithredu rhai mentrau amgen penodol, ac a oeddent yn ystyried eu gweithredu yn y dyfodol. Mae tabl 4.48 yn dangos canlyniadau hyn. Er mwyn nodi'r rhifau isel a'r cyfrannau mewn rhai categoriau, nid yw'r canrannau yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r rhifau cyfan.

**Tabl 4.48 Mentrau eraill**

| Menter | Yn ei gweithredu ar hyn o bryd | Yn ei hystyried | Ddim yn ei hystyried |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| **Garddwriaeth** | 4.1 | 5.1 | 90.8 |
| **Anifeiliaid eraill** | 3.1 | 8.6 | 88.3 |
| **Cnydau ynni/bio-ynni** | 2.1 | 10.8 | 87.1 |
| **Cnydau diwydiannol** | 0.3 | 2.5 | 97.2 |
| **Cnydau organig** | 6.5 | 4.7 | 88.9 |

Roedd cyfran y 2,402 o ffermydd a gafodd eu harolygu ac a oedd yn gweithredu unrhyw fath o fenter amgen ar hyn o bryd yn isel. Y cnydau organig a berfformiodd orau, ar 6.5% o'r arolwg. Yn yr un modd, ychydig o ffermwyr a oedd yn ystyried mentrau amgen, er bod rhwng naw y cant ac 11 y cant yn ystyried da byw arall a chnydau ynni/ bio ynni yn eu tro.

Ymhlith yr anifeiliaid eraill a oedd yn cael eu ffermio neu eu hystyried roedd gwartheg prin, ceirw, ceffylau, geifr, alpacaod, lamaod, moch, gwenyn, dofednod, adar hela a byfflos. Nododd rhai ymatebwyr defaid ac eidion fel anifeiliaid eraill i'r da byw sydd ganddynt ar hyn o bryd.

Ymhlith y cnydau ynni a oedd yn cael eu ffermio neu eu hystyried roedd coed, coed helyg, miscanthus, had rêp, cywarch, india-corn a chnydau olew. Roedd bio-ynni yn cynnwys tyrbinau gwynt, paneli solar a hydro-drydan.

O ystyried fod cyfrannau holl gategorïau'r arolwg 'ddim yn ystyried' tua 90%, ac o ran cnydau diwydiannol, yn 97.2%, ychydig oedd y gwahaniaeth ledled maint a'r math o fferm. Y 'perfformiwr' gorau oedd cnydau ynni/bio ynni, a oedd yn cael eu hystyried gan 18.4 y cant ac 14.1 y cant o ffermydd mawr iawn a ffermydd canolig yn y drefn honno. Roedd o leiaf 10% o'r ffermydd meintiau eraill yn ystyried cnydau ynni/bio ynni. O ran mathau o fferm, ar wahân i ffermydd defaid a ffermydd cymysg/eraill, roedd y ffermydd eraill ychydig yn uwch na 10%. Roedd gan ffermydd defaid y gyfran isaf o ran cnydau ynni/bio ynni ar 8.4 y cant, tra bod gan ffermydd eraill/cymysg y gyfran uchaf ar sef 14.9 y cant.

Mae goblygiadau posibl ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo.

### 4.6.6 Arallgyfeirio

Holwyd ymatebwyr hefyd p'un a oeddent yn cynnal, neu'n bwriadu cynnal, ystod o weithgareddau arallgyfeirio. Dengys Tabl 4.49 y canlyniadau hyn.

Yn debyg i'r dadansoddiad ar gyfer mentrau amgen, mae rhai rhifau cymharol isel mewn rhai categorïau ac er mwyn eu nodi, nid yw'r canrannau yn y tabl hwn wedi'u talgrynnu i rifau cyfan.

**Tabl 4.49 Mentrau arallgyfeirio**

| Menter Arallgyfeirio | Yn ei gweithredu ar hyn o bryd | Yn ei hystyried | Ddim yn ei hystyried |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| **Gwasanaethau amaethyddol (e.e. contractio)** | 14.8 | 8.5 | 76.8 |
| **Prosesu ar y fferm** | 3.2 | 5.9 | 90.9 |
| **Manwerthu ar y fferm** | 4.0 | 7.6 | 88.4 |
| **Manwerthu dros y rhyngrwyd neu drwy'r post** | 1.4 | 6.1 | 92.5 |
| **Contractio heblaw amaethyddiaeth** | 6.6 | 6.8 | 86.5 |
| **Llety ar ffermydd** | 11.2 | 16.9 | 71.9 |
| **Gweithgareddau ceffylau** | 8.5 | 8.0 | 83.5 |
| **Gweithgareddau hamdden eraill ar y fferm** | 3.3 | 6.7 | 90.0 |
| **Prydlesu adeiladau** | 2.8 | 9.2 | 88.0 |
| **Prydlesu tir at ddefnydd amaethyddol** | 7.6 | 15.0 | 77.5 |
| **Prydlesu tir at ddefnydd anamaethyddol (e.e. ynni adnewyddadwy)** | 1.5 | 10.6 | 87.9 |

Yn gyffredinol, roedd y cyfrannau a oedd yn ymwneud â mathau unigol o weithgarwch arallgyfeirio yn isel, er hynny, mewn termau gros, roedd 45 y cant o ffermydd yn ymwneud ag o leiaf un o'r mentrau arallgyfeirio. Dim ond dau o'r gweithgareddau arallgyfeirio a oedd yn fwy na deg y cant – sef darparu gwasanaethau amaethyddol [8] a oedd yn 14.8 y cant a darparu llety ar y fferm a oedd yn 11.2 y cant. O ran darparu llety ar y fferm, dyma'r gweithgarwch arallgyfeirio yr oedd y gyfran uchaf o ffermwyr yn ei ystyried, sef 16.9 y cant.

O ystyried nad oedd 55 y cant o'r arolwg yn ymwneud â gweithgarwch arallgyfeirio, o ran maint fferm a math o fferm prin oedd y rhai a oedd yn sefyll allan yn amlwg. O'r rhai a oedd yn ymwneud ag arallgyfeirio, roedd ffermydd bach iawn bedwar pwynt canran yn is na'r gyfradd gyffredinol ar gyfer darparu gweithgareddau amaethyddol (14.8 y cant) tra bod ffermydd defaid gyda chig eidion dri phwynt canran yn uwch. Nid oedd unrhyw ffermydd mawr iawn yn ymwneud â gweithgarwch manwerthu bwyd ar y fferm, er eu bod â'r gyfran uchaf o'r rhai a oedd yn 'ystyried' y math hwn o weithgarwch arallgyfeirio, ar 10.2 y cant.

Roedd gweithgarwch manwerthu drwy'r post yn rhyfeddol o isel sef 1.4 y cant. Er y gallai hyn fod wedi adlewyrchu'r ddarpariaeth a'r mynediad i fand eang yng nghefn gwlad Cymru, mater y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag ef ar hyn o bryd, mae'n werth nodi yr oedd 33 o ffermydd yn ymwneud â'r gweithgarwch hwn, ac roedd 20 ohonynt yn ffermydd bach iawn: h.y. roedd ffermydd bach iawn yn cyfrif am 61 y cant o'r gweithgarwch yn y sector hwn. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch natur y cysylltiadau rhwng mynediad i fand eang a gweithgarwch manwerthu dros y rhyngrwyd.

Roedd ffermydd bach iawn hefyd yn arwain o ran y rhai a oedd yn 'ystyried' y gweithgarwch hwn, sef 49 y cant (72 allan o 147 o ffermydd). Gweithgarwch arallgyfeirio arall lle yr oedd gan ffermydd bach iawn y cyfrannau uchaf o ran eu bod yn ei gynnal ar hyn o bryd ac yn 'ystyried' ei gynnal oedd gweithgareddau ceffylau megis stablau hurio, llwybrau marchogaeth a gwersi marchogaeth (11.9 y cant a 10.4 y cant yn y drefn honno). Yn wir, roedd 62 y cant o'r ffermydd a oedd yn darparu gwasanaethau ceffylau yn fach iawn (126 o ffermydd allan o 204). Nid oedd unrhyw ffermydd mawr iawn yn ymwneud â gweithgarwch arallgyfeirio ceffylau.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn ystyried arallgyfeirio ymhellach a oedd yn rhywbeth yr oeddent am ei wneud neu p'un a oeddent yn teimlo bod yn rhaid iddynt ei wneud. O'r 1,090 o ffermydd a oedd yn ystyried arallgyfeirio ymhellach, roedd 33 y cant am ei wneud, roedd 59 y cant yn teimlo bod yn rhaid iddynt ei wneud, ac nid oedd wyth y cant yn gwybod. Ffermydd bach iawn oedd y rhai a oedd yn fwyaf tebygol o fod am arallgyfeirio ymhellach, sef 41 y cant, a hwy oedd y lleiaf tebygol o deimlo fod yn rhaid iddynt wneud (51 y cant), a ffermydd mawr iawn oedd y lleiaf tebygol o fod am arallgyfeirio ymhellach (17%) a'r mwyaf tebygol o deimlo fod yn rhaid iddynt wneud (75 y cant).

Yn ogystal, roedd 57 y cant o gyfanswm poblogaeth yr arolwg o'r farn eu bod yn wynebu rhwystrau i ymwneud ymhellach â gweithgarwch arallgyfeirio. Y rhwystr a nodwyd gan amlaf oedd caniatâd cynllunio, a oedd yn cynnwys caniatâd perchennog tir a chyfyngiadau cynllunio megis y rhai yn y parciau cenedlaethol. Nodwyd caniatâd cynllunio gan 24 y cant. Yr ail rwystr a nodwyd gan amlaf oedd lleoliad y fferm, sef 15 y cant. Ymhlith y rhwystrau canfyddedig eraill roedd biwrocratiaeth a chost ac argaeledd cyllid.

Mae gan y ffigurau isel ar gyfer ffermydd sy'n ymwneud â mentrau amgen ac ar gyfer y rhai sy'n ymwneud ag arallgyfeirio, ac, yn

[8] Gellir dadlau nad yw'r broses o ddarparu gwasanaethau amaethyddol gan ffermwyr yn cyfateb i arallgyfeirio mewn gwirionedd.

wir, ar gyfer y rhai sy'n eu hystyried, oblygiadau posibl ar gyfer polisi LIC:

- Ymddengys fod y rhan fwyaf o ffermydd yn bwriadu dibynnu ar ddulliau cynhyrchu amaethyddol traddodiadol yn hytrach na bod yn fwy arallgyfeiriedig, entrepreneuraidd ac amlswyddogaethol.
- Mae goblygiadau posibl ar gyfer y prosiect band eang.
- Mae goblygiadau posibl ar gyfer yr agenda ynni.
- Mae goblygiadau posibl ar gyfer LIC o ran hyrwyddo.

**4.6.7 Ystyriaethau ar gyfer rheoli ffermydd yn y dyfodol**

Gofynnwyd i'r 2,402 o ymatebwyr pa mor bwysig oedd tri ffactor ar gyfer rheoli eu ffermydd yn y dyfodol: cynhyrchu bwyd, mesurau cadwraeth, amaeth-amgylcheddol ac ecolegol, a chyfleoedd i ddefnyddio eu tir ar gyfer gweithgareddau eraill. Dengys Tabl 4.50 y canlyniadau hyn. O ganlyniad i dalgrynnu, efallai na fydd y rhesi yn gwneud cyfanswm o 100 y cant.

**Tabl 4.50 Ystyriaethau ar gyfer rheoli ffermydd yn y dyfodol**

| Ffactor | Pwysig iawn | Eithaf pwysig | Ddim yn bwysig na'n ddibwys | Ddim yn bwysig iawn | Ddim yn bwysig o gwbl | Ddim yn gymwys/Ddim yn gwybod/Gwrthodwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Cynhyrchu bwyd** | 70 | 16 | 4 | 6 | 4 | 1 |
| **Mesurau cadwraeth, amaeth-amgylcheddol ac ecolegol** | 33 | 42 | 7 | 11 | 5 | 1 |
| **Cyfleoedd i ddefnyddio'r tir ar gyfer gweithgareddau eraill** | 8 | 18 | 11 | 34 | 27 | 2 |

Mae Tablau 4.51 a 4.52 yn dadansoddi'r data ar gynhyrchu bwyd yn ôl maint fferm a math o fferm yn y drefn honno.

**Tabl 4.51 Cynhyrchu bwyd – Ystyriaethau ar gyfer rheoli ffermydd yn y dyfodol yn ôl maint fferm**

| | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn | Yn gyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Pwysig iawn** | 76 | 89 | 87 | 82 | 54 | 70 |
| **Eithaf pwysig** | 24 | 10 | 11 | 11 | 21 | 16 |
| **Ddim yn bwysig na'n ddibwys** | 0 | 0 | 1 | 2 | 6 | 4 |
| **Ddim yn bwysig iawn** | 0 | 1 | 1 | 3 | 10 | 6 |
| **Ddim yn bwysig o gwbl** | 0 | 0 | 0 | 2 | 6 | 3 |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Ddim yn gwybod** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gwrthodwyd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Tabl 4.52 Cynhyrchu bwyd – Ystyriaethau ar gyfer rheoli ffermydd yn y dyfodol yn ôl math o fferm**

| | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag Eidion | Arall/Cymysg | Yn gyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Pwysig iawn** | 83 | 72 | 74 | 85 | 53 | 70 |
| **Eithaf pwysig** | 14 | 15 | 16 | 12 | 19 | 16 |
| **Ddim yn bwysig na'n ddibwys** | 1 | 4 | 2 | 1 | 7 | 4 |
| **Ddim yn bwysig iawn** | 2 | 4 | 5 | 1 | 12 | 6 |
| **Ddim yn bwysig o gwbl** | 1 | 3 | 2 | 0 | 8 | 3 |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Ddim yn gwybod** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gwrthodwyd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

O'r tablau, roedd 100 y cant o ffermydd mawr iawn a ffermydd mawr o'r farn bod cynhyrchu bwyd yn bwysig. Cafwyd ffigurau uwch na 90 y cant ar gyfer ffermydd canolig, bach, godro, eidion ac eidion â defaid. I'r gwrthwyneb, ffermydd bach iawn oedd â'r gyfran isaf a oedd yn ystyried bod cynhyrchu bwyd yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig (54 y cant a 21 y cant yn y drefn honno).

Dengys Tablau 4.53 a 4.54 pa mor bwysig yw data mesurau cadwraeth, amaeth-amgylcheddol ac ecolegol yn ôl maint fferm a math o fferm yn y drefn honno.

**Tabl 4.53 Mesurau cadwraeth, amaeth-amgylcheddol ac ecolegol - Ystyriaethau ar gyfer rheoli ffermydd yn y dyfodol yn ôl math o fferm**

| | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn | Yn gyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Pwysig iawn** | 22 | 27 | 19 | 29 | 41 | 33 |
| **Eithaf pwysig** | 47 | 37 | 53 | 45 | 37 | 42 |
| **Ddim yn bwysig na'n ddibwys** | 10 | 11 | 7 | 7 | 7 | 7 |
| **Ddim yn bwysig iawn** | 14 | 16 | 13 | 12 | 10 | 11 |
| **Ddim yn bwysig o gwbl** | 6 | 8 | 6 | 5 | 5 | 5 |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ddim yn gwybod** | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| **Gwrthodwyd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Er bod ffermydd o bob maint yn llawer mwy tebygol o ystyried bod mesurau cadwraeth, amaeth-amgylcheddol ac ecolegol naill ai'n 'bwysig iawn' neu'n 'eithaf pwysig', o ystyried y ddau ddewis gyda'i gilydd, cofnodwyd mwy na 70 y cant gan ffermydd bach a ffermydd bach iawn, tra chofnodwyd llai na 70 y cant gan y tri chategori mwy o faint, er i ffermydd mawr iawn gofnodi 69 y cant.

**Tabl 4.54 Mesurau cadwraeth, amaeth-amgylcheddol ac ecolegol - Ystyriaethau ar gyfer rheoli ffermydd yn y dyfodol yn ôl math o fferm**

| | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag Eidion | Arall/Cymysg | Yn gyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Pwysig iawn** | 25 | 32 | 29 | 24 | 45 | 33 |
| **Eithaf pwysig** | 40 | 43 | 44 | 51 | 34 | 42 |
| **Ddim yn bwysig na'n ddibwys** | 11 | 7 | 8 | 6 | 7 | 7 |
| **Ddim yn bwysig iawn** | 15 | 12 | 13 | 10 | 9 | 11 |
| **Ddim yn bwysig o gwbl** | 8 | 5 | 5 | 8 | 3 | 5 |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Ddim yn gwybod** | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| **Gwrthodwyd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Wedi'u dadansoddi yn ôl math o fferm, gan ystyried 'pwysig iawn' ac 'eithaf pwysig' gyda'i gilydd, dim ond ffermydd godro ar 65 y cant a gofnododd lai na 70 y cant. Ffermydd llaeth hefyd oedd y mwyaf tebygol o nodi bod mesurau cadwraeth, amaeth-amgylcheddol ac ecolegol 'ddim yn bwysig iawn' neu 'ddim yn bwysig o gwbl'. Yn wir, ar 23 y cant, cofnododd tua un o bob pedwar fferm odro y ffigurau hyn. Ffermydd 'eraill/cymysg', ar 79 y cant, oedd y mwyaf tebygol o ystyried mesurau cadwraeth, amaeth-amgylcheddol ac ecolegol yn eu dull o reoli'r fferm yn y dyfodol.

Fel y dengys Tabl 4.50, dim ond ychydig dros un o bob pedwar fferm (8 y cant a 18 y cant) oedd yn ystyried bod y cyfle i ddefnyddio eu tir ar gyfer gweithgareddau eraill yn bwysig. Er bod hon yn gyfran sylweddol, roedd cyfrannau uchel o'r farn nad oedd y defnydd posibl hwn o dir yn bwysig iawn neu'n bwysig o gwbl (34 y cant a 27 y cant yn y drefn honno). Mae Tablau 4.55 a 4.56 yn dadansoddi'r data hyn yn ôl maint fferm a math o fferm yn y drefn honno.

**Tabl 4.55 Cyfleoedd i ddefnyddio tir ar gyfer gweithgareddau eraill - Ystyriaethau ar gyfer rheoli ffermydd yn y dyfodol yn ôl maint fferm**

| | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn | Yn gyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Pwysig iawn** | 4 | 8 | 5 | 9 | 9 | 8 |
| **Eithaf pwysig** | 27 | 14 | 18 | 18 | 17 | 18 |
| **Ddim yn bwysig na'n ddibwys** | 12 | 11 | 11 | 12 | 10 | 11 |
| **Ddim yn bwysig iawn** | 29 | 33 | 37 | 33 | 33 | 34 |
| **Ddim yn bwysig o gwbl** | 29 | 31 | 27 | 25 | 28 | 27 |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 2 | 0 | 2 | 1 | 1 |
| **Ddim yn gwybod** | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Gwrthodwyd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

O'r tabl, ffermydd mawr iawn oedd y mwyaf tebygol o nodi bod cyfleoedd i ddefnyddio tir ar gyfer gweithgareddau eraill yn bwysig.

**Tabl 4.56 Cyfleoedd i ddefnyddio tir ar gyfer gweithgareddau eraill - Ystyriaethau ar gyfer rheoli ffermydd yn y dyfodol yn ôl math o fferm**

| | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag Eidion | Arall/Cymysg | Yn gyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Pwysig iawn** | 7 | 7 | 7 | 7 | 12 | 8 |
| **Eithaf pwysig** | 18 | 16 | 15 | 18 | 21 | 18 |
| **Ddim yn bwysig na'n ddibwys** | 9 | 12 | 11 | 9 | 11 | 11 |
| **Ddim yn bwysig iawn** | 31 | 34 | 35 | 36 | 31 | 34 |
| **Ddim yn bwysig o gwbl** | 32 | 28 | 28 | 28 | 23 | 27 |
| **Ddim yn gymwys** | 1 | 1 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| **Ddim yn gwybod** | 1 | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 |
| **Gwrthodwyd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

‘

Roedd ffermydd ‘eraill/cymysg’ yn fwy tebygol o ystyried bod cyfleoedd i ddefnyddio tir ar gyfer gweithgareddau eraill wrth iddynt reoli eu ffermydd yn y dyfodol yn bwysig - nhw oedd yr unig fath o fferm i fod yn fwy na 30 y cant (12 y cant a 21 y cant). At hynny, roeddent yn llai tebygol o ystyried nad oedd y factor hwn yn bwysig - nhw oedd yr unig fath o fferm i gofnodi llai na 60 y cant (31 y cant a 23 y cant. Cofnododd y mathau eraill o ffermydd o leiaf 62 y cant ar gyfer ‘ddim yn bwysig’. Mae hyn yn cyd-fynd â'r sgorau is a roddodd ffermydd ‘eraill/cymysg’ i bwysigrwydd cynhyrchu bwyd a'r sgorau uwch a roesant i bwysigrwydd mesurau cadwraeth, amaeth-amgylcheddol ac ecolegol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dueddol o atgyfnerthu canfyddiadau blaenorol yn yr adroddiad hwn, sy'n dangos bod ffermwyr yn ymddangos fel pe bant yn bwriadu dibynnu ar gynhyrchiant amaethyddol yn y dyfodol. Ymddengys fod y prif eithriad yn y categori ffermydd ‘eraill/cymysg’.

### 4.6.8 Cynnyrch i'r fferm – nwyddau a gwasanaethau

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr i gyd ynghylch y cynnyrch a'r gwasanaethau yr oeddent yn eu prynu ar gyfer eu ffermydd. Dengys Tabl 4.57 faint o gynnyrch a gwasanaethau a brynwyd a'r pellteroedd a'r lleoliadau lle y gwnaethant eu prynu. Dengys y tabl hwn y cyfrannau ar gyfer yr arolwg cyfan a'r cyfrannau yn ôl maint fferm.


**Tabl 4.57 Cynnyrch a gwasanaethau a brynwyd yn ôl maint fferm**

| Lleoliad | Yn gyffredinol | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Yr ardal leol – o fewn cwmpas 25 milltir** | 82 | 58 | 62 | 70 | 80 | 88 |
| **Rhywle arall yng Nghymru** | 7 | 12 | 13 | 12 | 9 | 5 |
| **Rhywle arall ym Mhrydain** | 10 | 25 | 21 | 17 | 10 | 6 |
| **Tu allan i Brydain** | 1 | 5 | 4 | 1 | 1 | 1 |

Dengys y tabl, ar 82 y cant, fod y mwyafrif helaeth o nwyddau a gwasanaethau a brynwyd gan ffermydd wedi'u prynu o fewn yr ardal leol. Roedd perthynas uniongyrchol rhwng maint y fferm a masnach leol: y lleiaf y fferm, y mwyaf y gyfran yr oedd yn ei phrynu'n lleol. Yn yr un modd, ond i'r gwrthwyneb, roedd yr hyn a brynwyd mewn mannau eraill yng Nghymru a Phrydain ac o'r tu allan i Brydain yn lleihau yn ôl lleihad mewn maint fferm. Prin iawn oedd yr hyn a brynwyd o'r tu allan i Brydain gan ffermydd bach a ffermydd bach iawn (0.59 y cant a 0.43 y cant cyn talgrynnu, yn y drefn honno).

Mae ffigur 4.3 yn dangos y canlyniadau hyn ar ffurf graff.

**Ffigur 4.3 Cynnyrch a gwasanaethau a brynwyd yn ôl maint fferm**




Dengys Tabl 4.58 y data ar gyfer y cynnyrch a'r gwasanaethau a brynwyd yn ôl math o fferm.

---

**Tabl 4.58 Cynnyrch a gwasanaethau a brynwyd yn ôl math o fferm**

| Lleoliad | Yn gyffredinol | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Yr ardal leol – o fewn cwmpas 25 milltir** | 82 | 66 | 85 | 84 | 79 | 82 |
| **Rhywle arall yng Nghymru** | 7 | 12 | 7 | 6 | 10 | 7 |
| **Rhywle arall ym Mhrydain** | 10 | 20 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **Tu allan i Brydain** | 1 | 3 | 0 (0.26%) | 1 | 1 | 1 |

Nid oedd y tueddiadau ar gyfer y cynnyrch a'r gwasanaethau a brynwyd mor amlwg ar gyfer mathau o ffermydd ag yr oeddent ar gyfer maint ffermydd. Fodd bynnag, mae'n

amlwg bod ffermydd llaeth yn prynu llai o'r ardal leol a mwy o fannau eraill yng Nghymru, Prydain a'r tu allan i Brydain o gymharu â'r mathau eraill o ffermydd.

Y pwynt amlwg o'r dadansoddiad yw'r ffaith bod y mwyafrif helaeth o nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r fferm, sef 82%, yn cael eu prynu yn yr ardal leol – o fewn cwmpas 25 milltir i'r fferm. Ceir pwynt pwysig arall yn Ffigur 4.3, sy'n dangos y graddiant o'r ffermydd mwy i'r ffermydd llai o ran tueddiadau prynu lleol, gyda ffermydd bach yn prynu'n fwy lleol. Yn ogystal, roedd ffermydd godro, sy'n dueddol o fod yn fwy, yn prynu cyfran lai o'u nwyddau a'u gwasanaethau yn lleol o gymharu â mathau eraill o ffermydd. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad hwn yn dangos gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd. Mae'n bosibl yr oedd gwerth y nwyddau a brynwyd yn lleol gan ffermydd mwy o faint yn fwy na gwerth yr hyn a brynwyd gan ffermydd llai, er bod cyfran y ffermydd llai yn fwy.

Serch hynny, mae'r dadansoddiad yn dangos y goblygiadau posibl i bolisïau o ran colli unrhyw daliadau PAC, gwytnwch ffermydd, a chysylltiadau rhyngddynt hwy a'r economi leol. I'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y byddai ffermydd mynydd bach sy'n cynnal defaid a chig eidion, pe byddent yn cael mwy o daliadau PAC, yn gwario mwy yn lleol. Edrychir ymhellach ar y cysylltiadau hyn yn y cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr, a gaiff eu cynnal yng nghamau diweddarach y prosiect ymchwil hwn.

### 4.6.9 Cynnyrch o'r fferm – gwerthu cynnyrch

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddau gwestiwn. Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr i ba fath o farchnad yr oeddent yn gwerthu eu cynnyrch. Yn ail, gofynnwyd iddynt pa gyfran o'u cynnyrch yr oeddent yn ei gwerthu i bob math o farchnad. Dengys Tabl 4.42 pa gyfran o gyfanswm yr arolwg, a pha gyfrannau o bob maint fferm, a gâi eu gwerthu i bob math o farchnad. Nodir bod sawl fferm yn gwerthu cynnyrch i fwy nag un math o farchnad. Er mwyn cofnodi rhai o'r cyfrannau llai, ni chaiff canrannau eu talgrynnu i rifau cyflawn yn y tabl.

**Tabl 4.58 Marchnadoedd ar gyfer cynnyrch fferm yn ôl maint fferm**

| Marchnad | Yn gyffredinol | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Cwmnïau prosesu llaeth** | 8.6 | 81.2 | 55.8 | 23.7 | 2.0 | 1.3 |
| **Marchnadoedd da byw** | 86.9 | 81.2 | 86.4 | 92.8 | 89.7 | 83 |
| **Lladd-dai mawr** | 41.8 | 68.8 | 61.5 | 70.3 | 50.4 | 21.0 |
| **Lladd-dai bach** | 24.4 | 37.5 | 39.4 | 25.4 | 23.3 | 22.8 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 17.8 | 8.3 | 9.6 | 10.0 | 12.7 | 26.5 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn rhywle arall** | 6.6 | 6.2 | 1.9 | 4.7 | 4.3 | 10.0 |
| **Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 6.3 | 6.2 | 4.8 | 5.7 | 5.1 | 7.8 |
| **Siopau, gwestai a bwytai – yn rhywle arall** | 1.3 | 2.1 | 1.0 | 1.8 | 0.9 | 1.5 |
| **Archfarchnadoedd** | 2.3 | 0 | 6.7 | 5.7 | 2.7 | 0.4 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru** | 4.2 | 14.6 | 15.4 | 7.2 | 3.8 | 1.8 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall** | 2.6 | 16.7 | 3.8 | 7.5 | 1.6 | 1.3 |

Dengys Tabl 4.59 pa gyfran o gyfanswm yr arolwg, a pha gyfran o bob math o fferm, a gâi ei gwerthu i bob math o farchnad.

**Tabl 4.59 Marchnadoedd ar gyfer cynnyrch fferm yn ôl math o fferm**

| Man gwerthu | Yn gyffredinol | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Cwmnïau prosesu llaeth** | 8.6 | 84.9 | 0.6 | 1.4 | 0.2 | 4.7 |
| **Marchnadoedd da byw** | 86.9 | 87.6 | 94.2 | 87.9 | 94.4 | 70.1 |
| **Lladd-dai mawr** | 41.8 | 56.5 | 38.6 | 37.6 | 62.8 | 27.4 |
| **Lladd-dai bach** | 24.4 | 36.0 | 20.6 | 24.1 | 23.5 | 26.2 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 17.8 | 9.1 | 10.6 | 14.8 | 8.3 | 40.7 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn rhywle arall** | 6.6 | 2.7 | 3.0 | 5.5 | 3.4 | 16.2 |
| **Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 6.3 | 3.8 | 3.5 | 4.6 | 3.7 | 14.5 |
| **Siopau, gwestai a bwytai – yn rhywle arall** | 1.3 | 1.6 | 0.3 | 0.7 | 1.5 | 2.9 |
| **Archfarchnadoedd** | 2.3 | 2.2 | 1.6 | 1.8 | 4.2 | 2.2 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru** | 4.2 | 10.2 | 2.3 | 2.5 | 3.7 | 6.3 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall** | 2.6 | 4.8 | 1.0 | 1.4 | 2.4 | 5.3 |

Gan ystyried y ddau dabl gyda'i gilydd, er mai dim ond naw y cant o gyfanswm yr arolwg a oedd yn gwerthu cynnyrch i gwmnïau prosesu llaeth, roedd 81 y cant o ffermydd mawr yn gwneud hynny. Mae hyn yn atgyfnerthu awgrymiadau cynharach mai ffermydd godro oedd y rhan fwyaf o'r ffermydd mawr. Nid yw'n syndod, fel y dengys Tabl 4.59, fod 85 y cant o ffermydd godro yn gwerthu i gwmnïau prosesu llaeth.

Defnyddiwyd marchnadoedd da byw bron yn gyffredinol, gydag 87 y cant o ddefnydd drwy'r arolwg cyfan. Ffermydd defaid a ffermydd defaid gydag eidion oedd y mwyaf tebygol o ddefnyddio marchnadoedd da byw, sef 94.2 y cant a 94.4 y cant yn y drefn honno. Ffermydd eraill/cymysg oedd y lleiaf tebygol o ddefnyddio marchnadoedd da byw, er iddynt gofnodi 70 y cant o hyd.

Defnyddiwyd lladd-dai mwy, sy'n dueddol o fod ymhellach i ffwrdd, gan gyfrannau uwch o ffermydd na lladd-dai bach, sy'n dueddol o fod yn fwy lleol. Roedd ychydig yn fwy na 17 o bwyntiau canran rhwng y cyfrannau o'r arolwg a oedd yn defnyddio'r ddau fath o ladd-dy.

Roedd llai nag un o bob pum fferm (18 y cant) yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol, o fewn cwmpas 25 milltir. Ffermydd bach iawn oedd â'r gyfran fwyaf a oedd yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol, sef 27 y cant. Fodd bynnag, yn ôl math o fferm, roedd 41 y cant o ffermydd eraill/cymysg yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol.

Prin oedd y ffermydd a oedd yn gwerthu'n uniongyrchol i siopau, gwestai a bwytai lleol. Eto, ffermydd bach iawn gydag wyth y cant a ffermydd eraill/cymysg, gyda 15 y cant, oedd y mwyaf tebygol o wneud hynny. Prin iawn oedd y ffermydd a werthai i siopau, gwestai a bwytai yn rhywle arall. Yn bennaf, ffermydd eraill/cymysg oedd y mwyaf tebygol o wneud hynny.

Nid oedd unrhyw ffermydd mawr iawn yn gwerthu cynnyrch i archfarchnadoedd er i ffermydd mawr a chanolig gofnodi'r cyfrannau mwyaf, sef saith y cant a chwech y cant yn y drefn honno.

Roedd y cyfrannau cyffredinol a oedd yn gwerthu cynnyrch i gwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru yn isel, sef pedwar y cant. Roedd ffermydd mawr iawn, ffermydd mawr a ffermydd llaeth yn gymharol uchel, sef 15 y cant, 15 y cant a deg y cant yn y drefn honno. Roedd y cyfrannau a werthai i gwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall yn isel yn gyffredinol, er bod ffermydd mawr iawn a ffermydd canolig yn sylweddol uwch na'r ffigur cyffredinol o dri y cant, sef 17 y cant ac wyth y cant yn y drefn honno.

Dengys Tabl 4.60 y cyfrannau o gyfanswm y cynnyrch yr oedd bob maint fferm yn eu gwerthu i bob math o farchnad. A dengys Tabl 4.61 y cyfrannau o gyfanswm y cynnyrch yr oedd bob math o fferm yn eu gwerthu i bob math o farchnad.

**Tabl 4.60 Cyfran y cynnyrch fferm a werthir i farchnadoedd cynnyrch fferm yn ôl maint fferm**

| Man gwerthu | Yn gyffredinol | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Cwmnïau prosesu llaeth** | 5.73 | 60.2 | 41.00 | 15.38 | 0.86 | 0.84 |
| **Marchnadoedd da byw** | 59.28 | 13.53 | 24.97 | 45.01 | 64.40 | 64.81 |
| **Lladd-dai mawr** | 18.33 | 15.44 | 17.55 | 29.68 | 23.39 | 10.05 |
| **Lladd-dai bach** | 4.41 | 3.05 | 3.83 | 2.97 | 4.16 | 5.23 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 6.88 | 0.31 | 1.12 | 1.01 | 3.26 | 13.26 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn rhywle arall** | 1.48 | 0.47 | 0 | 0.13 | 0.89 | 2.70 |
| **Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 1.24 | 0.25 | 0.63 | 0.31 | 1.02 | 1.85 |
| **Siopau, gwestai a bwytai – yn rhywle arall** | 0.13 | 0.02 | 0 | 0.02 | 0.11 | 0.20 |
| **Archfarchnadoedd** | 0.78 | 0 | 2.24 | 2.05 | 0.87 | 0.16 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru** | 1.06 | 0.86 | 7.49 | 1.43 | 0.67 | 0.63 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall** | 0.69 | 5.86 | 1.17 | 2.02 | 0.37 | 0.27 |

**Tabl 4.61 Cyfran y cynnyrch fferm a werthir i farchnadoedd ar gyfer cynnyrch fferm yn ôl math o fferm**

| Man gwerthu | Yn gyffredinol | Llaeth | Defaid | Cig eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| Cwmnïau prosesu llaeth | 5.73 | 62.94 | 0.26 | 0.73 | 0.00 | 2.90 |
| Marchnadoedd da byw | 59.28 | 19.07 | 71.70 | 70.54 | 62.75 | 43.24 |
| Lladd-dai mawr | 18.33 | 8.97 | 19.02 | 17.15 | 29.62 | 12.26 |
| Lladd-dai bach | 4.41 | 2.57 | 4.05 | 4.84 | 3.54 | 5.86 |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir | 6.88 | 1.72 | 2.23 | 3.90 | 1.52 | 22.04 |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn rhywle arall | 1.48 | 0.03 | 0.58 | 1.11 | 0.12 | 4.64 |
| Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir | 1.24 | 0.21 | 0.54 | 0.78 | 0.51 | 3.53 |
| Siopau, gwestai a bwytai – yn rhywle arall | 0.13 | 0.03 | 0.11 | 0.05 | 0.06 | 0.31 |
| Archfarchnadoedd | 0.78 | 0.80 | 0.51 | 0.60 | 1.23 | 0.91 |
| Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru | 1.06 | 3.23 | 0.77 | 0.31 | 0.56 | 1.80 |
| Cwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall | 0.69 | 0.44 | 0.22 | 0.00 | 0.08 | 2.51 |

Dengys Tablau 4.60 a 4.61, drwy'r arolwg cyfan, fod y gyfran fwyaf o gynnyrch fferm wedi cael ei gwerthu i farchnadoedd fferm, sef 59 y cant o gyfanswm y gwerthiannau. Gan ddadansoddi hyn yn ôl maint fferm, ffermydd canolig, bach a bach iawn a werthodd y cyfrannau mwyaf o'u cynnyrch i farchnadoedd da byw. Cyfrannau cymharol fach a werthwyd gan ffermydd mawr iawn a ffermydd mawr, sy'n awgrymu cysylltiad â'r cyfrannau bach tebyg a werthwyd i farchnadoedd da byw gan ffermydd llaeth. Gwerthodd ffermydd defaid, ffermydd cig eidion a ffermydd defaid a chig eidion gyfrannau mawr o'u cynnyrch i farchnadoedd da byw.

Gwerthodd ffermydd llaeth y mwyafrif helaeth o'u cynnyrch i farchnadoedd prosesu llaeth (63 y cant), marchnadoedd da byw (19 y cant) a lladd-dai (22 y cant).

Cymharol fach oedd yr hyn a werthwyd yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol, sef saith y cant o gyfanswm y gwerthiant, a dim ond un a hanner y cant o gyfanswm y gwerthiant a werthwyd i siopau, gwestai a bwytai lleol.

Gellir dadlau, o ystyried pwerau prynu a gwerthu ffermydd gyda'i gilydd, y gallai'r broses o ddiwygio'r PAC gael mwy o effaith i fyny'r gadwyn gyflenwi nag i lawr. Hynny yw, ymddengys fod ffermydd yn gwario mwy yn lleol nag yr oeddent yn ei werthu'n lleol. Ond ni ddylid anwybyddu'r effeithiau lleol i lawr y gadwyn gyflenwi, yn enwedig ar farchnadoedd da byw a lladd-dai. Yn yr un modd, gallai fod effeithiau ehangach ar brosesu llaeth.

Mae goblygiadau posibl o ran polisi yn dilyn unrhyw newidiadau i daliadau PAC a gwytnwch ffermydd yn enwedig yr effaith ar gyflenwyr lleol a chontractwyr i'r sector amaethyddol ac ar farchnadoedd da byw, lladd-dai a gwerthiannau uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol a manwerthwyr lleol, a fyddai'n cael effaith ganlyniadol ar yr economi leol. Ystyrir y materion hyn yn y cyfweliadau dilynol a gaiff eu cynnal yn y camau ymchwil diweddarach.

## 4.7 Cynlluniau Ffermwyr ar gyfer y Dyfodol

### 4.7.1 Olyniaeth

Mae olyniaeth yn ffactor pwysig yn nyfodol tymor hwy ffermydd a ffermio. Er mwyn ystyried yr agwedd hon ar ffermio, gofynnwyd cyfres o gwestiynau cysylltiedig i ymatebwyr. Er bod y newidyn oedran wedi cael ei drafod mewn dadansoddiadau cynharach, mae'n ddefnyddiol ailystyried proffil oedran ffermwyr yn yr arolwg. Dengys Tabl 4.62 ystod oedrannau ymatebwyr.

**Tabl 4.62 Proffil oedran ymatebwyr**

| Blynyddoedd grŵp oedran | 18-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 neu'n hŷn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfran o 2,402** | 0.3% | 2% | 10% | 26% | 31% | 31% |

Fel y trafodwyd yn gynharach, roedd 27 y cant o'r ymatebwyr yn ferched a 73 y cant yn ddynion. Pwynt pwysig i'w nodi oedd bod 62 y cant o ymatebwyr dros 55 oed.

Dengys Tabl 4.63 nifer y bobl ym mhob aelwyd a ymatebodd.

**Tabl 4.63 Nifer y bobl ymhob aelwyd a ymatebodd.**

| Nifer y bobl | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | Mwy nag 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfran o'r holl (2,402) aelwydydd** | 10% | 41% | 20% | 16% | 9% | 3% | 1% | Llai nag 1% |

Gofynnwyd i bob un o'r 2,402 o ffermydd a ymatebodd a oedd ganddynt gynlluniau ar gyfer olyniaeth y teulu - roedd gan 1,330 o ffermydd gynlluniau olyniaeth. Dengys Tablau 4.64 a 4.65 y canlyniadau hyn yn ôl maint fferm a math o fferm yn y drefn honno.

**Tabl 4.64 Cynlluniau olyniaeth yn ôl maint fferm**

| | Yn gyffredinol | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Oeddent** | 55 | 80 | 70 | 70 | 59 | 46 |
| **Nac oeddent** | 40 | 16 | 27 | 27 | 37 | 49 |
| **Ddim yn gwybod/Gwrthodwyd** | 5 | 4 | 3 | 3 | 4 | 5 |

**Tabl 4.65 Cynlluniau olyniaeth yn ôl math o fferm**

| | Yn gyffredinol | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Oeddent** | 55 | 64 | 55 | 53 | 62 | 51 |
| **Nac oeddent** | 40 | 32 | 41 | 42 | 34 | 46 |
| **Ddim yn gwybod/Gwrthodwyd** | 5 | 4 | 4 | 5 | 4 | 3 |

Dengys y tablau, o ran maint fferm, fod ffermydd mwy o faint yn fwy tebygol o lawer o gael cynlluniau olyniaeth – gyda ffermydd mawr iawn ddeg pwynt canran yn uwch na ffermydd mawr a chanolig.  Ymddengys fod ffermydd bach a bach iawn yn llai gwydn o ran olyniaeth y teulu (gweler isod am bwysigrwydd olyniaeth ar gyfer y teulu).

O ran math o fferm nid oedd y gwahaniaeth mor amlwg. Fodd bynnag, ffermydd godro a ffermydd defaid gyda chig eidion oedd y mwyaf tebygol o gael cynlluniau olyniaeth, sef deg ac wyth pwynt canran yn uwch na'r ffigur cyffredinol o 55 y cant, yn y drefn honno. Roedd y mathau eraill o ffermydd yn agos i'r ffigur cyffredinol, a ffermydd eraill/cymysg oedd y lleiaf tebygol o fod â chynlluniau olyniaeth.

O'r 1,330 o ffermydd oedd â chynlluniau olyniaeth, roedd gan 21 y cant olynydd a oedd yn ferch a 74 y cant ag olynydd a oedd yn ddyn. Ni chafwyd ateb gan y pump y cant a oedd yn weddill. Os bydd y cynlluniau olyniaeth hyn yn dwyn ffrwyth, bydd y gymhareb bresennol sy'n ffafrio'r dyn fel olynydd, ar y lleiaf, yn ei chynnal.

Roedd yr olynwyr arfaethedig yn aelodau o'r teulu yn unig. Meibion oedd 65 y cant ohonynt, a chafwyd 18 y cant o ferched. Roedd pump y cant yn neiaint a dau y cant yn wyrion. Roedd un y cant yn bwriadu i'w gŵr neu wraig neu bartner eu holynu ac roedd niferoedd bach o aelodau eraill o'r teulu megis brodyr, chwiorydd, nithoedd a chyfnitherod. Ni chafwyd ateb i'r cwestiwn gan bedwar y cant.

Dengys Tabl 4.66 ystod oedran yr olynwyr tebygol. Er mwyn cofnodi rhai rhifau bach, nid yw'r canlyniadau wedi'u talgrynnu i rifau cyflawn.

**Tabl 4.66  Ystod oedran olynwyr tebygol**

| Blynyddoedd grŵp oedran | O dan 16 oed | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 neu'n hŷn | Gwrthodwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfran o 1,330** | 16.2% | 20.8% | 24.4% | 22.0% | 8.3% | 1.2% | 0.4% | 6.7% |

Dengys y dadansoddiad nad oedd gan gyfran sylweddol o ffermydd gynlluniau olyniaeth, sef 40 y cant. Roedd y rhain yn anghymesur o fach, ac yn ffermydd cig eidion a defaid.

O ran polisi, ynghyd â'r cyfrannau uchel a nododd y byddent yn gadael ffermio pe câi eu taliadau PAC eu lleihau (Tabl 4.32 – 20 y cant os byddai lleihad o fwy nag 20 y cant a saith y cant os b yddai lleihad o lai nag 20 y cant) mae'n rhaid bod pryderon posibl o ran gwytnwch y sector ffermio.

### 4.7.2 Gweledigaethau ffermwyr ar gyfer y dyfodol

Holwyd ymatebwyr ynghylch eu gweledigaethau ar gyfer eu fferm ymhen pum mlynedd a deng mlynedd, a beth fyddai'n cynorthwyo neu'n rhwystro'r gweledigaethau hyn yn eu barn hwy. Dengys Tabl 4.67 y prif gategorïau a gofnodwyd.

**Tabl 4.67 Gweledigaethau ar gyfer pump a deng mlynedd**

| Gweledigaeth | Ymhen 5 mlynedd | Ymhen 10 mlynedd |
|---|---|---|
| | % | % |
| Aros fel y mae/dim newid/aros yn broffidiol fel rydym nawr | 47 | 25 |
| Wedi ymddeol/gwerthu/allan o ffermio | 5 | 13 |
| Olyniaeth raddol/ymddeol yn rhannol/y plant yn gwneud mwy | 5 | 10 |
| Gwneud elw/bod yn economaidd hyfyw/gwella cyllid | 7 | 5 |
| Ehangu/cymryd mwy o dir/mwy o adeiladau/cynyddu nifer y da byw | 11 | 8 |
| Lleihau/gwerthu tir/llai o dda byw | 3 | 2 |
| Gosod tir/ei rentu allan/prydlesu adeiladau | 2 | 2 |
| Arallgyfeirio gweithgarwch i ennill incwm (hamdden/twristiaeth) | 2 | 2 |
| Adfywio’r tir/gwella’r tir/gwella’r fferm | 3 | 1 |
| Newid yn y ffermio presennol (dim mwy o odro/llai o laeth a mwy o lysiau) | 3 | 2 |
| Mwy cynaliadwy/hunangynhaliol/lleol | 1 | 1 |
| Cadwraethol/amgylcheddol/yn fwy gwyrdd (defnyddio ynni amgen) | 2 | 1 |
| Cynhyrchu bwyd | 1 | 1 |
| Rhan o fferm fwy/Ffermio ar y cyd | <1 | 1 |
| Wedi dod i ben/wedi mynd i'r wal/yn cael anhawster/wedi dod i ben oherwydd biwrocratiaeth/methdalu | 1 | 1 |
| Cynyddu cynhyrchiad/mwy effeithlon/ gwella | 5 | 3 |
| Gweithio ar y fferm yn amser llawn / rhoi'r gorau i gyflogaeth arall | <1 | <1 |
| Mae'n dibynnu ar ddiwygio'r PAC | <1 | <1 |
| Arall | 1 | <1 |
| Ddim yn gwybod | 16 | 35 |
| Gwrthodwyd | <1 | 1 |

Mae dyfyniadau gan ymatebwyr yn dangos y dadansoddiad.

Y weledigaeth fwyaf cyffredin ymhen pum mlynedd, ar 47 y cant, oedd dim newidiadau mawr, ac yn parhau i wneud elw ar gyfer eu busnesau ffermio. Roedd y gyfran a oedd yn rhagweld hyn ymhen 10 mlynedd wedi lleihau i 25 y cant. Un weledigaeth boblogaidd oedd ehangu'r fferm drwy gael mwy o dir, mwy o adeiladau neu fwy o dda byw. Yn wir, dyma'r ail weledigaeth fwyaf cyffredin dros bum mlynedd, sef 11 y cant a'r bedwaredd weledigaeth fwyaf cyffredin dros 10 mlynedd. Yn ogystal, roedd pump y cant ar gyfer y cam pum mlynedd, a thri'r cant ar gyfer y cam 10 mlynedd, yn rhagweld cynyddu cynhyrchiant a dod yn fwy effeithlon. Yn gyffredinol, prin oedd y gwahaniaeth yn ôl math o fferm.

Mae'r detholiad hwn o ddyfyniadau yn dangos y weledigaeth o 'ehangu'.

> *'Wedi ehangu ychydig drwy rentu a phrynu tir.' (Dyn, 45-54, Canolig, Defaid, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Hoffwn gael fy fferm fy hun.' (Merch, 35-44, Bach iawn, Defaid, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Cynyddu ffermio.'(Merch, 45-54, Bach iawn, Defaid)*

Roedd gan gyfrannau cymharol fawr o'r arolwg – saith y cant ar gyfer y cam pum mlynedd a phump y cant ar gyfer y cam 10 mlynedd – uchelgeisiau mwy cyffredin ac yn rhagweld newid er gwell, lle byddent yn gwneud elw ac yn gwella eu sefyllfa ariannol.

> *'Yn gwneud bywoliaeth i fi a'm rhieni, yn hytrach nag edrych am ffordd arall o gadw'r fferm i fynd'. (Dyn, 45-54, Bach, Eidion, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*

Yn wahanol i weledigaethau o ehangu, neu o leiaf aros yr un peth, roedd tri y cant yn rhagweld gwerthu a lleihau tir neu dda byw ymhen pum mlynedd, ac roedd dau y cant yn rhagweld y senario hon ymhen 10 mlynedd. Roedd dau y cant o'r arolwg, o ran y ddwy amserlen, yn rhagweld rhoi tir neu adeiladau ar brydles.

Roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y byddent yn gadael ffermio, naill ai drwy ymddeol neu werthu'r fferm. Roedd y cyfrannau'n cynyddu yn ôl yr amserlenni. Roedd pump y cant yn rhagweld y byddent wedi gadael ffermio ymhen pum mlynedd ac roedd 13 y cant yn rhagweld y byddent wedi gwneud hynny ymhen 10 mlynedd. Yn gysylltiedig â gadael ffermio ac yn dangos yr un berthynas o ran amserlenni, roedd senario a oedd yn cwmpasu ymddeoliad graddol neu rannol gydag aelodau iau o'r teulu a ffermwyr iau yn gyffredinol yn cymryd mwy o gyfrifoldeb gydag amser. Roedd pump y cant yn rhagweld y senario hon ymhen pum mlynedd a 10 y cant ymhen 10 mlynedd.

> 'Fy mab yn cymryd yr awenau ac yn ymwneud mwy â gwyrddio yn sgîl ei ddiddordeb mewn cadwraeth.' *(Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Byddwn yn gobeithio y byddai'r to ifanc yn cymryd drosodd, a byddai pethau'n cael eu hadfywio rywfaint.' (Merch, 31-52, Canolig, Defaid, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Hoffwn i'r bobl ifanc gymryd rhan.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Hoffwn weld rhai ffermwyr ifanc ag uchelgais ar y fferm.'(Merch, 65+, Bach, Defaid, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Roedd gan rai pobl weledigaeth dywyllach o adael ffermio ac yn rhagweld na fyddai'r busnes yn bodoli mwyach, '*wedi mynd i'r wal*', '*wedi'i ddifetha gan fiwrocratiaeth*', neu 'wedi mynd yn fethiant'. Roedd un y cant o bobl yn meddu ar y farn hon ar gyfer y cam pum mlynedd a 10 mlynedd.

> *'Os bydd yr arian yn cynyddu byddwn yn symud ymlaen, fel arall byddwn yn aros yr un peth neu'n gorfod gadael.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Llai o waith papur - mae gwaith papur yn lladd ffermio, yn lladd popeth.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Godro, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Roedd y weledigaeth o sector ffermio â llai o fiwrocratiaeth yn boblogaidd. Er enghraifft, roedd y ffermwr hwn yn cyfuno gweledigaeth o fagu anifeiliaid di-glefyd â dadleuon dros lai o ymyrraeth gan y llywodraeth a llai o reoliadau.

> *'Byddai bob man yn rhydd o TB felly byddem yn dal i gynhyrchu cig eidion a byddai'r marchnadoedd yn sefydlog, byddai llai o ymyrraeth gan y llywodraeth a byddai mwy o ryddid.' (Merch, 45-54, Bach, Defaid ac Eidion , 31-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Roedd y ffermwyr hyn yn cytuno â'r ddadl dros lai o reoliadau.

> *'Fferm sy'n treulio ei hamser yn ffermio, yn hytrach nag o dan fynydd o waith papur.' (Dyn, 65+, Bach, Eidion, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *' Yn gwneud bywoliaeth ddigonol ac yn llewyrchus. Llai o waith papur a biwrocratiaeth.' (Dyn, 45-54, Bach iawn, Defaid, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Yn gwella pan fyddant wedi cael gwared ar fiwrocratiaeth.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

> *'Dim ond cyfeiriad cywir heb unrhyw ymyrryd.' (Dyn, 35-44, Canolig, Defaid ac Eidion , 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Cadw'r taliad sengl a chael pris mwy sefydlog am ein nwyddau a llai o fiwrocratiaeth o lawer.' (Dyn , 45-54, Bach iawn, Defaid ac Eidion, 10k-15.5k, incwm oddi ar y fferm)*

> *'Os gallwn gael diwydiant ffermio proffidiol gyda llai o reoliadau a llai o gyfyngiadau yna fe hoffwn weld busnes sy'n rhedeg yn llwyddiannus' (Dyn, 55-64, Mawr iawn, Arall/cymysg, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Fodd bynnag, roedd y ffermwr hwn yn dadlau y dylai Llywodraeth Cymru ymwneud yn fwy â ffermio.

> *'Hoffwn weld y llywodraeth yn gofalu am ffermwyr yn fwy nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, 10k-15.5k, incwm oddi ar y fferm)*

Dadleuwyd nad oedd ffermwyr yng Nghymru yn cael bargen deg o ran taliadau PAC o gymharu â ffermwyr yn Ewrop.

> 'Busnes sy'n rhedeg yn llwyddiannus - sy'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun mewn amgylchedd busnes cywir i gynhyrchu'r hyn sydd ei angen yn y farchnad heb ymyrraeth gan ffynonellau allanol. *Amaethyddiaeth mewn perthynas â'n cystadleuwyr yn Ewrop - maen nhw'n cael £80 yn fwy*

*fesul hectar o gymharu â thaliadau sy'n seiliedig ar dir yng Nghymru .' (Dyn, 55-64, Mawr iawn, Arall/cymysg, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Nododd ffermwr arall, a oedd yn ystyried gadael y wlad, y driniaeth annheg o ran y PAC, yn ei farn ef.

*'Os nad wyf wedi gwerthu ac yn ffermio yng Nghanada, hoffwn fod â hawl i gael yr un taliadau â phawb arall ar ôl colli allan fel rhan o'r flwyddyn gyfeirio ddiwethaf.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Arall/Cymysg, 10k-15.5k, incwm oddi ar y fferm)*

Dim ond cyfrannau cymharol fach o'r arolwg a oedd yn rhagweld y byddent yn ymwneud â gweithgareddau arallgyfeirio, adfywio a gwella, cadwraeth a gwyrddio. Er enghraifft, dim ond dau y cant oedd yn rhagweld y byddent yn arallgyfeirio ymhen pump a 10 mlynedd. A dim ond tri y cant o bobl ar gyfer y cam pum mlynedd ac un y cant ar gyfer y cam 10 mlynedd oedd yn rhagweld y byddent yn adfywio ac yn gwella'r tir. Yn yr un modd, o ran yr agenda cadwraeth, gwyrddio ac ynni amgen, dim ond cyfrannau bach oedd yn rhagweld y byddent yn ymwneud â hyn: dau y cant ymhen pum mlynedd ac un y cant ymhen 10 mlynedd. Yn wir, roedd rhai o'r farn bod syniadau o'r fath yn fygythiad i ffermio. Er enghraifft, dadleuodd y ffermwr hwn yn erbyn ymwneud Ewrop ag amaethyddiaeth a 'gwyrddio'.

'Rwy'n credu bod ffermwyr Ewrop yn wael i amaethyddiaeth. *Mae'r byd yn newynu ac maen nhw'n chwarae o gwmpas â gwyrddio ac nid dyna'r ffordd. O ganlyniad i hyn rwy'n meddwl bydd fy fferm i yn mynd i'r wal yn araf bach.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

Roedd cyfrannau bach yn rhagweld senarios megis ffermio a rennir, bod yn rhan o fferm fwy, a newid eu dull presennol o ffermio.

*'Delio â'r sefyllfa o ran y tŷ ac adeiladu'r tir gyda'n gilydd, yn hytrach na chael llawer o dir.' (Bach, 45-54, Bach iawn, Arall/cymysg, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Gwerthu a phrynu un fferm fawr mewn un lle.' (Dyn, 16-24, Canolig, Defaid ac Eidion , 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Nododd cyfran fach (0.3 y cant) yn y ddwy amserlen y byddai'r dyfodol yn dibynnu ar ddiwygio'r PAC; gwrthododd llai nag un y cant ateb y cwestiwn; ac nid oedd cyfrannau cymharol fawr o bobl yn gwybod; sef 16 y cant ar gyfer y cam pum mlynedd a 35 y cant ar gyfer y cam 10 mlynedd.

### 4.7.3 Gweledigaethau ffermwyr ar gyfer y dyfodol – Cymorth a rhwystrau

Ar ôl nodi eu gweledigaethau, gofynnwyd i ymatebwyr beth fyddai'n eu cynorthwyo i wireddu'r gweledigaethau hyn a beth fyddai'n eu rhwystro. Er bod y cwestiynau'n gofyn am yr hyn fyddai'n eu cynorthwyo a'u rhwystro yn benodol, mae ffermwyr yn grŵp cymysgryw ac roedd yr ymatebion yn aml yn fwy cyffredinol a thameidiog. Yn hytrach na glynu at benawdau llym sef 'cynorthwyo yn erbyn rhwystro' mae'r dadansoddiad hwn yn nodi'r prif ddadleuon a gafwyd o dan themâu eang, a nodir mewn dyfyniadau gan ymatebwyr.

Dadleuodd tua chwarter o'r arolwg (23 y cant) fod angen gwell prisiau ar y farchnad ac economi sefydlog. Gan gefnogi'r dadleuon hyn, dywedodd dros un chwarter o'r arolwg (26 y cant) y byddai prisiau llai ar y farchnad a'r sefyllfa economaidd enbyd yn rhwystrau – yr angen am welliant a nodwyd yn gryno gan yr ymatebwr hwn .

*'Byddai gwelliant cyffredinol yn y sefyllfa economaidd o gymorth.'*

*(Dyn, 45-54, Bach, Cig Eidion, 15.5k-21k, incwm oddi ar y fferm)*

Ond ymddengys fod y sefyllfa economaidd bresennol yn rhwystro unrhyw gynnydd mewn ffermio. Ymhlith y rhwystrau a nodwyd roedd y canlynol.

*'Prinder arian neu gyfle i wella'r tir.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, <10k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Biwrocratiaeth ac yn amhosibl cael cyllid.' (Merch, 45-54, Bach, Arall/cymysg, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

Un agwedd ar y sefyllfa economaidd a nodwyd gan rai ymatebwyr oedd y prisiau isel ar y farchnad o ganlyniad i ddefnyddwyr yn dewis bwyd rhatach, a gâi ei fewnforio yn aml a'i werthu gan archfarchnadoedd. Roedd hyn yn rhwystro unrhyw gynnydd tuag at eu gweledigaethau ar gyfer ffermio.

*'Angen cefnogaeth y wlad arnom i brynu cynnyrch cartref yn hytrach na mewnforion.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Nifer gynyddol yr archfarchnadoedd sy'n parhau i ddod i ardaloedd a phentrefi gwledig yn enwedig.' (Merch, 45-54, Bach iawn, Arall/cymysg, 15.5k-21k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Bomiwch yr archfarchnadoedd i gyd!' (Dyn, 65+ Bach iawn, Arall/cymysg, heb incwm oddi ar y fferm)*

Nodwyd bod mewnforion yn rhwystr i ffermio yng Nghymru.

*'Mewnforion o Dde America, dyna'r peth mwyaf ar y foment.' (Dyn, 55-64, Canolig, Arall/cymysg, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*

*'Yr Ewro, Seland Newydd a Tesco!' (Dyn, 45-54, Canolig, Arall/cymysg, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Gormod yn cael ei fewnforio o Seland Newydd, yn enwedig cig oen.' (Dyn, 35-44, Bach, Defaid ac Eidion, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Gofynnodd yr ymatebwr hwn am gynnal prisiau'r farchnad.

*'Mae'n rhaid cynnal prisiau'r farchnad er mwyn darparu incwm digonol.' (Dyn, 65+, Mawr iawn, Defaid, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

Dadleuodd y ffermwyr hyn dros well brisiau ar y farchnad, llai o reoliadau a rheolaeth dros gostau tanwydd.

*'Llai o reoliadau, gwell prisiau ar y farchnad a rheoli costau tanwydd.' (Dyn, 45-54, Mawr, Arall/cymysg, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Llai o gymorthdaliadau, gwell prisiau ar y farchnad a chostau mewnbwn is.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Cymorth i sicrhau bod ein marchnadoedd cartref a'n marchnadoedd allforio yn gryf ac atgyfnerthu rôl yr HCC.' (Merch, 45-54, Canolig, Defaid â Chig Eidion, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Dylid cael gwared ar y PAC a chynnal prisiau ar lefel realistig.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Defaid, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Nododd y ffermwyr canlynol y problemau presennol gyda phris llaeth yn benodol, ynghyd â'r angen i ddifa moch daear.

*'(Mae angen) Prisiau llaeth rhesymol a difa moch daear.' (Dyn, 55-64, Mawr, Llaeth, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Prisiau llaeth nad ydynt yn cyd-fynd â'r mynegai prisiau manwerthu a diffyg seilwaith cenedlaethol, a fydd yn rhwystro parodrwydd y llaethdy i gasglu'r cynnyrch.' (Dyn, 65+, Mawr, Llaeth, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Ystyriwyd bod costau mewnbwn yn ffactor economaidd arall a oedd fyddai'n cael effaith ar ffermio yn y dyfodol. Awgrymodd pump y cant o'r arolwg y byddai costau mewnbwn is yn cynorthwyo eu gweledigaethau. Gan gyflwyno'r un ddadl, dadleuodd saith y cant y byddai prisiau mewnbwn uwch yn rhwystr yn y dyfodol.

Er i gyfran fach, sef tri y cant, awgrymu bod angen diwygio'r PAC, neu o leiaf bod angen eglurder ynghylch diwygio'r CAP, er mwyn cynorthwyo eu gweledigaethau, dadleuodd cyfran llawer mwy, sef 15 y cant, fod yn rhaid cael cynnydd, neu o leiaf dim gostyngiad mewn cymorthdaliadau, er mwyn gwireddu eu gweledigaethau. Ac roedd 11 y cant yn poeni y byddai gostyngiad mewn taliadau PAC a phroses negyddol ganfyddedig o ddiwygio'r CAP yn rhwystro eu gweledigaethau a'u cynlluniau. Er enghraifft, roedd y ffermwr hwn yn pryderu ynghylch cymorthdaliadau a oedd yn gostwng.

*'Diwygiadau i'r PAC sy'n achosi gostyngiad mewn taliadau.' (Dyn, 25-34, Bach, Arall/cymysg, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*

Ac roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod yr elfennau 'gwyrddio' o'r broses o ddiwygio'r PAC yn rhwystro eu gweledigaethau ffermio.

*'Dylai'r broses o ddiwygio'r PAC sicrhau nad yw'r elfen wyrddio yn mynd yn ormodol ac yn mynd yn gryfach na'r ochr gynhyrchu.' (Dyn, 45-54, Bach, Defaid, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae'r broses o ddiwygio'r PAC a mesurau gwyrddio yn rhwystr ' (Dyn, 55-64, Mawr, Llaeth, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Rhaid i'r UE wrando ar y ffermwr. Dylid rhoi pwyslais ar gynhyrchiant ac nid tir.' (Dyn, Bach iawn, Arall/cymysg, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Setliad teg yn Ewrop o ran diwygio'r PAC a chydnabyddiaeth o'r angen i ni gynhyrchu bwyd, a bwyd o safon uchel yng Nghymru a'r DU.' (Dyn, 65+, Mawr, Defaid, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Gormod o gadwraeth werdd.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Fodd bynnag, roedd yr ymatebwr hwn yn dadlau y gallai cynnydd mewn taliadau PAC arwain at dir fferm nad yw'n gynhyrchiol wrth i berchnogion tir ddechrau rhentu eu tir.

*'Os bydd cynnydd mewn taliadau ni fydd pobl yn ffermio – byddant ond am gadw'r tir i gael taliadau.' (Dyn, 55-64, Canolig, Arall/cymysg, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Gan ailadrodd y dadleuon yn erbyn rheoliadau a biwrocratiaeth fel y trafodwyd uchod, gofynnodd saith y cant am lai o fiwrocratiaeth a rheoliadau i gynorthwyo ffermio yn y dyfodol, a dadleuodd 10 y cant y byddai cynnydd mewn biwrocratiaeth a rheoliadau yn rhwystro eu gweledigaethau.

Fel y gwelir yn y dyfyniadau canlynol, cafwyd beirniadaeth ynghylch Llywodraeth Cymru, er bod pump y cant o ymatebwyr o'r farn bod mwy o gefnogaeth a chymorth gan y llywodraeth yn angenrheidiol er mwyn gwireddu eu gweledigaethau.

*'Dylid parhau i gael cefnogaeth gan y llywodraeth a gwybodaeth well. Dylai arolygwyr Tir Gofal barhau â'r gwasanaeth.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Synnwyr cyffredin ymarferol ymhlith ein gwleidyddion ar gyfer amaethyddiaeth. Byddwch yn ymarferol o ran prosesu bwyd – dylai ganolbwyntio ar y bobl sy'n gwneud y gwaith mewn gwirionedd, nid y rhai sy'n ei hysbysebu.' (Dyn, 45-54, Bach iawn, Arall/cymysg, 15.5k -21k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Gormod o bobl yn gweithio yn y llywodraeth, yn y weinidogaeth, sydd wedi bod i'r coleg ac yn meddwl eu bod yn gwybod yn well na rhywun sydd wedi bod yn ffermio ers 50-60 mlynedd. Nid oes ganddynt y profiad i wneud penderfyniadau.' (Merch, 55-64, Bach iawn, Cig Eidion, 15.5k-21k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Byddai hybu bwyta'n iach yn helpu.' (Dyn, 35-44, Bach iawn, Arall/cymysg, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Dadleuodd y ffermwr hwn dros fwy o gymorth gan y llywodraeth a dull radical o ddelio â TB buchol.

*'Help gan y llywodraeth yn hytrach na gweithio yn ein herbyn. Profion TB bob chwe mis. Gwerthu cig moch daear!' (Dyn, 45-54, Bach, Cig Eidion, 15.5k-21k, incwm oddi ar y fferm)*

Awgrymodd pump y cant o ymatebwyr y byddai hir oes ac iechyd da yn helpu i wireddu eu gweledigaethau. Gan adlewyrchu proffil oedran a oedd o blaid y ffermwr hŷn o bosibl, nododd dwywaith y gyfran hon (11 y cant) fod eu hoedran a'u hiechyd yn rhwystrau posibl i wireddu eu gweledigaethau ar gyfer eu ffermydd. Fodd bynnag, nododd cyfrannau cymharol fach o'r arolwg ei bod naill ai'n angenrheidiol cael cynlluniau olyniaeth er mwyn gwireddu eu gweledigaethau neu fod diffyg cynllun olyniaeth yn rhwystr iddynt - tri y cant a dau y cant yn y drefn honno.

Roedd safbwyntiau gwahanol ar oedran a ffermio. Dadleuodd rhai bod gormod o bwyslais ar ffermwyr ifanc a bod ffermwyr hŷn yn cael eu hanwybyddu.

*'Cymorth i'r ffermwr hŷn gan fod popeth yn dod i ben yn bedwar deg un oed.' (Dyn, 45-54, Bach iawn, Defaid, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Galwodd eraill am gymorth i ffermwyr iau.

*'Cyfle i'r to ifanc.' (Dyn, 65+, Bach. Defaid â chig eidion, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Mwy o ddarpar ffermwyr ifanc yn y busnes.' (Dyn, 45-54, Bach, Arall/cymysg, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

Er hyn roedd rhai o'r farn bod problemau i'r ffermwyr iau mewn diwydiant sydd mewn trafferthion:

*'Mae fy mab yn gwneud llawer yn fwy nag y bydd ffermio byth yn ei wneud iddo ef, dim llawer o ddyfodol mewn ffermio i'r to ifanc mwyach.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Prinder pobl sydd am rentu, a phrinder pobl ifanc yn dod i'r diwydiant.' (Merch, 65+, Canolig, Cig Eidion, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Prinder pobl ifanc sydd am ymgymryd â'r gwaith, mae pobl ifanc yn yr ardal sy'n cael eu dal yn ôl.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Defaid, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Pobl sy'n dod i mewn i'r busnes ffermio heb unrhyw wybodaeth flaenorol ac nid oes syniad ganddynt*

*beth maent yn ei wneud. Mae gan blant ffermio'r wybodaeth ond nid oes ganddynt y cyllid .' (Merch, 35-44, Bach iawn, Cig Eidion, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

Yn gysylltiedig â'r drafodaeth hon oedd un a oedd yn ymwneud â ffermydd llai a oedd yn cael eu meddiannu a'u cyfuno â ffermydd mwy. Ystyriwyd bod hyn yn rhwystr.

*'Bydd ffermydd mwy sy'n cymryd ffermydd bach drosodd yn ein gorfodi i adael.' (Dyn, 65+, Bach, Eidion, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Roedd thema a oedd yn ymwneud â thechnoleg a'r rhyngrwyd. Dadleuodd ymatebwyr y byddai gwell cysylltedd yn cynorthwyo gweledigaeth o ffermio gwell.

*'Gwell cysylltedd â'r byd mawr. Cysylltiad rhyngrwyd.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

'*Gwell technoleg, gwell cysylltiadau rhyngrwyd, cyfalaf i allu buddsoddi mewn adeiladau er mwyn arallgyfeirio, cyllid.' (Merch, 35-44, Bach iawn, Cig Eidion, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Help effeithiol neu dechnoleg sy'n ymwneud ag ynni.' (Dyn, 45-54, Canolig, Llaeth, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Rwy'n defnyddio llawer o systemau cyfathrebu dros y rhyngrwyd felly pe caent eu prif ffrydio yn well, byddent yn haws i'w defnyddio.' (Merch, 45-54, Bach iawn, Arall/cymysg, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Ac fel y trafodwyd yn gynharach, er nad oedd arallgyfeirio mor eang ymhlith poblogaeth yr arolwg, ac nad oedd llawer o bobl yn bwriadu ymhél ag ef chwaith, roedd rhai ymatebwyr o blaid gwerth posibl incwm o weithgarwch arallgyfeirio ac incwm oddi ar y fferm.

*'Byddai aelodau o'r teulu ag incwm eilaidd neu incwm o weithgarwch arallgyfeirio o gymorth.' (Dyn, 65+, Mawr iawn, Defaid, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Y gallu i arallgyfeirio ar y fferm. (byddai hynny'n helpu)' (Dyn, 55-64, Bach, Defaid gydag Eidion, 52k+, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Y ffaith y bydd gan y ddau ohonynt incwm o'r tu allan, dyna'r unig ffordd y gall fod yn realistig oherwydd ni all y fferm ddarparu cymaint o incwm â hynny a chynhyrchu digon o elw.' (Merch, 45-54, Bach, Defaid, 10k-15.5k, incwm oddi ar y fferm)*

Rhywbeth arall a drafodwyd yn gynharach oedd y diffyg diddordeb cymharol mewn materion 'gwyrdd'. Serch hynny, roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai 'gwyrdd' oedd y ffordd ymlaen. Dadleuodd y ffermwr hwn dros bolisïau tir a oedd yn ymwybodol o'r amgylchedd.

*'Mwy o bolisïau bio-gyfeillgar ar gyfer tir amgylchynol.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Ac roedd yr ymatebwr hwn am gael cymorth.

*'Cymorth i sefydlu gwelyau cyrs.' (Merch, 65+, Bach iawn, Arall/cymysg, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Mae'r tywydd, wrth gwrs, yn hanfodol bwysig i ffermio. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at y tywydd, yr haf gwlyb presennol, newid yn yr hinsawdd a rhwystr cynhesu byd-eang.

*'Os bydd hi'n stopio bwrw glaw ymhen 10 mlynedd!' (Dyn, 45-54,*

*Bach, Defaid gydag Eidion, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae'r tywydd o ganlyniad i gynhesu byd-eang.' (Dyn, 55-64, Mawr, Godro, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae newid yn yr hinsawdd yn cyflwyno risg wirioneddol.' (Dyn, 35-44, Bach iawn, Eidion, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Y tywydd yw'r hyn rydym yn brwydro yn ei erbyn yn barhaus.' (Dyn, 65+, Bach, Defaid, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Byddai effaith cynhesu byd-eang yn newid y dirwedd ac yn ei gwneud yn anodd ar gyfer yr hyn rydym yn ei gynllunio.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Defaid, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Yr unig bryder sydd gen i yw newid yn yr hinsawdd.' (Dyn, 65+, Bach iawn, Arall/cymysg, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Bydd problemau cynhesu byd-eang yn ein gorfodi i fod yn gynaliadwy.' (Dyn, 55-64, Bach iawn, Defaid, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*'Gallai newid yn yr hinsawdd fod yn broblem hefyd – mae ein cyflenwad dŵr yn dioddef yn ystod hafau sych, gan ein bod ar dywodfaen.' (Dyn, 31k-52k, Bach iawn, Arall/cymysg, <10k, incwm oddi ar y fferm)*

Nid ystyriwyd bod prosiectau ynni amgen yn fuddiol.

*'Cynlluniau ynni amgen – rydym yn agos at gopa bryn ac os byddent yn gosod ffermydd gwynt neu baneli haul ar y bryn byddem yn colli ein holl incwm o ffilmiau gan na fyddem yn edrych fel safle o'r oes o'r blaen mwyach.' (Dyn, 31k-52k, Bach iawn, Arall/cymysg, <10k, incwm oddi ar y fferm)*

*'Mae ynni yn mynd i chwarae rôl bwysig. Nid wyf yn credu y bydd ffermydd gwynt yn gallu ymdopi â galwadau ynni.' (Merch, 65+, Bach, Eidion, 10k-15.5k, heb incwm oddi ar y fferm)*

*Hamdden arall ar ffermydd. (Bydd cynlluniau am ffermydd gwynt gerllaw yn rhwystro fy ngweledigaeth (Dyn, 55-64, Bach iawn, Defaid, 21k-31k, incwm oddi ar y fferm)*

Oni bai y byddai ar dir y ffermwr.

*'Byddai incwm posibl o dyrbin gwynt yn darparu incwm ychwanegol.' (Merch, 45-54, Mawr iawn, Llaeth, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*

Cyfeiriodd cyfrannau bach o'r arolwg at y ffaith bod ffactorau megis dileu TB, argaeledd tir a gostyngiad ym mhris tir, ac addasiadau buddiol i dreth incwm, treth etifeddiant a threth ar enillion cyfalaf yn berthnasol i'w gweledigaethau ar gyfer eu ffermydd. Nid oedd gan fwy nag un rhan o bump o'r arolwg (21 y cant) unrhyw syniadau ar yr hyn a allai gynorthwyo neu rwystro eu gweledigaeth, neu gwnaethant wrthod ateb y cwestiynau.

Yn olaf, darparodd y dyfyniad hwn, er y gellir dadlau ei fod braidd yn ddelfrydol, weledigaeth i anelu ar ei chyfer.

*'Bydd pobl ifanc o fewn economi wledig hyfyw yn aros er mwyn gwneud bywoliaeth ohoni. Bywoliaeth safonol yw'r hyn y mae'r mwyafrif am ei chael. Bydd hyn yn sicrhau bod cymunedau yn aros gyda'i gilydd. Mae angen i bobl wario arian yn y gymuned leol er mwyn i'r economi oroesi. Mae pobl sy'n aros yn yr ardal leol yn cyfrannu at foeseg gymdeithasol megis llai o droseddu a manteision cymdeithasol*

*eraill megis ymddiriedaeth ' (Dyn, 55-64, Mawr , Llaeth, 1. 5.5k-21k, incwm oddi ar y fferm)*

Yn debyg i'r dadansoddiadau ansoddol cynharach, nid yw'r dyfyniadau hyn yn cynrychioli ffermwyr yng Nghymru. Maent yn werthfawr am eu bod yn adlewyrchu barn ffermwyr yng Nghymru am eu sefyllfa bresennol a'u dyfodol, ac maent yn dangos materion allweddol. Mae'r materion hyn yn cynnwys y ddealltwriaeth eang y gallai ffermwyr barhau fel ag y maent; pryderon ynghylch gorfod gadael ffermio; canfyddiadau bod ffermio yn cael ei reoleiddio'n ormodol; pryderon ynghylch y sefyllfa economaidd gyffredinol a'i heffaith ar ffermwyr; problemau parhaus yn y sector llaeth; dibyniaeth ar gymorthdaliadau PAC; cefnogaeth i ffermwyr iau; cyfathrebu â Llywodraeth Cymru; a phwysigrwydd technoleg a chysylltedd band eang. Yn bwysicach, mae'r dadansoddiad yn ategu ac yn cyfeirio at y goblygiadau o ran polisi a nodwyd drwy gydol yr adroddiad.

## Section 4.8 Dadansoddiad Hydredol – Bregusrwydd, Gwytnwch, Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth

### 4.8.1 Y sail dros y Dadansoddiad Hydredol

Fel y crybwyllwyd yn Adran 1.4 (Cyflwyniad) ac Adran 2.4 (Dulliau ymchwil a Dadansoddi), roedd y prif arolwg o 2,402 o ffermydd yn cynnwys sampl hydredol o 452 o ffermydd. Cafodd y 452 o ffermydd hyn eu harolygu'n flaenorol fel rhan o brosiect AWC ar gyfer Llywodraeth Cymru 'Arolwg o Aelwydydd Ffermio yng Nghymru' (2010). Yn debyg i'r arolwg presennol, roedd y prosiect hwn yn defnyddio arolwg dros y ffôn (o 1009 o aelwydydd ffermio) ac er bod ffocws gwahanol i holiaduron y ddau arolwg, ac o ganlyniad gwestiynau gwahanol, roedd yn bosib cynnal dadansoddiad hydredol yn sg îl rhai agweddau arloesol ar y dadansoddiad o ddata arolwg 2010.

Roedd adroddiad prosiect 2010 yn ymgorffori tri dull o ddadansoddi: meintiol, ansoddol a 'theipolegol'. Roedd data meintiol yn destun dadansoddiad amlder confensiynol. Casglwyd data meintiol o ddau gwestiwn penagored, a oedd yn cyflwyno senarios penodol. Roedd y cwestiwn cyntaf [C21] yn ymwneud â diwygio'r PAC, datblygu polisïau a mwy o gyfrifoldebau amgylcheddol, ac roedd yr ail gwestiwn [C22] yn canolbwyntio ar y wasgfa cost/pris yn y farchnad ar gyfer cynnyrch amaethyddol. O'r ymatebion i'r rhain, datblygwyd dau god cwestiwn. Câi'r codau hyn eu gosod o fewn un o ddau grŵp cod: Bregus neu Wydn.

Dadansoddiad 'teipolegol' a gafwyd yn y cam nesaf. Crëwyd tri mynegai:

- *Arallgyfeirio* – datblygu gweithgareddau ar y fferm, nad ydynt yn rhai amaethyddol i helpu i gynnal y daliad fferm.
- *Amlswyddogaetholdeb* – y graddau y mae ffermydd yn cyfrannu, y tu hwnt i'w prif swyddogaeth o gynhyrchu bwyd a ffibr, at fanteision amgylcheddol megis cadwraeth tir, rheoli adnoddau naturiol adnewyddadwy yn gynaliadwy; diogelu bioamrywiaeth; ac agweddau cymdeithasol-economaidd.
- *Entrepreneuriaeth* – gallu, sgiliau a meddylfryd ffermwyr o ran cynnull adnoddau a datblygiadau arloesol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o fentro i farchnadoedd gwahanol.

Cam cyntaf y broses o greu mynegeion oedd nodi' r cwestiynau yn yr arolwg a oedd yn gymwys i bob mynegai unigol. Roedd rhai cwestiynau, wrth gwrs, yn gymwys i fwy nag un mynegai. Nesaf, dyrannwyd sgorau i bob cwestiwn. Wrth ddyrannu'r sgorau, ystyriwyd pwysiad neu bwysigrwydd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Yna, cyfrifwyd y sgôr uchaf posibl ar gyfer pob mynegai unigol. Roedd y broses hon o greu mynegai yn ymwneud â phrofi sensitifrwydd a chreu continwwm ar gyfer pob mynegai. Canlyniad y broses hon oedd creu tri mynegai cadarn a fesurai hyd a lled yr arallgyfeirio, yr amlswyddogaetholdeb a'r entrepreneuriaeth yn y sampl. A, thrwy ddefnyddio SPSS [Statistical Package for the Social Sciences], gellid lleoli pob fferm yn yr arolwg ar bob mynegai.

Cam olaf y dadansoddiad hwn oedd dadansoddiad teipolegol. Roedd hyn yn cynnwys croes tablu'r newidynnau o ran Bregusrwydd a Gwytnwch ar gyfer C21 a C22 â'r mynegeion o ran Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth. I gael disgrifiadau manylach ac i weld canlyniadau'r dadansoddiad hwn, ewch i Adran 4 ac Adran 8 o'r ddogfen 'Arolwg o Aelwydydd Ffermio yng Nghymru' (2010).

### 4.8.2 Sampl Hydredol – Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau i'r PAC

Yn gyntaf, gwnaed croes tabliadau â'r sampl hydredol yn erbyn y cwestiwn yn yr arolwg - 'A ydych yn ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013?'.

O'r 452 o ffermydd yn y sampl hydredol:

roedd 306 o ffermydd yn ymwybodol = 68 y cant

nid oedd 146 o ffermydd yn ymwybodol = 32 y cant

#### 4.8.2.1 Ymwybyddiaeth o ddiwygiadau i'r PAC yn ôl y mynegeion Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth

Mae Tabl 4.68 yn dadansoddi'r data ymwybyddiaeth yn ôl y mynegeion Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth.

**Tabl 4.68 Ymwybyddiaeth o ddiwygiadau i'r PAC yn ôl mynegai**

| Yn ymwybodol | Cyfanswm | Lleiaf Arallgyfeiriedig | Mwyaf Arallgyfeiriedig | Lleiaf Amlswyddogaethol | Mwyaf Amlswyddogaethol | Lleiaf Entrepreneuraidd | Mwyaf Entrepreneuraidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oeddent | 306 | 174 | 132 | 99 | 207 | 128 | 178 |
| | 68% | 68% | 67% | 65% | 69% | 67% | 68% |
| Nac oeddent | 146 | 82 | 64 | 54 | 92 | 63 | 83 |
| | 32% | 32% | 33% | 35% | 31% | 33% | 32% |

Fe gofiwch fod cyfanswm y sampl hydredol wedi'i ddosbarthu o fewn pob mynegai. Felly, yn Nhabl 4.86, o fewn pob mynegai mae cyfanswm y sampl hydredol o 452 wedi'i rannu yn bedair set o rifau: e.e. ar gyfer Arallgyfeiriedig roedd 174 o'r Lleiaf Arallgyfeiriedig yn ymwybodol ac nid oedd 82 yn ymwybodol; ac roedd 132 o'r rhai Mwyaf Arallgyfeiriedig yn ymwybodol ac nid oedd 64 yn ymwybodol. Ailadroddir y patrwm hwn ar gyfer mynegeion Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth.Dengys Tabl 4.68 fod y gymhareb o ran Ymwybodol a Ddim yn Ymwybodol ym mhob mynegai yn adlewyrchu'n gyffredinol y gymhareb o ran y sampl hydredol gyffredinol. Y grŵp Lleiaf Amlswyddogaethol a ddangosodd y gwahaniaeth mwyaf – roedd y ffermwyr lleiaf amlswyddogaethol yn dueddol o fod ychydig yn fwy tebygol o beidio â bod yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC .

Mae Tabl 4.69 yn dangos y data mewn ffordd wahanol. Dengys y tabl pa gyfran o'r sampl hydredol oedd, er enghraifft, yn Lleiaf Arallgyfeiriedig ac yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC a'r Mwyaf Arallgyfeiriedig ac yn ymwybodol, ac ati ar gyfer pob cyfuniad o fynegai ac yn ymwybodol/ddim yn ymwybodol.

**Tabl 4.69 Ymwybyddiaeth o ddiwygiadau i'r PAC yn ôl mynegai fel cyfran o gyfanswm y sampl hydredol**

| Cyfanswm y sampl 452 =100% | Lleiaf Arallgyfeiriedig | Mwyaf Arallgyfeiriedig | Lleiaf Amlswyddogaethol | Mwyaf Amlswyddogaethol | Lleiaf Entrepreneuraidd | Mwyaf Entrepreneuraidd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| Ymwybodol | 39 | 29 | 22 | 46 | 28 | 40 |
| Ddim yn ymwybodol | 18 | 14 | 12 | 20 | 14 | 18 |

Mae Tabl 4.69 yn datgelu rhywfaint o gymhlethdod yn y dadansoddiad. Er enghraifft, nid yn unig oedd cyfrannau mwy o'r categori Lleiaf Arallgyfeiriedig yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC na'r rhai Mwyaf Arallgyfeiriedig, ond roedd cyfrannau mwy o'r Lleiaf Arallgyfeiriedig hefyd ddim yn ymwybodol. Ceir cymhlethdod tebyg o ran y mynegeion Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth, gyda'r categorïau 'Mwyaf' yn dominyddu. Gellid esbonio'r gwrthddywediadau tebygol hyn drwy ddychwelyd at y rhifau craidd a nodir yn Nhabl 4.68. Gallwn weld bod y categorïau Lleiaf Arallgyfeiriedig, y Mwyaf Amlswyddogaethol a'r Mwyaf Entrepreneuraidd yn cynnwys niferoedd mwy na'u categorïau cyfatebol.

Gan edrych ar y data o safbwynt tueddiadau, gallwn weld, o ran ymwybyddiaeth o'r diwygiadau i'r PAC:

- Roedd y Lleiaf Arallgyfeiriedig yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol
- Roedd y Mwyaf Amlswyddogaethol yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol
- Roedd y Mwyaf Entrepreneuraidd yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol

#### 4.8.2.2 Ymwybyddiaeth o ddiwygiadau i'r PAC yn ôl Bregusrwydd a Gwytnwch

I raddau, mae'r dadansoddiad hwn yn fwy uniongyrchol oherwydd bod y ffermydd yn y sampl hydredol, o ran eu hatebion i C21 a C22, wedi'u rhannu yn ddau gategori – Bregus neu Wydn. Felly, ar gyfer C21 a C22, gallwn weld pa gyfran o'r sampl hydredol oedd yn Fregus ac yn ymwybodol neu ddim yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC, ac yn yr un modd i'r rhai a oedd yn Wydn. Dangosir hyn yn Nhabl 4.70.

**Tabl** 4.70 Ymwybyddiaeth o ddiwygiadau i'r PAC yn ôl Bregusrwydd neu Wytnwch

| A ydych yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013? | Yn gyffredinol | C21 – diwygiadau i'r PAC, datblygu polisïau a mwy o gyfrifoldebau amgylcheddol | | C22 – Y wasgfa cost/pris yn y farchnad ar gyfer cynnyrch amaethyddol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Bregus | Gwydn | Bregus | Gwydn |
| Oeddent | 306 | 188 | 118 | 217 | 89 |
| | 68% | 65% | 72% | 65% | 74% |
| Nac oeddent | 146 | 101 | 45 | 115 | 30 |
| | 32% | 35% | 28% | 35% | 26% |

Dengys y tabl, ar gyfer C21 a C22, yn y categori Ffermydd Gwydn, fod y gymhareb o ran ffermydd a oedd yn ymwybodol a'r rhai nad oeddent yn ymwybodol, yn fwy na'r gymhareb ar gyfer y sampl hydredol gyffredinol. Hynny yw, o ran ymwybyddiaeth o ddiwygiadau i'r PAC:

- Roedd ffermydd Gwydn yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol na ffermydd Bregus
- Roedd ffermydd Gwydn yn llai tebygol o fod ddim yn ymwybodol na ffermydd Bregus

### 4.8.3 Busnes fel arfer

Fel y trafodwyd yn gynharach, roedd 'Busnes fel Arfer' yn ymateb allweddol i'r senarios a gyflwynwyd ar gyfer cynnydd neu ostyngiad mewn cymorthdaliadau, o ganlyniad i'r diwygiadau i'r PAC. O'r 452 o ffermydd yn y sampl hydredol, o dan bob categori o gynnydd a gostyngiad:

dewisodd 74 o ffermydd fusnes fel arfer [BAU] = 16 y cant

ni ddewisodd 378 o ffermydd BAU = 84 y cant

#### 4.8.3.1 Busnes fel Arfer a'r mynegeion o ran Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth

Dengys Tabl 4.71 y data hydredol ar gyfer BAU wedi'i groesdablu â'r mynegeion Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth.

**Tabl 4.71  BAU o dan bob senario yn ôl Mynegai**

| | Cyfan swm | Lleiaf Arallgyfeiriedig | Mwyaf Arallgyfeiriedig | Lleiaf Amlswyddogaethol | Mwyaf Amlswyddogaethol | Lleiaf Entrepreneuraidd | Mwyaf Entrepreneuraidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BAU o dan bob amgylchiad | 74 | 49 | 25 | 26 | 48 | 46 | 29 |
| | 16% | 19% | 13% | 17% | 16% | 24% | 11% |
| Ddim BAU | 378 | 207 | 171 | 127 | 251 | 145 | 233 |
| | 84% | 81% | 87% | 83% | 84% | 76% | 89% |

Mae'r tabl yn awgrymu bod tueddiad i'r ffermydd Lleiaf Arallgyfeiriedig, y Lleiaf Amlswyddogaethol a'r Lleiaf Entrepreneuraidd ddewis BAU o dan unrhyw amgylchiadau. Hynny yw, yn y categorïau hyn mae cyfran y rhai sy'n dewis BAU yn fwy na hynny ar gyfer y sampl hydredol gyffredinol. Yn ogystal, mae gan y ffermydd Mwyaf Arallgyfeiriedig, y Mwyaf Amlswyddogaethol a'r Mwyaf Entrepreneuraidd gymarebau mwy na'r cyfanswm rhwng y rhai nad ydynt yn dewis BAU a'r rhai sydd yn dewis BAU. Mae hyn yn amlwg iawn yn y ffermydd Mwyaf Entrepreneuraidd, sydd â chymhareb o 89 y cant o ffermydd nad ydynt yn dewis BAU i 11 y cant sydd yn dewis BAU (o gymharu â chymhareb gyffredinol o 84 y cant i 16 y cant).

**4.8.3.2 Busnes Fel Arfer a Bregusrwydd a Gwytnwch**

Dengys Tabl 4.72 y croes tabliadau rhwng y ffermydd hynny yn y sampl hydredol sy'n dewis BAU o dan unrhyw amgylchiadau a'r categorïau Bregus a Gwydn ar gyfer C21 a C22.

**Tabl 4.72 BAU a Bregusrwydd a Gwytnwch**

| BAU o dan bob amgylchiad | | Yn gyffredinol | C21 – diwygiadau i'r PAC, datblygu polisïau a mwy o gyfrifoldebau amgylcheddol | | C22 – Y wasgfa cost/pris yn y farchnad ar gyfer cynnyrch amaethyddol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bregus | Gwydn | Bregus | Gwydn |
| | Oeddent | 74 | 46 | 28 | 57 | 17 |
| | | 16% | 16% | 17% | 17% | 14% |
| | Nac oeddent | 378 | 243 | 135 | 275 | 103 |
| | | 84% | 84% | 83% | 83% | 86% |

Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng ffermydd Bregus a Gwydn o ran dewis BAU. Fodd bynnag, roedd ffermydd Gwydn yn y sampl hydredol ychydig yn fwy tebygol o beidio â dewis BAU.

### 4.8.4 Gadael Ffermio

Yr ymateb allweddol arall i'r senarios ar gyfer newid mewn cymorthdaliadau PAC oedd gadael ffermio. O'r 452 o ffermydd yn y sampl hydredol, o dan unrhyw un o'r ddau senario gostyngiad:

Dewisodd 96 o ffermydd adael ffermio = 21 per cent

Dewisodd 356 beidio â gadael ffermio = 79 y cant

Mae Tabl 4.73 a Thabl 4.74 yn ailadrodd y dadansoddiadau uchod ar gyfer yr ymateb hwn. Dengys Tabl 4.73 y croestabliadau ar gyfer y sampl hydredol ar gyfer y rhai sy'n dewis gadael ffermio pe caent ostyngiad mewn cymorthdaliadau PAC a'r mynegeion Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth.

**Tabl 4.73 Gadael ffermio o dan unrhyw senario gostyngiad yn ôl Mynegai**

| | Cyfan swm | Lleiaf Arallgyfei riedig | Mwyaf Arallgyfei riedig | Lleiaf Amlswyddo gaethol | Mwyaf Amlswyddo gaethol | Lleiaf Entreprene uraidd | Mwyaf Entreprene uraidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gad ael ffer mio | 96 | 47 | 49 | 26 | 70 | 34 | 62 |
| | 21% | 18% | 25% | 17% | 23% | 18% | 24% |
| Ddi m yn gad ael ffer mio | 356 | 209 | 147 | 127 | 229 | 157 | 199 |
| | 79% | 82% | 75% | 83% | 77% | 82% | 76% |

Mae'r data yn Nhabl 4.73 yn awgrymu mai'r ffermydd Mwyaf Arallgyfeiriedig, y Mwyaf Amlswyddogaethol a'r Mwyaf Entrepreneuraidd yn y sampl hydredol oedd y mwyaf tebygol o adael ffermio pa câi eu cymorthdaliadau eu gostwng o dan ddiwygiadau i'r PAC.

Dengys Tabl 4.74 y croestabliadau ar gyfer y sampl hydredol ar gyfer y rhai a fyddai'n dewis gadael ffermio pe câi eu cymorthdaliadau PAC eu gostwng ynghyd â Bregusrwydd a Gwytnwch.

**Tabl 4.74 Gadael ffermio o dan unrhyw senario gostyngiad yn ôl Bregusrwydd a Gwytnwch**

| | | Yn gyffredinol | C21 – diwygiadau i'r PAC, datblygu polisïau a mwy o gyfrifoldebau amgylcheddol | | C22 – Y wasgfa cost/pris yn y farchnad ar gyfer cynnyrch amaethyddol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bregus | Gwydn | Bregus | Gwydn |
| Gadael ffermio o dan senarios gostyngiad | Oeddent | 96 | 68 | 28 | 76 | 20 |
| | | 21% | 24% | 17% | 23% | 17% |
| | Nac oeddent | 356 | 221 | 135 | 256 | 100 |
| | | 79% | 76% | 83% | 77% | 83% |

Mae Tabl 4.74 yn dangos, ar gyfer C21 a C22, bod ffermydd Bregus yn y sampl hydredol yn fwy tebygol o adael ffermio pe câi eu cymorthdaliadau eu gostwng o dan ddiwygiadau i'r PAC.

## Cyflwyniad

Mae adran pump yn rhoi daearyddiaeth amaethyddol o'r tri chlwstwr daearyddol a ddewiswyd ar gyfer ymchwil bellach. Dewiswyd y tair ardal ddaearyddol ar gyfer gor-samplu (gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodwyd yn flaenorol yn Adran 2.5), gan gymryd bod pob ardal yn gyfuniad nodedig o amodau ffermio. Rhagwelwyd bod ffermydd o bob un o'r ardaloedd hyn wedi'u heffeithio yn annhebyg yn sgîl y diwygiad arfaethedig i'r PAC. Awgrymodd gwaith modelu ariannol a gynhaliwyd gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Gwasanaethau Dadansoddol Llywodraeth Cymru [LlC] y byddai diwygio'r PAC, drwy ei newid o'r system bresennol o daliadau yn seiliedig ar hawliad hanesyddol i system yn seiliedig ar daliad cyfradd unffurf am bob hectar o dir a ffermiwyd, yn arwain at newidiadau penodol i daliadau cymhorthdal i ffermwyr sydd â rhai mathau o fenter ac sydd wedi'u lleoli ar fathau penodol o dir (rhoddir manylion y dadansoddiad yn Adran 3). Mae'r adran hon yn archwilio dwy ragdybiaeth sy'n codi o'r gwaith hwn:

***Y bydd diwygio'r PAC yn effeithio'n negyddol ar incwm ffermydd mewn ardaloedd iseldir (yn enwedig ffermydd llaeth).***

***Y bydd diwygio'r PAC yn cael effaith gadarnhaol ar ffermydd mewn Ardaloedd dan Anfantais Fawr ac mewn Ardaloedd dan Anfantais.***

I brofi'r rhagdybiaethau hyn roedd yn bwysig penderfynu ar rannau o Gymru a oedd yn adlewyrchu'r amodau ffermio hyn. Roedd sawl ffynhonnell data bresennol ar gael i ddewis ardaloedd yng Nghymru ar gyfer gor-samplu, er enghraifft Ystadegau Ardal Fach Amaethyddol Llywodraeth Cymru, sy'n nodi gweithgarwch amaethyddol yn gymunedol a dyraniad Llywodraeth Cymru o Ardaloedd Llai Ffafriol (ALFf) ar gyfer ffermio yng Nghymru. Mae ardaloedd llai ffafriol yn dueddol o fod yn ardaloedd mynyddig ac ucheldir Cymru. Drwy groesgyfeirio’r ffynonellau data hyn nodwyd ardaloedd posibl yng Nghymru a oedd yn briodol ar gyfer gor-samplu; drwy fapio'r wybodaeth hon datgelwyd crynodiadau o fathau o ffermydd ar ddynodiadau tir amrywiol.

Roedd yr adran hon yn cynnwys y nodau canlynol:

- Profi'r rhagdybiaethau a ddisgrifiwyd uchod;
- Disgrifio a dadansoddi amodau amaethyddol yn y tair ardal;
- Cymharu'r tair ardal wedi'i gor-samplu er mwyn nodi gwahaniaethau rhyngddynt;
- Gwneud cymariaethau â'r prif arolwg;
- Nodi cyfweleion posibl ar gyfer camau diweddarach y prosiect ymchwil.

## Dewis clystyrau

Nododd yr Ystadegau ar Ardaloedd Bach Amaethyddol ar gyfer 2010 (gweler Atodiad Pedwar) nifer uchel o rai meintiau a mathau o ffermio mewn ardaloedd penodol o Gymru, er enghraifft, llaeth ar iseldir y de-orllewin, defaid a gwartheg ar ucheldir y gogledd-orllewin, a defaid a gwartheg cymysg yng nghanolbarth Cymru. Datgelodd dadansoddi pellach gydberthyniad rhwng ffermydd llaeth ac allbwn uwch, defaid ar ucheldir a ffermydd gwartheg ac allbwn is. Yn y cyd-destun

hwn, mae allbwn yn cyfeirio at werth economaidd cynnyrch fferm.

Roedd y tair ardal a ddewiswyd ar gyfer eu hastudio yn cynnwys ffermydd o fewn radiws o 30km i aneddiadau Arberth yn y de-orllewin; Blaenau Ffestiniog yn y gogledd-orllewin; a Llanidloes yng nghanolbarth Cymru. Gwnaeth trafodaethau gydag undebau ffermwyr Cymru arwain y broses o ddewis y lleoliadau hyn yng Nghymru a dilyswyd y rhesymeg dros eu cynnwys.


Drwy ddefnyddio radiws o 30km caniatwyd meintiau sampl digon mawr er mwyn cyflawni targed o 200 o gyfweliadau ychwanegol o bob un o'r tair ardal. Mae Tabl 5.1 yn dangos faint o gyfweliadau a gwblhawyd yn ystod y gor-samplu ym mhob ardal, ynghyd â nifer y cyfweliadau ym mhob ardal a gynhaliwyd yn ystod y prif arolwg. Mae cyfansymio'r symiau hyn yn rhoi cyfanswm y cyfweliadau ar gyfer pob un o'r tri arolwg ‘ardal ddaearyddol’.

**Tabl** Error! No text of specified style in document.**.1 Cyfweliadau ym mhob ardal ddaearyddol**

| **Ardal** | **Cyfweliadau gor-samplu** | **Cyfweliadau yn y prif arolwg** | **Cyfanswm y cyfweliadau yn yr ardal** |
|---|---|---|---|
| Arberth<br>De-orllewin | 204 | 274 | 478 |
| Blaenau Ffestiniog<br>Gogledd-orllewin | 200 | 159 | 359 |
| Llanidloes<br>Canolbarth Cymru | 201 | 238 | 439 |

Roedd cyfansymio'r cyfweliadau wedi'u gor-samplu a'r cydrannau yn yr ardal o'r prif arolwg yn cynnwys arolwg ar hap o ffermydd ar gyfer pob ardal. Felly, gellir cyffredinoli'r canlyniadau ym mhob ardal am nad oedd holiadur yr arolwg wedi newid. Dangosir lleoliad y tair ardal glwstwr ddaearyddol yn Ffigur 5.1.

**Ffigur 5.1 Lleoliad ffermydd ym mhob un o'r tair ardal astudio**




Mae gweddill yr adran hon yn rhoi dadansoddiad o sut yr ymatebodd ffermydd o fewn 30km i Arberth yn ne-orllewin Cymru, Blaenau Ffestiniog yng ngogledd-orllewin Cymru a Llanidloes yng nghanolbarth Cymru i'r arolwg. Yn y dadansoddiad hwn, gelwir yr ardaloedd hyn y **de-orllewin**, **y gogledd-orllewin**, a **chanolbarth Cymru** yn y drefn honno. Mae'r canlyniadau cyfatebol o'r prif arolwg o ffermydd yng Nghymru hefyd wedi'u cynnwys yn yr adran hon fel meincnod ar gyfer cymhariaeth bellach.

## Gwybodaeth gyd-destunol

### Clwstwr astudio'r de-orllewin – wedi'i leoli o amgylch Arberth


Mae Arberth yn dref wledig yn Sir Benfro, de-orllewin Cymru. Mae'n agos i ffin de-orllewin Sir Gaerfyrddin. Cyfwelwyd â chyfanswm o 478 o ffermydd yn yr ardal o fewn 30km i Arberth. Mae'r radiws o 30km o amgylch Arberth yn cwmpasu nifer o drefi a phentrefi yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Hwlffordd, Neyland, Crymych, Sanclêr, Penfro, Abergwaun a Dinbych-y-pysgod. Mae gan ardal y de-orllewin gyfran fawr o dir a ddynodwyd yn ardal iseldir ond sydd hefyd yn cynnwys tir dan anfantais i'r gogledd. Mae Ystadegau ar Ardaloedd Bach Amaethyddol yn dangos crynodiad uchel o wartheg, yn enwedig llaeth yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae gan y de-orllewin hefyd rai o'r lefelau ESU uchaf fesul hectar yng Nghymru. Dewiswyd lleoliad yr

astudiaeth hon yn benodol i archwilio'r rhagdybiaeth:

*Y bydd diwygio'r PAC yn effeithio'n negyddol ar incwm ffermydd mewn ardaloedd iseldir (yn enwedig ffermydd llaeth).*

---

**Ffigur 5.2 Map o'r ardal astudio o amgylch Arberth, de-orllewin Cymru**




**Clwstwr astudio'r gogledd-orllewin – wedi'i leoli o amgylch Blaenau Ffestiniog, gogledd-orllewin Cymru**

Lleolir Blaenau Ffestiniog ym mynyddoedd Eryri yng Ngwynedd, gogledd-orllewin Cymru. Mae'n agos i ffin de-orllewin Conwy. Cyfwelwyd â chyfanswm o 359 o ffermydd yn yr ardal o fewn 30km i Flaenau Ffestiniog. Mae'r radiws o 30km o amgylch Blaenau Ffestiniog yn cwmpasu nifer o drefi a phentrefi yng Ngwynedd a Chonwy gan gynnwys Dolgellau, y Bala, Betws-y-coed, Porthmadog, Cricieth, Llanrwst, Trawsfynydd, Bethesda, Harlech, Llanfairfechan, Caernarfon a Bangor.


Tir a ddynodwyd fel 'tir dan anfantais fawr' sydd amlycaf yn y gogledd-orllewin; ceir tir mwy ffafriol tua'r arfordir ac ar hyd dyffrynnoedd afonydd. Lleolir dros dri chwarter y ffermydd yn y gogledd-orllewin ar dir dan anfantais fawr. Mae Ystadegau ar Ardaloedd Bach Amaethyddol yn dangos crynodiad uchel o ddaliadau â defaid a thir

pori garw. Mae gan y gogledd-orllewin hefyd rai o'r lefelau ESU isaf fesul hectar yng Nghymru. Dewiswyd lleoliad yr astudiaeth hon yn benodol i archwilio'r rhagdybiaeth:

*Y bydd diwygio'r PAC yn cael effaith gadarnhaol ar ffermydd mewn Ardaloedd dan Anfantais Fawr ac mewn Ardaloedd dan Anfantais.*

---

**Ffigur 5.3 Map o'r ardal astudio o amgylch Blaenau Ffestiniog, gogledd-orllewin Cymru**




**Clwstwr astudio canolbarth Cymru – lleolir o amgylch Llanidloes, canolbarth Cymru**


Mae Llanidloes yn dref farchnad ym Mhowys, o fewn ffiniau hanesyddol Sir Drefaldwyn, Canolbarth Cymru. Cyfwelwyd â chyfanswm o 439 o ffermydd yn yr ardal o fewn 30km i Lanidloes. Mae'r radiws o 30km o amgylch Llanidloes yn cwmpasu nifer o drefi a phentrefi ym Mhowys gan gynnwys Carno, Llangurig, Rhaeadr Gwy, Machynlleth a chanolfannau mwy Llandrindod i'r de-ddwyrain a'r Drenewydd i'r gogledd-ddwyrain. Mae hefyd yn cynnwys rhannau o ogledd-ddwyrain Ceredigion. Mae rhannau dwyreiniol yr ardal astudio yn agos i'r ffin â .

Awgrymwyd y lleoliad astudio hwn gan undebau'r ffermwyr yng Nghymru fel cydbwysedd ffermio cymysg ar gyfer deuoliaeth amaethu iseldir/mynydd y gogledd-orllewin a'r de-orllewin. Roedd ardal astudio canolbarth Cymru'n cynnwys cymysgedd o fathau o fferm ac roedd rhwng

y gogledd-orllewin a'r de-orllewin o ran lleoliad ffisegol ac allbwn ESU fesul hectar.

Yn yr ardal astudio hon, roedd mwyafrif y ffermydd wedi'u lleoli ar dir dan fantais fawr.

**Ffigur 5.4 Map o'r ardal astudio o amgylch Llanidloes, canolbarth Cymru**




Mae gweddill yr adran hon yn cynrychioli daearyddiaeth amaethyddol ar gyfer pob un o'r tair ardal astudio. Mae pob is-adran yn archwilio sut y gwnaeth ffermwyr sy'n byw ym mhob ardal ymateb i gwestiynau allweddol yr arolwg.

## Maint a Math Ffermydd

I ddechrau mae'n werth ailadrodd at ddibenion y dadansoddiad canlynol y cyfeirir at yr ardaloedd o fewn 30km i Arberth, Blaenau Ffestiniog a Llanidloes mewn llaw-fer fel **y de-orllewin**, **y gogledd-orllewin** a **chanolbarth Cymru**, yn y drefn honno.

Mae Tabl 5.2 yn dangos maint economaidd ffermydd sy'n seiliedig ar gynllun dosbarthu Llywodraeth Cymru. Yn ôl y cynllun dosbarthu hwn ar gyfer pob gweithgarwch (neu 'fenter') ar fferm (er enghraifft cynhyrchu gwenith neu fuchod godro), amcangyfrifir y lwfans gros safonol (SGM) yn seiliedig ar yr ardal a ddefnyddir ar gyfer y gweithgarwch penodol (neu nifer y pennau da byw) a chyfernod rhanbarthol. Swm yr holl elw o'r fath sy'n deillio o weithgarwch ar fferm benodol yw ei maint economaidd.

**Tabl** Error! No text of specified style in document.**.2 Maint Economaidd**

| | Bach Iawn | Bach | Canolig | Mawr | Mawr Iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % |
| De-orllewin | 39 | 27 | 15 | 12 | 7 |
| Gogledd-orllewin | 35 | 42 | 18 | 5 | 1 |
| Canolbarth Cymru | 26 | 45 | 24 | 3 | 2 |
| **Prif Arolwg** | **44** | **38** | **12** | **4** | **2%** |

Cafodd mwyafrif y ffermydd ym mhob lleoliad astudio eu dosbarthu fel rhai bach neu fach iawn. Yn gyffredinol roedd gan yr ardaloedd astudio gyfrannau uwch o ffermydd canolig, mawr a mawr iawn na'r prif arolwg. Ac roedd gan y de-orllewin gyfrannau llawer uwch o ffermydd mawr a mawr iawn.

O'r tair ardal astudio, roedd gan y gogledd-orllewin, ar 77%, y gyfran uchaf o ffermydd llai (bach a bach iawn gyda'i gilydd). Mae'r tabl yn dangos wrth i faint yr ESU gynyddu o fach i fawr iawn, roedd cyfran y ffermydd ym mhob categori wedi gostwng. O'r tair ardal astudio, roedd gan y de-orllewin y nifer mwyaf o ffermydd bach iawn a ffermydd mawr iawn. O gymharu â'r ffigurau o'r prif arolwg o ffermydd yng Nghymru, roedd gan y de-orllewin lawer mwy o ffermydd mwy ac roedd diffyg ffermydd a ddosberthir fel rhai 'bach'. Roedd gan ganolbarth Cymru gyfran gymharol uchel o ffermydd ‘canolig’ o gymharu â gweddill Cymru.

Mae Tabl 5.3 yn dangos sut y cafodd ymatebion i'r arolwg eu dosbarthu yn ôl y math o fferm, unwaith eto gan ddefnyddio cynllun dosbarthu Llywodraeth Cymru. Yn ôl y dosbarthiad hwn, dyrannwyd math o fferm i bob fferm pan oedd dros ddwy ran o dair o'r fenter ffermio yn rhai llaeth, defaid, eidion neu ddefaid gydag eidion. Cafodd ffermydd y tu allan i'r categorïau hyn neu heb brif fenter eu dosbarthu fel rhai ‘eraill/cymysg’.

**Tabl 5.3 Math o fferm**

| | Llaeth | Defaid | Cig eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % |
| **De-orllewin** | 24 | 12 | 26 | 9 | 29 |
| **Gogledd-orllewin** | 4 | 48 | 12 | 27 | 8 |
| **Canolbarth Cymru** | 2 | 43 | 9 | 34 | 12 |
| **Prif Arolwg** | **8** | **30** | **19** | **17** | **26** |

Roedd ardal de-orllewin yr astudiaeth yn cynnwys cyfran uchel o laeth, eidion a mathau eraill/cymysg o fferm. O'r prif arolwg, roedd cyfanswm o wyth y cant o ffermydd yn rhai llaeth (24 y cant yn y de-orllewin) a chyfanswm o 19 ohonynt yn eidion (26 y cant yn y de-orllewin), gan awgrymu crynodiad uwch o'r mathau hyn o ffermydd yn ardal y de-orllewin. I'r gwrthwyneb, roedd gan ffermydd yn y gogledd-orllewin gyfrannau uwch o ffermydd defaid ac roedd gan ganolbarth Cymru y gyfran uchaf o ffermydd a ddosbarthwyd fel ffermydd defaid gydag eidion.

**Tabl 5.4 Teipoleg ffermydd**

| | Mwy – godro | Mwy - defaid a gwartheg | Mwy – eraill | Bach – defaid | Bach – eraill | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **De-orllewin** | 22 | 5 | 7 | 3 | 25 | 39 |
| **Gogledd-orllewin** | 4 | 18 | 1 | 22 | 20 | 35 |
| **Canolbarth Cymru** | 2 | 24 | 3 | 23 | 22 | 26 |
| **Prif Arolwg** | **7** | **8** | **4** | **12** | **25** | **44** |

Dangosodd dadansoddiad pellach o deipoleg ffermydd (gan gyfuno maint a math y ffermydd) fod cyfrannau sylweddol uwch o ffermydd llaeth mwy yn y de-orllewin (22 y cant) o gymharu â Chymru (saith y cant). Yn ogystal, o'r tair ardal astudio, roedd gan y de-orllewin hefyd y gyfran uchaf o ffermydd a ddosberthir fel 'eraill bach' a 'bach iawn'. Roedd gan ganolbarth Cymru y gyfran uchaf o ffermydd defaid a gwartheg mwy. Roedd gan y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru ddosbarthiadau tebyg o ffermydd wedi'u dosbarth fel ffermydd defaid bach ac eraill.

Mae tablau 5.2 i 5.4 yn amlygu'r cymhlethdod o ran dosbarthiad ffermydd yng Nghymru ond hefyd y duedd i rai rhannau o Gymru gynnwys lefelau uwch na'r disgwyl o rai meintiau a mathau o ffermydd. Er enghraifft, roedd y de-orllewin yn cynnwys ffermydd llaeth mwy ond hefyd ffermydd bach iawn heb unrhyw arbenigedd clir; roedd y gogledd-orllewin yn cynnwys ffermydd defaid bach; ac roedd canolbarth Cymru'n cynnwys cymysgedd o fathau o ffermydd ond roedd yn fwy tebyg i'r gogledd-orllewin a'r de-orllewin.

Fel rhan o'r arolwg gofynnwyd i ffermwyr nodi'r hyn roeddent yn ei ystyried fel y prif weithgarwch ar y daliad. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 5.5.

**Tabl 5.5 Hunanddosbarthiad y math o fferm**

| | Llaeth | Cig eidion | Defaid | Eidion a defaid | Dofednod | Grawnfwyd | Cnydau porthiant | Garddwriaeth | Arall | Dim p weithgarw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **- lewin** | 26% | 27% | 17% | 14% | 1% | 1% | 3% | 2% | 8% | 2% |
| **gledd- lewin** | 4% | 8% | 42% | 38% | 1% | 0% | <1% | 1% | 4% | 1% |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **nolbarth mru** | 3% | 6% | 43% | 42% | 2% | <1% | 1% | 1% | 3% | 1% |
| **if olwg** | **9%** | **17%** | **35%** | **24%** | **2%** | **1%** | **2%** | **1%** | **7%** | **2%** |

Mae Tabl 5.5 yn dangos bod ffermwyr yn fwy tebygol o ddosbarthu eu hunain fel ffermydd llaeth neu eidion yn y de-orllewin a defaid neu eidion gyda ffermydd defaid yn y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru. Mae'r patrwm hwn yn debyg i'r hyn a geir ar gyfer dosbarthiad ffermydd Llywodraeth Cymru yn Nhabl 5.3.

**Tir Amaethyddol**

Mae'r is-adran hon yn canolbwyntio ar y darn o dir a gynhwysir ar bob fferm. Mae Tabl 5.6 yn dangos maint cyfartalog fferm ar gyfer pob un o leoliadau'r astudiaeth. Roedd y ffermydd mwyaf, o ran arwynebedd, yn y gogledd-orllewin: yma roedd maint cymedrig fferm yn 132 hectar. Roedd y cyfartaledd ar gyfer pob fferm a arolygwyd yng Nghymru yn debyg i'r de-orllewin, sef 75 hectar.

**Tabl 5.6 Arwynebedd cyfartalog ffermydd**

| | **Cymedrig (hectarau)** |
|---|---|
| **De-orllewin** | 74 |
| **Gogledd-orllewin** | 132 |
| **Canolbarth Cymru** | 124 |
| **Prif Arolwg** | **75** |

Mae Tabl 5.7 yn dangos, ar 36 y cant, bod dros un rhan o dair o aelwydydd ffermio yn y de-orllewin y tu allan i dir dan anfantais neu dan anfantais fawr, 16 pwynt canran yn uwch na'r gyfran ar gyfer pob fferm yng Nghymru. Roedd aelwydydd ffermio yn y de-orllewin yn dueddol o gael eu lleoli ar dir dan anfantais yn hytrach nag ar dir dan anfantais fawr. Yng nghanolbarth Cymru a'r gogledd-orllewin roedd dros dri chwarter y ffermio ar dir dan anfantais fawr

**Tabl 5.7 Dynodiad tir**

| | Y tu allan i ALFf | Tir dan anfantais . | . tir dan anfantais sylweddol |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| **De-orllewin** | 36 | 57 | 7 |
| **Gogledd-orllewin** | 5 | 18 | 76 |
| **Canolbarth Cymru** | 1 | 15 | 84 |
| **Prif Arolwg** | **25** | **36** | **39** |

## Deiliadaeth a Gweithlu'r Ffermydd

Roedd mwyafrif y ffermydd yng Nghymru yn eiddo i deuluoedd. Roedd tair o bob pedair fferm yn y de-orllewin yn eiddo i deulu, sydd ychydig yn uwch na'r gyfran ar gyfer pob fferm yng Nghymru (73 y cant). Roedd ffermydd yn y gogledd-orllewin yn fwy tebygol o gael eu rhentu neu'n ddeiliadaeth gymysg o gymharu â'r ardaloedd astudio eraill. Dangosir proffil deiliadaeth ffermydd ym mhob ardal astudio yn Nhabl 5.8.

**Tabl 5.8 Deiliadaeth ffermydd**

| | Yn eiddo i chi a/neu eich teulu | Rhentu | Cymysg/y ddau |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| **De-orllewin** | 75 | 6 | 19 |
| **Gogledd-orllewin** | 60 | 14 | 26 |
| **Canolbarth Cymru** | 72 | 6 | 21 |
| **Prif Arolwg** | **73** | **8** | **19** |

Yng Nghymru roedd mwyafrif yr aelwydydd ffermio yn gweithredu ar eu pennau eu hunain felly nid oeddent mewn partneriaeth ag aelwydydd eraill. Mae Tabl 5.9 yn dangos y cafwyd sefyllfa debyg ar gyfer y de-orllewin oherwydd bod 77 o'r ffermydd yn gweithredu ar eu pen eu hunain, 19 y cant yn gweithredu mewn partneriaeth ag un aelwyd arall a 4 y cant mewn partneriaeth â mwy nag un aelwyd. Roedd ffermwyr yng

nghanolbarth Cymru yn fwy tebygol o weithredu mewn partneriaethau nag ardaloedd eraill o Gymru (awgrymodd 28 y cant eu bod mewn partneriaeth ag aelwydydd ychwanegol).

**Tabl 5.9 Partneriaethau ffermio**

| | **Heb fod mewn partneriaeth ag aelwydydd eraill** | **Mewn partneriaeth ag un aelwyd arall** | **Mewn partneriaeth ag aelwydydd lluosog** |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| De-orllewin | 77 | 19 | 4 |
| Gogledd-orllewin | 74 | 20 | 6 |
| Canolbarth Cymru | 72 | 23 | 5 |
| **Prif Arolwg** | **79** | **17** | **4** |

Yn awr trafodir y gweithlu ym mhob lleoliad astudio. Dangosodd data a oedd yn cynrychioli cyfansoddiad gweithlu'r ffermydd ar y 478 o ffermydd yn y de-orllewin, y 359 o ffermydd yn y gogledd-orllewin a'r 439 o ffermydd yng nghanolbarth Cymru, ogwydd cryf y ffermydd tuag at aelwydydd teulu. Dangosir hyn yn Nhabl 5.10.

**Tabl 5.10 Cyfran y ffermydd â math penodol o weithlu**

| | **Aelodau o'r teulu Amser llawn** | **Aelodau o'r teulu Rhan-amser** | **Heb fod yn aelodau o'r teulu Amser llawn** | **Heb fod yn aelodau o'r teulu Rhan-amser** | **Achlysurol Llafur** |
|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % |
| De-orllewin | 79 | 52 | 10 | 15 | 45 |
| Gogledd-orllewin | 81 | 62 | 5 | 10 | 57 |
| Canolbarth Cymru | 83 | 61 | 8 | 12 | 61 |
| **Prif Arolwg** | **76** | **58** | **6** | **12** | **50** |

Sylwer o'r tabl bod ffermydd yn y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru yn fwy tebygol na'r de-orllewin o gyflogi aelodau o'r teulu a defnyddio llafur achlysurol.

Roedd cyfanswm maint gweithluoedd teulu yn fwy na'r gweithluoedd heb gynnwys aelodau o'r teulu ar gymhareb o tua 5:1 ar gyfer ffermydd yn y de-orllewin a chynyddodd mor uchel â 10:1 ar gyfer y gogledd-orllewin. Dangosir cyfanswm strwythur gweithlu'r ffermydd (ac eithrio llafur achlysurol) ar gyfer y daliadau a arolygwyd yn Nhabl 5.11.

**Tabl 5.11 Cyfanswm nifer y gweithlu ffermio**

| | | Aelodau o'r teulu | | | Heb fod yn aelodau o'r teulu | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y Daliadau | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfanswm | Amser Llawn | Rhan-amser | Cyfanswm | Cyfanswm y gweithlu (ac eithrio llafur achlysurol) |
| **De-orllewin** | 478 | 681 | 384 | **1,065** | 96 | 119 | **215** | 1,280 |
| **Gogledd-orllewin** | 359 | 478 | 366 | **851** | 33 | 50 | **83** | 934 |
| **Canolbarth Cymru** | 439 | 622 | 428 | **1,056** | 52 | 77 | **129** | 1,185 |
| **Prif Arolwg** | **2,402** | **2,939** | **2,264** | **5,203** | **262** | **466** | **728** | **5,931** |


## Yr aelwyd ffermio

Roedd y rhan fwyaf o aelwydydd ffermio yn y prif arolwg o Gymru yn cynnwys dau o bobl, roedd y sefyllfa yn y de-orllewin yn debyg (roedd gan 42 y cant ddau o bobl). Roedd gan y gogledd-orllewin fwy o aelwydydd ag un unigolyn na mewn unrhyw fannau eraill yng Nghymru. Mae Ffigur 5.5 yn dangos cyfansoddiad aelwydydd yn ddaearyddol ar gyfer pob ardal astudio ac yn cymharu a dangos sut roedd y canlyniadau'n dueddol o gyd-fynd â'r prif arolwg o ffermydd yng Nghymru.

**Tabl 5.11 Cyfanswm nifer y gweithlu ffermio**

| | Nifer y bobl yn yr aelwyd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Unigolyn | Dau unigolyn | Tri unigolyn | Pedwar unigolyn | Pum unigolyn | Chwe unigolyn | Saith neu fwy o unigolion |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| De-orllewin | 8 | 42 | 19 | 17 | 8 | 3 | 1 |
| Gogledd-orllewin | 12 | 36 | 17 | 18 | 11 | 5 | 2 |
| Canolbarth Cymru | 8 | 38 | 22 | 18 | 9 | 3 | 1 |
| **Prif Arolwg** | **10** | **41** | **20** | **16** | **9** | **3** | **1** |

**Ffigur 5.5 Cyfansoddiad aelwydydd**




**Y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar y fferm**

Cynhaliwyd cyfweliadau â'r prif unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau yn yr aelwyd ffermio. Roedd y mwyafrif yn dueddol o fod yn ddynion; roedd hyn ar ei uchaf yn o gogledd orllewin ychydig yn is na’r gyfran gyffredinol o 80 y cant

lle roedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n ddynion. Roedd gan ganolbarth Cymru yr un gyfran o fenywod yn gwneud penderfyniadau (27 y cant) â'r prif arolwg o ffermydd yng Nghymru. Dangosir y canlyniadau ar gyfer pob ardal yn Nhabl 5.12.

**Tabl 5.12 Rhyw y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar y fferm**

| | **Benyw** | **Gwryw** |
|---|---|---|
| | % | % |
| **De-orllewin** | 24 | 76 |
| **Gogledd-orllewin** | 20 | 80 |
| **Canolbarth Cymru** | 27 | 73 |
| **Prif Arolwg** | **27** | **73** |

Mae Tabl 5.13 yn dangos proffil oedran y cyfweleion ym mhob ardal astudio o gymharu â'r prif arolwg ar gyfer Cymru.

**Tabl 5.13 Proffil oedran y prif unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau**

| | **16 i 24** | **25 i 34** | **35 i 44** | **45 i 54** | **55 i 64** | **65 neu'n hŷn** | Gwrthodwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % |
| De-orllewin | <1 | 2 | 9 | 25 | 34 | 29 | 1 |
| Gogledd-orllewin | 1 | 3 | 10 | 26 | 31 | 28 | 1 |
| Canolbarth Cymru | <1 | 3 | 13 | 28 | 26 | 30 | 1 |
| **Prif Arolwg** | **<1** | **2** | **10** | **26** | **31** | **31** | **1** |

Roedd dosbarthiad cyffredinol y rhai a oedd yn gwneud penderfyniadau yn gogwyddo tuag at y categorïau oedran hŷn. Roedd nifer y cyfweleion yn y ddau gategori iau yn isel. Roedd cyfran uwch na'r disgwyl o gyfweleion yn y grwpiau oedran rhwng 35 a 54 oed yng nghanolbarth Cymru. Cafwyd y gyfran uchaf o gyfweleion 55 i 64 oed yn y de-orllewin. Ar y cyfan, roedd y proffil yn y gogledd-orllewin yn adlewyrchu proffil oedran y prif arolwg o ffermydd yng Nghymru.

Oherwydd bod canlyniadau'n awgrymu poblogaeth o ffermwyr sy'n heneiddio ar y cyfan, ystyrir y broses o olyniaeth yn yr is-adran nesaf. Mae olyniaeth yn bwysig ar gyfer dyfodol aelwydydd ffermio ac ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor ffermio yng Nghymru.

**Olyniaeth**

Mae olyniaeth yn gosod y sylfaen ar gyfer parhad gweithgarwch ffermio. Dangosir y gyfran o ffermydd â chynlluniau olyniaeth teuluol yn Nhabl 5.14.

**Tabl 5.14 Cynlluniau Olyniaeth Teuluol**

| | Oeddent | Nac oeddent | Ddim yn gwybod/gwrthodwyd |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| De-orllewin | 52 | 44 | 4 |
| Gogledd-orllewin | 63 | 33 | 5 |
| Canolbarth Cymru | 64 | 32 | 4 |
| **Prif Arolwg** | **55** | **40** | **5** |

Ar 52 y cant roedd gan y de-orllewin gyfran is o ffermydd â chynllun olyniaeth teuluol nag yn y prif arolwg o ffermydd yng Nghymru. Roedd gan y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru gyfrannau uwch tebyg o ffermydd â chynlluniau olyniaeth, wyth a naw pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru, yn y drefn honno.

## Proffil yr olynydd teuluol

**Tabl 5.15 Rhyw yr olynydd teuluol**

| | Gwryw | Benyw | Gwrthodwyd |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| De-orllewin | 74 | 20 | 6 |
| Gogledd-orllewin | 80 | 17 | 3 |
| Canolbarth Cymru | 82 | 15 | 3 |
| **Prif Arolwg** | **74** | **20** | **6** |

Roedd yn ymddangos bod y gymhareb rhyw a gafwyd ar gyfer yr olynydd teuluol yn efelychu proffil rhyw presennol y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar ffermydd h.y. cyfran uchel o ffermwyr gwrywaidd. Fodd bynnag, ymddengys fod rhywfaint o dystiolaeth o newid bach tuag at fwy o ffermwyr gwrywaidd yn y dyfodol, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru.

Dangosydd perthynas yr olynydd i'r ffermwr presennol yn Nhabl 5.16. Yn amlwg roedd yr olynydd yn dueddol o fod yn fab i'r ffermwr presennol. Roedd hyn yn arbennig o wir yng nghanolbarth Cymru, ac yma dim ond cyfran fach o olynwyr a oedd yn aelodau eraill o'r teulu.

**Tabl 5.16 Y berthynas rhwng yr olynydd teuluol a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar y fferm ar hyn o bryd**

| | Mab | Merch | Aelod arall o'r teulu | Gwrthodwyd |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % |
| De-orllewin | 64 | 18 | 14 | 5 |
| Gogledd-orllewin | 70 | 15 | 12 | 3 |
| Canolbarth Cymru | 76 | 14 | 5 | 4 |
| **Prif Arolwg** | **65** | **18** | **13** | **4** |

Dangosir dosbarthiad oedran olynwyr yn Nhabl 5.17 isod ac mae'n adlewyrchu dosbarthiad oedran presennol ffermwyr. Sylwer ar y gostyngiad yng nghyfran yr olynwyr rhwng y grŵp oedran 35 i 44 oed a'r grŵp 45 i 54 oed. Roedd hyn i'w ddisgwyl oherwydd bod olynwyr yn fwy tebygol o fod yn genhedlaeth iau.

**Tabl 5.17 Oedran yr olynydd teuluol**

| | O dan 16 oed | 16 i 24 | 25 i 34 | 35 i 44 | 45 i 54 | 55 i 64 | 65+ | Heb nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| De-orllewin | 16 | 19 | 28 | 20 | 9 | 1 | <1 | 7 |
| Gogledd-orllewin | 18 | 25 | 24 | 20 | 6 | 1 | <1 | 5 |
| Canolbarth Cymru | 20 | 23 | 23 | 22 | 6 | 1 | 0 | 5 |
| **Prif Arolwg** | **16** | **21** | **24** | **22** | **8** | **1** | **<1** | **7** |

Roedd gan lai nag un y cant o ffermydd ym mhob ardal astudio olynwyr nad oedd yn aelodau o'r teulu.

**<u>Gweithgarwch arall ar ffermydd ac arallgyfeirio</u>**

**Gweithgarwch arall ar ffermydd**

Gofynnwyd i gyfweleion a oeddent yn gweithredu, neu'n ystyried gweithredu, amrywiaeth o fentrau eraill. Er bod gweithgarwch arall ar ffermydd megis cnydau ynni ac anifeiliaid eraill yn cael eu harfer gan leiafrif o'r ffermydd, roedd arwyddion bod rhai ffermwyr yn datblygu'r mentrau amgen hyn, er enghraifft roedd 12 y cant o'R ffermwyr yn y de-orllewin yn ystyried cnydau ynni neu fio-ynni. Er gwaethaf hyn, nid oedd 85 y cant yn ystyried mentrau eraill.

**Tabl 5.18 Mentrau eraill**

| Menter Arall | | Yn ei gweithredu ar hyn o bryd | Yn ei hystyried | Ddim yn ei hystyried |
|---|---|---|---|---|
| | | % | % | % |
| Garddwriaeth | De-orllewin | 5 | 5 | 90 |
| | Gogledd-orllewin | 4 | 4 | 92 |
| | Canolbarth Cymru | 2 | 3 | 95 |
| | **Prif Arolwg** | **4** | **5** | **91** |
| Anifeiliaid eraill | De-orllewin | 2 | 6 | 92 |
| | Gogledd-orllewin | 3 | 6 | 91 |
| | Canolbarth Cymru | 3 | 7 | 90 |
| | **Prif Arolwg** | **3** | **9** | **88** |
| Cnydau ynni/bio-ynni | De-orllewin | 3 | 12 | 85 |
| | Gogledd-orllewin | 1 | 8 | 91 |
| | Canolbarth Cymru | 1 | 9 | 90 |
| | **Prif Arolwg** | 2 | 11 | 87 |
| Cnydau diwydiannol | De-orllewin | 1 | 1 | 98 |
| | Gogledd-orllewin | 0 | 2 | 98 |
| | Canolbarth Cymru | <1 | 1 | 99 |
| | **Prif Arolwg** | **<1** | **3** | **97** |
| Cnydau organig | De-orllewin | 7 | 3 | 90 |
| | Gogledd-orllewin | 5 | 5 | 90 |
| | Canolbarth Cymru | 7 | 5 | 88 |
| | **Prif Arolwg** | **7** | **5** | **88** |

O gymharu â Chymru roedd gan y de-orllewin gyfran ychydig yn uwch o ffermydd a oedd yn gweithredu neu'n ystyried gweithredu garddwriaeth, a bio-ynni. Ar y cyfan roedd ffermydd y gogledd-orllewin a

chanolbarth Cymru yn fwy tebygol o beidio ag ystyried mentrau eraill.

## Arallgyfeirio

Roedd amrywiaeth o gwestiynau'n archwilio'r pwnc o arallgyfeirio ar ffermydd. Rhoddwyd rhestr o fentrau arallgyfeirio i gyfweleion a gofynnwyd iddynt a oeddent yn eu gweithredu ar hyn o bryd neu a oeddent yn ystyried gwneud hynny yn y dyfodol. Mewn termau gros, roedd 45 y cant o ffermydd yng Nghymru yn gweithredu o leiaf un o'r mentrau arallgyfeirio; y canlyniad cyfatebol i'r gogledd-orllewin oedd 51 y cant, chwe phwynt canran yn uwch na'r canlyniadau i Gymru o'r prif arolwg. Roedd ychydig o dan hanner (49 y cant) o ffermydd yng nghanolbarth Cymru yn gweithredu gweithgarwch wedi'u harallgyfeirio ac roedd gan y de-orllewin y gyfran isaf o'r ardaloedd astudio (44 y cant). Ymddengys fod gweithgarwch wedi'i arallgyfeirio yn gweithredu ar gyfran uwch o ffermydd wrth symud o'r de i'r gogledd yng Nghymru.

**Tabl 5.19 Ffermydd sy'n gweithredu gweithgarwch wedi'i arallgyfeirio**

| | Gweithredu gweithgarwch wedi'i arallgyfeirio |
|---|---|
| | % |
| De-orllewin | 44 |
| Gogledd-orllewin | 51 |
| Canolbarth Cymru | 49 |
| **Prif Arolwg** | **45** |

Rhoddir y dadansoddiad o'r canlyniadau hyn ar gyfer pob ardal astudio yn Nhabl 5.20.

**Tabl 5.20 Mentrau arallgyfeirio**

| Menter Arallgyfeirio | | Yn ei | Yn ei | Ddim |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau amaethyddol | De-orllewin | 13% | 8% | 79% |
| | Gogledd- | 17% | 9% | 74% |
| | Canolbarth | 18% | 11% | 71% |
| | **Prif Arolwg** | **15%** | **8%** | **77%** |
| Prosesu bwyd ar ffermydd | De-orllewin | 2% | 5% | 93% |
| | Gogledd- | 2% | 5% | 93% |
| | Canolbarth | 3% | 4% | 93% |
| | **Prif Arolwg** | 3% | 6% | 91% |
| Manwerthu bwyd ar ffermydd | De-orllewin | 4% | 5% | 91% |
| | Gogledd- | 2% | 7% | 91% |
| | Canolbarth | 3% | 5% | 92% |
| | **Prif Arolwg** | 4% | 8% | 88% |
| Manwerthu bwyd ar y rhyngrwyd neu drwy'r post | De-orllewin | 2% | 5% | 93% |
| | Gogledd- | 2% | 5% | 93% |
| | Canolbarth | 1% | 5% | 94% |
| | **Prif Arolwg** | **1%** | **6%** | **93%** |
| Contractio heblaw amaethyddiaeth | De-orllewin | 5% | 4% | 91% |
| | Gogledd- | 7% | 8% | 85% |
| | Canolbarth | 7% | 6% | 86% |
| | **Prif Arolwg** | **7%** | **7%** | **86%** |
| Llety ar ffermydd | De-orllewin | 11% | 17% | 72% |
| | Gogledd- | 16% | 16% | 68% |
| | Canolbarth | 8% | 17% | 75% |
| | **Prif Arolwg** | **11%** | **17%** | **72%** |
| Ceffylau | De-orllewin | 7% | 8% | 85% |
| | Gogledd- | 6% | 6% | 88% |
| | Canolbarth | 6% | 6% | 88% |
| | **Prif Arolwg** | **9%** | **8%** | **83%** |
| Hamdden arall ar ffermydd | De-orllewin | 2% | 5% | 93% |
| | Gogledd- | 3% | 8% | 89% |
| | Canolbarth | 4% | 7% | 89% |
| | **Prif Arolwg** | **3%** | **7%** | **90%** |
| Prydlesu adeiladau | De-orllewin | 3% | 9% | 88% |
| | Gogledd- | 3% | 7% | 90% |
| | Canolbarth | 3% | 9% | 88% |
| | **Prif Arolwg** | **3%** | **9%** | **88%** |
| Prydlesu tir – Defnydd amaethyddol | De-orllewin | 12% | 14% | 74% |
| | Gogledd- | 3% | 12% | 85% |
| | Canolbarth | 8% | 15% | 77% |
| | **Prif Arolwg** | **8%** | **15%** | **77%** |
| Prydlesu tir – At ddiben heblaw amaethyddiaeth | De-orllewin | 1% | 12% | 87% |
| | Gogledd- | 2% | 10% | 88% |
| | Canolbarth | 3% | 12% | 85% |
| | **Prif Arolwg** | **2%** | **11%** | **87%** |

Y prif bwyntiau i'w cymryd o'r bwrdd yw bod gwasanaethau amaethyddol, llety ar ffermydd a phrydlesu tir yn dueddol o fod y gweithgarwch arallgyfeirio y cyfeirir ato amlaf sydd ar hyn o bryd yn gweithredu neu'n cael ei ystyried yng Nghymru. Roedd pob gweithgarwch yn fwy tebygol o weithredu mewn ardal astudio benodol;

Roedd gwasanaethau amaethyddol yn fwy tebygol o weithredu yng nghanolbarth Cymru (18 y cant), llety ar ffermydd yn y gogledd-orllewin (16 y cant) a phrydlesu tir at ddefnydd amaethyddol yn y de-orllewin (12 y cant).

Gofynnwyd i'r cyfweleion a oedd yn ystyried arallgyfeirio pellach a oedd hyn yn rhywbeth roedd yn rhaid iddynt ei wneud neu a oedd yn rhywbeth roeddent yn ei ddymuno,Mae Tabl 5.21 yn dangos yr ymateb i'r cwestiwn hwn ar gyfer pob ardal astudio.

**Tabl 5.21 Ystyried arallgyfeirio**

| | Yn dymuno arallgyfeirio ymhellach | Yn gorfod arallgyfeirio ymhellach | Ddim yn gwybod/gwrthodwyd |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| De-orllewin | 33 | 60 | 8 |
| Gogledd-orllewin | 34 | 57 | 8 |
| Canolbarth Cymru | 32 | 61 | 7 |
| **Prif Arolwg** | **33** | **59** | **8** |

Roedd y rhan fwyaf o ffermwyr o'r farn bod arallgyfeirio pellach yn rhywbeth roedd yn rhaid iddynt ei wneud; ffermwyr yn y gogledd-orllewin oedd fwyaf tebygol o ddymuno arallgyfeirio ymhellach.

Gofynnwyd i'r holl ffermwyr a oeddent yn gweld rhwystrau i arallgyfeirio ymhellach ar eu fferm. Ym mhob ardal astudio roedd cyfran y ffermydd a oedd yn gweld rhwystrau i arallgyfeirio yn uwch na'r rhai nad oedd yn gweld rhwystrau i arallgyfeirio. Mae Tabl 5.22 yn dangos y canlyniadau.

**Tabl 5.22 - Rhwystrau i arallgyfeirio**

| | Rhwystrau i arallgyfeirio pellach | Dim rhwystrau | Gwrthod ateb |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| De-orllewin | 52 | 48 | <1 |
| Gogledd-orllewin | 62 | 38 | <1 |
| Canolbarth Cymru | 55 | 44 | 1 |
| **Prif Arolwg** | **57** | **42** | **1** |

Ar 62 y cant roedd cyfran y ffermydd â rhwystrau i arallgyfeirio pellach uchaf yn y gogledd-orllewin, ond roedd y gyfran uchaf o ffermydd heb rwystrau i arallgyfeirio yn y de-orllewin (48 y cant). Mae cyfuno'r canlyniadau hyn â'r wybodaeth uchod yn awgrymu bod ffermwyr yn y gogledd-orllewin yn gallu addasu i rwystrau i arallgyfeirio pellach; mae'n fwy tebygol o fod yn rhywbeth y maent am ei wneud. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r sefyllfa yn y de-orllewin lle roedd cyfran uwch o ffermydd nad oeddent yn gweld rhwystrau i arallgyfeirio ond eto'i gyd yr ardal hon oedd y lleiaf tebygol o gynnwys ffermydd a oedd yn arallgyfeirio.

Rhestrir y prif rwystrau a welir gan ffermwyr yn Nhabl 5.23.

**Tabl 5.23 Y tri phrif rwystr i arallgyfeirio**

| | Caniatâd cynllunio (1) | Lleoliad y fferm (2) | Argaeledd cyllid (3) |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| De-orllewin | 42 | 24 | 19 |
| Gogledd-orllewin | 55 | 37 | 12 |
| Canolbarth Cymru | 35 | 33 | 17 |
| **Prif Arolwg** | **42** | **26** | **17** |

Ystyriwyd bod caniatâd cynllunio a lleoliad y fferm yn rhwystr gan gyfran uwch o ffermydd yn y gogledd-orllewin. Ystyriwyd bod argaeledd cyllid yn fwy o broblem ar gyfer arallgyfeirio pellach yn y de-orllewin. Rhoddodd y cyfweleion amrywiaeth o resymau ychwanegol am beidio â chynnal mwy o weithgarwch arallgyfeirio, ac roedd y rhain yn cynnwys biwrocratiaeth, maint y fferm, cyfyngiadau gan y cyngor lleol, diffyg tir priodol, ansicrwydd yn y farchnad, diffyg amser, a mwy o rwystrau penodol i'r fferm. Mynegwyd y rhwystrau hyn gan lai nag un o bob deg o gyfweleion ym mhob achos.

## Cyfeiriadedd y Farchnad

Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i'r cyfweleion a oedd yn ymwneud â lle roeddent yn prynu gwasanaethau a chyflenwadau fferm, a mathau a lleoliadau'r allfeydd yr oeddent yn gwerthu cynnyrch fferm iddynt.

### Prynu gwasanaethau a chyflenwadau fferm

Gofynnwyd i bob busnes fferm nodi'r gyfran o fewnbynnau a gwasanaethau a brynwyd o'r tu mewn i'r ardal leol, mannau eraill yng Nghymru, mannau eraill ym Mhrydain, a'r tu allan i Brydain. Rhoddodd hyn arwydd bras o'r lleoliadau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan newid i fusnesau ffermio. Mae Tabl 5.24 yn dangos y gyfran gyfartalog o gyflenwadau a gwasanaethau a brynwyd ym mhob categori lleoliad mewn perthynas â ffermydd ym mhob lleoliad astudio.

**Tabl 5.24 Cyfran y cyflenwadau a'r gwasanaethau a brynwyd**

| | Yr ardal leol | Rhywle arall yng Nghymru | Rhywle arall ym Mhrydain | Y tu allan i Brydain |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % |
| De-orllewin | 79 | 8 | 11 | 2 |
| Gogledd-orllewin | 84 | 7 | 8 | <1 |
| Canolbarth Cymru | 78 | 10 | 11 | 1 |
| **Prif Arolwg** | **81** | **8** | **10** | **1** |

Roedd y tair ardal astudio'n prynu'r rhan fwyaf o'u gwasanaethau a'u cyflenwadau o'r ardal leol, gyda'r tri yn agos at y ffigur ar gyfer Cymru gyfan, sef 81 y cant. Cafwyd y gyfran uchaf o bryniadau lleol yn y gogledd-orllewin, sef 84 y cant. O ystyried agosrwydd y ffin â , efallai y byddech wedi disgwyl cyfran uwch o bryniadau o fannau eraill o Brydain gan ganolbarth Cymru. Roedd gan y de-orllewin fwy o bryniadau o'r tu allan i Brydain, o gymharu â gweddill Cymru, er bod y cyfrannau yn y categori hwn yn gyson isel.

**Gwerthu cynnyrch fferm**

Darparwyd nifer o allfeydd posibl ar gyfer cynnyrch fferm a gofynnwyd i bob cyfwelai nodi pa rai o'r allfeydd a ddefnyddiwyd a'r gyfran o gynnyrch a werthwyd ym mhob allfa.

**Tabl 5.25 Cyfran y ffermydd sy'n gwerthu cynnyrch mewn allfeydd penodedig**

| | Cyfran y ffermydd sy'n defnyddio'r man gwerthu (De-orllewin) | Cyfran y ffermydd sy'n defnyddio'r man gwerthu (Gogledd-orllewin) | Cyfran y ffermydd sy'n defnyddio'r man gwerthu (Canolbarth Cymru) | **Cyfran y ffermydd sy'n defnyddio'r man gwerthu (Prif Arolwg)** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Cwmnïau prosesu llaeth | 23 | 5 | 5 | **8** |
| Marchnadoedd da byw | 72 | 89 | 89 | **81** |
| Lladd-dai mawr | 43 | 36 | 36 | **39** |
| Lladd-dai bach | 33 | 19 | 19 | **23** |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol - o fewn 25 milltir | 14 | 10 | 10 | **17** |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd mewn mannau eraill | 5 | 3 | 3 | **6** |
| Siopau, gwestai a bwytai yn lleol | 7 | 3 | 3 | **6** |
| Siopau, gwestai a bwytai mewn mannau eraill | 1 | 1 | 1 | **1** |
| Archfarchnadoedd | 2 | 1 | 1 | **2** |
| Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru | 8 | 2 | 2 | **4** |
| Prosesu bwyd mewn mannau eraill | 3 | <1 | <1 | **3** |

Roedd marchnadoedd da byw yn allfa gyffredin i gynnyrch. Roedd dros saith o bob deg o ffermydd yn gwerthu i'r math hwn o allfa ym mhob ardal astudio. Roedd ffermydd yn y de-orllewin yn llai tebygol o ddefnyddio'r allfa hon nag ardaloedd astudio eraill ac roedd ganddynt gyfran uwch o ffermydd a oedd yn gwerthu i gwmnïau prosesu llaeth (23 y cant). Defnyddiwyd lladd-dai mawr a bach yn y de-orllewin gan 43 y cant a 33 y cant yn y drefn honno - yn uwch nag ardaloedd astudio eraill. Defnyddiwyd allfeydd eraill gan gyfrannau is o ffermydd.

Mae Tabl 5.26 yn dangos y gyfran gyfartalog o gynnyrch a werthwyd ym mhob allfa. Gwerthwyd y gyfran uchaf o gynnyrch mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru (59 y cant), roedd ffermydd yn y gogledd-orllewin yn gwerthu mwy o gynnyrch ar gyfartaledd (74 y cant) i'r allfa hon nag ardaloedd astudio eraill. Ar gyfartaledd, roedd ffermydd o ganolbarth Cymru yn gwerthu'r gyfran uchaf o gynnyrch (27 y cant) i ladd-dai mawr. O'r ardaloedd astudio, y de-orllewin, yn ôl y disgwyl yn sgîl y gyfran uchel o ffermydd llaeth, oedd yn gwerthu'r gyfran uchaf o gynnyrch i gwmnïau prosesu llaeth. Gwerthwyd cyfran isel o gynnyrch yn yr allfeydd eraill a restrir yn y tabl.

**Tabl 5.26 Cyfran y cynnyrch a werthwyd ym mhob allfa**

| | Cyfran cyfanswm y cynnyrch a werthwyd yn yr allfa (De-orllewin) | Cyfran cyfanswm y cynnyrch a werthwyd yn yr allfa (Gogledd-orllewin) | Cyfran cyfanswm y cynnyrch a werthwyd yn yr allfa (Canolbarth Cymru) | Cyfran cyfanswm y cynnyrch a werthwyd yn yr allfa **(Prif Arolwg)** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Cwmnïau prosesu llaeth | 18 | 3 | 2 | **6** |
| Marchnadoedd da byw | 43 | 74 | 60 | **59** |
| Lladd-dai mawr | 19 | 15 | 27 | **18** |
| Lladd-dai bach | 5 | 4 | 3 | **4** |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol - o fewn 25 milltir | 6 | 3 | 2 | **7** |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd mewn mannau eraill | 2 | 1 | 1 | **2** |
| Siopau, gwestai a bwytai yn lleol | 1 | 1 | 1 | **1** |
| Siopau, gwestai a bwytai mewn mannau eraill | <1 | <1 | <1 | **<1** |
| Archfarchnadoedd | 1 | 0 | 1 | **1** |
| Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru | 3 | <1 | 1 | **1** |
| Prosesu bwyd mewn mannau eraill | 1 | 0 | 1 | **1** |

Yn y dadansoddiad yn Adran 4, roedd yn ymddangos bod ffermydd yn prynu mwy yn lleol na'r hyn yr oeddent yn ei werthu yn lleol. Ymddengys fod hyn hefyd yn wir am y tair ardal astudio, er na ddylid diystyru effeithiau gwerthiannau i farchnadoedd da byw ac ar ladd-dai. Y goblygiadau polisi, fel yr awgrymwyd yn nadansoddiad Adran 4, yw y gall fod effeithiau sylweddol ar economïau lleol yn dilyn diwygio'r PAC. Gall y rhain fod yn gadarnhaol lle mae taliadau'r PAC yn cynyddu (o bosibl yn y gogledd-orllewin ac yng nghanolbarth Cymru) ac yn negyddol lle maent yn gostwng (o bosibl yn y de-orllewin).

**<u>Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)</u>**

Mae diwygio'r PAC yn ganolog i'r prosiect ymchwil hwn a cheir dadansoddiad manwl o ganlyniadau ar gyfer y prif arolwg o aelwydydd fferm yng Nghymru yn Adran 4. Mae'r adran hon yn archwilio sut y gwnaeth ffermwyr ymateb i gwestiynau sy'n ymwneud â'r PAC ym mhob un o'r tair ardal a fu'n destun gor-samplu. Yn gyfan gwbl, roedd 84 y cant o ffermydd yng Nghymru yn derbyn y taliad sengl. Yr ardaloedd astudio â'r gyfran uchaf o ffermydd a oedd yn hawlio taliad oedd canolbarth Cymru lle roedd 93 y cant yn derbyn y taliad sengl. Mae Tabl 5.27 yn dangos y canlyniadau ar gyfer pob ardal astudio ac yn cymharu'r canlyniadau hyn â'r prif arolwg o ffermydd yng Nghymru.

**Tabl 5.27 Ffermydd sy'n derbyn y taliad sengl**

| | Cyfran o'r holl ffermydd<br><br>ag incwm o'r taliad sengl |
|---|---|
| De-orllewin | 85% |
| Gogledd-orllewin | 89% |
| Canolbarth Cymru | 93% |
| **Prif Arolwg** | **84%** |

Roedd gan y tair ardal a or-samplwyd gyfrannau uwch sy'n derbyn y taliad sengl na Chymru gyfan. O ganlyniad, gall effeithiau diwygio'r PAC gael eu teimlo yn Gofynnwyd i ffermwyr hefyd a oedd rhai materion yn bryder i ddyfodol eu busnes, ac un o'r materion hyn oedd diwygio'r PAC. fwy yn yr ardaloedd hyn, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru a'r gogledd-orllewin, o gymharu â rhannau eraill o Gymru.

Mae Tabl 5.28 yn dangos y cyfrannau o ffermwyr â'r pryderon hyn.

**Tabl 5.28 Pryderon ffermwyr**

| | Cyfran y ffermydd â phryder (De-orllewin) | Cyfran y ffermydd â phryder (Gogledd-orllewin) | Cyfran y ffermydd â phryder (Canolbarth Cymru) | Cyfran y ffermydd â phryder (Prif Arolwg) |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Costau cyflenwi cynyddol | 88 | 88 | 88 | **86** |
| Prisiau'r farchnad | 80 | 84 | 87 | **79** |
| Y sefyllfa economaidd gyffredinol | 80 | 81 | 82 | **79** |
| Diwygio'r PAC | 69 | 76 | 78 | **70** |
| Prisiau tir | 56 | 67 | 56 | **56** |
| Argaeledd tir | 48 | 55 | 48 | **49** |
| Olyniaeth | 45 | 50 | 49 | **44** |
| Argaeledd cyllid | 42 | 47 | 43 | **49** |
| Argaeledd hyfforddiant | 22 | 25 | 21 | **22** |
| Diddymu cwotâu cynnyrch llaeth | 16 | 5 | 4 | **7** |

Dangosodd pryder am ddiwygio'r PAC duedd ofodol debyg i'r gyfran o ffermydd sy'n cael incwm o'r taliad sengl. Fodd bynnag, roedd cyfran is o ffermydd yn pryderu am ddiwygio'r PAC na'r rhai a oedd yn derbyn y taliad sengl ar hyn o bryd.

Mynegwyd diwygio'r PAC fel pryder gan 69 y cant o ffermwyr yn y de-orllewin, un pwynt canran yn fyr o ganlyniad y prif arolwg o Gymru. Yn debyg i ganlyniadau o'r prif arolwg o Gymru, costau cyflenwi cynyddol, prisiau'r farchnad a'r sefyllfa economaidd gyffredinol oedd pryderon mwyaf cyffredin y cyfweleion. Roedd yn ymddangos bod prisiau tir yn fater penodol sy'n gysylltiedig â'r gogledd-orllewin ac er bod dileu'r cwotâu cynnyrch llaeth yn ymateb llai cyffredin, roedd cyfran y ffermwyr a nododd ei fod yn bryder yn uwch yn y de-orllewin na rhannau eraill o Gymru.

Yna gofynnwyd i ffermwyr restru eu tri phrif bryder mewn trefn. Mae Tabl 5.29 yn nodi nad diwygio'r PAC oedd y mater a oedd yn peri'r pryder mwyaf yn y de-orllewin (fel yr oedd ar gyfer y prif arolwg o Gymru ac ardaloedd astudio eraill). Ar 30 y cant ystyriwyd bod costau cyflenwi cynyddol yn achosi'r pryder mwyaf yn y de-orllewin. Cafodd diwygio'r PAC ei raddio fel y prif bryder gan un rhan o dair o ffermydd yn y gogledd-orllewin a chan ddwy o bob pum fferm yng nghanolbarth Cymru. Roedd pryderon eraill megis argaeledd cyllid a thir, prisiau tir, olyniaeth, diddymu'r cwotâu cynnyrch llaeth a hyfforddiant yn llai tebygol o gael eu gweld fel prif bryder.

**Tabl 5.29 Prif bryderon ffermwyr wedi'u rhestru**

| | *Safle* | ***Prif Arolwg*** | *De-orllewin* | *Gogledd-orllewin* | *Canolbarth Cymru* |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **%** | % | % | % |
| Diwygio'r PAC | 1 | **29** | 27 | 33 | 40 |
| Costau cyflenwi cynyddol | 2 | **25** | 30 | 22 | 19 |
| Prisiau'r farchnad | 3 | **12** | 13 | 15 | 13 |
| Y sefyllfa economaidd gyffredinol | 4 | **11** | 12 | 10 | 8 |
| Argaeledd cyllid | 5 | **5** | 4 | 2 | 3 |
| Prisiau tir | 6 | **4** | 3 | 4 | 5 |
| Argaeledd tir | 7 | **2** | 2 | 2 | 3 |
| Olyniaeth | 8 | **2** | 1 | 3 | 3 |
| Diddymu cwotâu cynnyrch llaeth | 9 | **<1** | 1 | <1 | 0 |
| Argaeledd hyfforddiant | 10 | **<1** | <1 | 1 | 0 |
| Arall | | **6** | 7 | 6 | 5 |

Yn ogystal, gofynnwyd cwestiwn mwy penodol am y PAC i'r cyfranogwyr : a oeddent yn ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013. Mae Tabl 5.30 yn dangos bod 61 y cant o gyfweleion yn ymwybodol o'r diwygiadau penodol i'r PAC ar ôl 2013, cyfran ychydig yn uwch nag ar gyfer y prif arolwg o ffermydd yng Nghymru. Ar 66 y cant, roedd yr ymwybyddiaeth uchaf yn y gogledd-orllewin.

**Tabl 5.30 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013**

| **Ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig** | **De-orllewin** | **Gogledd-orllewin** | **Canolbarth Cymru** | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| Oeddent | 61% | 66% | 61% | **60%** |
| Nac oeddent | 39% | 34% | 39% | **40%** |

Dangosodd pob un o'r tair ardal astudio duedd debyg i ganlyniadau'r prif arolwg o ffermydd yng Nghymru, o ran bod cyfran uwch o ffermydd yn bryderus am ddiwygio'r PAC yn gyffredinol na'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013 sydd ar y gweill. Oherwydd bod mwy nag 84 y cant o ffermydd ym mhob ardal astudio yn derbyn y taliad sengl, ac y gallai'r diwygiadau effeithio arnynt o bosibl, mae hyn yn awgrymu gwybodaeth annigonol a diffyg dealltwriaeth o'r diwygiadau PAC.

Mae yma oblygiadau polisi o ran lledaenu gwybodaeth.

Mae Tablau 5.31 a 5.32 yn dadansoddi'r ymwybyddiaeth o'r diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013 gan ddefnyddio maint a math ffermydd yn y drefn honno ar gyfer pob ardal astudio.

**Tabl 5.31 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl maint y fferm**

| | Yn gyffredinol | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| De-orllewin | 61 | 85 | 66 | 69 | 71 | 44 |
| Gogledd-orllewin | 66 | 100 | 94 | 83 | 76 | 39 |
| Canolbarth Cymru | 61 | 57 | 73 | 73 | 61 | 49 |
| **Prif Arolwg** | **60** | **86** | **66** | **77** | **66** | **48** |

**Tabl 5.32 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl math y fferm**

| | Yn gyffredinol | Llaeth | Defaid | Cig eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| De-orllewin | 61 | 71 | 58 | 59 | 57 | 55 |
| Gogledd-orllewin | 66 | 87 | 62 | 65 | 79 | 33 |
| Canolbarth Cymru | 61 | 100 | 64 | 54 | 64 | 39 |
| **Prif Arolwg** | **60** | **76** | **62** | **59** | **69** | **47** |

Mae'r tablau yn datgelu bod, yn y gogledd-orllewin, fwy o ymwybyddiaeth ym mhob maint a math o fferm ar wahân i'r rhai bach iawn. Roedd mwy o amrywiaeth o ran ymwybyddiaeth yn y de-orllewin a chanolbarth Cymru.

Roedd lefelau ymwybyddiaeth yn is ymhlith ffermwyr defaid ac eidion yn y de-orllewin, a ffermwyr eidion yng nghanolbarth Cymru. Heblaw am yn y de-orllewin roedd ffermydd eraill/cymysg yn dueddol o beidio â bod yn ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC yng nghanolbarth Cymru ac yn

enwedig yn y gogledd-orllewin. Yn fwy cyffredinol, roedd ffermydd llaeth a ffermydd mwy yn dueddol o fod yn fwy ymwybodol na mathau a meintiau eraill o ffermydd. Mae hyn yn ategu'r dadansoddiad yn adran 4, sy'n awgrymu bod ffermydd mwy a ffermydd llaeth yn dueddol o fod yn fwy ymwybodol o faterion masnachol ac ariannol.

**Tabl 5.33 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 yn ôl oedran yr ymatebydd**

| | Yn gyffredinol | O dan 45 | 45-54 | 55-64 | 65 neu'n hŷn |
|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % |
| De-orllewin | 61 | 70 | 65 | 63 | 50 |
| Gogledd-orllewin | 66 | 65 | 72 | 68 | 59 |
| Canolbarth Cymru | 61 | 70 | 67 | 59 | 52 |
| **Prif Arolwg** | **60** | **62** | **66** | **60** | **55** |

Cafwyd yr ymwybyddiaeth fwyaf o'r diwygiadau i'r PAC ar ôl 2013 ar gyfer y grŵp oedran iau na 45 oed yng nghanolbarth Cymru a'r de-orllewin. Yn y ddwy ardal hyn roedd yn ymddangos bod ymwybyddiaeth ardaloedd yn gostwng gydag oedran. Yn y gogledd-orllewin dangoswyd ymwybyddiaeth gan gyfran uwch yn y grwpiau oedran 45 i 64 oed.

Gofynnwyd cwestiynau pellach i'r 289 o gyfweleion yn y de-orllewin (61 y cant), 268 o gyfweleion yng nghanolbarth Cymru (61 y cant) a'r 235 o gyfweleion yn y gogledd-orllewin (66 y cant) a oedd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC. Roedd y cwestiynau hyn yn cwmpasu agweddau eraill ar y diwygiadau arfaethedig: y newid o daliadau hanesyddol i rai sy'n seiliedig ar ardaloedd; y mesurau gwyrddio; rhoi trothwy ar daliadau; a'r pwyslais ar ffermwyr ifanc. Yn Nhabl 5.32 dangosir ymwybyddiaeth ffermwyr o bob un o'r agweddau hyn ar gyfer pob lleoliad astudio.

**Tabl 5.32 Ymwybyddiaeth o fanylion penodol y diwygio arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013**

| | **Newid i daliadau sy'n seiliedig ar ardaloedd** | **Mesurau gwyrddio** | **Rhoi trothwy ar daliadau** | **Pwyslais ar ffermwyr ifanc** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % |
| De-orllewin | 84 | 70 | 69 | 69 |
| Gogledd-orllewin | 88 | 74 | 77 | 76 |
| Canolbarth Cymru | 90 | 72 | 73 | 73 |
| **Prif Arolwg** | **85** | **67** | **74** | **73** |

O gymharu â'r prif arolwg o Gymru, roedd yr ymwybyddiaeth leiaf o newid arfaethedig i daliadau sy'n seiliedig ar ardaloedd yn y de-orllewin, ond ar 84 y cant roedd yr ymwybyddiaeth yn gymharol uchel ac i bob diben yr un peth â'r prif arolwg. Roedd yn ymddangos bod ffermwyr yn y gogledd-orllewin yn fwy ymwybodol o'r manylion ychwanegol o ran diwygio'r PAC ar ôl 2013: h.y. mesurau gwyrddio, rhoi trothwy ar daliadau a'r pwyslais ar ffermwyr ifanc.

Gofynnwyd i'r ffermwyr a oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 lle y cawsant eu gwybodaeth. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 5.33.

**Tabl 5.33  Ffynonellau gwybodaeth am ddiwygio'r PAC**

| | De-orllewin | Gogledd -orllewin | Canolbarth Cymru | Prif arolwg |
|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) | 4% | 1% | 2% | **3%** |
| Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) | 18% | 21% | 13% | **15%** |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) | 21% | 19% | 18% | **20%** |
| Ffermwyr Ifanc Cymru | 1% | 1% | 0% | **1%** |
| Llywodraeth Cymru | 21% | 20% | 21% | **25%** |
| | | | | |
| **<u>Ffynonellau eraill a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr</u>** | | | | |
| Y wasg/y cyfryngau/teledu/rhyngrwyd sy'n ymwneud â ffermio | 28% | 22% | 30% | **31%** |
| Ar lafar/ffermwyr eraill | 9% | 6% | 10% | **10%** |
| Farmers Weekly | 25% | 7% | 17% | **17%** |
| Farmers Guardian | 17% | 21% | 21% | **18%** |
| Gwlad (Cylchgrawn) | 11% | 8% | 14% | **15%** |
| Post/taflenni | 1% | 0% | 0% | **1%** |
| Cynghorwyr/syrfewyr/ymgynghorwyr arbenigol yn y sector preifat | 2% | 0% | 0% | **1%** |
| Cyngor arbenigol (gan gynnwys cyfarfodydd, cynadleddau/mewnbwn gan sefydliadau arbenigol) | 8% | 4% | 4% | **5%** |
| The Daily Post | 0% | 3% | 0% | **1%** |
| The Western Mail | 1% | 0% | 0% | **1%** |
| Ffermio (S4C) | 0% | 1% | 0% | **0%** |
| Countryfile | <1% | 1% | 1% | **1%** |
| The Dairy Farmer | 3% | 0% | 0% | **0%** |
| Arall | 3% | 5% | 4% | **1%** |
| Ddim yn gwybod/Ddim yn cofio | 2% | 1% | 1% | **1%** |
| Gwrthodwyd | <1% | 0% | 0% | **0%** |
| Heb ofyn iddynt – h.y. y rhai nad oeddent yn ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 | 39% | 34% | 39% | **40%** |

Y prif bwynt i'w nodi o'r tabl yw nad oedd un ffynhonnell unigol o wybodaeth amlycaf. Roedd amrywiadau bach rhwng yr ardaloedd astudio. Er enghraifft, sylwer ar y gyfran uwch o ffermwyr a oedd yn defnyddio Undeb Amaethwyr Cymru o'r gogledd-

orllewin a'r gyfran uwch a oedd yn defnyddio Farmers Weekly, yn byw yn y de-orllewin. Sylwer hefyd ar y cyfrannau is o ffermwyr a oedd yn defnyddio cyhoeddiadau ffermio, y cyfryngau a'r rhyngrwyd fel ffynonellau gwybodaeth yn y gogledd-orllewin. Fodd bynnag, rhaid bod peth pryder bod y tair ardal rhwng pedwar a phum pwynt canran yn is na'r prif arolwg o ran y cyfrannau a gafodd eu gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

**Disgwyliadau o newid ac ymatebion i newidiadau damcaniaethol mewn incwm**

Mae'r is-adran ganlynol o'r dadansoddiad yn archwilio ymatebion ffermwyr i sefyllfaoedd damcaniaethol ar gyfer lefelau amrywiol o newid incwm y gellir eu hachosi gan ddiwygio'r PAC.

O'r ffermwyr a nododd eu bod yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC, gofynnwyd ymhellach iddynt a oeddent yn disgwyl i'w taliadau gynyddu, gostwng, neu aros yr un peth. Dangosir y canlyniadau ar gyfer pob lleoliad astudio yn Nhabl 5.34.

**Tabl 5.34 Disgwyliad o newid i daliadau sy'n ymwneud â diwygio'r PAC ar ôl 2013**

| Disgwyliad o newid | Cyfran (De-orllewin) | Cyfran (Gogledd-orllewin) | Cyfran (Canolbarth Cymru) | **Cyfran (Prif Arolwg)** |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd | 9% | 11% | 7% | **10%** |
| Gostwng | 64% | 55% | 69% | **60%** |
| Aros yr un peth | 13% | 17% | 14% | **17%** |
| Ddim yn gwybod | 12% | 16% | 10% | **12%** |
| Gwrthodwyd | 2% | 0% | <1% | **1%** |
| Ffermwyr yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC | 100% (289) | 100% (235) | 100% (268) | **100% (1437)** |

Mae cymharu'r canlyniadau â'r prif arolwg yn datgelu bod pesimistiaeth gymharol fwy ymhlith ffermwyr yng nghanolbarth Cymru a'r de-orllewin: yma roedd 69 y cant a 64 y cant yn y drefn honno yn disgwyl i daliadau ostwng.

Roedd y de-orllewin yn cynnwys crynodiad o ffermydd llaeth mwy, y rhagwelwyd mewn gwaith modelu blaenorol (a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru) y byddent yn derbyn

gostyngiad mewn taliadau o ganlyniad i newidiadau i'r PAC yn y dyfodol (gweler Adran 3 am fanylion). Felly ymddengys yn fwy tebygol y byddai mwy o ffermydd yn disgwyl gostyngiad o ran taliad yn yr ardal hon. Fodd bynnag, ymddengys o hyd fod

cyfran y ffermydd a oedd yn disgwyl gostyngiad yn anarferol o uchel. Rhagwelwyd y byddai ardaloedd y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru yn gwneud yn well na'r de-orllewin. Fodd bynnag, yma roedd ffermwyr yn fwy tebygol o ddisgwyl i daliadau aros yr un peth yn hytrach na chynyddu. Yng nghanolbarth Cymru y cafwyd y ganran isaf o ffermydd a oedd yn disgwyl cynnydd (saith y cant). O fewn yr amrywiadau gofodol hyn, mae'r dadansoddiad hwn yn ategu'n fras y dadansoddiadau yn Adrannau 3 a 4, sy'n awgrymu er bod ffermwyr llaeth a ffermwyr ar ffermydd mwy yn dueddol o fod yn fwy ymwybodol o faterion busnes, yn fwy cyffredinol roedd arwyddion o besimistiaeth ormodol.

Yn ogystal gofynnwyd i'r sampl o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC ar ôl 2013 i fesur faint yr oeddent yn disgwyl i'r taliadau gynyddu neu ostwng. Mae Tabl 5.35 yn dangos y canlyniadau.

**Tabl 5.35 Disgwyliad o lefel y newid i daliadau sy'n ymwneud â diwygio'r PAC ar ôl 2013**

| | Disgwyliad o newid | Cyfran (De-orllewin) | Cyfran (Gogledd-orllewin) | Cyfran (Canolbarth Cymru) | **Cyfran (Prif Arolwg)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnydd | Mwy nag 20% | 4% | 6% | 2% | **4%** |
| | Llai na 20% | 5% | 5% | 4% | **4%** |
| Aros yr un peth | | 13% | 17% | 14% | **17%** |
| Gostwng | Llai na 20% | 21% | 22% | 34% | **27%** |
| | Mwy nag 20% | 33% | 21% | 26% | **21%** |
| Ddim yn gwybod… | a fydd yn cynyddu/gostwng | 14% | 16% | 10% | **14%** |
| | Faint | 10% | 13% | 10% | **13%** |
| Ffermwyr yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC | | 100% (289) | 100% (235) | 100% (268) | **100% (1437)** |

Yr hyn sy'n amlwg o'r tablau blaenorol a'r gwaith modelu ariannol yn Adran 3 yw bod rhywfaint o ddryswch ymhlith ffermwyr o ran sut yn union y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r PAC yn effeithio ar daliadau i ffermydd. Dangosir hyn gan y canlyniadau sy'n rhy besimistaidd a chan y swm o ffermwyr na allent roi ymateb diffiniol i'r cwestiwn o newid (uchaf yn y gogledd-orllewin ar 16 y cant) a'r ffermwyr ychwanegol nad oedd yn gwybod manylion tua faint y byddai'r taliadau'n cynyddu neu'n gostwng.

**Ymatebion i newidiadau damcaniaethol o ran taliadau'r PAC**

Cafodd yr holl gyfranogwyr yn y de-orllewin, y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru sefyllfaoedd o ran newid i daliadau'r PAC a gofynnwyd iddynt sut y byddent yn ymateb i bob un yn ei dro. I'w cynorthwyo, awgrymwyd nifer o ymatebion posibl. Roedd y sefyllfaoedd fel a ganlyn:

*Taliadau'n cynyddu llai nag 20 y cant*

*Taliadau'n cynyddu mwy nag 20 y cant*

*Taliadau'n gostwng llai nag 20 y cant*

*Taliadau'n gostwng mwy nag 20 y cant*

Mae Tablau 5.36 - 5.39 yn nodi'r ymatebion. Sylwer bod modd i gyfranogwyr roi mwy nag un ymateb. Hefyd, mae gan rai categorïau gyfrifiadau isel ac er mwyn cofnodi'r ymatebion hyn nid yw'r canrannau yn y tabl hwn wedi'u talgrynnu i rifau cyfan.

**Tabl 5.36 Ymatebion ffermwyr i sefyllfaoedd damcaniaethol o ran newid i'r taliadau**

Gostwng mwy nag 20%

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| Busnes fel arfer | 34.3% | 28.4% | 29.2% | **34.0%** |
| Gadael ffermio | 19.9% | 22.6% | 22.3% | **20.1%** |
| Cynyddu maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 3.8% | 3.1% | 2.7% | **2.2%** |
| Lleihau maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 8.2% | 13.1% | 8.7% | **8.5%** |
| Prynu offer fferm newydd | 0.8% | 0% | 0.2% | **0.2%** |
| Ceisio mwy o dir | 1.0% | 0% | 0.5% | **0.4%** |
| Dwysáu gweithrediadau amaethyddol presennol | 4.0% | 2.8% | 2.3% | **3.2%** |
| Codi mwy o adeiladau fferm | 0.6% | 0% | 0.2% | **0.2%** |
| Lleihau dwyster y gweithrediadau amaethyddol presennol | 4.8% | 5.6% | 6.4% | **5.3%** |
| Dechrau gweithgarwch arallgyfeirio newydd | 2.3% | 3.6% | 3.2% | **2.8%** |
| Ildio tir | 4.0% | 5.0% | 3.2% | **3.5%** |
| Ehangu ar arallgyfeirio presennol | 1.0% | 1.9% | 1.6% | **1.9%** |
| Newid fy math o ffermio | 1.5% | 0.8% | 2.1% | **2.0%** |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0% | 0% | 0% | **0.1%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lleihau gweithgareddau arallgyfeirio | 0.6% | 0% | 0.7% | **0.8%** |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0.4% | 0.3% | 0.7% | **0.3%** |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau o'r tu allan i'r ardal leol | 0% | 0% | 0% | **0%** |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm y tu allan i'r ardal leol | 0.8% | 0.3% | 0.5% | **0.2%** |

Mae'r ymatebion a ddangosir yn y tabl yn cynrychioli'r sefyllfa waethaf i ffermwyr sy'n dibynnu ar daliadau'r PAC, gostyngiad o dros 20 y cant i'w taliadau presennol. Yma y ddau ymateb pennaf oedd 'busnes fel arfer' a 'gadael ffermio'.

Roedd cyfran y ffermwyr a fyddai'n parhau eu busnes fel araf isaf yn y gogledd-orllewin ar 28 y cant ac uchaf yn y de-orllewin ar 34 y cant, sy'n cymharu â'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru. Awgrymodd cyfrannau ychydig yn uwch yn y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru y byddent yn gadael ffermio. Sylwer bod 13 y cant o ffermwyr yng ngogledd Cymru wedi nodi y byddent yn lleihau maint eu gweithrediad amaethyddol presennol. Roedd y gyfran hon yn gymharol uchel ac mae'n gwrthgyferbynnu â'r meysydd astudio eraill.

**Tabl 5.37 Ymatebion ffermwyr i sefyllfaoedd damcaniaethol o ran newid i'r taliadau**

**Gostwng llai nag 20%**

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| Busnes fel arfer | 52.1% | 46.8% | 52.8% | **52.2%** |
| Gadael ffermio | 5.9% | 7.0% | 6.2% | **7.0%** |
| Cynyddu maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 3.3% | 3.9% | 2.3% | **2.1%** |
| Lleihau maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 6.5% | 11.1% | 8.2% | **7.6%** |
| Prynu offer fferm newydd | 0.6% | 0.3% | 0.2% | **0.3%** |
| Ceisio mwy o dir | 1.3% | 0.3% | 0.7% | **0.4%** |
| Dwysáu gweithrediadau amaethyddol presennol | 3.3% | 3.3% | 3.4% | **3.4%** |
| Codi mwy o adeiladau fferm | 0.6% | 0.3% | 0.2% | **0.2%** |
| Lleihau dwyster y gweithrediadau amaethyddol presennol | 4.2% | 5.8% | 6.6% | **5.5%** |
| Dechrau gweithgarwch arallgyfeirio newydd | 3.1% | 2.2% | 2.7% | **2.8%** |
| Ildio tir | 2.5% | 3.3% | 0.5% | **1.9%** |
| Ehangu ar arallgyfeirio presennol | 0.8% | 1.1% | 1.6% | **1.5%** |
| Newid fy math o ffermio | 1.9% | 1.1% | 1.8% | **1.5%** |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0% | 0.6% | 0.2% | **0.2%** |
| Lleihau gweithgareddau arallgyfeirio | 0.8% | 0% | 0.9% | **0.8%** |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0.2% | 0.3% | 1.1% | **0.4%** |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau o'r tu allan i'r ardal leol | 0% | 0.6% | 0.2% | **0.1%** |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm y tu allan i'r ardal leol | 0.2% | 0.3% | 0.7% | **0.1%** |

Pe bai ffermydd yn cael gostyngiad mewn cymhorthdal, o lai nag 20 y cant o'u taliadau presennol, byddai dros hanner y ffermydd yn parhau busnes fel arfer ac eithrio yn y gogledd-orllewin, lle roedd y gyfran ychydig o dan hanner ar 47 y cant. Roedd ffermwyr tua thair gwaith yn llai tebygol o adael ffermio na phan oedd y gostyngiad mewn taliadau'r PAC yn fwy nag 20 y cant. Byddai ychydig yn fwy yn dueddol o leihau graddfa a dwyster y gweithrediadau amaethyddol presennol i wneud iawn am y gostyngiad.

**5.38 Ymatebion ffermwyr i sefyllfaoedd damcaniaethol o ran newid i'r taliadau**

**<u>Cynyddu llai nag 20%</u>**

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| Busnes fel arfer | 63.4% | 60.7% | 67.0% | **64.3%** |
| Gadael ffermio | 0.4% | 0% | 0.5% | **1.0%** |
| Cynyddu maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 3.6% | 6.1% | 5.2% | **5.0%** |
| Lleihau maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 0.2% | 0.6% | 0.5% | **0.8%** |
| Prynu offer fferm newydd | 7.5% | 8.1% | 5.0% | **5.0%** |
| Ceisio mwy o dir | 4.4% | 4.7% | 6.8% | **4.3%** |
| Dwysáu gweithrediadau amaethyddol presennol | 2.9% | 3.3% | 1.8% | **2.4%** |
| Codi mwy o adeiladau fferm | 5.2% | 4.7% | 5.5% | **4.0%** |
| Lleihau dwyster y gweithrediadau amaethyddol presennol | 0.2% | 0% | 0.2% | **0.7%** |
| Dechrau gweithgarwch arallgyfeirio newydd | 1.5% | 2.2% | 2.3% | **1.8%** |
| Ildio tir | 0.2% | 0.6% | 0.2% | **0.5%** |
| Ehangu ar arallgyfeirio presennol | 0.8% | 1.9% | 2.5% | **0.9%** |
| Newid fy math o ffermio | 1.3% | 0% | 0.5% | **0.5%** |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 1.0% | 1.4% | 2.1% | **1.3%** |
| Lleihau gweithgareddau arallgyfeirio | 0.2% | 0% | 0.2% | **0.1%** |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0.4% | 0% | 0% | **0.2%** |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau o'r tu allan i'r ardal leol | 0.8% | 0% | 0.2% | **0.3%** |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm y tu allan i'r ardal leol | 0% | 0% | 0% | **0%** |

Yn y sefyllfa lle tybiwyd y byddai cynnydd yn nhaliad y PAC ond o lai nag 20 y cant, unwaith eto cyfran y ffermwyr a fyddai'n parhau fel arfer oedd yr ymateb pennaf. Roedd hyn yn arbennig o wir yng nghanolbarth Cymru. Roedd ffermwyr yn y

gogledd-orllewin yn debygol o brynu offer fferm newydd a byddai ffermwyr yng nghanolbarth Cymru yn ceisio mwy o dir. Fodd bynnag roedd y cyfrannau a ddywedodd y byddent yn gwneud hynny yn gymharol isel.

**Tabl 5.39 Ymatebion ffermwyr i sefyllfaoedd damcaniaethol o ran newid i'r taliadau**

**Cynyddu mwy nag 20%**

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| Busnes fel arfer | 51.7% | 45.4% | 51.5% | **51.4%** |
| Gadael ffermio | 0.8% | 0.3% | 0.2% | **0.6%** |
| Cynyddu maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 6.7% | 10.0% | 8.9% | **9.0%** |
| Lleihau maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 0.6% | 1.1% | 0.9% | **0.8%** |
| Prynu offer fferm newydd | 12.3% | 10.9% | 8.9% | **10.2%** |
| Ceisio mwy o dir | 9.0% | 12.8% | 14.6% | **9.3%** |
| Dwysáu gweithrediadau amaethyddol presennol | 4.4% | 4.7% | 2.3% | **3.7%** |
| Codi mwy o adeiladau fferm | 9.8% | 9.2% | 8.7% | **7.8%** |
| Lleihau dwyster y gweithrediadau amaethyddol presennol | 0.2% | 0.6% | 0.9% | **0.6%** |
| Dechrau gweithgarwch arallgyfeirio newydd | 2.7% | 3.9% | 3.4% | **3.5%** |
| Ildio tir | 0.4% | 0.6% | 0.2% | **0.3%** |
| Ehangu ar arallgyfeirio presennol | 1.3% | 2.2% | 2.1% | **1.2%** |
| Newid fy math o ffermio | 0.8% | 0% | 0% | **0.6%** |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 2.3% | 0.8% | 2.1% | **2.0%** |
| Lleihau gweithgareddau arallgyfeirio | 0% | 0% | 0% | **0.1%** |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0% | 0% | 0% | **0.2%** |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau o'r tu allan i'r ardal leol | 0.4% | 0.3% | 0.2% | **0.3%** |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm y tu allan i'r ardal leol | 0% | 0% | 0% | **0.0%** |

Pe bai ffermydd yn cael cynnydd o fwy nag 20 y cant yn nhaliadau'r PAC, ffermwyr yn y gogledd-orllewin oedd fwyaf tebygol o gynyddu maint gweithrediadau presennol, byddai ffermwyr yng nghanolbarth Cymru yn ceisio mwy o dir, a byddai ffermwyr yn y de-orllewin yn prynu offer fferm newydd ac yn adeiladu mwy o adeiladau fferm. Ar y cyfan byddai'r rhan fwyaf o ffermydd yn y tair ardal astudio yn dal i barhau â busnes fel arfer.

Fel y nodwyd yn y prif arolwg o ffermydd yng Nghymru, mae dwy set o ystadegau'n sefyll allan yn gyffredinol, o'r holl ardaloedd astudio. Yn gyntaf, roedd cyfran uchel o ffermwyr a awgrymodd y byddent yn parhau â 'busnes fel arfer' beth bynnag fyddai unrhyw newid a wnaed i'w taliadau PAC. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd byddai dros hanner y ffermydd yn yr ardaloedd astudio yn parhau â 'busnes fel arfer', a'r unig eithriad i hyn fyddai pan oedd taliadau'n gostwng mwy nag 20 y cant. Yma, roedd 'busnes fel arfer' tua 30 y cant. Sylwer bod gan y gogledd-orllewin gyfrannau llai ar gyfer 'busnes fel arfer' am bob un o'r pedair sefyllfa. Yn ail, y cynnydd yn y gyfran o gyfweleion a awgrymodd y byddent yn gadael ffermio pe bai'r taliadau'n gostwng dros 20%. Ystyrir y sefyllfaoedd hyn yn fwy manwl nawr.

**Gadael ffermio**

O Dablau 5.36 - 5.39 yr ymatebion amlwg oedd y rhai ar gyfer 'Busnes fel arfer' a 'Gadael ffermio'. Mae'r dadansoddiad canlynol yn archwilio'r ymateb ar gyfer y ffermwyr hynny a fyddai'n gadael ffermio pe bai gostyngiad o dros 20% yn y taliadau, o ran math a maint y ffermydd.

Mae Tablau 5.40 a 5.41 yn dadansoddi'r ymatebion yn ôl maint a math y fferm.

**Tabl 5.40 'Gadael ffermio'**

| | Gadael Ffermio | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| De-orllewin | 20 | 18 | 22 | 22 | 26 | 15 |
| Gogledd-orllewin | 28 | 0 | 44 | 26 | 22 | 36 |
| Canolbarth Cymru | 22 | 14 | 27 | 18 | 22 | 27 |
| Prif Arolwg | 20 | 12 | 15 | 20 | 25 | 17 |

**Tabl 5.41 'Gadael ffermio'**

| | Gadael Ffermio | Llaeth | Defaid | Cig eidion | Defaid gydag Eidion | Arall/Cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| De-orllewin | 20% | 25% | 14% | 22% | 23% | 16% |
| Gogledd-orllewin | 28% | 40% | 27% | 35% | 28% | 27% |
| Canolbarth Cymru | 22% | 11% | 27% | 13% | 23% | 14% |
| Prif Arolwg | 20% | 21% | 21% | 21% | 27% | 13% |

Mae Tabl 5.40 yn dangos bod ffermydd yn y dosbarthiad mawr iawn neu fach iawn yn llai tebygol o adael ffermio. O'r holl feintiau o ffermydd, y ffermydd bach oedd fwyaf tebygol o adael ffermio, awgrymodd 26% o ffermwyr o'r math hwn o fferm mai dyna fyddai eu penderfyniad. Mae Tabl 5.41 yn nodi mai'r ffermydd a ddosbarthwyd fel rhai 'llaeth' oedd fwyaf tebygol o adael ffermio ond roedd ffermydd a ddosbarthwyd fel rhai 'eidion' neu 'ddefaid gydag eidion' hefyd yn debygol o adael ffermio o gymharu â'r prif arolwg o ffermydd yng Nghymru. Yn ofodol, fodd bynnag, mae'r gogledd-orllewin yn amlwg iawn o ran 'gadael ffermio'. Heblaw am ffermydd 'mawr iawn', a gofnododd nad oedd unrhyw ffermydd yn gadael, a 'ffermydd bach' a oedd dri phwynt canran yn is na'r prif arolwg, roedd y cyfrannau hynny'n a fyddai'n dewis gadael ffermio yn y gogledd-orllewin yn uwch na'r ddwy ardal arall a'r prif arolwg ar gyfer yr holl fathau a meintiau o ffermydd.

**Pryderon am gynigion materion gwyrdd y PAC**

Gofynnwyd i holl gyfranogwyr yr arolwg roi manylion o ran eu prif bryderon am gynigion materion gwyrdd y PAC. Cafodd yr ymatebwyr eu rhannu bron yn gyfartal rhwng y rhai a oedd â phryderon am y cynigion materion gwyrdd a'r rhai heb unrhyw bryder. Yn y de-orllewin, nid oedd 48% o ffermwyr yn pryderu am y cynigion materion gwyrdd, ond roedd y gyfran uchaf o ffermwyr â phryderon yng nghanolbarth Cymru. Mae Tabl 5.42 isod yn rhestru prif bryderon ffermwyr ynghylch y cynnig materion gwyrdd yn nhrefn eu harwyddocâd cyffredinol i ffermwyr.

**Tabl 5.42 Prif bryderon am gynigion materion gwyrdd y PAC**

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| Dim/Dim pryderon | 48% | 45% | 43% | **47%** |
| Bydd yn rhy gaeth/gymhleth | 10% | 6% | 8% | **10%** |
| Gostyngiad mewn cynhyrchu bwyd/mynd â thir i ffwrdd o gynhyrchu bwyd | 10% | 10% | 12% | **9%** |
| Ddim yn gwybod digon amdano/Angen mwy o wybodaeth | 8% | 11% | 9% | **8%** |
| Manteision i Ffermydd Mawr/Anfantais i Ffermydd Bach/fy fferm hon/Ffermwyr Iau | 4% | 3% | 4% | **4%** |
| Gormod o dâp coch/gwaith papur/rhy fiwrocrataidd | 4% | 2% | 2% | **3%** |
| Bydd yn mynd yn rhy bell/ddim yn ymarferol/afrealistig | 3% | 6% | 9% | **5%** |
| Gostyngiad mewn taliadau/grantiau/cymorthdaliadau | 3% | 5% | 5% | **4%** |
| Gormod o bwyslais ar yr amgylchedd | 3% | 6% | 3% | **4%** |
| Ddim yn cytuno â hyn/mae'n annheg/rwy'n pryderu amdano | 2% | 3% | 2% | **2%** |
| Bydd yn effeithio ar brisiau bwyd/prisiau'r farchnad | 2% | 0% | 1% | **1%** |
| Diwygiadau a wneir gan bobl y tu allan i ffermio | 1% | 1% | 2% | **2%** |
| Angen gwell cydbwysedd rhwng cynhyrchu bwyd a'r amgylchedd | 1% | 1% | 1% | **1%** |
| Costau ychwanegol sydd eu hangen i gymhwyso/gorfod gwario mwy i gymhwyso | 1% | 1% | 1% | **1%** |
| Nid yw'n mynd yn ddigon pell | <1% | <1% | <1% | **<1%** |
| Arall | 8% | 8% | 8% | **7%** |
| Gwrthodwyd | 4% | 3% | 3% | **4%** |

Gellir gweld o'r tabl nad oedd unrhyw bryder clir amlycaf. Y prif bryderon oedd y byddai'r cynigion materion gwyrdd yn rhy gaeth a chymhleth, a'r gostyngiad mewn cynhyrchu bwyd yn deillio o dir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Cyflwynir nifer o ddyfyniadau enghreifftiol isod a'u trefnu yn gyfres o themâu, sy'n gorgyffwrdd ar brydiau. Ar natur gyfyngol a chymhleth y mesurau gwyrddio nododd y ffermwyr isod:

> *"Mae llawer gormod o reolaeth. Rydym i gyd yn atebol ond mae pawb yn gwneud camgymeriadau weithiau. Maent yn gwneud ffermio'n anodd. Byddai'n well pe bai'r awdurdodau yn gweithio gyda'r ffermwyr yn hytrach na'u rheoli" (Gogledd-orllewin, Gwryw, 55-64, Mawr, Defaid gydag eidion, heb incwm oddi ar y fferm).*

*"Y materion ymarferol. Rydym yn ffermio mewn ffordd amgylcheddol. Rydym yn gyfarwydd â'n tir ac felly ni yw'r rhai gorau i wneud hyn. Y ffordd rydym wedi ei wneud yw'r ffordd orau yn fy marn i. Nid wyf yn teimlo mai'r ffordd ymlaen yw cael rhywun yn gosod cyfres o reolau" (Canolbarth Cymru, Benyw, 45-54, Bach, Defaid gydag eidion, 15.5k-21k, heb incwm oddi ar y fferm)*

"Ymddengys fod llawer o waith papur a dim gwobr ariannol wych am y gwaith rydych yn ei wneud. *Mae'n gwella'r eiddo yn yr hirdymor ond nid*

*yn ariannol" (De-orllewin, Gwryw, 45-54, Bach, Eidion, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm).*

Roedd llawer o ddyfyniadau yn benodol am y lleihad mewn cynhyrchu bwyd, a ddangosir gan y dewis canlynol o bryderon,

*"Rwy'n credu ei bod yn anfoesol ar blaned lle nad oes gan bobl ddigon o adnoddau eu bod yn talu ffermwyr i gynhyrchu llai" (Gogledd-orllewin, Gwryw, 65+, Bach iawn, Defaid gydag eidion, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm).*

*"Eu bod yn mynd â thir amaethyddol i ffwrdd oddi wrthym... rhaid i ni edrych ar ôl y brogaod, yr ystlumod a'r adar" (Canolbarth Cymru).*

*"Y tebygolrwydd yw bod y bobl â ffermydd bach wedi'u heithrio rhag cynlluniau amgylcheddol, ond nhw yw'r rhai sy'n fwy parod i ymgymryd â mesurau gwyrddio. Mae'n ei gwneud yn fwy anodd i ffermwyr ar raddfa fwy gynhyrchu. Dyma'r pryder yn enwedig yn ardaloedd yr ucheldir lle mae'r hinsawdd yn cael dylanwad mawr ar y math o ffermio y gallwch chi ei wneud mewn gwirionedd" (Canolbarth Cymru), Benyw, 45-54, Bach iawn, Defaid gydag eidion, 52k+, incwm oddi ar y fferm).*

*"Mae gormod o gynlluniau amgylcheddol yno sy'n lleihau incwm ffermydd, maent yn gwneud da byw yn llai ac yn llai hyfyw" (Canolbarth Cymru, Gwryw, 45-54, Canolig, Defaid gydag eidion, 15.5 – 21k, incwm oddi ar y fferm)*.

*"Does fawr o ddewis gennych chi pan fyddwch yn ffermio ar dir glân. Bydd y gofynion yn golygu na fydd modd defnyddio tir cynhyrchiol. Mae gennym 200 o erwau gyda ffordd y cyngor o'i hamgylch. Nid oes gennym reolaeth dros berthi'r ffordd felly mae'n rhaid i ni roi tir amaethyddol glân da i mewn i gynllun bywyd gwyllt er mwyn cymhwyso. Os nad oes gennych slyri ac yn ffermio'n draddodiadol mae'n anodd iawn cael pwyntiau" (De-orllewin, Benyw, 55-64, Bach, Defaid, 31k – 52k, heb incwm oddi ar y fferm)*.

*"Mae swm enfawr yn cael ei wneud eisoes. Dylai fod yn wirfoddol ac mae'r pwyslais yn symud i ffwrdd o gynhyrchu bwyd. Mae llawer yn cael ei roi i fywyd gwyllt a natur yn barod" (De-orllewin, Benyw, 55-64, Canolig, Arall/cymysg).*

Roedd amrywiad bach mewn ymatebion rhwng lleoliadau astudio. Roedd ffermwyr yng nghanolbarth Cymru, er enghraifft yn pryderu mwy am symud i ffwrdd o bwyslais ar gynhyrchu ac y byddai'r cynigion a gynlluniwyd yn mynd yn rhy bell. Roedd ffermwyr yn y gogledd-orllewin yn fwy tebygol o angen mwy o wybodaeth am nad oeddent yn gwybod digon am y cynigion.

Roedd cyfres arall o bryderon yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng mesurau gwyrddio diwygio'r PAC a'r rhai sydd eisoes wedi ymgymryd â mesurau 'gwyrddio' ac yn ymwneud â Glastir neu gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill.

*"Mae llawer o bethau yn Tir Gofal roeddem yn eu gwneud eisoes, nid yw'r newidiadau sy'n cael eu gorfodi yn cael llawer o effaith am ein bod yn eithaf gwyrdd yn flaenorol" (Gogledd-orllewin, Gwryw, 55-64, Canolig, Defaid, heb incwm oddi ar y fferm).*

*"Rwy'n wyrdd yn barod ac ni allaf wneud rhagor felly mae'n annheg i mi" (Gogledd-orllewin, Gwryw, 45-54, Canolig, Defaid, 15.5k – 21k, heb incwm oddi ar y fferm).*

*"Rydw i'n rhan o gynllun cadwraeth beth bynnag. Yr hyn sy'n fy mhryderu i yw os byddant yn cyfeirio'r cyllid i ffwrdd o brosiectau ffermio i brosiectau trefol yna ni allaf fynd yn ôl*

*i lle roeddwn i ddeng mlynedd yn ôl dros nos. Byddwn yn sownd rhwng dwy stôl. Does dim gobaith i'r bobl mewn cadwraeth" (Gogledd-orllewin, Gwryw, 45-54, Bach, Defaid, 21k – 31k, incwm oddi ar y fferm)*.

*"Does dim llawer o dir y gallwn ei neilltuo nad ydym wedi'i neilltuo eisoes" (Gogledd-orllewin, Gwryw, 55-64, Bach, Defaid, 21k – 31k, heb incwm oddi ar y fferm).*

*"Ein pryder mwyaf yw nad ydym mor ddwys â hynny ac rydym yn weddol wyrdd fel y mae, maent yn ceisio gwneud rhywbeth yn wyrdd pan mae hynny'n wir eisoes" (Canolbarth Cymru, Gwryw, 55-64, Canolig, Eidion, 31k – 52k, incwm oddi ar y fferm).*

*"Mae'n rhy gymhleth ac nid yw'r ffermwyr hynny'n sydd wedi bod yn amgylcheddol gyfeillgar dros yr 20 mlynedd yn cael eu digolledu'n ddigonol" (De-orllewin, Gwryw, 65+, Bach iawn, Arall/cymysg, 10k-15.5k, incwm oddi ar y fferm).*

Roedd yna hefyd ymdeimlad bod rhai ffermwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i fabwysiadu mesurau gwyrddio fel y mae'r dyfyniad canlynol yn dangos

*"Nid wyf yn hoffi pobl yn dweud wrthyf beth allaf a beth na allaf ei ffensio i ffwrdd a pha dir y gallaf ei ddefnyddio" (De-orllewin, Benyw, 65+, Bach iawn, Arall/cymysg, heb incwm oddi ar y fferm).*

*"Mae'r mesurau presennol yn iawn, does dim angen mwy o ddiwygiadau arnom" (De-orllewin, Gwryw, 45-54, Bach, Arall/cymysg, 52k+, incwm oddi ar y fferm).*

*"Ni allaf weld sut y byddai unrhyw un yn elwa o gael tir wedi'i gymryd i ffwrdd ar gyfer y mesurau hyn" (Gogledd-orllewin, Gwryw 55-64, Bach, Defaid gydag eidion, 31k-52k, heb incwm oddi ar y fferm).*

Roedd yna hefyd bryderon nad oedd arian yn cael ei gyfeirio mewn ffordd effeithiol,

*"Nid yw'n cefnogi ffermio da. Bydd yn difetha'r amgylchedd yn hytrach na'i ddiogelu. Yr amgylchedd y maent yn ceisio ei ddiogelu yw un sydd wedi'i greu gan arferion ffermio da. Mae gormod o bwyslais ar fioamrywiaeth a dim digon ar fuddsoddiadau cyfalaf a diogelu amgylcheddau adeiledig megis waliau terfyn, adeiladau traddodiadol ac ati" (Gogledd-orllewin, Gwryw, 55-64, Bach, Defaid, 31k – 52k, incwm oddi ar y fferm).*

*"Rwy'n credu y dylai gwyrddio ffermydd fod yn orfodol ac y dylent roi'r gorau i gymryd taliadau gan bobl yn y bryniau dim oherwydd eu bod yn wyrdd. Rwy'n credu bod ffermwyr llaeth yn cael eu taro'n ormodol yn lle cael cymorth. Mae angen i ni fuddsoddi mewn storio slyri. Os gallen ni storio hynny am gyfnodau hwy a'i ddefnyddio ar yr adegau cywir o'r flwyddyn, byddai'n gwneud fy fferm yn wyrddach ac yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Os byddant yn cymryd y 20% hwnnw i ffwrdd yna byddai'n llawer anoddach buddsoddi yn hynny. Rwy'n credu bod rhaid cael gwared ar y cynigion. Dylent wneud i bobl neilltuo dyweder 1% o'u fferm ar ei gyfer, dylai fod yn orfodol" (Canolbarth Cymru), Gwryw, 35-44, Mawr iawn, Llaeth, incwm oddi ar y fferm)*.

*"Nid fydd unrhyw beth yn deillio o hyn i mi; mae hyn ar gyfer ffermydd mwy gyda digon o dir i sbario ac mae'n hepgor y ffermydd llai. Mae angen i daliadau gael eu gwneud gan swm y gwaith fesul llathen ac ansawdd y gwaith a wneir" (Canolbarth Cymru, Gwryw, 65+, Canolig, Defaid gydag eidion, heb incwm oddi ar y fferm)*.

*“Mae'r prif bryderon yn ymwneud â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i wneud, maent wedi cael gwared ar elfen ffermio'r bryniau. Rwy'n gobeithio y bydd y PAC yn gwneud i Lywodraeth Cymru ailedrych ar ffermio'r bryniau. Mae rhai fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn llwyddo i osgoi taliadau ariannol diwygio'r PAC lle mae'n rhaid i'r ffermwyr cyffredin brynu eu fferm eu hunain a phopeth ar ei chyfer*”. *(Canolbarth Cymru, Benyw, 55-64, Canolig, Defaid gydag eidion, <10k, heb incwm oddi ar y fferm)*.

*“Y tebygolrwydd yw bod y bobl â ffermydd bach wedi'u heithrio rhag cynlluniau amgylcheddol, ond nhw yw'r rhai sy'n fwy parod i ymgymryd â mesurau gwyrddio. Mae'n ei gwneud yn fwy anodd i ffermwyr ar raddfa fwy gynhyrchu. Dyma'r pryder yn enwedig yn ardaloedd yr ucheldir, lle mae'r hinsawdd yn cael dylanwad mawr ar y math o ffermio y gallwch ei wneud mewn gwirionedd”. (Canolbarth Cymru, Benyw, 45-54, Bach iawn, Defaid gydag eidion, 52k+, incwm oddi ar y fferm)*.

Roedd yna hefyd bryderon mwy cyffredinol am ddichonoldeb a chynnwys y mesurau

*“Fy mhryderon yw eu bod am i ni newid y tir mewn ffyrdd nad ydynt yn ymarferol. (e.e. aredig ffermydd mynydd). Does dim triniaeth deg o ran rheoliadau materion gwyrdd mewn dinasoedd a threfi. Y ffermwyr sy'n cael eu cosbi bob tro a gwneir yn ofynnol iddynt ddiogelu'r amgylched a'r cynefinoedd” (Gogledd-orllewin, Gwryw, 35-44, Mawr, Defaid, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm).*

*“A ydynt yn mynd i gario ymlaen gyda'r un peth neu a ydynt yn mynd i gael gwared ar ddeng mlynedd o waith? Maent wedi bod yn ceisio adfer y tir i'w gyflwr cyn y 1900au am y deng mlynedd diwethaf; a ydynt yn mynd i barhau â hynny neu newid popeth? Os nad yw'r taliadau amaeth-amgylchedd yn ddigon da rwy'n mynd i fynd yn ôl at wneud yr holl bethau yr oeddwn yn eu gwneud yn flaenorol, felly byddai'r deng mlynedd o bolisi hwnnw wedi bod yn wastraff” (Canolbarth Cymru, Gwryw, 35-44, Mawr, Defaid, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm)*.

*“Dyw hwn heb fod ym mhen draw'r ffwrn. Dwi ddim yn credu eu bod o reidrwydd yn edrych ar faterion byd-eang o safbwynt hirdymor. Mae'n eithaf syml ac nid yw'n ystyried amodau lleol” (De-orllewin, Benyw, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, incwm oddi ar y fferm)*.

*“Mae ein tyddyn o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol. Mae yma broblemau mawr o ran unrhyw gynlluniau ynni yr hoffem eu gweithredu boed hwy'n dyrbinau gwynt neu ynni dŵr neu solar, mae yna bob amser broblemau sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio” (De-orllewin, Gwryw, 65+, Bach iawn, Llaeth, heb incwm oddi ar y fferm)*.

### Cyngor a chymorth am ddiwygio'r PAC

Ar 59 y cant, nid oedd gan gyfran gymharol fawr o'r arolwg ddigon o wybodaeth am ddiwygio'r PAC. Gofynnwyd i'r ffermwyr awgrymu beth fyddai ei angen arnynt o ran cyngor a chymorth am ddiwygio'r PAC. Cyflwynir y canlyniadau yn Nhabl 5.43.

**Tabl 5.43 Y cyngor a'r cymorth sydd ei angen**

| Y math o gyngor a chymorth | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Dim / mae gennyf yr holl wybodaeth | 41 | 37 | 38 | **41** |
| Gwybodaeth sy'n fwy manwl a chywir | 29 | 37 | 34 | **31** |
| Mae angen i mi wybod popeth | 13 | 12 | 9 | **13** |
| Ffeithiau a ffigurau | 7 | 6 | 8 | **10** |
| Cyfarfodydd wyneb yn wyneb â ffermwyr i esbonio diwygio'r PAC | 6 | 4 | 4 | **5** |

Roedd y ffermwyr yn y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru yn fwy tebygol o angen cyngor a chymorth na'r de-orllewin. Roedd gwybodaeth sy'n fwy manwl a chywir yn gais mynych ymhlith yr holl ardaloedd astudio, yn enwedig yn y gogledd-orllewin.

Darparwyd gwybodaeth benodol am y gofynion am gymorth a chyngor gan leiafrif o ffermwyr. Roedd angen ar sawl ffermwr i gael penderfyniadau wedi'u gwneud ymhell ymlaen llaw, a ddangosir yn y dyfyniadau canlynol,

> *“Penderfyniad cyflym; peidiwch â'n gadael i aros. Pan fydd yn dod i mewn, i'w gadw fel y mae, nid ei newid yn rhy fuan, ond nid bod yn rhy anhyblyg yn gyfan gwbl. I ystyried bod Cymru yn wahanol iawn i weddill Ewrop; bod materion gwahanol yma ac mai ffermwyr Cymru yw prif geidwad treftadaeth, iaith a diwylliant Cymru” (Gogledd-orllewin, Gwryw, 65+, Bach, Defaid gydag eidion, 21k-31k, heb incwm oddi ar y fferm).*

> *“Gwybodaeth am y newid o daliadau hanesyddol i rai seiliedig ar ardal, mae angen newid fesul camau yn hytrach na gwneud y cyfan o fewn tair blynedd. Hoffwn wybod ymhell ymlaen llaw”. (Gogledd-orllewin, Gwryw, 55-64, Canolig, Defaid gydag eidion, 15.5k – 21k, incwm oddi ar y fferm).*

> *“Hoffwn wybod beth sydd o'n blaenau a'r ffeithiau a'r amserlen. Ni allwn wneud penderfyniadau hyddysg hyd nes ein bod yn gwybod”. (Canolbarth Cymru, Benyw, 65+, Canolig, Eidion, heb incwm oddi ar y fferm).*

Gofynnodd rhai ffermwyr am wybodaeth gymaradwy rhwng mathau o ffermydd a gwledydd eraill yn Ewrop,

> *“Hoffwn wybod beth sy'n digwydd yng ngweddill Ewrop i sicrhau ein bod i gyd yn cael triniaeth gyfartal” (Gogledd-orllewin, Gwryw, 55-64, Bach, Defaid, 15.5k - 21k, incwm oddi ar y fferm).*

> *“Hoffwn wybod beth yw'r cynigion a sut y maent yn mynd i effeithio ar feysydd gwahanol o ffermio. Dylai Llywodraeth Cymru ddweud wrthym am hyn” (De-orllewin, Benyw, 35-44, Canolig, Llaeth, 15.5k – 21k, heb incwm oddi ar y fferm).*

Roedd ffermwyr eraill yn galw am fanylion mwy penodol o ran yr hyn oedd i'w gynnwys yn y PAC a nodwyd yr ansicrwydd ynghylch yr hyn y byddai'n ei gynnwys

> *“Mwy o wybodaeth am faterion gwyrdd. Dim ond cadarnhad o ran a yw bendant yn symud o daliadau hanesyddol i rai sy'n seiliedig ar ardal”. (Canolbarth Cymru, Gwryw,*

*35-44, Bach, Defaid gydag eidion, heb incwm oddi ar y fferm).*

*“Mae popeth yn ansicr. Dim ond pa mor hir y bydd y gyfundrefn yn para ac a oes rhagor o newidiadau o ran yr arian rydym yn ei gael”. (De-orllewin, Gwryw, 55-64, Mawr, Arall/cymysg, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm).*

*“Hoffwn glywed penderfyniadau pendant am yr hyn a fydd yn ofynnol a sut y mae'r cyfan yn mynd i gael ei roi at ei gilydd - sut fath o gyfradd fesul hectar fydd hyn, pryd y caiff ei gyflwyno'n raddol, ac ati. Nid oes gennyf broblem gyda'r cynigion yn gyffredinol; Hoffwn wybod mwy o fanylion am sut y byddant yn effeithio ar fy math penodol o ffermio” (De-orllewin, Gwryw, 35-44, Bach, Eidion, 52k+, incwm oddi ar y fferm).*

Gofynnodd sawl fferm am fwy o eglurder o ran yr hyn a oedd yn cael ei gynnig,

“Hoffwn i'r wybodaeth fod yn fwy cywir. Dwi ddim yn deall popeth. *Rwy'n prysur agosáu at oed ymddeol a bydd fy mab yn cymryd yr awenau. Ond does dim digon o bwyslais i ffermwyr ifanc gymryd yr awenau. Pa bynnag gynlluniau a gyflwynir ganddynt, i gael y cyhoedd i weld y tir, mae ffermwyr wedi gwneud hynny heb unrhyw rai o'r cynlluniau newydd hyn” (De-orllewin, Gwryw, 55-64, Canolig, Defaid, 25-34, incwm oddi ar y fferm).*

*“Sut y byddant yn cyfrifo'r taliadau ar gyfer y taliadau uniongyrchol, a sut y bydd incwm nad yw'n amaethyddol yn effeithio ar hynny. Hefyd wedi'i gyflwyno mewn ffordd glir a syml” (De-orllewin, Benyw, 55-64, Bach iawn, Eidion, incwm oddi ar y fferm).*

*“Deunydd cyhoeddedig mwy amlwg - megis post uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn benodol am ddiwygio'r PAC; does dim diben gosod erthygl yn eu cylchgrawn oherwydd ni fyddwn yn ei darllen (De-orllewin, Gwryw, 55-64, Bach Iawn, Arall/cymysg, incwm oddi ar y fferm).*

*“Rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am yr hyn yr hoffai DEFRA i ni ei wneud. Nid ydym yn yr haenau uwch am ein bod yn rhy fach ond hoffem wneud y pethau yr hoffent i ni eu gwneud o hyd - rwy'n credu bod llawer o bobl â thyddynnod bach yn fwy ecogyfeillgar na phobl â ffermydd mawr, ond nid ydym yn cael y wybodaeth”. (Canolbarth Cymru), Benyw, 55-64, Bach iawn, Arall/cymysg, 31k-52k, incwm oddi ar y fferm).*

Yn ogystal, roedd y ffermwyr canlynol yn teimlo nad oedd cyfrif o'u barn o ran y penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud,

*“Mwy o gonsensws a bod yn agored na'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn y Cynulliad. Dylai gwneud penderfyniadau gynnwys ffermwyr gweithredol eu hunain” (De-orllewin, Gwryw, 55-64, Bach, Eidion, 15.5k-21k, incwm oddi ar y fferm).*

*"Hoffwn iddo fod yn llawer cliriach. Mae'n rhywbeth i'w drafod ac mae'n ymddangos bod y pyst gôl yn symud. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn llawer cliriach am eu hamcanion i Gymru. Mae angen gwrando mwy ar ymgynghoriadau â chynrychiolwyr ffermio. Does dim eglurder” (De-orllewin, Gwryw 55-64, Mawr, Llaeth, 15.5k – 21k, incwm oddi ar y fferm).*

Mae Tabl 5.44 yn dangos ymwybyddiaeth ffermwyr o flwyddyn gyfeirio 2014-15 ym mhob un o'r ardaloedd astudio o gymharu â'r gyfran o ymwybyddiaeth gyffredinol o'r prif arolwg o ffermydd yng Nghymru.

**Tabl 5.44 Ymwybyddiaeth o Flwyddyn Gyfeirio 2014-15**

| Ymateb | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Ymwybodol | 24 | 26 | 22 | **23** |
| Ddim yn ymwybodol ohoni | 75 | 73 | 77 | **76** |
| Gwrthodwyd | 1 | 1 | 1 | **1** |

Roedd yr ymwybyddiaeth o flwyddyn gyfeirio 2014-15 fwyaf yn y gogledd-orllewin (26 y cant yn ymwybodol ohoni), ond ym mhob ardal astudio roedd mwy na saith o bob deg fferm nad oeddent yn ymwybodol ohoni. Gofynnwyd i'r lleiafrif o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o flwyddyn gyfeirio 2014-15 am eu cynlluniau ac fel y mae Tabl 5.45 yn dangos, hyd yn oed os oedd ffermydd yn ymwybodol roeddent yn annhebygol o fod wedi paratoi unrhyw gynlluniau neu byddent yn parhau â busnes fel arfer.

**Tabl 5.45  Cynlluniau ar gyfer Blwyddyn Gyfeirio 2014-15**

| **Cynlluniau** | De-orllewin (116) | Gogledd-orllewin (95) | Canolbarth Cymru (98) | **Prif Arolwg (547)** |
|---|---|---|---|---|
| Dim/dim cynlluniau | 76% | 86% | 83% | **76%** |
| Ddim yn gwybod/dim digon o wybodaeth i ddweud eto/aros i weld | 5% | 3% | 5% | **7%** |
| Busnes fel arfer/aros yr un peth/gwneud yr un peth â'r llynedd | 10% | 3% | 6% | **5%** |
| Cynyddu faint o dir a ddefnyddir | 2% | 4% | 3% | **3%** |
| Cadw mwy o anifeiliaid/cynyddu da byw | 0% | 1% | 0% | **2%** |
| Hawlio cymaint o swm cyfeirio â phosibl/sicrhau bod tir â hawliadau | 3% | 1% | 1% | **2%** |
| Sicrhau cymaint o gynnyrch â phosibl/defnyddio cymaint o dir pori parhaol â phosibl | 3% | 0% | 1% | **1%** |
| Lleihau'r tir pori parhaol / aredig y tir pori parhaol | 0% | 0% | 0% | **1%** |
| Lleihau stoc/lleihau costau/bod mor effeithlon â phosibl | 0% | 1% | 0% | **1%** |
| Ymddeol | 0% | 1% | 0% | **<1%** |
| Arall | 1% | 3% | 1% | **3%** |

### Proffil incwm ffermydd

Mae'r is-adran ganlynol yn canolbwyntio ar incwm, pwnc sensitif yn y rhan fwyaf o arolygon. Rhoddwyd sicrwydd i'r cyfweleion na fyddai'r holl ddata yn cael ei briodoli i ffermydd unigol ac y byddai'n cael ei drin yn gyfrinachol a thrwy'r sicrwydd hwn cafwyd ymateb da i'r holl gwestiynau. Mae'r is-adran hon yn rhoi syniad o incwm a throsiant busnes y ffermydd a arolygwyd a hefyd gyfanswm incwm yr aelwyd ffermio. Gofynnwyd i'r ffermwyr hefyd nodi manylion ffynhonnell eu hincwm.

### Trosiant

Gofynnwyd i'r ffermwyr nodi trosiant blynyddol eu busnes ar gyfer y flwyddyn dreth 2010-2011. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 5.46.

**Tabl 5.46 Trosiant Blynyddol y busnes fferm**

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Llai na 25,000 | 30 | 28 | 21 | **34** |
| £25,000 - £67,999.99 | 16 | 25 | 25 | **20** |
| £68,000 - £99,999.99 | 8 | 9 | 12 | **10** |
| £100,000 - £149,999.99 | 9 | 10 | 11 | **9** |
| £150,000 - £199,999.99 | 4 | 5 | 4 | **3** |
| £200,000 - £249,999.99 | 3 | 2 | 4 | **2** |
| £250,000 - £499,999.99 | 5 | 3 | 5 | **3** |
| £500,000 neu fwy | 5 | 0 | 2 | **2** |
| Ddim yn gwybod | 13 | 12 | 10 | **10** |
| Gwrthodwyd | 7 | 7 | 7 | **7** |

Mae nifer o ganfyddiadau'n deillio o'r tabl hwn, yn fwyaf blaenllaw roedd y rhan fwyaf o'r ffermydd yn yr ystod isaf o ran trosiant; yn ogystal roedd cyfran isel o ffermydd â throsiant o £500,000 o leiaf. Roedd cyfran uwch o ffermydd yn y de-orllewin yn y categori trosiant mwyaf hwn. Fodd bynnag, roedd hyn dim ond yn cyfateb i bump y cant o ffermydd y de-orllewin. Roedd y de-orllewin hefyd yn cynnwys y gyfran uchaf o ffermydd gydag incwm o lai na £25,000 sy'n awgrymu bod yr ardal astudio hon yn cynnwys y ddwy ystod eithafol o ran trosiant. I'r gwrthwyneb y gogledd-orllewin oedd fwyaf tebygol o fod ag ystod incwm a oedd yn is na £68,000 ac roedd canolbarth Cymru yn cynnwys cyfran uwch o ffermydd â throsiant uwch yn yr ystod rhwng £100,000 a £149,999.99. Er syndod, nid oedd dros un o bob deg o ffermwyr yn gwybod eu trosiant am y flwyddyn fusnes 2010-2011, a allai fod yn gysylltiedig ag ymwybyddiaeth o fusnes neu'n brocsi ar gyfer 'gwrthod ateb'.

Gofynnwyd i'r ffermwyr beidio â chynnwys cymorthdaliadau a gweithgareddau arallgyfeirio yn eu trosiant a gofynnwyd a oedd y busnes wedyn wedi gwneud elw, colled neu adennill costau. Dangosir yr ymatebion yn Nhabl 5.47.

**Tabl 5.47 Elw a Cholled Flynyddol (ac eithrio cymorthdaliadau a gweithgarwch arallgyfeirio)**

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** | | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ELW** | 49% | 46% | 52% | **46%** | £50,000 neu fwy | 8% | 6% | 5% | **5%** |
| | | | | | £25,000 - £49,999.99 | 11% | 9% | 10% | **10%** |
| | | | | | £10,000 - £24,999.99 | 27% | 26% | 31% | **24%** |
| | | | | | Sero - £9,999.99 | 49% | 51% | 47% | **52%** |
| | | | | | Ddim yn gwybod/Gwrthod ateb | 5% | 8% | 7% | **9%** |
| **. MANTOLI** | 21% | 17% | 18% | **20%** | | | | | |
| **COLLED** | 25% | 30% | 26% | **29%** | Minws £9,999.99 i sero | 70% | 57% | 52% | **68%** |
| | | | | | Minws £24,999.99 i finws £10,000 | 14% | 20% | 22% | **14%** |
| | | | | | Minws £25,000 neu fwy o golled | 11% | 15% | 14% | **10%** |
| | | | | | Ddim yn gwybod/Gwrthod ateb | 5% | 8% | 12% | **8%** |
| **Ddim yn Gwybod** | 5% | 7% | 4% | **5%** | | | | | |

Mae rhaniad chwith y tabl yn dangos cyfran y ffermydd sy'n gwneud elw, colled neu'n adennill costau. Mae cyfran dde'r tabl yn dangos swm yr elw neu'r golled.

Y pwyntiau allweddol i'r cymryd o Dabl 5.47 yw bod, ar y cyfan, y rhan fwyaf o ffermydd wedi gwneud elw blynyddol (yr uchaf yng nghanolbarth Cymru ar 52 y cant) ond gwnaeth dros un o bob pedair fferm golled (y golled fwyaf yn y gogledd-orllewin). Y ffermydd a wnaeth elw oedd fwyaf tebygol o wneud elw o lai na £10,000 y flwyddyn ac roedd y ffermydd a wnaeth golled yn fwyaf tebygol o wneud colled o lai na £10,000. Felly roedd mwyafrif yr elw a'r golled o fewn £10,000 i adennill costau dros y flwyddyn ariannol.

Roedd ffermwyr yn y de-orllewin yn fwy tebygol o wneud elw dros £25,000 y flwyddyn, ac roedd y ffermwyr a wnaeth yr elw lleiaf (o dan £10,000) o'r gogledd-orllewin. Ffermwyr o ganolbarth Cymru oedd fwyaf tebygol o wneud elw canolig. O ran ffermydd a wnaeth golled, dangosodd y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru duedd llawer uwch o wneud colled o dros £10,000 nag yn y de-orllewin lle roedd 70 y cant o'r ffermydd a wnaeth golled o dan y swm hwn.

**Incwm blynyddol yr aelwyd ffermio deuluol**

Gofynnwyd i'r ffermwyr ystyried incwm o bob ffynhonnell, nid dim ond y fferm, sy'n dod i'r aelwyd cyn didynnu unrhyw dreth. Ymddengys nad oes unrhyw batrwm clir i Dabl 5.48. Mae'r gogledd-orllewin, canolbarth Cymru a'r de-orllewin i gyd yn cynnwys cyfrannau tebyg o ffermydd sydd o dan £21,000 a'r rhai sy'n uwch na hynny.

**Tabl 5.48 Cyfanswm incwm gros yr aelwyd**

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Llai na 10,000 | 11 | 12 | 12 | **13** |
| £10,000-£15,499.99 | 14 | 9 | 11 | **12** |
| £15,500 - 20,999.99 | 12 | 16 | 14 | **13** |
| £21,000 - 30,999.99 | 16 | 17 | 15 | **16** |
| £31,000 - 51,999.99 | 14 | 13 | 14 | **15** |
| £52,000 - 77.999.99 | 7 | 6 | 9 | **7** |
| £78,000 neu fwy | 7 | 8 | 6 | **6** |
| Ddim yn gwybod | 11 | 12 | 10 | **9** |
| Gwrthodwyd | 8 | 8 | 9 | **8** |

Ystyrir y ffynonellau o incwm fferm yn yr is-adran ganlynol.

**Ffynonellau Incwm**

Cafodd mwyafrif y ffermydd incwm o gynhyrchu amaethyddol a'r taliad sengl - y ffynonellau hyn a ddyfynnwyd amlaf gan ffermwyr o ganolbarth Cymru. Roedd incwm o gynlluniau amaeth-amgylcheddol a chyllid ardaloedd llai ffafriol (ALFf) fwyaf poblogaidd yn y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru; yn y de-orllewin cafodd dwy o bob fferm y math hwn o daliad. Roedd 'swyddi oddi ar y fferm' aelodau aelwydydd hefyd yn ffynonellau incwm o 43 y cant o ffermydd yn y gogledd-orllewin, 40 y cant o ffermydd yng nghanolbarth Cymru a 37 y cant o ffermydd yn y de. Ffynonellau incwm eraill megis arallgyfeirio ac incwm rhent oedd y ffynonellau incwm lleiaf poblogaidd. Yn olaf sylwer nad oedd pob fferm yn cael incwm o gynhyrchu amaethyddol.

**Tabl 5.49 Ffynonellau o incwm**

| | Cyfran y ffermydd â ffynhonnell incwm | | | |
|---|---|---|---|---|
| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
| | % | % | % | **%** |
| Cynhyrchu amaethyddol | 89 | 93 | 96 | **90** |
| Y taliad sengl | 87 | 91 | 95 | **85** |
| Cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ALFf | 40 | 56 | 57 | **44** |
| Arallgyfeirio | 23 | 25 | 22 | **24** |
| Incwm rhent | 20 | 13 | 22 | **21** |
| Swyddi 'oddi ar y fferm' aelodau eraill yr aelwyd | 37 | 43 | 40 | **39** |

**Tabl 5.50 Cyfran yr incwm o'r ffynhonnell**

| | Cyfran gyfartalog yr incwm o'r ffynhonnell incwm | | | |
|---|---|---|---|---|
| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
| | % | % | % | **%** |
| Cynhyrchu amaethyddol | 50 | 37 | 44 | **43** |
| Y taliad sengl | 21 | 31 | 30 | **24** |
| Cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ALFf | 4 | 7 | 7 | **5** |
| Arallgyfeirio | 7 | 7 | 5 | **6** |
| Incwm rhent | 4 | 2 | 3 | **4** |
| Swyddi 'oddi ar y fferm' aelodau eraill yr aelwyd | 14 | 16 | 12 | **17** |

Mae Tabl 5.50 yn dangos, ar gyfartaledd, gyfran yr incwm a gafwyd o bob un o'r ffynonellau. Yma gellir gweld yn y rhan fwyaf o achosion roedd mwyafrif yr incwm o gynhyrchu amaethyddol, y taliad sengl a swyddi 'oddi ar y fferm' aelodau eraill yr aelwyd. O gymharu â'r prif arolwg o ffermydd yng Nghymru, roedd cynhyrchu amaethyddol yn cyfrif am gyfran fwy sylweddol o gyfanswm yr incwm i ffermydd o'r de-orllewin, ac roedd ffermydd o'r gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru yn dueddol o gael cyfran fwy o incwm o'r taliad sengl. Y gogledd-orllewin oedd â'r gyfran uchaf o ffermydd a gafodd incwm nad oedd o'r fferm oddi wrth aelodau eraill yr aelwyd. O ystyried y cyfrannau uwch o dir Ardal dan Anfantais Fawr ac Ardal dan Anfantais yng ngogledd-orllewin a chanolbarth Cymru, roedd i'w ddisgwyl bod ‘Cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ALFf’ yn fwy amlwg o lawer fel ffynonellau o incwm yn yr ardaloedd hyn a bod ‘Cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ALFf’ yn llai amlwg yn y de-orllewin.

Yn olaf, gofynnwyd i'r ffermwyr awgrymu pa rai o'r ffynonellau o incwm sydd bwysicaf i ddyfodol eu haelwyd yn eu barn hwy. Mae Tabl 5.51 yn nodi'r gyfran o ffermydd a oedd yn blaenoriaethu pob ffynhonnell incwm.

**Tabl 5.51 Y ffynhonnell bwysicaf ar gyfer y dyfodol**


| | Cyfran yr aelwydydd lle ceir canfyddiad bod y ffynhonnell incwm yn bwysig ar gyfer y dyfodol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
| | % | % | % | **%** |
| Cynhyrchu amaethyddol | 53 | 36 | 47 | **42** |
| Y taliad sengl | 16 | 33 | 28 | **24** |
| Cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ALFf | 1 | 2 | 1 | **1** |
| Arallgyfeirio | 9 | 7 | 6 | **8** |
| Incwm rhent | 5 | 1 | 3 | **4** |
| Swyddi 'oddi ar y fferm' aelodau eraill yr aelwyd | 11 | 12 | 9 | **15** |
| Ddim yn gwybod/gwrthodwyd | 5 | 9 | 7 | **6** |

Mae Tabl 5.51 yn dangos dosbarthiad tebyg o ymatebion i'r tabl blaenorol Tabl 5.50 uchod. Ceir gwahaniaethau bach rhwng yr ardaloedd astudio. Ar y cyfan, ymddengys fod pwysigrwydd cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ALFf yn llai pwysig yn y dyfodol na'r hyn a awgrymir gan y tueddiadau incwm, a bod arallgyfeirio yn bwysicach fel ffynhonnell o incwm. Ac ymddengys fod ffermwyr yn y gogledd-orllewin yn rhoi llai o bwys na'r ardaloedd eraill ar gynhyrchu amaethyddol a mwy o bwys ar ffynonellau eraill o incwm megis y taliad sengl ac incwm oddi ar y fferm. Mae'r is-adran ganlynol yn archwilio canfyddiadau ffermwyr o ran y dyfodol i'w haelwydydd fferm.


**Cynlluniau ar gyfer rheoli'r tir yn y dyfodol**

Gofynnwyd tri chwestiwn i'r cyfweleion am eu cynlluniau ar gyfer rheoli eu tir yn y dyfodol. Roedd y cwestiwn cyntaf yn ymwneud â phwysigrwydd cynhyrchu bwyd, yr ail gwestiwn am fesurau amaeth-amgylcheddol ac ecolegol a gofynnodd y trydydd am gyfleoedd i ddefnyddio'r tir ar gyfer gweithgarwch arall. Dangosir ymatebion y ffermwyr i'r cwestiynau hyn ar ffurf diagramau yn Ffigurau 5.6, 5.7 a 5.8.


**Ffigur 5.6 Pwysigrwydd cynhyrchu bwyd mewn cynlluniau ar gyfer rheoli'r tir yn y dyfodol**




**Ffigur 5.7 Pwysigrwydd cadwraeth, mesurau amaeth-amgylchedd ac ecolegol mewn cynlluniau ar gyfer rheoli'r tir yn y dyfodol**



**Ffigur 5.8 Pwysigrwydd cyfleoedd i ddefnyddio'r tir ar gyfer gweithgarwch arall mewn cynlluniau ar gyfer rheoli'r tir yn y dyfodol**




Mae Ffigurau 5.6 i 5.8 yn nodi bod y defnydd o dir ar gyfer cynhyrchu bwyd yn dueddol o gael ei weld fel peth pwysig iawn neu weddol bwysig ar draws pob un o'r ardaloedd. Ar y llaw arall, roedd mesurau cadwraeth ac amgylcheddol wedi'u rhannu rhwng y rhai a oedd o'r farn eu bod yn bwysig iawn a'r rhai a oedd o'r farn eu bod yn weddol bwysig. Roedd defnyddio'r tir at ddibenion eraill yn dueddol o gael ei raddio fel gweddol ddibwys neu ddibwys iawn mewn cynlluniau ar gyfer dyfodol y ffermydd.

Roedd amrywiadau bach rhwng yr ardaloedd astudio. Er enghraifft, roedd ffermwyr yn y de-orllewin yn fwy tebygol o fod o'r farn bod cadwraeth, mesurau amaeth-amgylchedd ac ecolegol yn bwysig iawn o gymharu ag ardaloedd astudio eraill. Ac roedd ffermwyr yn y gogledd-orllewin yn fwy tebygol o fod o'r farn bod cyfleoedd i ddefnyddio tir ar gyfer gweithgarwch arall yn eithaf pwysig ac yn lleiaf tebygol o fod o'r farn ei fod yn ddibwys iawn.

**Ffermio ymhen pum mlynedd a deng mlynedd**

Gofynnwyd i ffermwyr ddisgrifio sut roeddent yn gweld eu fferm yn datblygu ymhen pum mlynedd a deng mlynedd. Cafodd y cwestiwn ei adael yn benagored a chafodd yr ymatebion gair-am-air eu codio i chwilio am themâu yn y data. Mae Tabl 5.52 yn dangos y cynllun cod o ganlyniad i hyn a chyfran y ffermydd o fewn pob un o'r categorïau wedi'u codio. Sylwer bod rhai ffermydd wedi rhoi ymatebion mewn mwy nag un categori.

**Tabl 5.52 Gweledigaeth ffermio'r ffermwyr**

| | Ymhen 5 mlynedd | | | | Ymhen 10 mlynedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | De-orllewi | Gogledd- | Canolbarth | **Prif Arolw** | De-orllewin | Gogledd- | Canolbarth | **Prif Arolwg** |
| | % | % | % | **%** | % | % | % | **%** |
| Aros fel y mae/dim newid/aros yn broffidiol fel yr rydym ar hyn o bryd | 44 | 46 | 46 | **47** | 23 | 24 | 23 | **25** |
| Wedi ymddeol/gwerthu/allan o ffermio | 6 | 4 | 6 | **5** | 12 | 10 | 12 | **13** |
| Olyniaeth raddol/ymddeol yn rhannol/y plant yn gwneud mwy | 6 | 5 | 7 | **5** | 13 | 8 | 13 | **10** |
| Gwneud elw/bod yn economaidd hyfyw/gwella cyllid | 6 | 9 | 9 | **7** | 5 | 5 | 5 | **5** |
| Ehangu/cymryd mwy o dir/mwy o adeiladau/cynyddu nifer y da byw | 11 | 10 | 13 | **11** | 11 | 8 | 11 | **8** |
| Lleihau/gwerthu tir/llai o dda byw | 2 | 2 | 1 | **3** | 2 | 1 | 2 | **2** |
| Gosod tir/ei rentu allan/prydlesu adeiladau | 3 | 1 | 1 | **2** | 1 | 1 | 1 | **2** |
| Arallgyfeirio gweithgarwch i ennill incwm (hamdden/twristiaeth) | 2 | 2 | 2 | **2** | 1 | 1 | 1 | **2** |
| Adfywio tir/gwella tir/gwella'r fferm | 3 | 2 | 3 | **3** | 1 | 1 | 1 | **1** |
| Newid yn y ffermio presennol (dim mwy o odro/llai o laeth a mwy o lysiau) | 4 | 3 | 3 | **3** | 2 | 1 | 2 | **2** |
| Mwy cynaliadwy/hunangynhaliol/lleol | 0 | 2 | 1 | **1** | 1 | 1 | 1 | **1** |
| Cadwraethol/amgylcheddol/yn fwy gwyrdd (defnyddio ynni amgen) | 3 | 1 | 2 | **2** | 2 | 2 | 2 | **1** |
| Cynhyrchu bwyd | 1 | 0 | 0 | **1** | 1 | 0 | 1% | **1** |
| Rhan o fferm fwy/Ffermio ar y cyd | 0 | 0 | 1 | **<1** | 1 | 0 | 1 | **1** |
| Wedi dod i ben/wedi mynd i'r wal/yn cael anhawster/wedi dod i ben oherwydd biwrocratiaeth/methdalu | 1 | 1 | 1 | **1** | 1 | 1 | 1 | **1** |
| Cynyddu cynhyrchiad/mwy effeithlon/ gwella | 5 | 8 | 6 | **5** | 5 | 5 | 5 | **3** |
| Gweithio ar y fferm yn amser llawn / rhoi'r gorau i gyflogaeth arall | 0 | 0 | 0 | **<1** | 0 | 1 | 0 | **<1** |
| Mae'n dibynnu ar ddiwygio'r PAC | 0% | 1 | 0 | **<1** | 0 | 0 | 0 | **<1** |
| Arall | 2 | 1 | 1 | **1** | 1% | 1 | 1 | **<1** |
| Ddim yn gwybod | 17 | 18 | 16 | **16** | 35 | 41 | 35 | **35** |
| Gwrthodwyd | 0 | 1 | 0 | **<1** | 0 | 1 | 0 | **1** |

Gellir gwneud sawl pwynt o Dabl 5.52. Yn gyntaf, ymateb cyffredin gan ffermwyr oedd rhagweld dim newid ac felly byddent yn aros fel y maent ar adeg yr arolwg: awgrymwyd hyn gan 46 y cant yng nghanolbarth Cymru a'r gogledd-orllewin, a 44 y cant yn y de-orllewin.

Fodd bynnag, ar gyfer pob un o'r ardaloedd astudio, roedd cyfran y ffermydd a wnaeth yr awgrym hwn bron â haneru wrth ragweld y fferm ymhen deng mlynedd. Yn ogystal, cafodd y gostyngiad hwn ei wrthbwyso gan gyfran y ffermwyr nad oedd yn gwybod beth oedd eu gweledigaeth ar gyfer y fferm yn y dyfodol. Roedd hyn yn amrywio rhwng 16 y cant ac 18 y cant yn yr ardaloedd astudio wrth ystyried y fferm ymhen pum mlynedd a bron â dyblu i rhwng 35 y cant a 41 y cant wrth ragweld y fferm ymhen deng mlynedd. Yn yr un modd â'r prif arolwg, mae'n debygol bod y canlyniadau hyn yn gysylltiedig â'r boblogaeth ffermio sy'n heneiddio. Mae'r canlyniadau o Dabl 5.52 yn nodi bod ffermwyr yn gweld y byddai eu busnes yn gallu parhau yn ôl yr arfer ac roeddent yn annhebygol o ragweld y fferm gydag unrhyw ddiben arall. Roedd yn ymddangos hefyd y byddai cyfran fawr o ffermwyr yn gadael ffermio ymhen deng mlynedd. Yn olaf, gofynnwyd i'r ffermwyr beth yn ddamcaniaethol fyddai'n cynorthwyo neu'n amharu ar eu gweledigaeth ar gyfer y fferm. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 5.53 a 5.54 isod.

**Tabl 5.53 Cymorth i ddyfodol ffermio**

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Byw'n hirach/iechyd da | 6 | 2 | 4 | **5** |
| I bethau aros yr un peth/dim newidiadau | 5 | 4 | 4 | **5** |
| Costau cyflenwi is | 4 | 3 | 6 | **4** |
| Dim newid a/neu fwy o grantiau/cymorthdaliadau/taliadau fferm | 10 | 15 | 23 | **15** |
| Prisiau'r farchnad/economi sy'n well a/neu yn sefydlog | 30 | 21 | 29 | **23** |
| Llai/dim mwy o fiwrocratiaeth/tâp coch/gwaith papur/rheoliadau | 5 | 5 | 9 | **7** |
| Argaeledd tir (nid cynllunio) | 2 | 2 | 3 | **3** |
| Eglurder ar ddiwygio'r PAC/diwygio'r PAC i'w gwblhau | 2 | 3 | 3 | **2** |
| Paratoi cynllun olyniaeth/y teulu'n cymryd mwy o ran | 4 | 2 | 4 | **3** |
| Mwy o gefnogaeth/cyngor/cymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru/Cynghorau/Llywodraeth y DU | 4 | 3 | 6 | **5** |
| Dim codi trethi/treth etifeddiant/treth ar enillion cyfalaf | 1 | <1 | <1 | **1** |
| Dileu TB/clefydau | 2 | 0 | <1 | **<1** |
| Arall | 4 | 5 | 9 | **5** |
| Ddim yn gwybod | 18 | 13 | 21 | **18** |
| Gwrthodwyd | 2 | 1 | 1 | **2** |
| Heb ofyn iddynt | 15 | 14 | 17 | **14** |

Un maes cyffredin lle gofynnwyd am gymorth oedd ar gyfer gwella prisiau'r farchnad a'r economi. Ategwyd y pryderon hyn gan awgrymiadau a oedd yn ymwneud â thaliadau cyfwerth neu well. Unwaith eto, roedd cyfran fawr yn ansicr ynghylch yr hyn a fyddai'n cynorthwyo eu gweledigaeth ar gyfer eu fferm. Er enghraifft, nid oedd 17 y cant o ffermwyr yn gwybod yr hyn fyddai'n eu cynorthwyo i wireddu eu gweledigaeth yng nghanolbarth Cymru. Nodir syniadau ychwanegol am gymorth yn y tabl.

**Tabl 5.54 Rhwystrau i ddyfodol ffermio**

| | De-orllewin | Gogledd-orllewin | Canolbarth Cymru | **Prif Arolwg** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Dim/dim ar hyn o bryd | 4 | 3 | 5 | **3** |
| Fy oedran/iechyd | 10 | 5 | 12 | **11** |
| Costau cyflenwi uchel | 8 | 5 | 4 | **7** |
| Gostyngiad yn nhaliadau'r PAC/colli taliadau'r PAC/diwygiadau negyddol i'r PAC/colli cymorthdaliadau/dim cyllid | 9 | 15 | 19 | **11** |
| Biwrocratiaeth/tâp coch/gwaith papur/rheoliadau (gan gynnwys cynllunio/cynigion materion gwyrdd) | 11 | 7 | 12 | **10** |
| Lledaenu clefydau/TB | 3 | 1 | 3 | **2** |
| Gostyngiad mewn prisiau tir/prisiau tir rhatach | 1 | 0 | 1 | **1** |
| Argaeledd tir (gan gynnwys prisiau uchel oherwydd y galw) | 3 | 1 | 4 | **2** |
| Dim cynlluniau olyniaeth/neb i gymryd yr awenau/plant yn newid eu meddyliau ynghylch cymryd yr awenau | 2 | 1 | 3 | **2** |
| Diffyg cefnogaeth/cyngor/cymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru/Cynghorau/Llywodraeth y DU | 3 | 1 | 6 | **2** |
| Diffyg eglurder ar ddiwygio'r PAC | 1 | 1 | 2 | **1** |
| Gostyngiad ym mhrisiau'r farchnad/gostyngiad mewn prisiau/y sefyllfa economaidd gyffredinol (cost gynyddol byw/yr Ewro/cwymp marchnadoedd/argaeledd arian | 26 | 21 | 32 | **26** |
| Codi trethi/treth etifeddiant/treth ar enillion cyfalaf | 1 | 0 | 1 | **1** |
| Ddim yn gwybod | 17 | 17 | 17 | **16** |
| Gwrthodwyd | 2 | 0 | 1 | **1** |
| Heb ofyn iddynt | 15 | 14 | 17 | **14** |

Daeth nifer o themâu penodol i'r amlwg a fyddai'n rhwystro ffermwyr rhag gwireddu eu gweledigaeth ar gyfer eu fferm. Unwaith eto awgrymwyd prisiau'r farchnad a'r economi gan y rhan fwyaf o ffermwyr sy'n awgrymu y gallai'r materion ehangach hyn gynorthwyo ffermwyr ond eu rhwystro hefyd. Ymhlith y rhwystrau canfyddedig eraill roedd gostyngiad mewn taliadau fferm, biwrocratiaeth/tâp coch ac oed ac iechyd

ffermwyr.  Nodir rhwystrau ychwanegol yn y tabl.

**Crynodeb**

Y rhesymeg sy'n sail i agwedd gor-samplu'r arolwg oedd ymchwilio ymhellach i'r damcaniaethau, yn deillio o ddadansoddiad incwm Llywodraeth Cymru, y byddai diwygio'r PAC yn dueddol o gael (i) effaith negyddol ar ffermydd llaeth a (ii) effaith gadarnhaol ar ffermydd mynydd. O ddadansoddiad o ddata'r prif arolwg, dewiswyd y tair ardal ddaearyddol ar gyfer gor-samplu.

Er bod y dosbarthiad o fathau o ffermydd a welwyd yn yr arolwg ar draws y tair ardal yn adlewyrchu cymhlethdod a chymysgedd cyffredinol y mathau o ffermydd ledled Cymru (gweler Tablau 5.3 a 5.4), roedd y data’n fras yn cadarnhau amlygrwydd disgwyliedig y mathau o fferm ym mhob ardal. Hynny yw, roedd y de-orllewin yn tueddu i fod yn ffermydd llaeth; roedd gan y gogledd-orllewin fwy o ddefaid a defaid ac eidion; a ffermio cymysg yng nghanolbarth Cymru. Yn ogystal, mae Tabl 5.26 yn nodi bod y de-orllewin wedi gwerthu llawer mwy o gynnyrch i broseswyr llaeth o gymharu â'r ddwy ardal arall. Felly, dilyswyd y dewis o ardaloedd.

Fodd bynnag, roedd hefyd yn wir bod canlyniadau yn y tair ardal ddaearyddol arwahanol yn dueddol o fod yn debyg i'w gilydd, gyda dim ond mân wahaniaethau. Roedd yna eithriadau wrth gwrs. Er enghraifft, er bod gan y de-orllewin fwy o ffermydd llaeth mawr, o ran allbwn, mae Tabl 5.6 yn dangos bod ffermydd yn ardaloedd y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru yn dueddol o fod yn sylweddol fwy, o ran arwynebedd, na'r rhai yn y de-orllewin.

Fe gofiwch, o Adran 3, rai o bwyntiau allweddol dadansoddiad incwm Llywodraeth Cymru:

- O ran yr holl fathau “mwy” o ffermydd (o ran allbwn) mae mwyafrif o'u ffermydd ar hyn o bryd yn cael mwy na €250 fesul hectar. Felly o dan system cyfradd unffurf gyda thaliad o ychydig o dan €250 fesul hectar byddai'r ffermydd hyn yn cael taliad cymhorthdal llai.
- Byddai ffermydd llaeth ar y cyfan yn cael llawer llai o gyllid o dan daliad cyfradd unffurf na'u hawliad hanesyddol.
- Y ffermydd llaeth mwy sydd â'r gyfran fwyaf o ffermydd sy'n derbyn dros €250 fesul hectar (ychydig dros 80 y cant). Mae bron 70 y cant o’r ffermydd mwy yn cael mwy na €300 fesul hectar. Hynny yw, o dan y system cyfradd unffurf, byddent yn colli o leiaf €50 fesul hectar.
- Ar y llaw arall, byddai ychydig o dan hanner y ffermydd defaid bach yn ennill o leiaf €50 fesul hectar o dan y cynllun cyfradd unffurf. Yr enillwyr cymharol mwyaf fyddai'r ffermydd bach iawn lle mae bron 60 y cant o'r ffermwyr ar hyn o bryd yn cael o dan €200 fesul hectar.
- Mae llawer iawn o amrywiad o ran y tueddiadau. Mae ffermydd llaeth a fyddai ar eu hennill o dan y newidiadau a ffermydd llai a fyddai ar eu colled.
- Mewn arian parod, byddai nifer mawr o ffermydd bach yn ennill symiau bach o arian, a fyddai'n cael eu talu gan nifer bach o ffermydd mwy a fyddai'n colli symiau mwy o arian.

Un o oblygiadau'r pwyntiau allweddol hyn yw, o dan daliadau'n seiliedig ar ardal, nid yn unig byddai ffermydd llaeth o bosibl yn cael taliadau PAC is, ond byddai ffermydd ag arwynebedd mwy o bosibl yn cael taliadau PAC uwch. Felly, byddai unrhyw symudiad tuag at daliadau seiliedig ar ardal, fel y rhagwelwyd ar gyfer y diwygiadau PAC, yn dueddol o ffafrio'r ffermydd helaethach, o ran arwynebedd, yn y gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru. Mae'r dadansoddiad hwn yn ategu'n fras y

rhagdybiaethau y byddai (i) ffermydd llaeth yn cael llai o daliadau'r PAC a (ii) ffermydd y bryniau'n cael mwy o daliadau'r PAC.

I ryw raddau, ymddengys fod ffermwyr yn ardal y gogledd-orllewin yn ymwybodol o'u henillion posibl, oherwydd hwy oedd y lleiaf pesimistaidd o'r tair ardal: yn ardal y de-orllewin roedd 64 y cant yn disgwyl gostyngiad mewn taliadau; yng nghanolbarth Cymru roedd y ffigur yn 69 y cant; ond yn y gogledd-orllewin roedd 55 y cant ‘cymharol’ isel yn disgwyl gostyngiadau yn nhaliadau'r PAC. Roedd y gogledd-orllewin hefyd yn arwain mewn categorïau eraill.

Er enghraifft, roedd gan y gogledd-orllewin y gyfran uchaf o ffermydd â mentrau arallgyfeirio ar 51 y cant (y de-orllewin ar 44 y cant a chanolbarth Cymru ar 49 y cant) ac roedd gan yr ardal y gyfran fwyaf a oedd yn ystyried arallgyfeirio. Ond roedd ffermwyr yn y gogledd-orllewin yn fwy tebygol o weld rhwystrau i arallgyfeirio pellach (62 y cant yn y gogledd-orllewin, 52% yn y de-orllewin a 55% yng nghanolbarth Cymru). Yn amlwg, roedd arallgyfeirio yn fater o bwys yn y gogledd-orllewin.

Yn ogystal, roedd gan y gogledd-orllewin y gyfran fwyaf o aelwydydd ag incwm oddi ar y fferm: y gogledd-orllewin ar 43 per cent; canolbarth Cymru ar 40 per cent; a'r de-orllewin ar 37%. Gellir dadlau bod perfformiad cymharol fach ardal y de-orllewin o ran arallgyfeirio ac incwm oddi ar y fferm i'w briodoli i ddibyniaeth y ffermydd llaeth mwy yn yr ardal ar gynhyrchu amaethyddol a'r taliad sengl. Er bod y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn amlygu ymwybyddiaeth busnes ffermydd llaeth yn gyffredinol, dylid ystyried eu natur agored i niwed bosibl i'r amgylchedd amaethyddol newidiol.

Yn olaf, un agwedd bwysig ar or-samplu'r tair ardal oedd darparu ardaloedd arwahanol i gynnal y cyfweliadau dilynol â ffermwyr a'u cyflenwyr i lywio camau hwyrach y prosiect ymchwil. Bydd amserlenni'r cyfweliadau rhannol strwythuredig hyn yn seiliedig ar ddadansoddiadau'r arolwg. Bydd elfennau allweddol yn cynnwys pwysigrwydd yr aelwyd ffermio; incwm oddi ar y fferm; prynu nwyddau a gwasanaethau lleol; a pha gymhellion a fyddai'n ofynnol i ffermwyr wneud mwy o waith arallgyfeirio, bod yn fwy amlbwrpas ac yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd.

# ADRAN 6 CASGLIADAU A GOBLYGIADAU POLISI

Amcanion yr Adroddiad fu darparu tystiolaeth systematig a chynrychioladol o'r ffordd y gallai ffermwyr ymateb i'r newidiadau i incymau fferm a fyddai'n deillio o'r newidiadau posibl i'r PAC ar ôl 2013; ac asesu'r hyn y gallai'r newidiadau a'r ymatebion hyn eu golygu i bolisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru, yn benodol o ran cyfeiriad tebygol Colofn 1 a 2 yn y dyfodol.

Nid oes angen ailadrodd y prif ganlyniadau, ond yn hytrach byddwn yn amlygu rhai o'r goblygiadau polisi.

(i) Un o'r prif gasgliadau yw nad yw gwybodaeth am ddiwygio'r PAC, arferion sy'n gysylltiedig ag ef, a chanfyddiadau a senarios y dyfodol o newid wedi'u halinio o gwbl. Er enghraifft, nid oedd 40 y cant o ffermwyr yn ymwybodol o ddiwygiadau'r PAC a thyfodd y gyfran hon i 60 y cant wrth i faint y ffermydd leihau. Felly, roedd diffyg ymwybyddiaeth a chynllunio ar gyfer y newidiadau. Roedd y ffynonellau gwybodaeth yn rhanedig, i'r graddau bod negeseuon yn gwrthdaro ac y gallai'r polisi greu anghysondeb. Dim ond 14 y cant a ddeallodd wybodaeth Llywodraeth Cymru, sy'n is o lawer na'r 21 y cant a wrandawodd ar undebau'r ffermwyr. Dibynnwyd yn helaeth ar gyfryngau'r ffermwyr, ynghyd â chyngor gan ffermwyr eraill. Roedd bwlch amlwg o ran gwybodaeth am newidiadau posibl i'r PAC a'r manteision a'r heriau a allai godi yn sgil y newidiadau hynny. Nid oedd gan nifer o'r ffermwyr sydd fwyaf agored i niwed y wybodaeth sylfaenol, a arweiniodd at broblemau wrth gynllunio busnes yn effeithiol. Mae'n bosibl bod cryfder y farchnad yn ddiweddar o ran eidion a defaid yn cynnig cysur i nifer o ffermwyr.

(ii) Roedd pesimistiaeth hefyd ynghylch y newidiadau arfaethedig, gyda 60 y cant yn disgwyl gostyngiad yn nhaliadau'r PAC, yn gogwyddo tuag at y ffermydd mwy o faint, yn enwedig ffermydd godro. Roedd cyfrannau mwy o ffermwyr bach a ffermwyr bryniau yn disgwyl i incwm cymorth PAC aros yr un fath yn fras. Mae cryn anghysondeb yn ymddangos gyda'r disgwyliadau am ddiwygio'r PAC, gyda dim ond 10 y cant yn disgwyl cynnydd yn nhaliadau'r PAC, a'r sector nad yw'n ymwneud â godro yn benodol yn ansicr am gymorth yn y dyfodol.

(iii) Mae cadernid ffermio teuluol a gwytnwch cymdeithasol yn wyneb newidiadau i'r PAC a dulliau'r farchnad yn ffactor allweddol i gynaliadwyedd poblogaeth ffermio Cymru, yn enwedig o ystyried y patrwm o ran nifer y teuluoedd sy'n berchen ar ffermydd. Er bod ffermydd daliadaeth gymysg

yn datblygu yn y catgoriau ffermio mwy o faint, gyda 19 y cant yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ffermydd yn dal i gael eu rhedeg gan deuluoedd, a dim ond wyth y cant oedd yn cael eu rhentu. Y darlun cyffredinol yw bod o leiaf un neu ddau o aelodau teulu ffermio yn rhedeg fferm ac yn ddibynnol ar incwm ffermio. Lle'r oedd dwy aelwyd neu fwy (21 y cant) o fusnesau ffermio yn rhedeg y busnes, roedd mwy o gyfle i greu ffurfiau ychwanegol o incwm oddi ar y fferm, ac arallgyfeirio. Roedd gan bron i 40 y cant o'r ffermydd aelodau o'r teulu a oedd yn gwneud 'swyddi oddi ar y fferm', sy'n cael effaith bwysig ar yr economi leol a rhanbarthol, ar aelwyd y fferm a'i gwytnwch perthynol. Mae arwyddocâd cyflogaeth oddi ar y fferm yn benodol o bwysig i ddyfodol y ffermydd llai o faint, lle y gall roi hwb sylweddol i incwm y fferm. Er enghraifft, roedd aelodau iau a benywaidd y teulu yn cyfrannu at incwm cyffredinol y teulu mewn mwy na hanner y busnesau hynny yn y categorïau incwm uchaf (dros £31,000 y flwyddyn).

(iv) Felly, creeir darlun lle y ceir (ii) ffermydd sy'n creu cynnyrch (yn enwedig ffermydd godro, a ffermydd eidion a defaid mawr), sydd oll yn cydweddu â diwygiadau'r PAC ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio busnes synhwyrol ar gyfer y dyfodol: (i) grŵp amlbwrpas sylweddol (hyd at 40 y cant) sy'n amrywio o ran maint, ond sy'n sicrhau gwytnwch drwy gyfuniadau o greu cynnyrch amaethyddol a marchnata, creu incwm oddi ar y fferm, a strategaethau arallgyfeirio; a (ii) fel y nodwyd yn yr arolwg blaenorol (AWC, 2010), grŵp sy'n agored iawn i niwed, sef teuluoedd ffermio bach sy'n meddu ar wybodaeth brin a heb ffordd o addasu i'r farchnad na newidiadau'r PAC, ac nad ydynt yn cynllunio unrhyw fath o olyniaeth deuluol. Mae'r dadansoddiad incwm yn Adran 3 o'r adroddiad hwn yn awgrymu, os yw'r ffermydd hyn yn ffermydd godro, maent yn debygol o fod ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed.

(v) Dim ond 46 y cant o'r ffermydd bach a oedd yn cynllunio olyniaeth o gymharu ag 80 y cant o'r ffermydd mawr iawn. Yr hyn a welir yma yw'r cyfuniad gwahaniaethol o ddulliau atgynhyrchu cymdeithasol ac economaidd, lle mae teuluoedd ffermio'n dangos lefelau gwahanol iawn o gadernid a'r gallu i addasu yn ôl y lefelau amrywiol o ymrwymiad teuluol i gynhyrchu cynnyrch amaethyddol a/neu amlswyddogaetholdeb. Mae absenoldeb un neu fwy o'r strategaethau hyn yn golygu bod y teulu a'i fusnes yn fwy agored i niwed.

(vi) Gwelwyd hyn yn ymateb y ffermwyr i senarios ar gyfer newidiadau i daliadau'r CAP. Roedd ffermydd amlswyddogaethol (gydag incwm oddi ar y fferm,

arallgyfeirio), neu'r ffermydd mwy cynyrchiaethol, lawer yn llai tebygol o ystyried y 'status quo' fel opsiwn. Yn gyffredinol, er bod 34 y cant o'r holl ffermydd o'r farn bod hyn yn strategaeth pe bai'r taliadau'n gostwng 20 y cant, roedd hyn yn cynyddu i 65 y cant lle nad oedd gan y ffermydd incwm oddi ar y fferm. Roedd y ffermydd ymaddasol hyn hefyd yn fwy tebygol o brynu cyflenwadau fferm yn lleol, newid y math o ffermio, arallgyfeirio gweithgareddau a chadw eu tir.

(vii) Er bod y lefelau cyfredol o fabwysiadu mentrau eraill (e.e. garddwriaeth, anifeiliaid eraill, cnydau ynni / bio-ynni, neu gnydau organig) yn isel (llai na 10 y cant yn yr holl gategorïau), o ystyried y strategaethau a nodwyd uchod, gallai polisïau PAC diwygiedig annog mwy o ffermydd i ymgymryd â'r gweithgareddau amlswyddogaethol hyn. Ceir potensial polisi sylweddol (drwy Golofn 1 a Cholofn 2 yn benodol) i annog mwy o gapasiti ffermio yn y mentrau eraill hyn, o ystyried nifer y ffermydd sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Gallai hyn dargedu ffermydd bach a mawr, a ffermydd o wahanol fathau. Mae angen rhannu mwy o wybodaeth, yn ogystal â gwasanaethau estyn yn hyn o beth. Roedd hyd at 10 y cant yn ystyried yr opsiynau hyn; ond mae angen mwy o wybodaeth a chymhellion arnynt. Gallai'r cymhellion a'r strwythurau cymorth hyn ar gyfer mwy o ddargyfeirio ac ychwanegu gwerth gael eu halinio i'r polisiau gofodol. Er enghraifft, gellid dewis ardaloedd uwchdir a grwpiau o ffermwyr i annog datblygiadau gwledig amrywiol, cyrchu a phrosesu lleol a darparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Byddai angen i'r polisiau annog mwy o gydweithredu rhwng ffermwyr â'i gilydd, a rhwng ffermwyr a phroseswyr a manwerthwyr.

(viii) Ar hyn o bryd dylai trafodaethau am ddiwygio'r polisi PAC ystyried symud oddi wrth y 'nenfwd gwydr' o ran y gweithgareddau arallgyfeirio a gwyrddio cyfredol. Hyd at 2012, ac ers diwygiadau sylweddol 2002 mae'n debyg, bu'r profiad yn creu effaith wastad o llai na 10 y cant o'r holl ffermwyr. Mae'r dystiolaeth yma'n dangos y gellid dyblu hyn o leiaf gyda chyfuniad o fentrau wedi'u targedu a phennu amodau ar daliadau PAC uniongyrchol. Os yw'r ffermwyr bryniau a defaid ac eidion yn debygol o barhau i dderbyn taliadau PAC dichonadwy, os na mwy, o dan y cynllun Colofn 1 arfaethedig sy'n seiliedig ar ardal, ceir seiliau cadarn ar gyfer gwneud hyn yn amodol ar (i) mabwysiadau mentrau eraill a gweithgareddau wedi'u harallgyfeirio; a (ii) cyrchu a gwerthu'n fwy lleol a rhanbarthol. Er bod gweithgareddau traddodiadol wedi'u harallgyfeirio fel llety ar y fferm a darparu gwasanaethau amaethyddol (y ddau yn uwch na 10 y cant) wedi cyrraedd man

gwastad, ceir cyfleoedd ar gyfer tyfiant ym maes ynni, mentrau organig a garddwriaethol, a allai ganiatáu i ffermio gyfrannu at nodau economi gwledig a chynaliadwyedd ehangach. Gallai polisi cynllunio gynorthwyo gyda chynyddu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gweithgareddau o'r fath; roedd 20 y cant o'r holl ffermwyr o'r farn bod y cyfle i ddefnyddio tir yn wahanol yn rhywbeth sy'n bwysig i'r dyfodol. Felly mae angen codi'r nenfwd gwydr, neu'r 'nenfwd gwyrdd' ar eco-economi amaethyddol, o leiaf gan 10 y cant arall dros gyfnod y PAC nesaf; gyda holl wariant y PAC yn amodol ar sbardunau o'r fath.

(ix) Mae ffermwyr llai a rhai sy'n cael incwm oddi ar y fferm yn prynu'n fwy lleol; felly os cânt fwy o arian PAC mae hyn yn fwy tebygol o fod o fantais i'r ardal leol. Er hyn, mae'n amlwg nad yw'n cymryd yr union symiau i ystyriaeth. Fel y gwyddom mae Godro yn llai lleol, ond yn y sector da byw, mae marchnadoedd da byw a lladd-dai yn parhau i fod yn elfennau pwysig iawn yn y gymuned ffermio a phrosesu bwyd leol. Gellid datblygu'r seilwaith hwn a'u hysgogi gan gyllid Colofn 2. Dylid cynyddu effeithiau lleol a rhanbarthol taliadau diwygiedig y PAC a'u gwneud hynny'n amodol ar dderbyn cyllid. Mae prosesu bwyd wedi crebachu braidd yng Nghymru; ond mewn rhai ardaloedd mae'n adfywio. Mae angen cymhellion newydd i annog busnesau gwledig lleol a threfi marchnad ddatblygu yng Nghymru mewn perthynas â phrosesu bwyd ac ychwanegu gwerth (gweler Tabl 4.58).

(x) Roedd ffermwyr yn amheus ynglŷn â mecanweithiau gwyrddu presennol y PAC, ac mae hyn yn rhesymol ac nid yw'n syndod o ystyried y pwyslais newydd (ar ôl 2008) yn y cyfryngau amaethyddol ar yr angen i gynhyrchu mwy o fwyd. Mae ffermwyr yn ceisio dealltwriaeth fwy soffistigedig ar ran y llunwyr polisi ar yr hafaliad newydd rhwng mecanweithiau gwyrddu a'r gynhyrchiaeth newydd. Mae angen addysg a gwaith estyn gofalus.

(xi) Ymddengys bod llawer o ffermwyr, yn enwedig y rhai yn y trydydd categori 'agored i niwed' uchod, yn dioddef o ryw fath o 'ymwybyddiaeth anghywir' mewn perthynas â newidiadau'r PAC. Er enghraifft, roedd 47 y cant o'r arolwg yn rhagweld dim newid dros y pum mlynedd nesaf ac rydym eisoes wedi gweld llawer yn credu y byddant yn parhau â 'busnes fel arfer'; ond disgwyliai 13 y cant y byddent wedi gadael ffermio yn y ddegawd nesaf; a nifer cymharol brin o ffermwyr oedd â'r cymhelliant i dorri trwy'r 'nenfwd gwydr' ac arallgyfeirio. Gellir esbonio hyn yn rhannol gan yr amodau marchnad cymharol dda yn ddiweddar mewn eidion a defaid. Dylai cymorth polisi ar gyfer datblygu sgiliau entrepreneuraidd mewn cynllunio busnes, meithrin

rhwydwaith a defnyddio Band eang fod ar gael yn haws ac yn amodol ar dderbyn taliadau'r PAC. Efallai bod dadl dda iawn dros frigdorri cyllid PAC (a chyllid datblygu rhanbarthol) i greu'r seilweithiau gwybodaeth hyn ledled Cymru.

(xii) Mae'r data yn awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddeall y berthynas rhwng strwythurau teuluol a strategaethau ffermydd wrth ystyried cynaliadwyedd, gwytnwch a'r gallu i addasu yn y byd ffermio yng Nghymru. Mae angen dadansoddiad pellach o nodweddion y tair strategaeth a nodwyd uchod, gan fod y rhain yn ymddangos fel senarios realistig ar ben y cwestiynau ynglŷn â lleoliad y fferm. Yn gryno, y cyfuniad o ddeiliadaeth teuluoedd a nodweddion yr aelwyd ynghyd â galluoedd sgiliau cymharol a graddfa dibyniaeth amaethyddol sy'n tueddu i greu ymateb amrywiol i newidiadau'r PAC a newidiadau yn y farchnad. Os yw cynnal ffermio teuluol bywiog yn rhan arwyddocaol o bolisi amaethyddol a gwledig Cymru, bydd angen ail-sgilio ac adfywio'r 20-30 y cant o ffermydd llai a rhai sydd fwyaf agored i niwed sy'n debygol o adael y tir os caiff taliadau'r PAC eu gostwng 20 y cant neu fwy. Mae'r ffermwyr hyn yn fwy agored i niwed oherwydd diffyg mathau eraill o incwm a'r gallu cymdeithasol i gyflawni hyn. Gallai'r adfywiad hwn tuag at amlymarferoldeb greu manteision arwyddocaol i'r economi lleol.

Mae'r dadansoddiad hydredol yn Adran 4.8 yn atgyfnerthu'r casgliadau hyn, gan ein bod yn gweld arwyddocâd setiau sgiliau teuluoedd fferm (er enghraifft, lefelau o entrepreneuriaeth, amlymarferoldeb) a mathau o strategaethau teulu fferm fel ffactorau pwysig wrth lunio graddfa gwytnwch a hyblygrwydd ffermydd yn wyneb newidiadau arfaethedig y PAC. Roedd y ffermwyr hynny a oedd yn arddangos lefelau uwch o'r ffactorau hyn yn llai tebygol o fabwysiadu 'strategaeth busnes fel arfer', ac felly'n llai agored i effeithiau newid y PAC. Felly, dylem gydnabod, tra bo newidion sefydlog megis math a maint fferm yn darparu paramedrau marchnad a pholisi llydan i bennu lefelau hyblygrwydd, mae nodweddion mwy deinamig strategaethau fferm a theulu yn nodwedd allweddol o gynaliadwyedd a graddfa'r effaith leol y gallwn ei disgwyl. Bydd angen i ni ddysgu mwy am strategaethau'r teuluoedd fferm hyn yn yr arolygon dwys lleol, ac, yn wir, sut mae'r rhain yn effeithio ar allu ffermwyr i brynu a gwario yn lleol.

Roedd y dadansoddiad gofodol o'r tair ardal a ddetholwyd yn Adran Pump yn tueddu i gefnogi'r dadansoddiad incwm cynharach, gydag o leiaf ychydig o amrywiad i elw a cholled incwm tebygol rhwng ffermydd godro a daliadau eidion a defaid. Mae'r dadansoddiad hwn yn fwyaf gwerthfawr wrth roi cyd-destun ar gyfer yr arolygon manylach ar effeithiau lleol newidiadau refeniw'r PAC. O ystyried bod ffermydd eidion a defaid mawrion yn enillwyr posibl oherwydd y newidiadau i'r PAC, byddai'n awgrymu y dylai pwyslais cryfach ar fwy o arallgyfeirio a lluosyddion lleol fod yn flaenoriaeth mewn ardaloedd megis y Gogledd-orllewin. Yma, roedd 51 y cant o ffermydd wedi arallgyfeirio eisoes a gallai hyn ddangos potensial i gael mwy o dwf, er bod llawer o ffermwyr yn gweld rhwystrau i'r strategaeth hon. Yn y De-orllewin, gallwn

ddechrau gweld senario wahanol, gyda mwy o berygl yn gysylltiedig â llai o daliadau PAC ar ffermydd godro, llai o arallgyfeirio ac enillion aml-incwm. Yn y rhanbarthau hyn, ymddengys y byddai pwyslais ar sut i newid strategaeth y ffermwyr godro llai yn briodol, o ystyried mai hwy sy'n debygol o fod yn fwy agored i niwed o ran incwm. Y ffermwyr hyn hefyd oedd y rhai a oedd wedi'u clymu at gyfleusterau prosesu llaeth a lladd-dai lleol (gweler Tabl 5.25), sy'n golygu os ydynt hwy mewn perygl, yna mae'r cyfleusterau prosesu lleol hyn mewn perygl hefyd. Mae hyn yn dechrau awgrymu y gellid cael effeithiau arwyddocaol lleol a rhanbarthol ymhellach i lawr ac ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi yn deillio o newidiadau'r PAC, gyda dadfuddsoddiad cyffredinol yn yr ardaloedd godro megis y De-orllewin, ac o leiaf cynnal y cyfleusterau lleol yn y Gogledd-orllewin ac yng Nghanolbarth Cymru. Hefyd, mae dibyniaeth ar farchnadoedd da byw yn y Gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru yn drawiadol; gallwn weld trydedd lefel o achosiad amrywiaeth mewn newidiadau PAC, ar ôl (i) maint fferm, math ac incwm; a (ii) strategaeth fferm a theulu a setiau sgiliau. Yn drydydd, (iii) daw rhywfaint o berygl a chyfle gofodol gwahaniaethol, sydd wedi ei glymu â'r lefelau a'r mathau gwahanol o osodiad lleol a rhanbarthol y mae grwpiau o ffermydd yn ei arddangos yn eu hardaloedd lleol. Mae hyn yn gysylltiedig â'u lefelau prynu a marchnata, ac yn dod yn bwysicach fyth wrth i economi arallgyfeirio ac eco-economi rhanbarthau gwledig fagu momentwm (cyfuniadau o ddarpariaethau bwyd, ffibr, ynni a mwynderau - gweler Kitchen a Marsden, 2009). Mae'n atgyfnerthu'r pwyntiau a wnaed yn gynharach, y dylai unrhyw newidiadau yn nosbarthiad cymorthdaliadau PAC hefyd ymgorffori pob un o'r tair lefel o amrywiad yma. Felly mae pwyslais ar setiau sgiliau a phrynu a gwerthu (cydweithredol) lleol a rhanbarthol yn dod yn feysydd pwysig ar gyfer arloesedd polisi.

Yn gyffredinol, gwelwn o'r dadansoddiad gofodol bod set o ffactorau generig yn effeithio ar ymatebion ffermwyr, yn gysylltiedig â'u strategaethau ffermio, cylch a sefyllfa'r teulu, ac yn eu gallu i gynhyrchu incwm oddi ar y fferm. Mae yna batrymau cyffredinol yn amlwg i hyblygrwydd, perygl, gwytnwch ac amlymarferoldeb. Fodd bynnag, bydd newidiadau dosbarthiadol mewn refeniw PAC yn cael effaith ar y patrymau a'r strategaethau cyffredinol hyn, ac ar ansawdd a gwerth marchnadoedd a chadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Fel y mae Tabl 5.24 a Thabl 5.25 yn awgrymu, mae ffermwyr Cymru yn fasnachwyr pwysig mewn nwyddau a gwasanaethau ar lefel leol a rhanbarthol, waeth beth fo'r rhanbarth neu'r math o fferm. Fodd bynnag, mae gan y newidiadau i refeniw'r PAC y gallu i dorri neu gryfhau'r cysylltiadau marchnad 'amnyth' hyn, gyda chyfartaledd o 81 y cant o fewnbynnau a gwasanaethau yn cael eu prynu'n lleol.

**ATODIAD UN DEUNYDD CYFEIRIO**


Arolwg Busnes Fferm (2010-11) Prifysgol Aberystwyth Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)

Bruges, M. a Smith, W. (2007) Participatory approaches for sustainable agriculture: A contradiction in terms? Agriculture and Human Values 25: 13-23.

Burton, R. a Wilson, G. (2006) Injecting social psychology theory into conceptualisations of agricultural agency: Towards a post-productivist farmer identity? Journal of Rural Studies 22: 95-115.

Burton, R., Kuczera, C. a Schwarz, G. (2008) Exploring Farmers' Cultural Resistance to Voluntary AES. Sociologia Ruralis 48 (1) 16-37.

de Wolf, P a Schoorlemmer, H (2007) (gol.) *Exploring the Significance of Entrepreneurship in Agriculture*. (Frick, Switzerland: Research Institute of Organic Agriculture)

Gasson, R., Crow, G., Errington, A., Hutson, J., Marsden, T. a Winter, D.M. (1988) The farm as a family business: a review. Journal of Agricultural Economics 39 (1) 1-41.

Kanemasu, Y., Sonnino, R., Marsden, T a Schneider, S (2007) *Testing the web: A comparative analysis of the results achieved through the quick scan*. Adroddiad o brosiect ETUDE (Enlarging Theoretical Understanding of Rural Development). (Caerdydd: Prifysgol Caerdydd)

Kitchen, L. a Marsden, T. (2009) Creating more Sustainable Rural Development through stimulating the Eco-Economy: Beyond the Eco-economic paradox? Sociologia Ruralis 49 (3): 273-294.

Kitchen, L. a Marsden, T. (2011) Constructing sustainable communities: a theoretical exploration of the bio-economy and eco-economy paradigms. Local Environment Cyfrol 16 (8): 753-769

Marsden, T. a Parrott, N. (2006) Reconnecting Farming and the Countryside? RD in the UK. Yn D. O'Connor, H. Renting, M. Gorman a J. Kinsella (gol.), *Driving Rural Development: Policy and Practice in Seven Countries* (Assen: Van Gorcum), tt.201-231.

Marsden, T. K. gol. (2008) Sustainable Communities: New Spaces for Planning, Participation and Engagement. (Rhydychen: Elsevier)

*Marsden, T.K. a Smith, E. (2005)* Ecological Entrepreneurship: Sustainable Development in Local Communities Through Quality Food Production and Local Branding. Geoforum, 36: 440-445.

Marsden. T.K (2010) Mobilizing the regional eco-economy: evolving webs of agri-food and rural development in the UK. Cambridge Journal of Regions, Economy and Society 3(2): 225-244.
Marsden. T.K a Sonnino, R. (2008) Rural development and the regional state: denying multi-functional agriculture in the UK. *Journal of Rural Studies,* 24: 422-431.

Milbourne, P. (2011) (gol.) Cymru Wledig yn y 21ain Ganrif: Y Gymdeithas, yr Economi a'r Amgylchedd (Gwasg Prifysgol Caerdydd).

Morgan, K., Murdoch, J a Marsden, T, (2006) *Worlds of Food: Place, Power and Provenance in the Food Chain.* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen)

Morgan, S, Marsden, T, Miele, M, Morley, A. (2009) Agricultural multifunctionalty and farmers' entrepreneurial skills: a study of Tuscan and Welsh farmers. Journal of Rural

Van der Ploeg, J. a Marsden, T. 2008. *Unfolding Webs: The Dynamics of Regional Rural Development*. (Assen: Yr Iseldiroedd: Van Gorcum).

Van der Ploeg, J. D., Long, A a Banks, J., gol. (2002) Living Countrysides: Rural Development Processes in Europe: The State of the Art. (Yr Iseldiroedd: Elsevier)

Van der Ploeg, J., Broekhuizen, R., Brunori, G., Sonnino, R., Knickel, K-H., Tisenkopfs, T ac Oostindie, H. (2008) Towards a new theoretical framework for understanding regional rural development. Working paper, Enlarging Theoretical Understanding of Rural Development (ETUDE) project.

Arsyllfa Wledig Cymru (2010) Arolwg o Aelwydydd Fferm yng Nghymru

Wilson, G.A. (2007) From 'weak' to 'strong' multifunctionality: Conceptualising farm-level multifunctional transitional pathways. JRS 24: 367-383.

Wilson, G.A (2007) Multi-Functional Agriculture: A Transitional Perspective. (CAB International).

**ATODIAD DAU**

**(INSERT QUESTIONNAIRE)**

**ATODIAD TRI AILGYFRIFIADAU AR GYFER ADRAN 3**

Mae’r ailgyfrifiadau o Dabl 3.8 a Thabl 3.12 fel a ganlyn:

**‘Rhagolwg a gyfrifwyd.**
Gan gymryd ‘ffermydd mawr’ fel enghraifft:

- Mae ‘Godro mwy’, ’gwartheg ac eidion mwy’, ac ‘eraill mawr’ yn Nhabl 3.8 wedi’u cyfuno i ‘ffermydd mawr’ yn Nhabl 3.13
- Yn Nhabl 3.8, ar gyfer pob math o fferm ‘mwy’ mae nifer y ffermydd ym mhob categori o ‘colled/o fewn 10%/ennill wedi’i gyfrif drwy gymhwyso’r canran a gofnodwyd i’r cyfanswm yn y categori fferm ‘mwy’ hwnnw
- Caiff y ddau gyfrifiad ‘colled’ eu hadio at ei gilydd; yn yr un modd y ddau gyfrifiad ‘ennill’ (mae’r cyfrifiad ‘o fewn 10% yn unigol). Dyma’r rhifiaduron ar gyfer y colofnau ‘gostwng’, ‘aros yr un peth’ a ‘cynyddu’ yn Nhabl 3.13
- Ar gyfer yr enwadur, yn Nhabl 3.8 mae’r cyfrifiadau ar gyfer ‘godro mwy’, gwartheg ac eidion mwy’ ac ‘eraill mawr’ wedi’u cyfuno i gategori ‘ffermydd mawr’
- Yn Nhabl 3.13 mae’r canrannau ar gyfer ‘gostwng’, ‘aros yr un peth’ a ‘cynyddu’ ar gyfer ‘ffermydd mawr’ wedi’u cyfrifo.

Defnyddir yr un broses ar gyfer ‘defaid bach’ ac ‘eraill bach’ yn Nhabl 3.8 i ailgyfrif canlyniadau’r ‘rhagolwg a gyfrifwyd’ ar gyfer ‘ffermydd bach’ yn Nhabl 3.13.

Mae ‘bach iawn’ yn unigol a gellir ei ddarllen yn uniongyrchol o Dabl 3.8 i Dabl 3.13.

**‘Arolwg’**
Mae’r ffermydd ‘mawr iawn’, ‘mawr’ a ‘canolig’ yn Nhabl 3.12 wedi’u cyfuno i’r ‘ffermydd mawr’ yn Nhabl 3.13 gan ddefnyddio’r broses fathemategol a ddisgrifiwyd uchod.

Gellir darllen ‘bach’ a ‘bach iawn’ yn uniongyrchol o Dabl 3.12 i Dabl 3.13.

## ATODIAD PEDWAR AR GYFER ADRAN 5

**Dosbarthiad allbynnau amaethyddol fesul hectar, 2010**

**[insert maps]**